

Bangor University

DOETHUR MEWN ATHRONIAETH

Yr iaith Gymraeg a Mudiad Ysgolion Meithrin

Gareth, Elen Loyd

Award date:
2003

Awarding institution:
Prifysgol Bangor

[Link to publication](#)

General rights

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

Take down policy

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 02. May. 2024

PENNOD 7

CANLYNIADAU YMCHWILIAD 3 A CHYM HARU CANLYNIADAU YMCHWILIADAU 2 A 3

7.1 Bwriadau

Bwriad y bennod hon yw cyflwyno canlyniadau Ymchwiliad 3 a chymharu canlyniadau Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3. Yn gyntaf, cyflwynir amledau'r canlyniadau ar ffurf canrannau dilys. Yn ail, edrychir ar gydberthyniadau gyda'r bwriad o weld pa ffactorau sy'n cael dylanwad ar y canlyniadau. Yn drydydd, dadansoddir y gwahaniaethau rhwng y gwahanol grwpiau drwy ddadansoddiad ffactoraidd. Bwriad ail ran y bennod yw edrych ar ba ffactorau sy'n dylanwadu ar ddatblygiad iaith y plant. Gwneir hyn drwy wneud dadansoddiadau ystadegol ar sgoriau gweddilleb sy'n dangos maint y datblygiad ieithyddol.

7.2 Cyflwyniad

Yn rhan gyntaf y bennod hon cyflwynir canlyniadau'r trydydd ymchwiliad, sef yr ail ymchwiliad cenedlaethol. Gwnaed yr ymchwiliad hwn ym mis Gorffennaf 2001.

Darparwyd copïau o'r Ffurflen Datblygiad Iaith (Atodiad 12) ar gyfer pob plentyn a gymerodd ran yn Ymchwiliad 2. Felly anfonwyd 1926 o ffurflenni i 132 cylch meithrin, cwblhawyd enw'r cylch, enw a dyddiad geni'r plentyn ar bob ffurflen er mwyn ein galluogi i gyfateb ffurflenni Gorffennaf 2001 â rhai Hydref 2000. Disgwyliwyd y byddai canran o'r plant wedi gadael y cylchoedd oherwydd eu bod wedi dechrau mewn ysgol gynradd, wedi symud o'r ardal neu am resymau eraill. Dychwelwyd 1259 ffurflen wedi eu cwblhau o 102 cylch.

Dadansoddir canlyniadau'r plant a rhoddir amlinelliad o'r data. Rhoddir y canlyniadau ar ffurf amlerau yn gyntaf ac yna cymherir y canlyniadau ar sail rhyw, oedran, dyddiad dechrau, nifer y sesiynau a fynychir ac iaith y teulu. Yna dadansoddir



Dilysrwydd dyfais yw a yw'r prawf yn ffitio i mewn i theori, er enghraifft o ddatblygiad iaith. Mae hwn yn anos yn yr ymchwil hwn gan nad oes un theori clir y mae'r ymchwil yn ffitio i mewn iddo.

Dilysrwydd rhagfynegol yw a yw'r sgoriau prawf yn eithaf manwl wrth ragfynegi er enghraifft sgiliau ieithyddol yn y dyfodol a llwyddiant yn y Gymraeg yn yr ysgol. O ystyried natur hirdymor dilysrwydd rhagfynegol mae y tu allan i sgôp maes yr ymchwil hwn. Fodd bynnag yn Ymchwiliad 3, dadansoddir y berthynas rhwng sgoriau prawf dros gyfnod o naw mis.

Mesurir dibynadwyedd mewnol gan fesur Alpha Cronbach.

...essentially it is a measure of the degree of consistency within a test
(Youngman, 1979, 180)

Gwelir o'r tabl isod bod sgôr alpha uchel ar gyfer y tair adran ac felly'n dangos bod yr adrannau yn gyson yn mesur yr un nodwedd. Gwelir hefyd bod mesur alpha uchel ar gyfer y raddfa yn ei chyfanrwydd gan ddangos bod y Ffurflen Datblygiad Iaith yn gyson. Derbynnir yn gyffredinol bod sgôr alpha o dros 0.70 yn uchel (Youngman, 1979, 45).

Tabl 7.1 Sgoriau Alpha Ymchwiliadau 1, 2 a 3

Adran	Alpha Y1	Alpha Y2	Alpha Y3
Gwrandao a Deall	0.9531	0.9461	0.9413
Siarad a Chyfathrebu	0.9772	0.9643	0.9592
Sgiliau Llythrennedd Cynnar	0.8957	0.9233	0.9328
Y raddfa gyfan	0.9743	0.9739	0.9725

Gall dilysrwydd graddfa amrywio gan ddibynnu ar y sampl a ddefnyddir, felly gwiriwyd dilysrwydd y raddfa eto ar gyfer sampl Ymchwiliad 3.

Math arall o ddilysrwydd yw dilysrwydd ffactoraidd. Yn yr achos hwn tra mae datblygiad iaith cyffredinol yn cael ei brofi mae tair graddfa. Y cwestiwn i'w ofyn yw a yw'r tair graddfa yn un raddfa cyflawn ynteu a oes tair is raddfa annibynnol. Er mwyn ateb y cwestiwn hwn gwnaed dadansoddiad ffactoraidd.

Awgrymodd dadansoddiad o'r plot *scree* (Atodiad 24) ac archwiliad o wahanol ganlyniadau wedi eu cylchdroi bresenoldeb tri dimensiwn. Mae'r dimensiwn cyntaf wedi ei restru isod gyda gosodiadau â phwysau o dros 0.40; yna rhestrir yr ail ddimensiwn gyda gosodiadau â phwysau o dros 0.35 ac yna'r trydydd dimensiwn gyda gosodiadau â phwysau o dros 0.30. Penderfynwyd ar yr isafswm drwy ddilyn fformiwla Burt-Banks a chyfeirio at Baker (1992).

Cynhyrchodd y dadansoddiad amrywiad llinol y graddfeydd canlynol.

Tabl 7.2 Dadansoddiad Ffactoraidd – Adran Gwrando a Deall

Ffactor 1 – Gwrando, deall a mwynhau	
Gwrando'n ofalus - un i un	0.772
Gwrando'n ofalus - grŵp bach	0.754
Gwrando gyda diddordeb a mwynhad ar stori	0.747
Ymuno mewn caneuon a rhigymau	0.725
Gwrando'n ofalus - grŵp mawr	0.691
Mwynhau edrych ar lyfrau ar ei ben ei hun	0.686
Dangos deall rhywfaint o gynnwys caneuon	0.681
Mwynhau gwyllo teledu	0.659
Mwynhau edrych ar lyfrau gydag oedolyn	0.657
Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori	0.653
Mwynhau gweithgareddau	0.641
Dwyn i gof rigymau a chaneuon cyfarwydd	0.624
Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau syml	0.615
Defnyddio geiriau cyffredin	0.504
Ymateb i gynnwys llyfr	0.496
Deall ac ymateb i sgwrs	0.493
Ateb cwestiynau syml	0.485
Deall y berthynas rhwng geiriau a lluniau	0.415
Gallu dyfalu beth fydd nesaf mewn stori	0.414
Dangos awydd ac ymdrech i siarad	0.413

Tabl 7.3 Dadansoddiad Ffactoraidd – Adran Siarad a Chyfathrebu

Ffactor 2- Siarad a chyfathrebu yn Gymraeg	
Sgwrsio gydag oedolyn	0.851
Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant	0.804
Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml	0.791
Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol	0.773
Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau	0.754
Dangos awydd ac ymdrech i siarad	0.741
Siarad am stori gyfarwydd	0.739
Ateb cwestiynau syml	0.675
Deall ac ymateb i sgwrs	0.663
Defnyddio geiriau cyffredin	0.633
Defnyddio ychydig o iaith fathemategol	0.540
Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau syml	0.509
Dangos deall rhywfaint o gynnwys caneuon	0.408
Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori	0.407
Ymateb i gynnwys llyfr	0.385
Dwyn i gof rigymau a chaneuon cyfarwydd	0.367

Tabl 7.4 Dadansoddiad Ffactoraidd – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar

Ffactor 3 – Sgiliau llythrennedd cynnar	
Adnabod rhai llythrennau	0.782
Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli llythrennau/geiriau Cymraeg	0.774
Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain	0.764
Cyfathrebu drwy lun neu farciau a thrafod	0.681
Adnabod geiriau syml	0.666
Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy	0.637
Gallu dyfalu beth fydd nesaf mewn stori	0.629
Deall y berthynas rhwng geiriau a lluniau	0.612
Ymateb i gynnwys llyfr	0.530
Defnyddio ychydig o iaith fathemategol	0.465
Siarad am stori gyfarwydd	0.430
Ymateb i gynnwys llyfr	0.385
Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol	0.373
Dwyn i gof rigymau a chaneuon cyfarwydd	0.367
Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau	0.365

Fel y gwelir uchod rhannodd y gosodiadau yn dri dimensiwn y gellir fwy neu lai eu henwi yn:

Tabl 7.5 Enwau'r Dimensiynau

Adran	Rhif y ffactor	Enw'r ffactor
Gwranddo a Deall	1	Gwranddo, deall a mwynhau
Siarad a Chyfathrebu	1	Defnyddio'r Gymraeg ar lafar
Sgiliau Llythrennedd Cynnar	1	Siarad a chyfathrebu yn Gymraeg

Mae'r rhaniadau hyn yn agos iawn i'r modd y rhannwyd hwy yn y Ffurflen Datblygiad Iaith. Gwelir felly, er bod y raddfa yn un raddfa gyfan yn mesur datblygiad iaith cyffredinol yn ôl y sgôr alpha uchel a gafodd y raddfa gyfan y mae yma hefyd dair isadran

Mae math arall o ddilysrwydd sef *fitness for purpose*. Mae hwn yn cyfeirio at a yw'r prawf yn werthfawr a defnyddiol mewn sefyllfaoedd real. Yn yr achos hwn mae'r *fitness for purpose* yn ymwneud ag a yw arweinyddion a swyddogion Mudiad Ysgolion Meithrin yn credu fod y prawf yn ddefnyddiol mewn cylchoedd trwy Gymru.

7.4 Ymchwiliad 3 – Gorffennaf 2001

7.4.1 Cyflwyniad i Ymchwiliad 3

Yn y rhan hon o'r bennod cyflwynir canlyniadau Ymchwiliad 3, sef yr ail ymchwiliad cenedlaethol i asesu iaith plant sy'n mynychu cylchoedd meithrin Mudiad Ysgolion Meithrin. Gwnaed yr ymchwil yng Ngorffennaf 2001, naw mis ar ôl Ymchwiliad 2. Fe wnaed yr ymchwiliad hwn er mwyn monitro datblygiad iaith y plant dros gyfnod o flwyddyn ysgol yn mynychu cylch meithrin. Defnyddiwyd yr un sampl ag yn Ymchwiliad 2, ond roedd rai wedi gadael y cylch am amrywiol resymau.

Roedd 1259 plentyn o 102 cylch meithrin yn y sampl hwn. Defnyddiwyd yr un offeryn ymchwil yn Ymchwiliad 3 ag a wnaed yn Ymchwiliad 2, sef y Ffurflen Datblygiad Iaith (Atodiad 12).

7.4.2 Amleddau

Gofynnwyd i arweinyddion y cylchoedd a gymerodd ran yn yr ymchwil nodi pa bwynt ar y raddfa ‘dim eto’, ‘dechrau’, ‘weithiau’ a ‘fel arfer’ oedd yn addas ar y pryd ar gyfer y plentyn mewn cyfatebiaeth â phob gosodiad.

Dadansoddwyd tair adran y ffurflen sef Adran A Gwrandd a Deall, Adran B Siarad a Chyfathrebu yn Gymraeg ac Adran C Sgiliau Llythrennedd Cynnar ar wahân a rhoddir y canlyniadau ar gyfer pob eitem ar ffurf canrannau dilys.

7.4.2.1 Adran Gwrandd a Deall

Yn Adran A ceir 11 eitem yn ymwneud â pharodrwydd a gallu’r plant i wrando a deall yn y cylch meithrin. Gofynnwyd i’r arweinyddion ateb drwy ddewis un o bedwar dewis ar raddfa bwyntiau. Y pedwar dewis oedd ‘fel arfer’, ‘weithiau’, ‘dechrau’ a ‘dim eto’.

Rhoddir y canlyniadau ar gyfer eitemau Adran Gwrandd a Deall yn y tabl isod ar ffurf canrannau dilys.

Tabl 7.6 Amleddau Adran Gwrando a Deall

		Fel arfer %	Weithiau %	Dechrau %	Dim eto %
1	Mwynhau gweithgareddau'r cylch.	90.2	7.6	2.1	0.1
2	Mwynhau gwylio teledu / fideos / gwrando ar dapiau sain Cymraeg.	80.1	14.8	4.4	0.7
3a	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – un i un gyda'r arweinydd.	73.8	18.2	6.9	1.0
3b	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp bychan.	67.5	21.9	8.7	2.0
3c	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp mawr.	59.3	24.4	11.7	4.7
4	Gwrando gyda diddordeb a mwynhad ar stori Gymraeg.	66.4	22.1	9.4	2.1
5	Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori.	58.8	23.1	13.1	4.9
6	Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg.	67.2	22.6	7.7	2.6
7	Dangos eu bod yn deall rhywfaint o gynnwys caneuon a rhigymau Cymraeg.	61.8	22.7	12.2	3.4
8	Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau syml yn Gymraeg.	61.1	21.0	13.1	4.8
9	Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg.	52.2	20.8	15.8	11.2

Awgryma'r canlyniadau yn y tabl uchod bod canran uchel o'r plant fel arfer yn gwrando ac yn deall yr hyn sy'n digwydd yn y cylch meithrin. Mae dros hanner y plant yn y categori 'fel arfer' ar gyfer pob un o'r eitemau. Y ddau ganran uchaf yn y categori 'fel arfer' yw'r ddwy eitem yn ymwneud â mwynhau sef, 'Mwynhau gweithgareddau'r cylch' a 'Mwynhau gwylio teledu / fideos / gwrando ar dapiau sain Cymraeg'. Mae dros 80% o'r plant yn y categori 'fel arfer' ar gyfer y ddwy eitem hyn. Dim ond 0.1% a 0.7% o'r plant sydd yn y categori 'dim eto' ar gyfer y ddau osodiad yma. Roedd llai na 5% yn y categori 'dim eto' ar gyfer deg o'r eitemau; ar y llaw arall roedd 11.2% o'r plant yn y categori hwn ar gyfer yr eitem 'Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg'. Canrannau cymharol fychan sydd yn y categori 'dechrau' hefyd gyda llai na 10% yn y categori yma ar gyfer chwech eitem. Mewn wyth eitem roedd dros 20% yn y categori 'weithiau' ac felly yn cyflawni'r gosodiadau, ond nid yn gyson. Roedd dros 80% o'r plant yn y categorïau 'fel arfer' a 'weithiau' ar gyfer deg o'r gosodiadau a 73.0% ar gyfer y gosodiad 'Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg'.

7.4.2.2 Adran Siarad a Chyfathrebu yn Gymraeg

Yn Adran B sef Adran Siarad a Chyfathrebu yn Gymraeg gofynnir i'r arweinyddion nodi pa ddewis sydd fwyaf addas ar gyfer pob plentyn mewn cyfatebiaeth â'r gosodiadau yn ymwneud â siarad a chyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn y cylch meithrin. Y pedwar dewis ar y raddfa bwyntiau oedd 'fel arfer', 'weithiau', 'dechrau' a 'dim eto'.

Rhoddir y canlyniadau ar gyfer eitemau Adran Siarad a Chyfathrebu yn y tabl isod ar ffurf canrannau dilys.

Tabl 7.7 Amleddau Adran Siarad a Chyfathrebu

		Fel arfer %	Weithiau %	Dechrau %	Dim eto %
1	Dwyn i gof rigymau a chaneuon cyfarwydd.	68.0	19.5	10.4	2.2
2	Ateb cwestiynau syml.	61.1	19.0	14.4	5.5
3	Defnyddio geiriau cyffredin – enwau rhannau o'r corff, anifeiliaid, lliwiau, tegau ayyb.	63.2	19.4	13.5	4.0
4	Dangos awydd ac ymdrech i siarad.	55.5	17.3	17.4	9.8
5	Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml.	49.6	18.4	17.2	14.8
6	Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell.	34.3	13.2	18.7	33.8
7	Sgwrsio gydag oedolyn yn ddigymell.	37.3	13.8	19.5	29.4
8	Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol.	37.2	16.2	17.7	28.9
9	Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrandao arni.	33.5	17.7	21.3	27.5
10	Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau.	33.0	16.2	19.6	31.2
11	Defnyddio ychydig o iaith fathemategol mewn cyd-destunau perthnasol – siâp, safle, maint a swm.	40.9	21.0	21.9	16.2

Nid oes canrannau mor uchel yn y categori 'fel arfer' yn yr Adran Siarad a Chyfathrebu ag a welwyd yn yr adran flaenorol. Y tro hwn dim ond mewn pedwar

achos sef ‘Dwyn i gof rigymau a chaneuon cyfarwydd’, ‘Ateb cwestiynau syml’, ‘Defnyddio geiriau cyffredin – enwau rhannau o’r corff, anifeiliaid, lliwiau, teganau ayyb.’ a ‘Dangos awydd ac ymdrech i siarad’, mae dros hanner y plant yn y categori ‘fel arfer’ er bod 49.6% ‘fel arfer’ ar gyfer y gosodiad ‘Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml’. Mewn pum gosodiad arall ceir rhwng 33% a 37.3% o’r plant yn y categori ‘fel arfer’. Yn y gosodiadau hyn sef ‘Defnyddio’r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell’, ‘Sgwrsio gydag oedolyn yn ddigymell’, ‘Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol’, ‘Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwranddo arni’ a ‘Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau’, gofynnir am ddefnydd iaith eithaf estynedig yn hytrach na dim ond defnydd o eiriau neu ymadroddion syml. Yn y pum gosodiad hyn ceir canran cymharol uchel o blant yn y categori ‘dim eto’, sef rhwng 27.5% ar gyfer y gosodiad ‘Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwranddo arni’ a 33.8% ar gyfer y gosodiad ‘Defnyddio’r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell’. Mewn dau osodiad arall sef ‘Defnyddio ychydig o iaith fathemategol mewn cyd-destunau perthnasol – siâp, safle, maint a swm’ a ‘Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml’ roedd 40.9% a 49.6% yn y categori ‘fel arfer’ ond canrannau cymharol fychan oedd yn y categori ‘dim eto’ sef 16.2% ac 14.8%. Y tro hwn dim ond mewn tri gosodiad y ceir dros 80% o’r plant yn y ddau gategori uchaf sef ‘fel arfer’ a ‘weithiau’. Fodd bynnag, roedd dros hanner y plant yn y ddau gategori hyn ar gyfer naw o’r gosodiadau.

7.4.2.3 Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar

Yn Adran C ceir 11 gosodiad yn ymwneud â Sgiliau Llythrennedd Cynnar yn y cylch meithrin. Un waith eto gofynnwyd i’r arweinyddion ateb trwy ddewis un o bedwar dewis ar y raddfa bwyntiau. Y pedwar dewis oedd ‘fel arfer’, ‘weithiau’, ‘dechrau’ a ‘dim eto’.

Rhoddir y canlyniadau ar gyfer eitemau Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar yn y tabl isod ar ffurf canrannau dilys.


Tabl 7.8 Amleddau Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar

		Fel arfer %	Weithiau %	Dechrau %	Dim eto %
1	Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn.	80.3	13.3	5.7	0.6
2	Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg ar ei ben ei hun.	73.8	17.2	7.1	1.8
3	Deall y berthynas rhwng geiriau a lluniau.	41.3	21.9	23.1	13.7
4	Ymateb i gynnwys llyfr.	47.1	24.0	21.6	7.3
5	Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori.	38.6	25.6	21.6	14.2
6	Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain.	28.3	20.8	26.5	24.4
7	Adnabod rhai llythrennau.	26.8	16.5	27.7	28.9
8	Cyfathrebu drwy lun neu farciau a thrafod yr hyn a gyflëir.	27.8	19.9	25.8	26.6
9	Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli llythrennau / geiriau Cymraeg.	20.5	19.6	24.6	35.3
10	Adnabod geiriau syml / cyfarwydd yn Gymraeg.	13.9	14.0	23.5	48.6
11	Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy.	7.7	7.4	16.6	68.3


Fel yn Adran Gwranddo a Deall, ar gyfer yr eitemau yn ymwneud â mwynhau yn unig y gwelir y canrannau uchaf yn y categori 'fel arfer', sef 'Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn' (80.3%) a 'Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg ar ei ben ei hun' (73.8%). Ychydig iawn o'r plant nad ydynt eto wedi dechrau gwneud y rhain (0.6% a 1.8%). Ceir llai na hanner y plant yn y categori 'fel arfer' ar gyfer pob un o'r gosodiadau eraill gyda dim ond 13.9% a 7.7% fel arfer yn 'Adnabod geiriau syml / cyfarwydd yn Gymraeg' ac yn 'Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy'. Yn yr eitemau hyn y gwelir y canrannau uchaf yn y categori 'dim eto' ar gyfer y tair adran. Mae 48.6% a 68.3% yn y categori 'Dim eto ar gyfer y gosodiadau hyn. Gellir rhannu'r saith gosodiad arall yn ddau grŵp. Mae'r canrannau ar gyfer y gosodiadau 'Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain', 'Adnabod rhai llythrennau', 'Cyfathrebu drwy lun neu farciau a thrafod yr hyn a gyflëir', 'Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli llythrennau / geiriau Cymraeg', wedi eu dosbarthu'n eithaf cyfartal rhwng y pedwar categori, 'fel arfer', 'weithiau', 'dechrau' a 'dim eto'. Ceir canrannau ychydig yn uwch yn y categorïau 'fel arfer' a 'weithiau' ar gyfer y gosodiadau 'Deall y berthynas rhwng geiriau a lluniau', 'Ymateb i gynnwys llyfr' a

‘Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori’. Yn sicr dyma’r adran lle gwelir yr amrywiaeth mwyaf o ran canrannau, gyda’r canrannau yn y categori ‘fel arfer’ yn amrywio o 7.7% i 80.3%, a’r canrannau yn y categori ‘dim eto’ yn amrywio o 0.6% i 68.3%.


Ffigwr 7.1 Ymchwiliad 3 – Cymedrau Adran Gwrando a Deall



Ffigwr 7.2 Ymchwiliad 3 – Cymedrau Adran Siarad a Chyfathrebu



Ffigwr 7.3 Ymchwiliad 3 – Cymedrau Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar



7.4.2.4 Adran Wybodaeth Bersonol.

Cynhwyswyd adran i gasglu gwybodaeth bersonol am y plant megis eu hoedran, eu rhyw, pa iaith a ddefnyddir rhyngddynt ac aelodau o'u teulu, y nifer o sesiynau a fynychant yr wythnos a pha mor hir y buont yn mynychu'r cylch. Gwnaed hyn er mwyn gweld pa ffactorau sy'n effeithio ar ganlyniadau'r plant ac ar eu datblygiad. Drwy ddefnyddio dadansoddiad ffactoraidd gellir hefyd gweld pa ffactorau sy'n cael y dylanwad mwyaf ar y canlyniadau, hynny yw a yw'r nifer o sesiynau a fynychant yr wythnos yn cael mwy o ddylanwad ar eu canlyniadau na'u hoedran?

7.4.2.4.1 Rhyw'r plant

Tabl 7.9 Amleddau Rhyw'r Plant

	Nifer	Canran	Canran dilys
Bachgen	586	46.5	48.2
Merch	630	50.0	51.8
Cyfanswm	1216	96.6	100.0
Heb ateb	43	3.4	
Cyfanswm	1259	100.0	

Dychwelwyd ffurflenni 1259 o blant, roedd ychydig mwy o ferched na bechgyn yn y sampl.

Gofynnwyd i'r arweinyddion nodi rhyw'r plant er mwyn gweld a oes gwahaniaeth rhwng canlyniadau'r bechgyn a'r merched. Cred rhai bod iaith merched yn datblygu'n gynt na iaith bechgyn. Y gobaith yw fod datblygiad bechgyn a merched yn eithaf cyfartal ac felly bod cyfnod mewn cylch meithrin yn cael yr un effaith ar ddatblygiad iaith bechgyn a merched.

7.4.2.4.2 Iaith y Teulu


Gofynnwyd i'r arweinyddion nodi o'u gwybodaeth hwy pa iaith a ddefnyddir rhwng y plentyn a'r canlynol: mam, tad a brawd neu chwaer. Gwnaed hyn er mwyn gweld pa effaith, a faint o effaith mae'r iaith a ddefnyddir o fewn y teulu yn ei gael ar eu canlyniadau ac ar eu datblygiad. Disgwylir y byddai canlyniadau'r plant o deuluoedd lle siaredir Cymraeg yn well na chanlyniadau plant o deuluoedd sy'n siarad Saesneg. Fodd bynnag, disgwylir y bydd canlyniadau'r plant o deuluoedd Saesneg eu hiaith wedi datblygu mwy na chanlyniadau'r plant o deuluoedd Cymraeg eu hiaith. Rhoddwyd y dewisiadau i'r arweinyddion ar ffurf tabl, y dewisiadau oedd 'Cymraeg bron drwy'r amser', 'Cymraeg mwy na Saesneg'. 'Cymraeg a Saesneg tua chyfartal', 'Saesneg mwy na Chymraeg', 'Saesneg bron drwy'r amser' a 'Ddim yn berthnasol / Ddim yn gwybod'. Yn y tabl isod nodir y canlyniadau ar ffurf canrannau dilys gan hepgor y categori 'ddim yn berthnasol neu ddim yn gwybod'.

Tabl 7.10 Amleddau Iaith y Teulu


	Cymraeg bron drwy'r amser	Cymraeg mwy na Saesneg	Cymraeg a Saesneg tua chyfartal	Saesneg mwy na Cymraeg	Saesneg bron drwy'r amser
Mam	33.8	4.7	5.6	11.9	44.1
Tad	31.8	3.8	4.6	11.5	48.3
Brawd / Chwaer	38.3	4.6	8.2	17.1	31.7
Gofalwr	52.2	6.1	6.1	10.1	25.5

Fel y gwelir o'r tabl uchod roedd tua traean o'r plant yn siarad Cymraeg drwy'r amser gyda'u mamau a chanran ychydig is yn gwneud hynny gyda'u tadau. Roedd 44.1% yn siarad Saesneg drwy'r amser gyda'u mamau, bron hanner y plant yn gwneud hynny gyda'u tadau. Defnyddiwyd y ddwy iaith i ryw raddau rhwng 22.2% o'r plant a'u mamau a 19.9% ohonynt a'u tadau. Rhoddir darlun o'r sefyllfa yn y graffiau isod.

Ffigwr 7.4 Ymchwiliad 3 – Iaith a Ddefnyddir Rhwng y Plant a'u Mamau



Ffigwr 7.5 Ymchwiliad 3 – Iaith a Ddefnyddir Rhwng y Plant a'u Tadau



Er mwyn hwyluso dadansoddi'r canlyniadau a chael darlun mwy cyflawn o gefndir ieithyddol y plant cyfunwyd canlyniadau'r tabl iaith i un amrywiad sef iaith y teulu. Pan nodwyd pa iaith a ddefnyddir gyda'r ddau riant rhoddwyd sgôr newydd i'r plentyn a'i alw'n iaith y teulu. Lle nodwyd yr iaith a ddefnyddir gydag un rhiant yn unig neu lle na nodwyd iaith gydag unrhyw riant ni roddwyd sgôr newydd o iaith y teulu i'r plentyn. Ni chynhwyswyd 117 plentyn yn y dadansoddiad oherwydd hyn. Cyfrifwyd yr amrywiad newydd trwy ychwanegu sgoriau'r ddau riant yn y tabl.

Cymraeg drwy'r amser neu bron drwy'r amser	1
Cymraeg mwy na Saesneg	2
Cymraeg a Saesneg tua chyfartal	3
Saesneg mwy na Cymraeg	4
Saesneg drwy'r amser neu bron drwy'r amser	5

Felly po leiaf y rhif yn yr amrywiad iaith y teulu, y mwyaf o Gymraeg a ddefnyddir gan y teulu.

Tabl 7.11 Amleddau Categorïau Iaith y Teulu

	Nifer	Canran	Canran dilyn
2	316	25.1	27.7
3	13	1.0	1.1
4	29	2.3	2.5
5	39	3.1	3.4
6	104	8.3	9.1
7	54	4.3	4.7
8	91	7.2	8.0
9	90	7.1	7.9
10	406	32.2	35.6
Cyfanswm	1142	90.7	100.0
Heb ateb	117	9.3	
Cyfanswm	1259	100.0	

Pegynnir y canlyniadau i raddau helaeth gyda 27.7% yn siarad Cymraeg gyda'r ddau riant a chanran ychydig yn uwch, sef 35.6% yn siarad Saesneg gyda'r ddau riant. Er hynny ceir dros draean (36.7%) o'r plant yn y canol lle defnyddir y ddwy iaith i ryw raddau yn y cartref.

7.4.2.4.3 Nifer Sesiynau

Gofynnwyd i'r arweinyddion nodi sawl sesiwn yr wythnos yr oedd pob plentyn yn ei fynychu. Gofynnwyd iddynt nodi hyn ar ffurflenni'r plant yn y ddau ymchwiliad rhag


ofn bod newid wedi bod yn y nifer o sesiynau a fynychai'r plant. Nodwyd ar y ffurflen bod un sesiwn yn cynrychioli hanner diwrnod.

Tabl 7.12 Amleddau Nifer Sesiynau

Nifer sesiynau	Nifer	Canran	Canran Dilys
1	28	2.2	2.3
2	166	13.0	13.6
3	381	29.8	31.1
4	285	22.3	23.3
5	339	26.5	27.7
6	6	0.5	0.5
7	1	0.1	0.1
8	1	0.1	0.1
9	0	0	0
10	18	1.4	1.5
Cyfanswm	1225	95.9	100.0
Heb ateb	34	4.1	
Cyfanswm	1259	100.0	

Amrywiai nifer y sesiynau a fynychir bob wythnos o un i ddeg. Roedd 95.7% yn mynychu rhwng dau a phump sesiwn yr wythnos. Dim ond dau sesiwn yr wythnos fynychai 13.6% ohonynt tra mynychai 27.7% bump sesiwn. Mynychai 2.2% ohonynt dros bump sesiwn yr wythnos. Dim ond un sesiwn yr wythnos fynychai 2.3% ohonynt. Disgwylir y bydd cynyddu'r nifer o sesiynau cylch a fynychir yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau'r plant.

Ffigwr 7.6 Ymchwiliad 3 – Nifer o Sesiynau yr Wythnos



7.4.2.4.4 Cylch

Cymerodd 102 cylch ran yn y rhan hon o'r ymchwil sef 77% o'r cylchoedd a ddychwelodd ffurflenni ym mis Hydref 2000. Cymerodd pob plentyn a oedd yn mynychu'r cylchoedd ym mis Hydref ran yn yr ymchwil. Amrywia'r nifer a fynychai'r cylchoedd o 13 i 47. Mae'n anodd mesur dylanwad cylch heb gymryd i ystyriaeth nifer o ffactorau eraill, er enghraifft ffactorau daearyddol, economaidd ac ieithyddol.

7.4.2.4.5 Siroedd

Rhannwyd y cylchoedd fesul y siroedd neu ranbarthau a ddefnyddir gan y Mudiad Ysgolion Meithrin. Gwnaed hyn er mwyn gweld a yw pa sir y mae'r cylch ynddo yn cael effaith ar ganlyniadau a datblygiad y plant. Wrth gwrs, mae nifer o ffactorau eraill i'w hystyried wrth edrych ar ddylanwad y siroedd ar ganlyniadau a datblygiad y plant, er enghraifft sefyllfa ieithyddol y sir.

Tabl 7.13 Amleddau Fesul Sir

	Ardal	Nifer cylchoedd	Nifer y plant	Canran
Arfon	Gogledd orllewin	10	127	10.1
Dwyfor	Gogledd orllewin	6	55	4.37
Meirion	Gogledd orllewin	7	107	8.5
Ynys Môn	Gogledd orllewin	10	137	10.9
Conwy	Gogledd ddwyrain	6	71	5.64
Dinbych	Gogledd ddwyrain	6	76	6.04
Wrecsam	Gogledd ddwyrain	5	68	5.4
Fflint	Gogledd ddwyrain	1	18	1.43
Caerdydd	De ddwyrain	4	74	5.88
Caerffili	De ddwyrain	3	60	4.77
Ogwr	De ddwyrain	3	68	5.4
Bro Morgannwg	De ddwyrain	1	18	1.43
Blaenau Gwent / Mynwy	De ddwyrain	1	10	0.79
Rhondda Cynon Taf	De ddwyrain	7	62	4.92
Gogledd Powys	Canolbarth	6	37	2.94
De Powys	Canolbarth	0	0	0
Ceredigion	Canolbarth	11	105	8.34
Caerfyrddin	De Orllewin	12	132	10.5
Penfro	De Orllewin	1	12	0.95
Castell Nedd Port Talbot	De Orllewin	0	0	0
Abertawe	De Orllewin	2	22	1.75
Cyfanswm		102	1259	100

7.4.2.4.6 Ardaloedd

Rhannwyd y cylchoedd ymhellach i bump rhan o Gymru sef y gogledd orllewin, y gogledd ddwyrain, y canolbarth, y de ddwyrain a'r de orllewin. Gellir dyfalu y byddai canlyniadau'r plant o'r gogledd orllewin ar gyfartaledd yn well na chanlyniadau plant o ardaloedd eraill gan y byddai canran uwch ohonynt o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Yn yr un modd gellir dyfalu y byddai mwy o ddatblygiad i'w weld yng nghanlyniadau'r plant o gartrefi di-Gymraeg megis yn y de ddwyrain. Wrth gwrs, rhaid gofalu rhag gor-symleiddio.

Tabl 7.14 Amleddau Fesul Ardal

	Nifer Cylchoedd	Canran Dilys	Nifer Plant	Canran Dilys
Gogledd-orllewin	33	32.3	426	33.8
Gogledd-ddwyrain	18	17.6	233	18.5
Y Canolbarth	17	16.7	142	11.3
De-ddwyrain	19	18.6	292	23.2
De-orllewin	15	14.7	166	13.2
Cyfanswm	102	100.0	1259	100.0
Heb ateb	0		0	
Cyfanswm	102		1259	

7.4.2.4.7 Dyddiad Geni

Gofynnwyd i'r arweinyddion nodi dyddiad geni y plant ar eu ffurflenni ar ffurf mis a blwyddyn eu geni. Gwnaed hyn er mwyn gweld pa effaith a gaiff eu hoedran ar eu canlyniadau yn yr adrannau Gwrando a Deall, Siarad a Chyfathrebu a Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Nodir y canlyniadau yn y tabl isod ar ffurf amleddau a chanrannau dilys. Disgwylid y byddai canlyniadau'r plant hyn yn well na chanlyniadau'r plant ieuengaf ac mae'n debyg y bydd mwy o ddatblygiad i'w weld rhwng y ddau ymchwiliad ymysg y plant ieuengaf. Bydd yn ddiddorol gweld canlyniadau pa adran y mae oedran y plant yn cael mwyaf o effaith arnynt. Gellid dyfalu y bydd yn cael dylanwad cryf ar ganlyniadau Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar gan fod yn adran hon yn trafod sgiliau megis adnabod llythrennau a llunio geiriau, sgiliau nad oes disgwyl i blant ifainc iawn fod wedi eu meistroli.

Tabl 7.15 Amleddau Dyddiad Geni

Dyddiad (mis/blwyd dyn)	Oedran (blwydd, mis)	Nifer	Canran dilys
7/96	5	2	0.2
8/96	4,11	1	0.1
9/96	4,10	30	2.5
10/96	4,9	32	2.7
11/96	4,8	36	3.0
12/96	4,7	36	3.0
1/97	4,6	39	3.3
2/97	4,5	40	3.4
3/97	4,4	68	5.7
4/97	4,3	43	3.6
5/97	4,2	41	3.4
6/97	4,1	36	3.0
7/97	4	45	3.8
8/97	3,11	52	4.4

Dyddiad (mis/blwyd dyn)	Oedran (blwydd, mis)	Nifer	Canran dilys
9/97	3,10	102	8.6
10/97	3,9	107	9.0
11/97	3,8	83	7.0
12/97	3,7	70	5.9
1/98	3,6	75	6.3
2/98	3,5	69	5.8
3/98	3,4	86	7.2
4/98	3,3	67	5.6
5/98	3,2	20	1.7
6/98	3,1	5	0.4
7/98	3	7	0.5
Cyfanswm	1192	94.7	100.0
Heb ateb	67	5.3	
Cyfanswm	1259	100.0	

Yng Ngorffennaf 2001 pan wnaed yr ail ymchwiliad cenedlaethol roedd oedran y plant yn y sampl yn amrywio o dair i bump oed. Roedd 254 o'r plant sef 21.2% o'r sampl rhwng tair a thair a hanner oed, 489 ohonynt sef 41.2% o'r sampl rhwng tair a hanner a phedair oed, 240 (22.9%) rhwng pedair a phedair a hanner oed a 176 (14.8%) dros bedair a hanner oed. Felly, roedd 62.4% o'r plant yn dair oed a 37.7% yn bedair oed pan wnaed yr ail ymchwiliad.

7.4.2.4.8 Dyddiad Dechrau

Gofynnwyd i'r arweinyddion nodi hefyd pa bryd y dechreuodd pob plentyn yn y cylch, unwaith eto ar ffurf mis a blwyddyn. Gofynnwyd iddynt wneud hyn er mwyn gweld pa effaith a gaiff hyd yr amser y buont yn y cylch ar eu canlyniadau. Fodd bynnag, sylweddolir bod y ffactor hwn yn cyfateb yn agos iawn i oedran y plant.

Tabl 7.16 Amleddau Dyddiad Dechrau

Dyddiad Dechrau (mis / blwyddyn)	Nifer	Canran	Canran Dilys	Dyddiad Dechrau (mis / blwyddyn)	Nifer	Canran	Canran Dilys
6/97	1	0.1	0.1	11/99	27	2.1	2.2
9/97	1	0.1	0.1	12/99	6	0.5	0.5
1/98	1	0.1	0.1	1/00	58	4.6	4.7
9/98	3	0.2	0.2	2/00	26	2.1	2.1
12/98	1	0.1	0.1	3/00	44	3.5	3.6
1/99	5	0.4	0.4	4/00	84	6.7	6.8
2/99	2	0.2	0.2	5/00	67	5.3	5.5
3/99	8	0.6	0.7	6/00	35	2.8	2.9
4/99	23	1.8	1.9	7/00	13	1.0	1.1
5/99	9	0.7	0.7	8/00	2	0.2	0.2
6/99	13	1.0	1.1	9/00	637	50.6	51.8
7/99	5	0.4	0.4	Cyfanswm	1229	97.6	100.0
8/99	1	0.1	0.1	Heb ateb	30	3.4	
9/99	130	10.3	10.6	Cyfanswm	1259	100.0	
10/99	27	2.1	2.2				

Fel y gwelir o'r tabl uchod roedd y cyfnod a fu plant y sampl yn mynychu'r cylch erbyn dyddiad Ymchwiliad 3 yn amrywio o ddeg mis i ddwy flynedd ac 11 mis. Roedd 53.1% o'r plant yn mynychu'r cylch ers rhwng blwyddyn a dwy flynedd. Dim ond canran fechan o 5.4% oedd yn mynychu'r cylch meithrin er dros ddwy flynedd.

7.4.2.5 Casgliadau yn Ymwneud ag Amleddau

Hyd yma mae'r bennod hon wedi cyflwyno'r amleddau er mwyn rhoi braslun o'r canlyniadau. Mae'r data yn dangos fod canlyniadau Adran Gwranddo a Deall yn well na chanlyniadau Adran Siarad a Chyfathrebu, a bod canlyniadau Adran Siarad a Chyfathrebu yn well na chanlyniadau Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Cyflwynwyd data ynglŷn â'r plant a gymerodd ran yn yr ymchwil. Gwelwyd bod 1259 ffurflen o 102 cylch wedi eu dychwelyd yn dilyn Ymchwiliad 3 yng Ngorffennaf 2001. Dychwelodd 77% o'r cylchoedd eu ffurflenni a chwblhawyd ffurflenni 65% o'r plant a gymerodd ran yn Ymchwiliad 2. Felly roedd 667 yn llai o blant yn sampl

Ymchwiliad 3 o'i gymharu ac Ymchwiliad 2. Roedd 48.2% o'r plant yn fechgyn a 51.8% yn ferched. Cyfrifwyd amrywiad ar gyfer iaith y teulu ar gyfer y plant lle nodwyd pa iaith a ddefnyddiwyd rhyngddynt â'u dau riant. Roedd 27.7% o'r plant yn siarad Cymraeg gyda dau riant a 35.6% yn siarad Saesneg gyda dau riant. Roedd 36.7% yn defnyddio'r ddwy iaith i ryw raddau gyda'u rhieni. Amrywia nifer y sesiynau a fynychir bob wythnos o un i ddeg gyda'r mwyafrif llethol yn mynychu rhwng dau a phump sesiwn yr wythnos. Roedd 33.8% o'r plant o'r gogledd orllewin, 18.5% o'r gogledd ddwyrain, 11.3% o'r canolbarth, 23.2% o'r de ddwyrain a 13.2% o'r de orllewin. Roedd y plant rhwng tair a phump oed pan wnaed yr ymchwiliad. Roedd 64.4% o'r plant yn dair oed a 37.7% yn bedair oed. Roeddynt wedi bod yn mynychu'r cylch ers rhwng deg mis a dwy flynedd ac 11 mis.

O safbwynt canlyniadau'r dair adran ar y ffurflen yn Ymchwiliad 3, roedd dros hanner y plant yn y categori 'fel arfer' ar gyfer Adran Gwranddo a Deall. Nid oedd y canrannau yn y categori 'fel arfer' mor uchel yn Adran Siarad a Chyfathrebu, fodd bynnag roedd dros hanner y plant yn y ddau gategori uchaf sef 'fel arfer' a 'weithiau' ar gyfer naw o'r gosodiadau. Nid oedd canlyniadau'r ddau osodiad 'Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell' a 'Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol' gystal. Yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar y gwelwyd yr amrywiaeth mwyaf o ran canrannau gyda dros 70% yn y categori uchaf ar gyfer mwynhau edrych ar lyfrau ar eu pen eu hunain a chydag oedolyn, tra roedd 68.3% yn y categori 'dim eto' ar gyfer y gosodiad 'Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy'.

Yn awr fe symudir ymlaen i gyflwyno'r gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol rhwng y gosodiadau ar sail rhyw, oedran, dyddiad dechrau, nifer sesiynau ac iaith y teulu.

7.4.3 Cymariaethau

Mae'r cymariaethau yn yr adran hon wedi eu rhannu yn bump grŵp. Yn gyntaf cyflwynir a thrafodir gwahaniaethau posibl mewn amllderau rhwng bechgyn a merched, ar sail eu hoedran, pa mor hir y buont yn mynychu'r cylch, y nifer o sesiynau a fynychant yr wythnos ac iaith y teulu.

Ystyrir gwahaniaethau yn wahaniaethau ystadegol arwyddocaol pan fo lefel hyder yn is na 0.050 ac yn ymylu ar fod yn arwyddocaol pan fo lefel yr hyder rhwng 0.051 a 0.1.

Defnyddir dadansoddiad cydberthyniad i ddisgrifio cryfder a chyfeiriad y berthynas linol rhwng dau amrywiad. Mae'r cydberthyniadau yn yr adran hon wedi eu rhannu yn bump grŵp. Yn gyntaf, cyflwynir gosodiadau Adran Gwranddo a Deall, Adran Siarad a Chyfathrebu ac Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar gyda'r gwahaniaethau posibl rhwng bechgyn a merched, gwahaniaethau posibl rhwng plant o wahanol oedran, ers faint maent yn mynychu'r cylch, ar sail y nifer o sesiynau a fynychant ac iaith y teulu.

7.4.3.1 Prawf T-test

7.4.3.1.1 Rhyw'r Plant

Cymharwyd canlyniadau'r bechgyn â'r merched drwy ddefnyddio t-test. Defnyddir t-test pan fydd angen cymharu sgorau cymedr dau grŵp neu ddau grŵp o ddata gyda newidyn parhaol.

Tabl 7.17 Cymharu Cymedr Bechgyn a Merched – Adran Gwrando a Deall

		Cymedr bechgyn	Cymedr merched	t	df	p
1	Mwynhau gweithgareddau'r Cylch.	3.86	3.90	1.939	1214	0.053
2	Mwynhau gwyllo teledu / fideos / gwrando ar dapiau sain Cymraeg.	3.71	3.77	2.061	1156	0.040
3a	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – un i un gyda'r arweinydd.	3.58	3.70	3.276	1207	0.001
3b	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp bychan.	3.47	3.61	3.359	1203	0.001
3c	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp mawr.	3.29	3.45	3.078	1190	0.002
4	Gwrando gyda diddordeb a mwynhad ar stori Gymraeg.	3.46	3.58	2.922	1208	0.004
5	Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori.	3.26	3.42	3.230	1210	0.001
6	Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg.	3.42	3.65	5.540	1209	0.0001
7	Dangos eu bod yn deall rhywfaint o gynnwys caneuon a rhigymau Cymraeg.	3.35	3.49	2.854	1208	0.004
8	Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau syml yn Gymraeg.	3.31	3.43	2.395	1210	0.017
9	Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg.	3.06	3.19	2.028	1211	0.043

Tabl 7.18 Cymharu Cymedr Bechgyn a Merched – Adran Siarad a Chyfathrebu

		Cymedr bechgyn	Cymedr merched	t	df	P
1	Dwyn i gof rigymau a chaneuon cyfarwydd.	3.44	3.61	3.973	1207	0.0001
2	Ateb cwestiynau syml.	3.25	3.44	3.727	1209	0.0001
3	Defnyddio geiriau cyffredin –anifeiliaid, lliwiau, tegau ayyb.	3.36	3.45	1.904	1204	0.057
4	Dangos awydd ac ymdrech i siarad.	3.11	3.23	2.046	1202	0.041
5	Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml.	2.97	3.07	1.541	1199	0.124
6	Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell.	2.39	2.54	2.021	1205	0.044
7	Sgwrsio gydag oedolyn yn ddigymell.	2.49	2.67	2.537	1202	0.011
8	Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol.	2.51	2.69	2.474	1204	0.014
9	Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrandao arni.	2.47	2.64	2.453	1204	0.014
10	Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau.	2.44	2.56	1.657	1198	0.098
11	Defnyddio ychydig o iaith fathemategol mewn cyd-destunau perthnasol – maint a swm.	2.78	2.91	1.930	1196	0.054

Tabl 7.19 Cymharu Cymedr Bechgyn a Merched – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar

		Cymedr bechgyn	Cymedr merched	t	df	p
1	Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn.	3.68	3.78	3.048	1211	0.002
2	Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg ar ei ben ei hun.	3.55	3.70	3.722	1209	0.0001
3	Deall y berthynas rhwng geiriau a lluniau.	2.87	2.92	0.859	1201	0.390
4	Ymateb i gynnwys llyfr.	3.03	3.15	2.077	1200	0.038
5	Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori.	2.79	2.96	2.631	1200	0.009
6	Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain.	2.43	2.61	2.727	1200	0.006
7	Adnabod rhai llythrennau.	2.33	2.48	2.216	1199	0.027
8	Cyfathrebu drwy lun neu farciau a thrafod yr hyn a gyflëir.	2.40	2.56	2.348	1186	0.019
9	Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli llythrennau / geiriau Cymraeg.	2.14	2.34	3.005	1193	0.003
10	Adnabod geiriau syml / cyfarwydd yn Gymraeg.	1.87	1.97	1.578	1203	0.115
11	Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy.	1.45	1.61	2.959	1201	0.003


Ceir deg achos o wahaniaeth ystadegol arwyddocaol ar sail rhyw yn yr Adran Gwrando a Deall ac un gwahaniaeth yn ymylu ar fod yn arwyddocaol, sef, 'Mwynhau gweithgareddau'r cylch'. Ym mhob achos roedd cymedr canlyniadau'r merched yn well na chymedr canlyniadau'r bechgyn.

Yn Adran B, sef Adran Siarad a Chyfathrebu yn Gymraeg roedd saith achos o wahaniaeth ystadegol arwyddocaol sef 'Dwyn i gof rigymau a chaneuon cyfarwydd,' 'Ateb cwestiynau syml,' 'Dangos awydd ac ymdrech i siarad,' 'Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell,' 'Sgwrsio gydag oedolyn yn ddigymell,' 'Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol,' 'Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrando arni.' Roedd tri achos a oedd yn ymylu ar fod yn ystadegol arwyddocaol, sef, 'Defnyddio geiriau cyffredin – enwau rhannau o'r corff, anifeiliaid, lliwiau, teganau ayyb,' 'Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau,' 'Defnyddio ychydig o iaith


fathemategol mewn cyd-destunau perthnasol – siâp, safle, maint a swm.’ Felly dim ond un achos a gafwyd lle nad oedd rhyw’r plant yn effeithio’n ystadegol arwyddocaol nac yn ymylu ar fod yn arwyddocaol sef ‘Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml.’ Fel yn yr adran flaenorol roedd cymedr canlyniadau’r merched yn gyson well na chymedr canlyniadau’r bechgyn.

Yn Adran C, sef Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar roedd naw achos lle roedd rhyw y plant yn cael effaith ystadegol arwyddocaol. Felly ymddengys fod rhyw y plant yn cael mwy o effaith ar ganlyniadau Adran Gwrandio a Darllen a’r Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar nag ar ganlyniadau Adran Siarad a Chyfathrebu. Y ddau osodiad lle nad oedd rhyw’n cael effaith ystadegol arwyddocaol oedd ‘Deall y berthynas rhwng geiriau a lluniau’ ac ‘Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy.’ Yn yr un modd â’r ddwy adran flaenorol roedd cymedr canlyniadau’r merched yn well na chymedr canlyniadau’r bechgyn ym mhob achos.


Ffigwr 7.7 Ymchwiliad 3 – Cymedrau Bechgyn a Merched Adran Gwrando a Deall



Ffigwr 7.8 Ymchwiliad 3 – Cymedrau Bechgyn a Merched Adran Siarad a Chyfathrebu



Ffigwr 7.9 Ymchwilriad 3 – Cymedrau Bechgyn a Merched Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar



7.4.3.2 Cydberthyniadau

7.4.3.2.1 Dyddiad Geni

Er mwyn dadansoddi'r gwahaniaethau ystadegol o ran oedran y plant rhannwyd hwy o ran dyddiad geni. Rhannwyd y plant yn bedwar grŵp o'r hynaf i'r ieuengaf fel a ganlyn:

Grŵp 1 – Gorffennaf 1996 - Ionawr 1997

Grŵp 2 – Chwefror 1997 - Gorffennaf 1997

Grŵp 3 – Awst 1997 - Ionawr 1998

Grŵp 4 – Chwefror 1998 - Gorffennaf 1998

Gwnaed hyn trwy ddefnyddio'r gweithiannau 'transform' a 'recode' yn y rhaglen SPSS a newid ystod y dyddiadau i roi gwerth i bob grŵp o fisoedd.

Tabl 7.20 Cydberthyniad Dyddiad Geni – Adran Gwrando a Deall

		r	p
1	Mwynhau gweithgareddau'r Cylch.	-0.037	0.200
2	Mwynhau gwylio teledu / fideos / gwrando ar dapiau sain Cymraeg.	-0.097	0.001
3a	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – un i un gyda'r arweinydd.	-0.081	0.005
3b	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp bychan.	-0.091	0.002
3c	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp mawr.	-0.112	0.0001
4	Gwrando gyda diddordeb a mwynhad ar stori Gymraeg.	-0.080	0.006
5	Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori.	-0.122	0.0001
6	Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg.	-0.064	0.026
7	Dangos eu bod yn deall rhywfaint o gynnwys caneuon a rhigymau.	-0.072	0.012
8	Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau syml yn Gymraeg.	-0.103	0.0001
9	Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg.	-0.167	0.0001

Tabl 7.21 Cydberthyniad Dyddiad Geni – Adran Siarad a Chyfathrebu

		r	p
1	Dwyn i gof rigymau a chaneuon cyfarwydd.	-0.020	0.481
2	Ateb cwestiynau syml.	-0.091	0.002
3	Defnyddio geiriau cyffredin –anifeiliaid, lliwiau, tegau ayyb.	-0.083	0.004
4	Dangos awydd ac ymdrech i siarad.	-0.089	0.002
5	Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml.	-0.126	0.0001
6	Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell.	-0.118	0.0001
7	Sgwrsio gydag oedolyn yn ddigymell.	-0.133	0.0001
8	Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol.	-0.158	0.0001
9	Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrandio arni.	-0.179	0.0001
10	Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau.	-0.155	0.0001
11	Defnyddio ychydig o iaith fathemategol mewn cyd-destunau perthnasol – siâp, safle, maint a swm.	-0.120	0.0001

Tabl 7.22 Cydberthyniad Dyddiad Geni – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar

		r	p
1	Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn.	-0.026	0.374
2	Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg ar ei ben ei hun.	-0.037	0.197
3	Deall y berthynas rhwng geiriau a lluniau.	-0.124	0.0001
4	Ymateb i gynnwys llyfr.	-0.140	0.0001
5	Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori.	-0.158	0.0001
6	Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain.	-0.158	0.0001
7	Adnabod rhai llythrennau.	-0.205	0.0001
8	Cyfathrebu drwy lun neu farciau a thrafod yr hyn a gyflëir.	-0.141	0.0001
9	Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli llythrennau / geiriau.	-0.163	0.0001
10	Adnabod geiriau syml / cyfarwydd yn Gymraeg.	-0.152	0.0001
11	Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy.	-0.214	0.0001

Cafodd oedran y plant effaith ystadegol arwyddocaol ar ganlyniadau deg o'r 11 eitem yn Adran Gwrandio a Deall. Canlyniad yr unig osodiad na chafodd ei effeithio'n

ystadegol arwyddocaol oedd y gosodiad cyntaf sef 'Mwynhau gweithgareddau'r cylch'. Dyma'r unig osodiad nad yw pa mor hen yw'r plentyn yn effeithio'n arwyddocaol ar ei ganlyniad. Nid oedd y cydberthyniad rhwng oedran y plant a'u canlyniadau'n uchel iawn. Y cydberthyniad uchaf oedd ar gyfer yr eitem 'Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg'. Felly ar eu gallu i ddeall ac ymateb i sgwrs Gymraeg mae eu hoedran yn cael y mwyaf o effaith. Wrth gwrs, rhaid cofio bod cysylltiad agos rhwng pa mor hir y bu'r plant yn y cylch a'u hoedran ac felly nid eu hoedran yn unig sy'n cael ei fesur yma o bosib. Roedd canlyniadau'r plant yn well po hynaf yr oeddynt ar gyfer canlyniad pob gosodiad yn Adran Gwranddo a Deall.

Yn Adran Siarad a Chyfathrebu, fel yn yr adran flaenorol, roedd oedran y plant yn cael effaith ystadegol arwyddocaol ar ganlyniad pob gosodiad ond un. Y tro hwn yr unig gydberthyniad nad oedd yn dangos effaith ystadegol oedran oedd 'Dwyn i gof rigymau a chaneuon cyfarwydd'. Nid oedd oedran y plant yn cael effaith ystadegol arwyddocaol ar eu gallu i gofio rhigymau a chaneuon Cymraeg. Unwaith eto, nid oedd y cydberthyniad yn gryf iawn rhwng oedran y plant a'u canlyniadau. Gwelwyd y cydberthyniadau cryfaf ar gyfer canlyniadau y gosodiadau canlynol: 'Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol' a 'Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau'. Mae'n debyg bod y gosodiadau hyn ymysg y rhai mwyaf uchelgeisiol yn y ffurflen.

Yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnarn, er nad oedd cydberthyniad ystadegol arwyddocaol rhwng oedran y plant a chanlyniadau dau osodiad, yn gyffredinol roedd y cydberthyniadau eraill yn gryfach nag a welwyd yn y ddwy adran flaenorol. Nid oedd oedran y plant yn cael effaith ystadegol arwyddocaol ar ganlyniadau'r ddau osodiad yn ymwneud â mwynhau edrych ar lyfrau ar eu pen eu hunain a chydag oedolyn. Roedd cydberthyniad cymharol gryf rhwng oedran y plant a'u gallu i ddyfalu beth fyddai'n digwydd nesaf mewn stori, i ddeall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain ac i adnabod rhai llythrennau a geiriau syml. Roeddynt hefyd yn llawer mwy tebygol o fwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli llythrennau neu eiriau Cymraeg ac i ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml.

Yng nghanlyniadau pob gosodiad yn y dair adran, po hynaf oedd y plentyn y mwyaf tebygol oedd o gael canlyniad gwell.

7.4.3.2.2 Dyddiad Dechrau

Gofynnwyd i'r arweinyddion nodi'r mis a'r flwyddyn y dechreuodd pob plentyn yn y cylch er mwyn gweld pa effaith a gaiff hyd yr amser y buont yn y cylch ar ganlyniadau'r dair adran.

Tabl 7.23 Cydberthyniad Dyddiad Dechrau – Adran Gwrando a Deall

		r	p
1	Mwynhau gweithgareddau'r cylch.	-0.062	0.029
2	Mwynhau gwyllo teledu / fideos / gwrando ar dapiau sain Cymraeg.	-0.094	0.001
3a	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – un i un gyda'r arweinydd.	-0.068	0.017
3b	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp bychan.	-0.037	0.195
3c	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp mawr.	-0.019	0.508
4	Gwrando gyda diddordeb a mwynhad ar stori Gymraeg.	-0.036	0.208
5	Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori.	-0.042	0.140
6	Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg.	-0.046	0.105
7	Dangos eu bod yn deall rhywfaint o gynnwys caneuon a rhigymau	-0.062	0.030
8	Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau syml yn Gymraeg.	-0.039	0.171
9	Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg.	-0.027	0.342

Tabl 7.24 Cydberthyniad Dyddiad Dechrau – Adran Siarad a Chyfathrebu

		r	P
1	Dwyn i gof rigymau a chaneuon cyfarwydd.	-0.080	0.005
2	Ateb cwestiynau syml.	-0.058	0.041
3	Defnyddio geiriau cyffredin –anifeiliaid, lliwiau, tegau ayyb.	-0.078	0.007
4	Dangos awydd ac ymdrech i siarad.	-0.056	0.050
5	Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml.	-0.051	0.078
6	Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell.	-0.022	0.441
7	Sgwrsio gydag oedolyn yn ddigymell.	-0.037	0.199
8	Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol.	-0.043	0.129
9	Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrandio arni.	-0.022	0.438
10	Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau.	-0.038	0.189
11	Defnyddio ychydig o iaith fathemategol mewn cyd-destunau perthnasol – siâp, safle, maint a swm.	-0.106	0.0001

Tabl 7.25 Cydberthyniad Dyddiad Dechrau – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar

		r	p
1	Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn.	-0.070	0.014
2	Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg ar ei ben ei hun.	-0.069	0.016
3	Deall y berthynas rhwng geiriau a lluniau.	-0.087	0.002
4	Ymateb i gynnwys llyfr.	-0.069	0.015
5	Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori.	-0.063	0.028
6	Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain.	-0.040	0.164
7	Adnabod rhai llythrennau.	-0.070	0.015
8	Cyfathrebu drwy lun neu farciau a thrafod yr hyn a gyflëir.	-0.065	0.025
9	Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli llythrennau / geiriau.	-0.064	0.026
10	Adnabod geiriau syml / cyfarwydd yn Gymraeg.	-0.036	0.173
11	Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy.	-0.001	0.973

Yn Adran Gwrandio a Deall dim ond pedwar gosodiad sy'n cael eu heffeithio'n ystadegol arwyddocaol gan ddyddiad dechrau'r plant sef 'Mwynhau gweithgareddau'r cylch,' 'Mwynhau gwyllo teledu / fideos / gwrandio ar dapiau sain Cymraeg,'

‘Gwrandu’n ofalus ac ymateb yn briodol – un i un gyda’r arweinydd,’ ‘Dangos eu bod yn deall rhywfaint o gynnwys caneuon a rhigymau Cymraeg.’

Ymddengys fod pa mor hir y bu plant yn mynychu’r cylch yn cael effaith mwy sylweddol ar Adran Siarad a Chyfathrebu gyda phum gosodiad yn cael eu heffeithio’n ystadegol arwyddocaol. Y gosodiadau sy’n dangos gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol yw ‘Dwyn i gof rigymau a chaneuon cyfarwydd,’ ‘Ateb cwestiynau syml,’ ‘Defnyddio geiriau cyffredin – enwau rhannau o’r corff, anifeiliaid, lliwiau, teganau ayyb.’ ‘Dangos awydd ac ymdrech i siarad’ a ‘Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml.’ Roedd y gosodiad ‘Defnyddio ychydig o iaith fathemategol mewn cyd-destunau perthnasol – siâp, safle, maint a swm’ hefyd yn dangos gwahaniaeth a oedd yn ymylu at fod yn arwyddocaol.

Ymddengys fod hyd yr amser y bu’r plant yn mynychu’r cylch meithrin yn cael effaith ystadegol arwyddocaol ar ganlyniadau wyth gosodiad yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Tri gosodiad yn unig nad oedd yn cael eu heffeithio’n arwyddocaol gan ddyddiad dechrau’r plant yn y cylch sef ‘Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain,’ ‘Adnabod geiriau syml / cyfarwydd yn Gymraeg’ ac ‘Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy.’

Yn y tair adran roedd pob gosodiad yn dangos bod cynyddu hyd yr amser yn y cylch yn cyfateb i ganlyniadau gwell. Er hyn bychan iawn yw’r cydberthyniad rhwng hyd yr amser y bu’r plant yn y cylch a’u canlyniadau. Roedd pob plentyn yn y sampl hwn wedi bod yn mynychu cylch meithrin ers dros ddeg mis, felly nid oedd llawer o amrywiaeth o ran yr amser y bu’r plant yn mynychu’r cylch.

7.4.3.2.3 Nifer Sesiynau

Yn y tablau isod rhoddir y cydberthyniadau rhwng canlyniadau'r plant a'r nifer o sesiynau a fynychant yr wythnos. Disgwylid y bydd cynnydd yn y nifer o sesiynau yn cyd-fynd â chynnydd mewn datblygiad iaith.

Tabl 7.26 Cydberthyniad Nifer Sesiynau – Adran Gwrando a Deall

		r	p
1	Mwynhau gweithgareddau'r cylch.	0.073	0.010
2	Mwynhau gwyllo teledu / fideos / gwrando ar dapiau sain Cymraeg.	0.110	0.0001
3a	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – un i un gyda'r arweinydd.	0.096	0.001
3b	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp bychan.	0.133	0.0001
3c	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp mawr.	0.149	0.0001
4	Gwrando gyda diddordeb a mwynhad ar stori Gymraeg.	0.096	0.001
5	Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori.	0.104	0.0001
6	Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg.	0.093	0.001
7	Dangos eu bod yn deall rhywfaint o gynnwys caneuon a rhigymau.	0.096	0.001
8	Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau syml yn Gymraeg.	0.095	0.001
9	Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg.	0.085	0.003

Tabl 7.27 Cydberthyniad Nifer Sesiynau – Adran Siarad a Chyfathrebu

		r	p
1	Dwyn i gof rigymau a chaneuon cyfarwydd.	0.117	0.0001
2	Ateb cwestiynau syml.	0.138	0.0001
3	Defnyddio geiriau cyffredin –anifeiliaid, lliwiau, tegau ayyb.	0.106	0.0001
4	Dangos awydd ac ymdrech i siarad.	0.107	0.0001
5	Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml.	0.101	0.0001
6	Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell.	0.009	0.752
7	Sgwrsio gydag oedolyn yn ddigymell.	0.045	0.118
8	Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol.	0.111	0.0001
9	Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrandio arni.	0.110	0.0001
10	Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau.	0.110	0.0001
11	Defnyddio ychydig o iaith fathemategol mewn cyd-destunau perthnasol – siâp, safle, maint a swm.	0.040	0.166

Tabl 7.28 Cydberthyniad Nifer Sesiynau – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnau

		r	p
1	Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn.	0.042	0.143
2	Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg ar ei ben ei hun.	0.018	0.530
3	Deall y berthynas rhwng geiriau a lluniau.	0.054	0.590
4	Ymateb i gynnwys llyfr.	0.098	0.001
5	Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori.	0.128	0.0001
6	Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain.	0.101	0.0001
7	Adnabod rhai llythrennau.	0.138	0.0001
8	Cyfathrebu drwy lun neu farciau a thrafod yr hyn a gyflëir.	0.071	0.014
9	Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli llythrennau / geiriau.	0.088	0.002
10	Adnabod geiriau syml / cyfarwydd yn Gymraeg.	0.108	0.0001
11	Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy.	0.064	0.027

Yn Adran Gwrandio a Deall ymddengys bod y nifer o sesiynau a fynychir yr wythnos yn cael effaith ystadegol arwyddocaol ar bob un o'r 11 canlyniad. Ar gyfer

pob gosodiad mae cynyddu'r nifer o sesiynau a fynychir bob wythnos yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau'r plant.

Yn Adran B sef Adran Siarad a Chyfathrebu yn Gymraeg ymddengys bod y nifer o sesiynau a fynychir bob wythnos yn cael effaith ystadegol arwyddocaol ar wyth o'r 11 gosodiad. Felly, canlyniad tri gosodiad yn unig sydd heb eu heffeithio'n arwyddocaol gan nifer y sesiynau a fynychir, y tri gosodiad yw 'Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell', 'Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrandio arni' a 'Defnyddio ychydig o iaith fathemategol mewn cyddestunau perthnasol – siâp, safle, maint a swm.' Unwaith eto, roedd canlyniad pob gosodiad yn cael eu heffeithio'n gadarnhaol drwy gynyddu'r nifer o sesiynau a fynychir yr wythnos.

Ymddengys fod y nifer o sesiynau a fynychir yr wythnos yn cael effaith ystadegol arwyddocaol ar wyth o'r 11 gosodiad yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Tri gosodiad sydd heb eu heffeithio'n ystadegol arwyddocaol sef, 'Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn,' 'Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg ar ei ben ei hun' a 'Deall y berthynas rhwng geiriau a lluniau.' Fel yn y ddwy adran flaenorol mae cynyddu'r nifer o sesiynau a fynychir yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniad pob gosodiad. Bychan iawn yw'r cydberthyniad rhwng nifer y sesiynau a'r canlyniadau, er hyn gellir nodi eu bod ychydig yn uwch yn Adran Siarad a Chyfathrebu. Gellir nodi felly bod y nifer o sesiynau a fynychir yn cael ychydig mwy o ddylanwad ar Adran Siarad a Chyfathrebu nag ar ganlyniadau'r ddwy adran arall, er bod y cydberthyniadau yn fychan iawn.

7.4.3.2.4 Iaith y Teulu

Fel y gwnaed yn Ymchwiliad 2, er mwyn hwyluso dadansoddi'r canlyniadau cyfunwyd canlyniadau cwestiwn 5 ar y Ffurflen Datblygiad Iaith i un amrywiad, sef iaith y teulu. Lle nodwyd pa iaith a ddefnyddir gyda'r ddau riant rhoddwyd sgôr newydd i'r plentyn a'i alw'n iaith y teulu. Pan nodwyd yr iaith a ddefnyddir gyda un rhiant yn unig ni roddwyd sgôr newydd o iaith y teulu i'r plentyn. Ni chynhwyswyd 117 plentyn yn y dadansoddiad hwn oherwydd hyn. Cyfrifwyd y sgôr newydd trwy

adio sgoriau'r ddau riant yn y tabl. Felly'r po leiaf y rhif, y mwyaf o Gymraeg a ddefnyddir gan y teulu

Cymraeg drwy'r amser / bron drwy'r amser.	1
Cymraeg mwy na Saesneg.	2
Cymraeg a Saesneg tua chyfartal.	3
Saesneg mwy na Chymraeg.	4
Saesneg drwy'r amser / bron drwy'r amser.	5

Yn y tablau isod rhoddir canlyniadau'r dadansoddiad cydberthyniad rhwng yr amrywiad iaith y teulu a chanlyniadau'r plant yn y dair adran ar y Ffurflen Datblygiad Iaith.

Tabl 7.29 Cydberthyniad Iaith y Teulu – Adran Gwranddo a Deall

		r	p
1	Mwynhau gweithgareddau'r cylch.	-0.096	0.001
2	Mwynhau gwyllo teledu / fideos / gwranddo ar dapiau sain Cymraeg.	-0.253	0.0001
3a	Gwranddo'n ofalus ac ymateb yn briodol – un i un gyda'r arweinydd.	-0.219	0.0001
3b	Gwranddo'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp bychan.	-0.251	0.0001
3c	Gwranddo'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp mawr.	-0.274	0.0001
4	Gwranddo gyda diddordeb a mwynhad ar stori Gymraeg.	-0.300	0.0001
5	Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori.	-0.329	0.0001
6	Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg.	-0.177	0.0001
7	Dangos eu bod yn deall rhywfaint o gynnwys caneuon a rhigymau.	-0.319	0.0001
8	Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau syml yn Gymraeg.	-0.383	0.0001
9	Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg.	-0.545	0.0001

Tabl 7.30 Cydberthyniad Iaith y Teulu – Adran Siarad a Chyfathrebu

		r	p
1	Dwyn i gof rigymau a chaneuon cyfarwydd.	-0.197	0.0001
2	Ateb cwestiynau syml.	-0.387	0.0001
3	Defnyddio geiriau cyffredin –anifeiliaid, lliwiau, tegau ayyb.	-0.401	0.0001
4	Dangos awydd ac ymdrech i siarad.	-0.477	0.0001
5	Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml.	-0.491	0.0001
6	Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell.	-0.685	0.0001
7	Sgwrsio gydag oedolyn yn ddigymell.	-0.642	0.0001
8	Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol.	-0.547	0.0001
9	Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrandio arni.	-0.524	0.0001
10	Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau.	-0.576	0.0001
11	Defnyddio ychydig o iaith fathemategol mewn cyd-destunau perthnasol – siâp, safle, maint a swm.	-0.378	0.0001

Tabl 7.31 Cydberthyniad Iaith y Teulu – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar

		r	p
1	Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn.	-0.170	0.0001
2	Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg ar ei ben ei hun.	-0.209	0.0001
3	Deall y berthynas rhwng geiriau a lluniau.	-0.254	0.0001
4	Ymateb i gynnwys llyfr.	-0.332	0.0001
5	Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori.	-0.305	0.0001
6	Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain.	-0.260	0.0001
7	Adnabod rhai llythrennau.	0.166	0.0001
8	Cyfathrebu drwy lun neu farciau a thrafod yr hyn a gyflëir.	0.130	0.0001
9	Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli llythrennau / geiriau.	-0.287	0.0001
10	Adnabod geiriau syml / cyfarwydd yn Gymraeg.	-0.245	0.0001
11	Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy.	-0.252	0.0001

Ymddengys fod yr amrywiad 'Iaith y teulu' yn cael effaith ystadegol arwyddocaol ar bob gosodiad yn y dair adran, Adran Gwrandio a Deall, Adran Siarad a Chyfathrebu ac Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Roedd y cydberthyniad rhwng iaith y teulu a chanlyniadau'r plant gryfaf yn Adran Siarad a Chyfathrebu, yn arbennig

felly yn eitemau chwech i ddeg sef, ‘Defnyddio’r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell’, ‘Sgwrsio gydag oedolyn yn ddigymell’, ‘Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol’ ‘Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrandao arni’ a ‘Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau’. Hefyd yn Adran Gwrandao a Deall roedd y berthynas rhwng iaith y teulu a chanlyniadau eitem naw ‘Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg’ yn nes na gweddill yr adran. Ymddengys bod yr amrywiad hwn wedi achosi’r cydberthyniadau uchaf o’r holl amrywiadau a ddadansoddwyd. Gellid gweld o’r cydberthyniadau negyddol mai’r mwyaf o Gymraeg a siaredir gan y rhieni y gorau yw’r canlyniadau.

7.4.3.3 Dimensiynau

Cynnwys y ffurflen dair Adran, adrannau A, B ac C ac ymhob adran ceir nifer o osodiadau. Ymchwiliwyd yn ystadegol er mwyn gweld a oedd y gosodiadau o fewn pob adran yn mesur un dimensiwn, dau neu fwy. Drwy wneud hyn datgelir a yw’r adran yn un undimensiynol neu’n aml-ddimensiynol. Gwnaed hyn drwy roi eitemau pob graddfa mewn dadansoddiad amrywiad llinol.

7.4.3.3.1 Defnydd o Ddadansoddiad Newidynnau Cudd yn yr Ymchwil

Er mwyn darganfod sawl dimensiwn a oedd i’r gosodiadau yn nhair adran y ffurflen, Gwrandao a Deall, Siarad a Chyfathrebu a Sgiliau Llythrennedd Cynnar, gwnaed dadansoddiad amrywiad llinol (a elwir hefyd yn ddadansoddiad ffactoraidd) ar y tair adran. Bwriad hyn oed cydberthyn yr holl osodiadau gyda’i gilydd ac yna eu trefnu mewn categorïau.

Drwy ddefnyddio dadansoddiad ffactoraidd, archwilir undimensiynolrwydd ffactorau unigol a hefyd bydd yn sicrhau bod yr eitemau yn mesur yr un endid os yw’r strwythur gwaelodol yn dangos aml-ddimensiynolrwydd.

Cyflwynwyd y gosodiadau ym mhob adran yn unigol i'r dadansoddiad ffactoraidd a grwpiodd y dadansoddiad hwn hwy i gategoriâu amrywiol o osodiadau â pherthynas agos â'i gilydd.

No special emphasis is placed on any of the individual variables in factor analysis although the generated structure may highlight the dominant role of particular measures.

(Youngman, 1979, 111)

Mae gan bob gosodiad ym mhob dimensiwn bwysau a'r uchaf yw'r pwysau, y mwyaf o bwysau sydd gan y gosodiad ar y dimensiwn. Yna rhaid sgwario'r pwysau a'u adio ac fe'u hychwanegir at ei gilydd i roi'r *eigenvalue* sy'n cyflwyno swm o amrywiant mae pob dimensiwn wedi ei gyfrannu i gyfanswm amrywiant yr holl eitemau ym mhob adran o'r ffurflen.

Penderfynir ar y nifer o ffactorau (dimensiynau) i'w tynnu allan drwy lunio graff *scree* gyda'r *eigenvalue* wedi ei blotio yn erbyn rhif y ffactor. Mae'r nifer o ffactorau sy'n ymddangos cyn y llinell syth neu *scree* yn dangos y nifer o ffactorau i'w tynnu allan. I wneud yn siŵr o'r datrysiad, tynnwyd allan ddatrysiadau ychwanegol ar gyfer yr eitemau ym mhob adran i weld pa ddatrysiad oedd y mwyaf dehongladwy. Cymharwyd y datrysiadau hyn ac fe arweiniodd hyn yr ymchwilydd at y datrysiad mwyaf addas.

Dechreuodd y dadansoddiad ffactoraidd drwy gyfrifo y *Communalities* drwy ddefnyddio'r dull *Principal Axis Extraction*. Cyflwynodd y rhaglen fatrics o *eigenvalues* dechreuol ynghyd â chylch droad o symiau pwysiad wedi eu sgwario. Yn dilyn llunio graff *scree*, penderfynwyd yn ddechreuol ar y nifer o ffactorau. Yna caed matrices gyda phwysiad (*loadings*) o'r holl osodiadau â phwysiad arwyddocaol gan ddechrau gyda'r uchaf ac yna fe'u dehonglwyd. Penderfynwyd ar isafswm gwerth arwyddocaol drwy gyfeirio at dabl C2 Child (Child, 1970, 100) wedi ei seilio ar fformiwla Burt – Banks (Child, 1970, 97). Anwybyddwyd amrywiadau â phwysiad isel iawn, tra archwiliwyd a dehonglwyd rhai â phwysiad uchel. Gall pwysiad isel fod yn arwydd o osodiadau sy'n isel mewn dilysrwydd neu sy'n benodol, idiosyncratig neu'n unigryw.

Mae Adran A, sef Adran Gwrando a Deall yn cynnwys 11 gosodiad yn ymwneud ag agweddau ar sgiliau gwrando a deall o fewn y cylch meithrin. Rhoddwyd yr 11 gosodiad mewn dadansoddiad amrywiad llinol. Awgrymodd dadansoddiad o'r plot *scree* (Atodiad 25) ac archwiliad o wahanol ganlyniadau wedi eu cylchdroi bresenoldeb dim ond un dimensiwn gyda'r gosodiadau dros 0.40. Penderfynwyd ar yr isafswm drwy ddilyn fformiwla Burt-Banks a chyfeirio at Baker (1992). Defnyddiwyd dull echdynnu *Principal Axis Factoring*.

Cynhyrchodd y dadansoddiad amrywiad llinol y graddfeydd canlynol :-

Tabl 7.32 Dadansoddiad Ffactoraidd – Adran Gwrando a Deall

Adran Gwrando a Deall: Ffactor Cyffredinol	
Gwrando'n ofalus - grŵp bach	0.847
Gwrando gyda diddordeb a mwynhad ar stori	0.843
Gwrando'n ofalus - un i un	0.837
Dangos eu bod yn deall rhywfaint o gynnwys caneuon	0.830
Dangos dealltwriaeth o stori Gymraeg	0.811
Gwrando'n ofalus - grŵp mawr	0.809
Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau	0.801
Ymuno mewn caneuon a rhigymau	0.788
Deall ac ymateb i sgwrs	0.734
Mwynhau teledu	0.638
Mwynhau gweithgareddau	0.495

Mae Adran B, sef Adran Siarad a Chyfathrebu yn cynnwys 11 gosodiad yn ymwneud â siarad a chyfathrebu yn Gymraeg yn y cylch meithrin. Rhoddwyd yr 11 gosodiad yn y dadansoddiad amrywiad llinol. Unwaith eto, awgrymodd dadansoddiad o'r plot *scree* (Atodiad 26) ac archwiliad o wahanol ganlyniadau cylch droad bresenoldeb dim ond un dimensiwn.

Tabl 7.33 Dadansoddiad Ffactoraidd – Adran Siarad a Chyfathrebu

Adran Siarad a Chyfathrebu: Ffactor Cyffredinol	
Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol	0.897
Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml	0.893
Siarad am stori gyfarwydd	0.890
Defnyddio'r Gymraeg gydag oedolyn	0.886
Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau	0.886
Dangos awydd ac ymdrech i siarad	0.863
Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill	0.840
Ateb cwestiynau syml	0.808
Defnyddio geiriau cyffredin	0.780
Defnyddio ychydig o iaith fathemategol	0.755
Dwyn i gof rigymau a chaneuon cyfarwydd	0.583

Mae Adran C, sef Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar yn cynnwys 11 gosodiad yn ymwneud â sgiliau llythrennedd cynnar yn y cylch meithrin gan gynnwys sgiliau darllen ac ysgrifennu cynnar. Rhoddwyd yr 11 gosodiad yn y dadansoddiad amrywiad llinol. Awgrymodd dadansoddiad o'r plot *scree* (Atodiad 27) ac archwiliad o wahanol ganlyniadau wedi'u cylchdroi bresenoldeb dau ddimensiwn. Rhestrir y dimensiwn cyntaf isod gyda phwysiad gosodiadau dros 0.40 a rhestrir yr ail ddimensiwn gyda phwysiad gosodiadau dros 0.35.

Tabl 7.34 Dadansoddiad Ffactoraidd – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar – Ffactor 1

Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar: Ffactor - Gallu mewn llythrennedd cynnar	
Mwynhau gwneud marciau - cynrychioli llythrennau / geiriau	0.822
Adnabod rhai llythrennau	0.804
Adnabod geiriau syml / cyfarwydd	0.786
Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain	0.769
Cyfathrebu drwy lun / farciau + trafod	0.751
Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg yn ddealladwy	0.707
Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori	0.652
Deall y berthynas rhwng geiriau a lluniau	0.619
Ymateb i gynnwys llyfr	0.601

Tabl 7.35 Dadansoddiad Ffactoraidd – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar – Ffactor 2

Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar: Ffactor 2 – Mwynhau llythrennedd cynnar	
Mwynhau edrych ar lyfrau - ar ei ben ei hun	0.846
Mwynhau edrych ar lyfrau - gydag oedolyn	0.821
Ymateb i gynnwys llyfr	0.588
Deall y berthynas rhwng geiriau a lluniau	0.504
Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori	0.500
Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain	0.383

7.4.3.3.2 Newidynnau sy'n dylanwadu ar y ffactorau

Mae'r Ffurflen Datblygiad Iaith yn cynnwys tair adran, pob un yn cynnwys graddfa o 11 eitem. Gwnaed dadansoddiad i weld a oedd yr eitemau o fewn pob graddfa yn mesur un endid neu fwy, a thrwy hynny weld a yw'r raddfa yn unddimensiynol neu'n amlddimensiynol. Defnyddiwyd y dull dadansoddiad amrywiad llinol. Penderfynwyd ar nifer arbennig o ffactorau yn dilyn archwilio'r graff *scree*. Ar ôl gwneud archwiliad o'r amrywiol osodiadau sydd â'r pwysiad uchaf ar bob ffactor, rhoddwyd enw ar bob ffactor.

Yn y tablau isod cyflwynir y newidynnau a effeithiodd yn ystadegol arwyddocaol ar y dimensiynau a welir uchod.

Tabl 7.36 Newidynnau Pwysicaf – Adran Gwranddo a Deall

Newidyn Pwysicaf	r	MultR	Beta	p
Iaith Teulu	-0.342	0.117	0.353	0.0001
Sesiynau	0.091	0.132	0.125	0.0001
Rhyw	0.116	0.146	0.119	0.0001
Newidynnau heb eu cynnwys yn yr hafaliad				
Dyddiad geni	-0.016			0.603
Dyddiad dechrau	-0.055			0.540

Tabl 7.37 Newidynnau Pwysicaf – Adran Siarad a Chyfathrebu

Newidyn Pwysicaf	r	MultR	Beta	p
Iaith Teulu	-0.595	0.595	0.608	0.0001
Sesiynau	0.093	0.613	0.148	0.0001
Rhyw	0.075	0.618	0.079	0.0001
Newidynnau heb eu cynnwys yn yr hafaliad				
Dyddiad geni	-0.002			0.935
Dyddiad dechrau	-0.066			0.720

Tabl 7.38 Newidynnau Pwysicaf – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar – Ffactor 1

Newidyn Pwysicaf	r	MultR	Beta	p
Iaith Teulu	-0.295	0.295	-0.306	0.0001
Sesiynau	0.099	0.321	0.128	0.0001
Rhyw	0.055	0.326	0.059	0.042
Newidynnau heb eu cynnwys yn yr hafaliad				
Dyddiad geni	-0.035			0.257
Dyddiad dechrau	-0.079			0.110

Tabl 7.39 Newidynnau Pwysicaf – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar – Ffactor 2

Newidyn Pwysicaf	r	MultR	Beta	p
Iaith teulu	-0.202	0.202	0.202	0.0001
Rhyw	0.093	0.222	0.093	0.002
Newidynnau heb eu cynnwys yn yr hafaliad				
Dyddiad Geni	0.012			0.704
Dyddiad Dechrau	-0.066			0.096
Sesiynau	0.016			0.212

Gellir gweld o'r tablau uchod mai'r amrywiadau oedd yn effeithio fwyaf ar ganlyniadau'r plant ar y pedwar dimensiwn oedd iaith y teulu, y nifer o sesiynau a

fynychant yr wythnos a'u rhyw. Nid oedd y nifer o sesiynau a fynychai'r plant yn newidyn pwysig yn y ffactor mwynhau llythrennedd cynnar.

Nid oedd eu hoedran na pha mor hir y buont yn mynychu'r cylch yn newidynnau pwysig. Nid yw hyn yn syndod gan nad oedd llawer o amrywiaeth yn eu hoedran ac roedd pob plentyn yn y sampl hwn wedi bod yn mynychu cylch ers dros ddeg mis, felly nid oedd y gwahaniaeth mawr rhwng plant a oedd newydd ddechrau yn y cylch a rhai oedd wedi bod yn mynychu'r cylch ers dros flwyddyn.

Fel a welwyd yn Ymchwiliad 2 y newidyn pwysicaf yn y pedwar ffactor yw iaith y teulu. Mae'n galonogol i weld y newidyn nifer y sesiynau fel newidyn pwysig mewn tri o'r pedwar dimensiwn gan ddangos bod y nifer o sesiynau y mae plant yn eu mynychu yn cael effaith ar eu canlyniadau.

Y newidyn pwysig arall yn y pedwar dimensiwn oedd rhyw'r plant. Fel y gwelwyd mewn dadansoddiadau blaenorol, roedd canlyniadau'r merched yn well na chanlyniadau'r bechgyn. Mae'n ddiddorol gweld bod effaith rhyw'r plant yn bwysicach na'u hoedran a pha mor hir y buont yn mynychu'r cylch.

7.4.3.4 Casgliadau Cymariaethau Ymchwiliad 3

Yn rhan gyntaf y bennod hon trafodwyd canlyniadau Ymchwiliad 3.

Yn y rhan hon o'r bennod cyflwynwyd a dadansoddwyd cydberthyniadau rhwng canlyniadau Ymchwiliad 3 ar sail rhyw ac oedran y plant, pa mor hir y buont yn mynychu'r cylch, y nifer o sesiynau yr wythnos a fynychant ac iaith y teulu. Roedd rhyw'r plant yn effeithio'n ystadegol arwyddocaol ar ganlyniadau'r plant yn Ymchwiliad 3 mewn rhai achosion. Roedd eu rhyw'n effeithio'n ystadegol arwyddocaol ar ganlyniadau un gosodiad yn Adran Gwrandu a Deall, saith gosodiad yn Adran Siarad a Chyfathrebu a naw gosodiad yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Felly roedd rhyw'r plant yn cael mwy o effaith ar ganlyniadau Adran Gwrandu a Deall ac Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar nag ar ganlyniadau Adran Siarad a Chyfathrebu. Roedd cymedr canlyniadau'r merched yn well na chymedr

canlyniadau'r bechgyn bob tro. Roedd oedran y plant yn effeithio'n ystadegol arwyddocaol ar ganlyniadau deg gosodiad yn Adran Gwrandu a deall a deg gosodiad yn Adran Siarad a Chyfathrebu. Nid oedd cydberthyniad cryf rhwng oedran y plant a'r canlyniadau. Roedd eu hoedran yn effeithio'n ystadegol arwyddocaol ar ganlyniadau naw o'r gosodiadau yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Roedd y cydberthyniadau yn yr adran hon yn gryfach nac yn y ddwy adran arall. Yng nghanlyniadau pob gosodiad, po hynaf y plentyn y mwyaf tebygol yr oedd o gael canlyniad gwell. Nid oedd pa mor hir y bu'r plant yn mynychu'r cylch yn ymddangos fel pe bai'n cael cymaint o ddylanwad ar ganlyniadau'r plant â'u hoedran. Fodd bynnag effeithiodd hyd y cyfnod y buont yn mynychu'r cylch yn ystadegol arwyddocaol ar ganlyniadau pedwar gosodiad yn Adran Gwrandu a Deall, pump yn Adran Siarad a Chyfathrebu ac wyth yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Roedd canlyniad pob gosodiad yn dangos bod cynnydd yn yr amser y bu'r plant yn mynychu cylch meithrin yn cyfateb i ganlyniadau gwell. Er hyn nid oedd cydberthyniad cryf iawn rhwng hyd yr amser y bu'r plant yn mynychu cylch meithrin a'u canlyniadau. Roedd y nifer o sesiynau yr wythnos a fynychai'r plant yn cael effaith ystadegol arwyddocaol ar ganlyniadau pob gosodiad yn Adran Gwrandu a Deall, wyth gosodiad yn Adran Siarad a Chyfathrebu ac wyth gosodiad yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Yn y dair adran roedd cynnydd yn nifer y sesiynau yn golygu bod canlyniadau'r plant yn well, er hyn roedd y cydberthyniadau rhwng y nifer o sesiynau a chanlyniadau'r plant yn fychan. Nid oedd pa gylch a fynychai'r plant yn cael effaith ystadegol arwyddocaol ar ganlyniadau llawer o'r gosodiadau. Dim ond ar ganlyniadau dau osodiad yn Adran Gwrandu a Deall, saith gosodiad yn Adran Siarad a Chyfathrebu a dau yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar yr effeithiodd pa gylch a fynychai'r plant yn ystadegol arwyddocaol. Roedd cefndir ieithyddol y plant yn cael effaith ystadegol arwyddocaol ar ganlyniadau pob gosodiad ar y ffurflen. Roedd y cydberthyniad yn gryfach ar gyfer yr amrywiad hwn nag ar gyfer yr amrywiadau blaenorol megis rhyw, oedran a sesiynau. Y mwyaf o Gymraeg a siaradai rhieni'r plant y gorau oedd y canlyniad. Dyma'r unig amrywiad a effeithiodd yn ystadegol arwyddocaol ar bob gosodiad ar y Ffurflen Datblygiad Iaith. Ymddengys bod iaith y teulu yn cael dylanwad pwysig iawn ar ganlyniadau'r plant, po fwyaf o Gymraeg a glyw'r plentyn yn y cartref, y gorau yw eu canlyniadau. Mae hyn yn cyd-fynd â darganfyddiadau ymchwil mewn gwledydd eraill, er enghraifft yn Iwerddon gwelwyd bod defnyddio unrhyw faint o'r iaith darged yn y cartref yn cael effaith ar gaffael iaith y plant (Hickey, 1999, 111).

Gwnaed dadansoddiad ffactoraidd i weld pa ffactorau oedd yn effeithio ar ddimensiynau gwahanol. Gwelwyd bod pedwar dimensiwn yn y ffurflen sef ffactor cyffredinol gwrando a deall, ffactor cyffredinol siarad a chyfathrebu, gallu mewn llythrennedd cynnar a mwynhau llythrennedd cynnar. Y newidynnau pwysicaf yn eu trefn oedd iaith y teulu, nifer y sesiynau a rhyw'r plant.

7.5 Cymharu Canlyniadau Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3

7.5.1 Cyflwyniad i Gymharu Canlyniadau Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3

Yn ail ran y bennod cymherir canlyniadau'r ymchwiliadau cenedlaethol a wnaed yn Hydref 2000 a Gorffennaf 2001. Yn gyntaf cymherir y canlyniadau ar ffurf canrannau dilys ac ar ffurf cymedrau'r canlyniadau. Yna dadansoddir y newidiadau a fu yn y canlyniadau gan edrych ar y grwpiau gwahanol ar sail rhyw, oedran, ardal ac iaith y teulu.

7.5.2 Amleddau

Isod rhoddir canlyniadau Ymchwiliad 2 (Hydref 2000) ac Ymchwiliad 3 (Gorffennaf 2001) ar ffurf canrannau dilys. Gosodir y canlyniadau ochr yn ochr er mwyn eu cymharu.

Tabl 7.40 Amleddau Adran Gwrando a Deall

Label	Amleddau Ymchwiliad 2				Amleddau Ymchwiliad 3			
	Fel arfer	Weithiau	Dechrau	Dim eto	Fel arfer	Weithiau	Dechrau	Dim eto
	%	%	%	%	%	%	%	%
1 Mwynhau gweithgareddau'r Cylch.	81.3	10.9	6.6	1.2	90.2	7.6	2.1	0.1
2 Mwynhau gwylio teledu / fideos / gwrando ar dapiau sain Cymraeg.	62.3	18.3	11.9	7.6	80.1	14.8	4.4	0.7
3a Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – un i un gyda'r arweinydd.	59.1	20	16.4	4.5	73.8	18.2	6.9	1
3b Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp bychan.	50.8	23.9	18.7	6.6	67.5	21.9	8.7	2
3c Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp mawr.	40.7	26	21.1	12.2	59.3	24.4	11.7	4.7
4 Gwrando gyda diddordeb a mwynhad ar stori Gymraeg.	50.8	23	18.1	8.1	66.4	22.1	9.4	2.1
5 Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori.	40.3	20.9	23.3	15.5	58.8	23.1	13.1	4.9
6 Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg.	49.1	19.4	22.3	9.2	67.2	22.6	7.7	2.6
7 Dangos eu bod yn deall rhywfaint o gynnwys caneuon a rhigymau Cymraeg.	39.8	21.3	25.2	13.8	61.8	22.7	12.2	3.4
8 Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau syml yn Gymraeg.	41.3	19.1	24.7	14.8	61.1	21	13.1	4.8
9 Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg.	36.1	14.3	22.7	27	52.2	20.8	15.8	11.2

Tabl 7.41 Amleddau Adran Siarad a Chyfathrebu

Label	Amleddau Ymchwiliad 2				Amleddau Ymchwiliad 3			
	Fel arfer	Weithiau	Dechrau	Dim eto	Fel arfer	Weithiau	Dechrau	Dim eto
	%	%	%	%	%	%	%	%
1 Dwyn i gof rigymau a chaneuon cyfarwydd.	46	19.5	22.8	11.7	68	19.5	10.4	2.2
2 Ateb cwestiynau syml.	38.3	17.4	23.9	20.4	61.1	19	14.4	5.5
3 Defnyddio geiriau cyffredin – enwau rhannau o'r corff, lliwiau ayyb.	40.7	17.1	27.4	14.9	63.2	19.4	13.5	4
4 Dangos awydd ac ymdrech i siarad.	35.9	15.9	24	24.2	55.5	17.3	17.4	9.8
5 Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml.	31.5	14.9	21.9	31.7	49.6	18.4	17.2	14.8
6 Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell.	22.7	9.4	13.6	54.4	34.3	13.2	18.7	33.8
7 Sgwrsio gydag oedolyn yn ddigymell.	23	11.3	15.2	50.4	37.3	13.8	19.5	29.4
8 Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol.	19.3	13.5	15.2	52	37.2	16.2	17.7	28.9
9 Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrandao arni.	17.3	14.5	19	49.2	33.5	17.7	21.3	27.5
10 Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau.	18.5	12.5	16.5	52.4	33	16.2	19.6	31.2
11 Defnyddio ychydig o iaith fathemategol mewn cyd-destunau perthnasol	20.3	16.3	26.7	36.7	40.9	21	21.9	16.2

Tabl 7.42 Amleddau Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar

Label	Amleddau Ymchwiliad 2				Amleddau Ymchwiliad 3			
	Fel arfer	Weithiau	Dechrau	Dim eto	Fel arfer	Weithiau	Dechrau	Dim eto
	%	%	%	%	%	%	%	%
1 Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn.	69.7	15.7	11.5	3.1	80.3	13.3	5.7	0.6
2 Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg ar ei ben ei hun.	55.3	21.3	16.1	7.2	73.8	17.2	7.1	1.8
3 Deall y berthynas rhwng geiriau a lluniau.	23.9	15.6	27.9	32.6	41.3	21.9	23.1	13.7
4 Ymateb i gynnwys llyfr.	26.7	22.1	28.5	22.7	47.1	24	21.6	7.3
5 Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori.	17.7	20.7	23.7	37.9	38.6	25.6	21.6	14.2
6 Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain.	12.2	12.6	26.6	48.6	28.3	20.8	26.5	24.4
7 Adnabod rhai llythrennau.	11.6	10.9	22.4	55.1	26.8	16.5	27.7	28.9
8 Cyfathrebu drwy lun neu farciau a thrafod yr hyn a gyflëir.	13.4	13	27	46.6	27.8	19.9	25.8	26.6
9 Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli llythrennau / geiriau Cymraeg.	8.9	11.1	22.4	57.6	20.5	19.6	24.6	35.3
10 Adnabod geiriau syml / cyfarwydd yn Gymraeg.	6.9	7	15.5	70.5	13.9	14	23.5	48.6
11 Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy.	2.9	3.5	7.7	85.8	7.7	7.4	16.6	68.3

Cynyddodd y canrannau yn y categori 'fel arfer' ar gyfer pob eitem yn y tair adran. Bu gostyngiad yng nghanrannau'r categori 'dim eto' ym mhob eitem drwy'r raddfa.

Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y categori 'fel arfer' ar gyfer rhai gosodiadau er enghraifft, cynyddodd y nifer yn y categori hwn o 38.3% ym mis Hydref 2000 i 61.1% yng Ngorffennaf 2001 ar gyfer y gosodiad 'Ateb cwestiynau syml', ac yn yr un modd o 26.7% i 47.1% ar gyfer y gosodiad 'Ymateb i gynnwys llyfr'. Gwelwyd hefyd enghreifftiau o'r canrannau yn y categori 'dim eto' yn gostwng yn sylweddol, er enghraifft yn y gosodiad 'Siarad am stori mewn ffordd gyfarwydd ar ôl gwrandao arni' a lle gwelwyd gostyngiad o 49.2% i 27.5%.

Dengys hyn, bod datblygiad cyffredinol wedi bod yn sgiliau ieithyddol y plant yn y sampl rhwng Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3, sef dros gyfnod o naw mis.

7.5.3 Cymariaethau

7.5.3.1 Newid Sgoriau Rhwng Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3

Y diffiniad naturiol o newid yw'r gwahaniaeth rhwng y sgôr gwreiddiol a'r sgôr terfynol. Yn anffodus, nid yw'r mesur hwn yn foddhaol gan nad yw'n cymryd i ystyriaeth fod gan rhywun sydd â sgôr isel ddigonedd o le i wella tra na fydd rhywun sydd â sgôr cychwynnol uchel yn debygol o symud llawer (Youngman, 1979, 190). Felly byddai'r plant oedd â sgôr isel i ddechrau yn debygol o gael sgôr newid uchel a rhai oedd â sgôr cychwynnol uchel yn debygol o gael sgôr newid bychan. Oherwydd hyn defnyddiwyd gweddilleb neu sgôr *residual* i ddadansoddi'r newid a fu rhwng canlyniadau'r plant yn Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3. Gweddilleb yw'r gwahaniaeth rhwng y sgôr disgwyliedig â'r sgôr a gafwyd mewn gwirionedd.

A residual score is the difference between an expected final score (predicted from the correlation between the two scores) and the actual final score. A positive gweddilleb implies that the individual does better than expected.
(Youngman, 1979, 191)

Mae cymedr gweddilleb bositif yn dynodi bod y plant, ar gyfartaledd, wedi perfformio'n well nag y byddai disgwyl o ystyried eu sgoriau cychwynnol a

gweddilleb negyddol yn dynodi nad ydynt ar gyfartaledd wedi gwneud cystal ag y disgwyl o ystyried eu sgoriau gwreiddiol.

7.5.3.2 Cymharu Cymedr Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3

Yn y tablau isod nodir cymedr canlyniadau pob gosodiad ar gyfer Ymchwiliad 2 (Hydref 2000) ac Ymchwiliad 3 (Gorffennaf 2001). Dangosir hefyd y newid a fu rhwng cymedr canlyniadau Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3. Dylid cofio bod y cymedrau wedi eu seilio ar y pedwar pwynt ar y raddfa bwyntiau ar y ffurflen sef ‘dim eto’, ‘dechrau’, ‘weithiau’ a ‘fel arfer’. Felly yr agosaf at bedwar yw'r cymedr yna yr agosaf at ‘fel arfer’ ydyw. Cymharwyd canlyniadau Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3 drwy ddefnyddio t-test. Defnyddir t-test pan fydd angen cymharu sgorau cymedr dau grŵp neu ddau grŵp o ddata gyda newidyn parhaol.

Tabl 7.43 Cymharu Cymedrau Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3- Adran Gwrando a Deall

	Y2 Nifer	Y2 Cymedr	Y2 sd	Y3 Nifer	Y3 Cymedr	Y3 sd	Newid yn Cymedr	t-test ar sgoriau gweddilleb	df	p
Mwynhau gweithgareddau'r Cylch.	1914	3.72	0.636	1259	3.88	0.393	0.16	9.737	1252	0.0001
Mwynhau gwylio teledu / fideos / gwrando ar dapiau sain	1839	3.35	0.96	1195	3.74	0.566	0.39	14.877	1169	0.0001
Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – un i un gyda'r	1903	3.34	0.907	1250	3.65	0.654	0.31	13.181	1236	0.0001
Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp bychan.	1892	3.19	0.961	1248	3.55	0.736	0.36	13.901	1228	0.0001
Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp mawr.	1858	2.95	1.05	1235	3.38	0.867	0.43	14.788	1199	0.0001
Gwrando gyda diddordeb a mwynhad ar stori Gymraeg.	1907	3.16	0.994	1253	3.53	0.75	0.37	14.423	1238	0.0001
Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori.	1900	2.86	1.112	1255	3.36	0.889	0.50	18.42	1237	0.0001
Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg.	1898	3.08	1.036	1254	3.54	0.744	0.46	18.729	1234	0.0001
Dangos eu bod yn deall rhywfaint o gynnwys caneuon a	1909	2.87	1.088	1253	3.43	0.831	0.56	21.721	1241	0.0001
Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau syml yn Gymraeg.	1914	2.87	1.112	1255	3.38	0.887	0.51	18.336	1246	0.0001

Tabl 7.44 Cymharu Cymedrau Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3- Adran Siarad a Chyfathrebu


	Y2 Nifer	Y2 Cymedr	Y2 sd	Y3 Nifer	Y3 Cymedr	Y3 sd	Newid yn Cymedr	t-test ar sgoriau gweddilleb	df	p
Dwyn i gof rhigymau a chaneuon cyfarwydd.	1908	3	1.075	1252	3.53	0.766	0.53	21.404	1239	0.0001
Ateb cwestiynau syml.	1904	2.74	1.17	1254	3.36	0.921	0.62	21.269	1239	0.0001
Defnyddio geiriau cyffredin – anifeiliaid, lliwiau, tegau ayyb.	1901	2.84	1.118	1249	3.42	0.868	0.58	21.526	1232	0.0001
Dangos awydd ac ymdrech i siarad.	1900	2.64	1.197	1246	3.18	1.043	0.54	17.968	1224	0.0001
Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml.	1893	2.46	1.23	1242	3.03	1.123	0.57	18.068	1217	0.0001
Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell.	1908	2	1.243	1249	2.48	1.27	0.48	15.296	1235	0.0001
Sgwrsio gydag oedolyn yn ddigymell.	1909	2.07	1.239	1246	2.59	1.256	0.52	16.965	1233	0.0001
Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol.	1905	2	1.194	1249	2.62	1.249	0.62	19.282	1234	0.0001
Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrandao	1909	2	1.153	1248	2.57	1.211	0.57	19.777	1234	0.0001
Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau.	1890	1.97	1.179	1242	2.51	1.239	0.54	19.549	1217	0.0001
Defnyddio ychydig o iaith fathemategol mewn cyd-destunau perthnasol	1908	2.2	1.141	1252	2.87	1.122	0.67	23.853	1211	0.0001

Tabl 7.45 Cymharu Cymedrau Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3- Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar


	Y2 Nifer	Y2 Cymedr	Y2 sd	Y3 Nifer	Y3 Cymedr	Y3 Sd	Newid yn Cymedr	t-test ar sgoriau gweddilleb	df	p
Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn.	1883	3.52	0.816	1240	3.73	0.591	0.21	10.911	1246	0.0001
Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg ar ei ben ei hun.	1911	3.25	0.971	1256	3.63	0.697	0.38	16.259	1241	0.0001
Deall y berthynas rhwng geiriau a lluniau.	1908	2.31	1.159	1254	2.91	1.089	0.60	20.965	1227	0.0001
Ymateb i gynnwys llyfr.	1902	2.53	1.113	1246	3.11	0.98	0.58	22.293	1225	0.0001
Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori.	1901	2.18	1.123	1245	2.89	1.077	0.71	26.102	1224	0.0001
Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain.	1898	1.88	1.043	1244	2.53	1.142	0.65	24.274	1229	0.0001
Adnabod rhai llythrennau.	1903	1.79	1.04	1245	2.41	1.166	0.62	23.488	1221	0.0001
Cyfathrebu drwy lun neu farciau a thrafod yr hyn a gyflëir.	1897	1.93	1.062	1244	2.49	1.157	0.56	18.737	1207	0.0001
Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli llythrennau /	1890	1.71	0.98	1231	2.25	1.143	0.54	20.149	1215	0.0001
Adnabod geiriau syml / cyfarwydd yn Gymraeg.	1894	1.5	0.898	1238	1.93	1.086	0.43	19.021	1235	0.0001
Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy.	1907	1.24	0.653	1248	1.54	0.927	0.30	15.119	1233	0.0001

Gwelwyd cynnydd yn y cymedr ar gyfer pob eitem yn y tair adran. Ar gyfartaledd cynyddodd y cymedr 0.51, sef ychydig dros hanner categori. Ar gyfartaledd cynyddodd y cymedr 0.43 yn Adran Gwrandio a Deall, 0.54 yn Adran Siarad a Chyfathrebu a 0.58 yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar, ond roedd mwy o le i wella yn yr adran hon. Yn Adran Gwrandio a Deall y gwelwyd y cynnydd lleiaf mewn cymedr ar gyfer un eitem, sef cynnydd o 0.16 ar gyfer yr eitem 'Mwynhau gweithgareddau'r cylch', ond dyma'r eitem gyda'r cymedr uchaf yn y raddfa yng nghanlyniadau Hydref felly nid oedd llawer o le i wella. Y cynnydd mwyaf yn Adran Gwrandio a Deall oedd 0.56, sef newid o fwy na hanner categori, ar gyfer yr eitem 'Dangos eu bod yn deall rhywfaint o gynnwys caneuon a rhigymau Cymraeg' Mae'n debyg bod hyn yn adlewyrchu'r defnydd o ganeuon a rhigymau Cymraeg yn y cylchoedd Meithrin. Yn Adran Siarad a Chyfathrebu amrywiai'r cynnydd o 0.48 ar gyfer yr eitem 'Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell' i 0.67 ar gyfer yr eitem 'Defnyddio ychydig o iaith fathemategol mewn cyd-destunau perthnasol – siâp, safle, maint a swm'. Yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar y gwelir y newid unigol mwyaf mewn cymedr sef 0.71 o gynnydd yng nghymedr yr atebion i'r gosodiad 'Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori'. Y cynnydd lleiaf yn yr adran hon oedd 0.21 ar gyfer eitem 'Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn'. Cynyddodd y cymedr o 3.52 i 3.73 felly roedd cymedr yr ymatebion i'r ymchwiliad gwreiddiol yn uchel iawn. Roedd y cynnydd yng nghymedr pob gosodiad rhwng Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3 yn ystadegol arwyddocaol. Dengys y graffiau isod yn glir y bu datblygiad yn rhwng y cymedrau rhwng Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3.


Ffigur 7.10 Cymharu Cymedrau Ymchwilad 2 ac Ymchwilad 3 – Adran Gwrando a Deall



Ffigwr 7.11 Cymharu Cymedrau Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3 – Adran Siarad a Chyfathrebu



Ffigwr 7.12 Cymharu Cymedrau Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3 – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar



7.5.3.3 Cydberthyniadau

7.5.3.3.1 Rhyw'r Plant a Datblygiad Ieithyddol

Yn y tablau isod cymherir canlyniadau'r bechgyn a'r merched yn Ymchwiliad 2 (Hydref 2000) ac Ymchwiliad 3 (Gorffennaf 2001). Dangosir y newid a fu yng nghymedr y bechgyn a'r merched rhwng Hydref 2000 a Gorffennaf 2001. Cymharwyd canlyniadau'r bechgyn â'r merched drwy ddefnyddio t-test.

Tabl 7.46 Cydberthyniad Rhyw'r Plant – Adran Gwrando a Deall

	Y2 M ₁ M ₂	Y2 sd	Y3 M ₁ M ₂	Y3 sd	Newid yn Cymedr M ₁ M ₂	t-test ar sgoriau gweddilleb	df	p
Mwynhau gweithgareddau'r cylch.	3.68 3.76	0.670 0.612	3.86 3.90	0.420 0.356	+0.18 +0.14	-1.116	1104	0.265
Mwynhau gwyllo teledu / fideos / gwrando ar dapiau sain Cymraeg.	3.31 3.38	0.963 0.957	3.71 3.77	0.594 0.534	+0.40 +0.39	-1.235	1072	0.217
Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – un i un gyda'r arweinydd.	3.28 3.37	0.925 0.898	3.58 3.70	0.694 0.608	+0.30 +0.33	-2.438	1148	0.015
Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp bychan.	3.13 3.23	0.975 0.953	3.47 3.61	0.777 0.691	+0.34 +0.38	-2.430	1145	0.015
Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp mawr.	2.89 2.99	1.054 1.050	3.29 3.45	0.883 0.847	+0.40 +0.46	-1.903	1141	0.057
Gwrando gyda diddordeb a mwynhad ar stori Gymraeg.	3.09 3.22	1.007 0.985	3.46 3.58	0.758 0.740	+0.37 +0.36	-1.654	1178	0.098
Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori.	2.75 2.93	1.108 1.109	3.26 3.42	0.928 0.849	+0.51 +0.49	-1.939	1167	0.053
Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg.	2.96 3.18	1.049 1.017	3.42 3.65	0.798 0.674	+0.46 +0.47	-3.770	1128	0.0001
Dangos eu bod yn deall rhywfaint o gynnwys caneuon a rhigymau Cymraeg.	2.75 2.96	1.111 1.062	3.35 3.49	0.862 0.802	+0.60 +0.53	-1.606	1157	0.108
Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau syml yn Gymraeg.	2.81 2.92	1.110 1.113	3.31 3.43	0.913 0.865	+0.50 +0.51	-1.494	1177	0.135
Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg.	2.54 2.63	1.240 1.214	3.06 3.19	1.078 1.035	+0.52 +0.56	-1.136	1188	0.256

Tabl 7.47 Cydberthyniad Rhyw'r Plant – Adran Siarad a Chyfathrebu

	Y2 M ₁ M ₂	sd	M ₁ M ₂	sd	Newid yn Cymedr M ₁ M ₂	t-test ar sgoriau gweddilleb	df	P
Dwyn i gof rigymau a chaneuon cyfarwydd.	2.88 3.10	1.102 1.043	3.44 3.61	0.816 0.709	+0.56 +0.51	-2.220	1126	0.027
Ateb cwestiynau syml.	2.68 2.78	1.178 1.164	3.25 3.44	0.977 0.860	+0.57 +0.66	-3.236	1143	0.001
Defnyddio geiriau cyffredin – enwau rhannau o'r corff, anifeiliaid, lliwiau, teganau ayyb.	2.78 2.87	1.127 1.110	3.36 3.45	0.905 0.836	+0.58 +0.58	-0.911	1140	0.362
Dangos awydd ac ymdrech i siarad.	2.61 2.65	1.204 1.192	3.11 3.23	1.078 1.011	+0.50 +0.58	-2.097	1161	0.036
Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml.	2.43 2.48	1.239 1.221	2.97 3.07	1.127 1.123	+0.54 +0.59	-1.224	1175	0.221
Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell.	1.97 2.03	1.235 1.247	2.39 2.54	1.300 1.240	+0.42 +0.51	-1.900	1192	0.058
Sgwrsio gydag oedolyn yn ddigymell.	2.05 2.08	1.237 1.235	2.49 2.67	1.292 1.216	+0.44 +0.59	-2.755	1190	0.006
Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol.	1.95 2.03	1.187 1.192	2.51 2.69	1.273 1.220	+0.56 +0.66	-1.576	1190	0.115
Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrandao arni.	1.93 2.04	1.151 1.146	2.47 2.64	1.214 1.203	+0.54 +0.60	-1.419	1191	0.156
Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau.	1.94 2.00	1.166 1.187	2.44 2.56	1.242 1.234	+0.50 +0.56	-0.971	1174	0.332
Defnyddio ychydig o iaith fathemategol mewn cyd-destunau perthnasol – siâp, safle, maint a swm.	2.15 2.25	1.127 1.146	2.78 2.91	1.148 1.098	+0.63 +0.66	-1.726	1145	0.085

Tabl 7.48 Cydberthyniad Rhyw'r Plant – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar

	Y2 M ₁ M ₂	Sd	Y3 M ₁ M ₂	Sd	Newid yn Cymedr M ₁ M ₂	t-test ar sgoriau gweddilleb	df	p
Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn.	3.46 3.59	0.856 0.758	3.68 3.78	0.646 0.532	+0.22 +0.19	-1.821	1142	0.069
Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg ar ei ben ei hun.	3.15 3.35	1.023 0.907	3.55 3.70	0.760 0.629	+0.40 +0.35	-1.830	1131	0.068
Deall y berthynas rhwng geiriau a lluniau.	2.21 2.38	1.114 1.192	2.87 2.92	1.095 1.084	+0.66 +0.54	0.278	1183	0.781
Ymateb i gynnwys llyfr.	2.43 2.61	1.085 1.131	3.03 3.15	1.010 0.959	+0.60 +0.54	-0.774	1157	0.439
Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori.	2.09 2.26	1.102 1.139	2.79 2.96	1.085 1.059	+0.70 +0.70	-1.443	1181	0.149
Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain.	1.79 1.97	0.984 1.089	2.43 2.61	1.142 1.138	+0.64 +0.64	-1.811	1185	0.070
Adnabod rhai llythrennau.	1.72 1.86	0.989 1.078	2.33 2.48	1.170 1.168	+0.61 +0.62	-1.816	1147	0.070
Cyfathrebu drwy lun neu farciau a thrafod yr hyn a gyflëir.	1.85 2.01	1.026 1.094	2.40 2.56	1.144 1.170	+0.55 +0.55	-1.298	1163	0.195
Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli llythrennau / geiriau Cymraeg.	1.61 1.81	0.900 1.044	2.14 2.34	1.135 1.146	+0.53 +0.53	-1.707	1150	0.088
Adnabod geiriau syml / cyfarwydd yn Gymraeg.	1.47 1.54	0.866 0.928	1.87 1.97	1.076 1.092	+0.40 +0.43	-1.022	1191	0.307
Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy.	1.21 1.26	0.613 0.689	1.45 1.61	0.878 0.952	+0.24 +0.35	-3.064	1185	0.002

Roedd cymedr y merched yn well na chymedr y bechgyn yng nghanlyniadau pob achos yn Ymchwiliad 2 a 3 drwy'r raddfa. Fel y gwelir o'r tablau uchod cynyddodd cymedr y bechgyn a'r merched ar gyfer pob gosodiad yn y raddfa. Ychydig iawn o wahaniaeth oedd rhwng cynnydd y ddau ryw. Mewn rhai achosion cynyddodd cymedr y bechgyn fwy na'r merched, ac mewn achosion eraill cynyddodd cymedr y merched fwy na chymedr y bechgyn.

Yn Adran Gwrandu a Deall ar gyfartaledd roedd newid cymedr y bechgyn a'r merched yn 0.42. Yn Adran Siarad a Chyfathrebu roedd y cynnydd yng nghyfartaledd cymedr y merched (0.59) ychydig yn uwch nag un y bechgyn (0.53). Yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar roedd y cynnydd yng nghymedr y bechgyn (0.50) ychydig yn uwch nag un y merched (0.49). O ystyried y raddfa yn ei chyfanrwydd ar gyfartaledd cynyddodd cymedr y bechgyn 0.48 a chymedr y merched 0.50.

Ychydig iawn o wahaniaeth oedd rhwng datblygiad y bechgyn a'r merched ym mhob achos. Yn Adran Gwrandu a Deall gwelwyd y gwahaniaeth mwyaf yn y datblygiad ar gyfer eitem saith, sef, 'Dangos eu bod yn deall rhywfaint o gynnwys caneuon a rhigymau Cymraeg' lle cynyddodd cymedr y bechgyn 0.07 yn fwy na chymedr y merched. Roedd datblygiad y bechgyn a'r merched yn gwahaniaethu'n ystadegol arwyddocaol ar sail eu sgoriau gweddilleb mewn tri achos yn Adran Gwrandu a Deall. Cynyddodd sgoriau y merched yn arwyddocaol fwy na'r bechgyn ar gyfer y gosodiadau 'Gwrandu'n ofalus ac ymateb yn briodol – un i un', 'Gwrandu'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp bychan' ac 'Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg'. Nid oedd y gwahaniaeth rhwng y bechgyn a'r merched o safbwynt y newid mewn cymedr yn fawr iawn ar gyfer y gosodiad 'Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg', ond mae'r sgoriau gweddilleb yn cymryd i ystyriaeth man dechrau y sgôr, a'i bod yn anoddach gwella os oes llai o le i symud.

Roedd ychydig mwy o wahaniaeth rhwng cynnydd y bechgyn a'r merched mewn eitemau unigol yn Adran Siarad a Chyfathrebu. Cynyddodd cymedr y merched fwy na chymedr y bechgyn yng nghanlyniadau naw eitem. Yn yr eitem cyntaf yn unig sef 'Dwyn i gof rigymau a chaneuon cyfarwydd' y cynyddodd cymedr y bechgyn fwy nag un y merched. Ar gyfer eitem 3 sef 'Defnyddio geiriau cyffredin – enwau rhannau o'r corff, anifeiliaid, lliwiau, tegau ayyb' cynyddodd y ddau ryw yr un faint. Roedd

y gwahaniaethau rhwng datblygiad y bechgyn a'r merched yn ystadegol arwyddocaol mewn pedwar gosodiad sef, 'Dwyn i gof rigymau a chaneuon cyfarwydd', 'Ateb cwestiynau syml', 'Dangos awydd ac ymdrech i siarad' a 'Sgwrsio gydag oedolyn yn ddigymell'. Dim ond ar gyfer y gosodiad 'Dwyn i gof rigymau a chaneuon cyfarwydd' y datblygodd y bechgyn yn ystadegol arwyddocaol fwy na'r merched.

Yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar unwaith eto roedd cynnydd y ddau ryw yn debyg i'w gilydd. Gwelwyd y gwahaniaethau mwyaf yn eitemau 3 ac 11. Yn eitem 3 sef, 'Deall y berthynas rhwng geiriau a lluniau' cynyddodd y bechgyn 0.66 o'i gymharu â 0.54 y merched, gwahaniaeth o 0.12. Yng nghanlyniadau eitem 11 sef, 'Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy' cynyddodd y merched fwy na'r bechgyn. Newidiodd cymedr y merched 0.35 tra newidiodd cymedr y bechgyn 0.24, gwahaniaeth o 0.11. Dangosodd canlyniadau'r prawf 't-test' nad oedd unrhyw wahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng datblygiad y bechgyn a'r merched ar gyfer canlyniadau'r Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar.

Roedd y gwahaniaeth mwyaf rhwng newid cymedr y ddau ryw ar gyfer yr eitem 'Sgwrsio gydag oedolyn yn ddigymell' yn Adran Siarad a Chyfathrebu. Cynyddodd cymedr y bechgyn 0.44 a chymedr y merched 0.59, gwahaniaeth o 0.15.

Nid oedd llawer o wahaniaeth rhwng datblygiad y bechgyn a'r merched ar y gosodiadau yn y Ffurflen Datblygiad Iaith. Mae hyn yn galonogol gan ei fod yn dangos nad yw'r addysg a dderbynia plant mewn cylch meithrin wedi ei anelu at un rhyw yn fwy na'r llall. Gall bechgyn a merched elwa o addysg mewn cylch meithrin yn yr un modd a'i gilydd.

7.5.3.3.2 Dyddiad Geni a Datblygiad Ieithyddol

Yn y tablau isod nodir y cydberthyniad rhwng gweddilleb canlyniadau'r plant a'u hoedran. Ar y ffurflen gofynnwyd i'r arweinyddion nodi dyddiad geni pob plentyn ar ffurf mis / blwyddyn. Disgwylid y byddai'r plant ieuengaf wedi datblygu mwy na'r plant hŷn.

Tabl 7.49 Cydberthyniad Dyddiad Geni – Adran Gwrando a Deall

		r	p
1	Mwynhau gweithgareddau'r cylch.	-0.006	0.84
2	Mwynhau gwyllo teledu / fideos / gwrando ar dapiau sain Cymraeg.	0.049	0.101
3a	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – un i un gyda'r arweinydd.	0.029	0.314
3b	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp bychan.	0.031	0.292
3c	Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp mawr.	0.031	0.297
4	Gwrando gyda diddordeb a mwynhad ar stori Gymraeg.	0.041	0.154
5	Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori.	0.044	0.129
6	Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg.	-0.027	0.355
7	Dangos eu bod yn deall rhywfaint o gynnwys caneuon a rhigymau	-0.023	0.432
8	Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau syml yn Gymraeg.	0.03	0.304
9	Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg.	0.083	0.004

Tabl 7.50 Cydberthyniad Dyddiad Geni – Adran Siarad a Chyfathrebu

		r	p
1	Dwyn i gof rigymau a chaneuon cyfarwydd.	-0.055	0.057
2	Ateb cwestiynau syml.	-0.018	0.532
3	Defnyddio geiriau cyffredin –anifeiliaid, lliwiau, teganau ayyb.	0.004	0.883
4	Dangos awydd ac ymdrech i siarad.	0.007	0.813
5	Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml.	0.06	0.042
6	Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell.	0.043	0.139
7	Sgwrsio gydag oedolyn yn ddigymell.	0.034	0.248
8	Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol.	0.036	0.223
9	Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrando arni.	0.101	0.0001
10	Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau.	0.097	0.0001
11	Defnyddio ychydig o iaith fathemategol mewn cyd-destunau perthnasol – siâp, safle, maint a swm.	0.044	0.133

Tabl 7.51 Cydberthyniad Dyddiad Geni – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar

		r	p
1	Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn.	-0.003	0.916
2	Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg ar ei ben ei hun.	-0.02	0.49
3	Deall y berthynas rhwng geiriau a lluniau.	0.055	0.059
4	Ymateb i gynnwys llyfr.	0.056	0.057
5	Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori.	0.022	0.461
6	Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain.	0.059	0.042
7	Adnabod rhai llythrennau.	0.102	0.0001
8	Cyfathrebu drwy lun neu farciau a thrafod yr hyn a gyflëir.	0.037	0.206
9	Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli llythrennau / geiriau.	0.067	0.022
10	Adnabod geiriau syml / cyfarwydd yn Gymraeg.	0.093	0.001
11	Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy.	0.158	0.0001

Ychydig o ddylanwad a gafodd oedran y plant ar eu datblygiad. Yn Adran Gwrando a Deall dim ond ar ganlyniadau un eitem, sef, 'Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg' y cafodd oedran y plant effaith ystadegol arwyddocaol. Ychydig o gysylltiad sydd rhwng eu hoedran a'u datblygiad yn yr adran hon. Yn ôl canlyniadau tair eitem yn yr Adran sef, 'Mwynhau gweithgareddau'r cylch', 'Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg' a 'Dangos eu bod yn deall rhywfaint o gynnwys caneuon a rhigymau Cymraeg', po ieuengaf y plentyn y mwyaf tebygol yw o ddatblygu.

Cafodd oedran y plant effaith ystadegol arwyddocaol ar dair eitem yn Adran Siarad a Chyfathrebu sef 'Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml', 'Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrando arni' a 'Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau'. Mewn dau achos yn Adran Siarad a Chyfathrebu, sef, 'Dwyn i gof rigymau a chaneuon cyfarwydd' ac 'Ateb cwestiynau syml', po hynaf yw'r plentyn y lleiaf o ddatblygiad a fu.

Yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar y gwelwyd dylanwad mwyaf oedran ar ddatblygiad iaith y plant, er hynny nid oedd yn ddylanwad sylweddol iawn. Roedd oedran y plant yn cael effaith ystadegol arwyddocaol ar ganlyniadau pump eitem yn yr

adran sef ‘Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain’, ‘Adnabod rhai llythrennau’, ‘Mwynhau gwneud marciau sy’n cynrychioli llythrennau / geiriau Cymraeg’, ‘Adnabod geiriau syml / cyfarwydd yn Gymraeg’ ac ‘Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy’. Mewn dwy eitem sef ‘Mwyhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn’ a ‘Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg ar ei ben ei hun’, po hynaf y plentyn y lleiaf o ddatblygiad. Yn yr eitemau eraill roedd oedran y plant yn cael yr effaith gwrthwyneb. Wrth gwrs, gellir dadlau mai o fewn ychydig wythnosau cyntaf mynychu’r cylch y byddai’r plant yn datblygu’r sgiliau hyn.

7.5.3.3 Nifer Sesiynau a Datblygiad Ieithyddol

Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp mawr	168	-0.029	0.895
Gwrando gyda diddordeb a mwynhad ar stori Gymraeg	177	-0.007	0.720
Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori	179	0.043	0.819
Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg	176	0.060	0.743
Dangos eu bod yn deall rhywfaint o gynnwys caneuon a rhigymau	177	-0.013	0.799
Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau syml yn Gymraeg.	178	0.037	0.873
Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg.	179	0.001	0.974

Tabl 7.77 Cymedr Sgoriau Newid Plant o Deuluoedd Saesneg eu Hiaith a Oedd yn Newydd i'r Cylch – Adran Siarad a Chyfathrebu

	N	Cymedr	Sd
Dwyn i gof rigymau a chaneuon cyfarwydd	177	0.112	0.764
Ateb cwestiynau syml	177	0.059	0.927
Defnyddio geiriau cyffredin	177	0.074	0.858
Dangos awydd ac ymdrech i siarad	175	-0.077	1.002
Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml	174	-0.015	1.020
Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant	179	-0.205	0.734
Sgwrsio gydag oedolyn	177	-0.169	0.815
Sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol	176	-0.257	0.894
Siarad am stori gyfarwydd	178	-0.201	0.916
Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau	176	-0.295	0.758
Defnyddio ychydig o iaith fathemategol	176	-0.095	1.027

Tabl 7.78 Cymedr Sgoriau Newid Plant o Deuluoedd Saesneg eu Hiaith a Oedd yn Newydd i'r Cylch – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar

	N	Cymedr	Sd
Mwynhau edrych ar lyfrau gydag oedolyn	178	0.027	0.566
Mwynhau edrych ar lyfrau ar ei ben ei hun	177	0.046	0.689
Deall y berthynas rhwng geiriau a lluniau	178	-0.035	0.998
Ymateb i gynnwys llyfr	175	-0.036	0.878
Gallu dyfalu beth fydd nesaf mewn stori	176	-0.102	0.877
Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain	177	-0.064	0.939
Adnabod rhai llythrennau	176	-0.168	0.890
Cyfathrebu drwy lun neu farciau a thrafod	174	-0.052	0.944
Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli llythrennau / geiriau	174	-0.201	0.910
Adnabod geiriau syml	169	-0.049	0.888
Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy	168	-0.049	0.761

Fel y gwelir o'r tablau uchod roedd sgoriau newid y plant yn y grŵp Cymraeg yn well na'r disgwyl ar gyfer pob gosodiad ar y Ffurflen Datblygiad Iaith. Roedd y canlyniadau gyda'r datblygiad mwyaf yn Adran Siarad a Chyfathrebu, yn arbennig felly yn ail hanner yr adran, hynny yw, gwelir y datblygiad mwyaf gan blant o gartrefi Cymraeg eu hiaith yn ystod y naw mis cyntaf yn y cylch yn eu sgiliau Siarad a Chyfathrebu. Felly mae'n ymddangos bod mynychu cylch meithrin yn datblygu sgiliau siarad a chyfathrebu plant o gartrefi Cymraeg. Wrth gwrs, mae'n debyg bod

peth o'r datblygiad o ganlyniad i ddatblygiad naturiol plant ifanc, ond mae rhai o'r gosodiadau yn ymwneud â gweithgareddau'r cylch yn bennaf er enghraifft 'Defnyddio ychydig o iaith fathemategol' a 'Sôn am stori gyfarwydd mewn ffyrdd syml ar ôl gwrandio arni'.

Roedd datblygiad y plant yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar yn well na'r disgwyl ar gyfer pob gosodiad. Roedd y datblygiad mwyaf yng nghymedr sgoriau'r grŵp hwn ar gyfer y gosodiadau 'Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori', 'Cyfathrebu drwy lun neu farciau a thrafod yr hyn a gyflëir' a 'Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli llythrennau / geiriau Cymraeg'.

Yn yr ail grŵp, sef y plant a ddefnyddiai'r ddwy iaith gyda'u rhieni i ryw raddau roedd y newidiadau yn y sgoriau cymedr yn agos iawn i'r sgôr disgwylledig, sef 0. Roedd sgoriau rhai o'r gosodiadau yn well na'r disgwyl ac eraill nad oedd cystal â'r disgwyl. Roedd y newid yn well na'r disgwyl mewn chwech gosodiad yn Adran Gwrando a Deall a saith yn Adran Siarad a Chyfathrebu. Roedd cymedr sgôr pob gosodiad yn negyddol yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar, felly roedd datblygiad y plant o gartrefi dwyieithog yn fwy yn adrannau Gwrando a Deall a Siarad a Chyfathrebu yn naw mis cyntaf eu cyfnod mewn cylch meithrin.

Roedd canlyniadau'r trydydd grŵp, sef y plant sy'n defnyddio'r Saesneg gyda'u dau riant drwy'r amser neu bron drwy'r amser a oedd newydd ddechrau yn y cylch pan wnaed yr ymchwiliad cychwynnol yn dilyn y patrwm disgwylledig. Roeddynt wedi gwella'n fwy na'r disgwyl yn Adran Gwrando a Deall ar gyfer pump gosodiad a thri gosodiad yn Adran Siarad a Chyfathrebu sef yr rhai oedd yn gofyn am ymatebion un gair 'Ateb cwestiynau syml' 'Defnyddio geiriau cyffredin' a dysgu rhigymau a chaneuon. Dyma'r ffyrdd cyntaf y mae plant yn dechrau defnyddio iaith newydd – trwy ymatebion byr a thrwy efelychu eraill. Dim ond ar gyfer canlyniadau dau osodiad yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar y newidiodd sgoriau'r grŵp hwn yn well na'r disgwyl, sef ar gyfer y ddau osodiad cyntaf yn ymwneud â mwynhau edrych ar lyfrau. Roedd y canlyniadau gyda'r datblygiadau cryn dipyn yn llai na'r disgwyl yn ail hanner Adran Siarad a Chyfathrebu ac yn rhai o osodiadau Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Bychan iawn oedd y symiau yn Adran Gwrando a Deall. Yn eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar yn estynedig y gwelwyd y symiau

mwyaf negyddol yn Adran Siarad a Chyfathrebu ar gyfer y plant o gartrefi Saesneg a oedd newydd ddechrau yn y cylch pan wnaed Ymchwiliad 2.

7.5.3.4.5 Effaith Iaith y Teulu ar Ddatblygiad Iaith ar Ddechrau Cyfnod Mewn Cylch

Gwnaed dadansoddiad ANOVA er mwyn gweld a oedd datblygiad y plant a oedd newydd ddechrau yn y cylch pan wnaed Ymchwiliad 2 yn gwahaniaethu'n ystadegol arwyddocaol yn ddibynnol ar iaith y teulu. Rhannwyd y sampl yn dri grŵp unwaith eto, y rhai a ddefnyddiai eu rhieni Gymraeg drwy'r amser gyda hwy, y rhai y defnyddir y ddwy iaith gyda hwy a'r rhai y mae eu rhieni yn defnyddio'r Saesneg drwy'r amser, neu bron drwy'r amser gyda hwy. Defnyddiwyd y dadansoddiad ANOVA (One-way analysis of variance) gan fod amrywiad annibynnol sef iaith y teulu gyda thri grŵp ac un amrywiad parhaol dibynnol.

Rhoddir y canlyniadau yn y tablau isod.

Tabl 7.79 Effaith Iaith y Teulu ar Ddatblygiad Iaith ar Ddechrau Cyfnod Mewn Cylch – Adran Gwrando a Deall

	Grwpiau	Nifer	Cymedr	Sd		df	F	p
Mwynhau gweithgareddau'r Cylch.	Cymraeg yn unig	116	0.026	0.330	Rhwng Grwpiau	2	0.160	0.852
	Dwyieithog	169	0.000	0.419	O fewn Grwpiau	461		
	Saesneg yn unig	179	0.011	0.359	Cyfanswm	463		
	Cyfanswm	464	0.011	0.375				
Mwynhau gwylio teledu / fideos / gwrando ar dapiau sain Cymraeg	Cymraeg yn unig	107	0.115	0.359	Rhwng Grwpiau	2	2.789	0.063
	Dwyieithog	151	-0.022	0.574	O fewn Grwpiau	417		
	Saesneg yn unig	162	-0.031	0.592	Cyfanswm	419		
	Cyfanswm	420	0.009	0.538				
Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – un i un gyda'r arweinydd	Cymraeg yn unig	113	0.057	0.446	Rhwng Grwpiau	2	0.729	0.483
	Dwyieithog	170	-0.017	0.614	O fewn Grwpiau	457		
	Saesneg yn unig	177	-0.030	0.715	Cyfanswm	459		
	Cyfanswm	460	-0.004	0.620				
Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp bychan	Cymraeg yn unig	116	0.084	0.524	Rhwng Grwpiau	2	1.150	0.317
	Dwyieithog	167	0.018	0.665	O fewn Grwpiau	454		
	Saesneg yn unig	174	-0.040	0.788	Cyfanswm	456		
	Cyfanswm	457	0.013	0.684				
Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – mewn grŵp mawr.	Cymraeg yn unig	111	0.077	0.644	Rhwng Grwpiau	2	0.895	0.409

	Dwyieithog	157	0.072	0.754	O fewn Grwpiau	433		
	Saesneg yn unig	168	-0.029	0.895	Cyfanswm	435		
	Cyfanswm	436	0.035	0.787				
Gwranddo gyda diddordeb a mwynhad ar stori Gymraeg.	Cymraeg yn unig	114	0.067	0.481	Rhwng Grwpiau	2	0.556	0.574
	Dwyieithog	169	-0.007	0.674	O fewn Grwpiau	457		
	Saesneg yn unig	177	-0.007	0.720	Cyfanswm	459		
	Cyfanswm	460	0.011	0.651				
Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori	Cymraeg yn unig	115	0.176	0.606	Rhwng Grwpiau	2	2.560	0.078
	Dwyieithog	167	-0.037	0.833	O fewn Grwpiau	458		
	Saesneg yn unig	179	0.043	0.819	Cyfanswm	460		
	Cyfanswm	461	0.047	0.780				
Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg.	Cymraeg yn unig	116	0.031	0.463	Rhwng Grwpiau	2	0.116	0.891
	Dwyieithog	169	0.029	0.657	O fewn Grwpiau	458		
	Saesneg yn unig	176	0.060	0.743	Cyfanswm	460		
	Cyfanswm	461	0.041	0.649				
Dangos eu bod yn deall rhywfaint o gynnwys caneuon a rhigymau Cymraeg.	Cymraeg yn unig	114	0.119	0.601	Rhwng Grwpiau	2	1.105	0.332
	Dwyieithog	170	0.017	0.798	O fewn Grwpiau	458		
	Saesneg yn unig	177	-0.013	0.799	Cyfanswm	460		
	Cyfanswm	461	0.030	0.755				
Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau syml yn Gymraeg.	Cymraeg yn unig	116	0.116	0.434	Rhwng Grwpiau	2	0.455	0.635

Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg.	Dwyieithog	170	0.095	0.782	O fewn Grwpiau	461		
	Saesneg yn unig	178	0.037	0.873	Cyfanswm	463		
	Cyfanswm	464	0.078	0.750				
	Cymraeg yn unig	116	0.162	0.473	Rhwng Grwpiau	2	1.786	0.169
	Dwyieithog	170	0.139	0.836	O fewn Grwpiau	462		
	Saesneg yn unig	179	0.001	0.974	Cyfanswm	464		
	Cyfanswm	465	0.092	0.824				

Tabl 7.80 Effaith Iaith y Teulu ar Ddatblygiad Iaith ar Ddechrau Cyfnod Mewn Cylch – Adran Siarad a Chyfathrebu

Grwpiau			Cymedr	Sd		df	F	p
Dwyn i gof rigymau a chaneuon cyfarwydd	Cymraeg yn unig	114	0.068	0.555	Rhwng Grwpiau	2	2.053	0.130
	Dwyieithog	169	-0.034	0.668	O fewn Grwpiau	457		
	Saesneg yn unig	177	0.112	0.764	Cyfanswm	459		
	Cyfanswm	460	0.048	0.683				
Ateb cwestiynau syml	Cymraeg yn unig	114	0.137	0.432	Rhwng Grwpiau	1.184	0.592	0.969
	Dwyieithog	169	0.005	0.797	O fewn Grwpiau	279.033	0.611	
	Saesneg yn unig	177	0.059	0.927	Cyfanswm	280.217		
	Cyfanswm	460	0.059	0.781				
Defnyddio geiriau cyffredin – anifeiliaid, lliwiau, tegau ayyb.	Cymraeg yn unig	113	0.121	0.451	Rhwng Grwpiau	2	0.408	0.665
	Dwyieithog	166	0.041	0.722	O fewn Grwpiau	453		
	Saesneg yn unig	177	0.074	0.858	Cyfanswm	455		
	Cyfanswm	456	0.073	0.724				
Dangos awydd ac ymdrech i siarad		114	0.222	0.426	Rhwng Grwpiau	2	4.566	0.011
	Cymraeg yn unig							
	Dwyieithog	167	0.014	0.833	O fewn Grwpiau	453		
	Saesneg yn unig	175	-0.077	1.002	Cyfanswm	455		
	Cyfanswm	456	0.031	0.834				

Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml.	Cymraeg yn unig	113	0.262	0.630	Rhwng Grwpiau	2	5.581	0.004
	Dwyieithog	165	-0.081	0.841	O fewn Grwpiau	449		
	Saesneg yn unig	174	-0.015	1.020	Cyfanswm	451		
	Cyfanswm	452	0.030	0.880				
Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell	Cymraeg yn unig	114	0.356	0.742	Rhwng Grwpiau	2	17.403	0.0001
	Dwyieithog	171	0.036	0.884	O fewn Grwpiau	461		
	Saesneg yn unig	179	-0.205	0.734	Cyfanswm	463		
	Cyfanswm	464	0.022	0.822				
Sgwrsio gydag oedolyn yn ddigymell	Cymraeg yn unig	113	0.374	0.748	Rhwng Grwpiau	2	15.740	0.0001
	Dwyieithog	170	0.039	0.829	O fewn Grwpiau	457		
	Saesneg yn unig	177	-0.169	0.815	Cyfanswm	459		
	Cyfanswm	460	0.041	0.830				
Sôn am ddigwyddiadau yn gorffennol	Cymraeg yn unig	115	0.448	0.847	Rhwng Grwpiau	2	21.356	0.0001
	Dwyieithog	169	0.056	0.943	O fewn Grwpiau	457		
	Saesneg yn unig	176	-0.257	0.894	Cyfanswm	459		
	Cyfanswm	460	0.034	0.940				
Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrandao arni	Cymraeg yn unig	113	0.340	0.877	Rhwng Grwpiau	2	11.653	0.0001
	Dwyieithog	170	-0.041	1.000	O fewn Grwpiau	458		
	Saesneg yn unig	178	-0.201	0.916	Cyfanswm	460		
	Cyfanswm	461	-0.009	0.960				

Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau	Cymraeg yn unig	110	0.400	0.818	Rhwng Grwpiau	2	22.756	0.0001
	Dwyieithog	169	-0.085	0.960	O fewn Grwpiau	452		
	Saesneg yn unig	176	-0.295	0.758	Cyfanswm	454		
	Cyfanswm	455	-0.049	0.892				
Defnyddio ychydig o iaith fathemategol mewn cyd-destunau perthnasol	Cymraeg yn unig	111	0.242	0.812	Rhwng Grwpiau	2	4.271	0.015
	Dwyieithog	165	0.053	0.964	O fewn Grwpiau	449		
	Saesneg yn unig	176	-0.095	1.027	Cyfanswm	451		
	Cyfanswm	452	0.042	0.962				

Tabl 7.81 Effaith Iaith y Teulu ar Ddatblygiad Iaith ar Ddechrau Cyfnod Mewn Cylch – Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar

Grwpiau			Cymedr	Sd	df		F	p
Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn	Cymraeg yn unig	115	0.041	0.550	Rhwng Grwpiau	2	1.375	0.254
	Dwyieithog	170	-0.055	0.544	O fewn Grwpiau	460		
	Saesneg yn unig	178	0.027	0.566	Cyfanswm	462		
	Cyfanswm	463	0.000	0.555				
Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg ar ei ben ei hun	Cymraeg yn unig	114	0.066	0.468	Rhwng Grwpiau	2	2.157	0.117
	Dwyieithog	170	-0.070	0.646	O fewn Grwpiau	458		
	Saesneg yn unig	177	0.046	0.689	Cyfanswm	460		
	Cyfanswm	461	0.008	0.627				
Deall y berthynas rhwng geiriau a lluniau	Cymraeg yn unig	113	0.089	1.037	Rhwng Grwpiau	2	2.315	0.100
	Dwyieithog	170	-0.167	0.953	O fewn Grwpiau	458		
	Saesneg yn unig	178	-0.035	0.998	Cyfanswm	460		
	Cyfanswm	461	-0.053	0.994				
Ymateb i gynnwys llyfr	Cymraeg yn unig	112	0.078	0.797	Rhwng Grwpiau	2	0.923	0.398
	Dwyieithog	167	-0.058	0.869	O fewn Grwpiau	451		
	Saesneg yn unig	175	-0.036	0.878	Cyfanswm	453		
	Cyfanswm	454	-0.016	0.855				

Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori	Cymraeg yn unig	114	0.163	0.903	Rhwng Grwpiau	2	3.551	0.030
	Dwyieithog	169	-0.078	0.878	O fewn Grwpiau	456		
	Saesneg yn unig	176	-0.102	0.877	Cyfanswm	458		
	Cyfanswm	459	-0.027	0.889				
Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain	Cymraeg yn unig	114	0.167	1.092	Rhwng Grwpiau	2	2.682	0.070
	Dwyieithog	168	-0.096	0.984	O fewn Grwpiau	456		
	Saesneg yn unig	177	-0.064	0.939	Cyfanswm	458		
	Cyfanswm	459	-0.018	0.999				
Adnabod rhai llythrennau	Cymraeg yn unig	113	0.053	0.990	Rhwng Grwpiau	2	1.867	0.156
	Dwyieithog	167	-0.075	0.982	O fewn Grwpiau	453		
	Saesneg yn unig	176	-0.168	0.890	Cyfanswm	455		
	Cyfanswm	456	-0.079	0.951				
Cyfathrebu drwy lun neu farciau a thrafod yr hyn a gyflëir	Cymraeg yn unig	113	0.247	1.026	Rhwng Grwpiau	2	3.567	0.029
	Dwyieithog	165	-0.020	0.986	O fewn Grwpiau	449		
	Saesneg yn unig	174	-0.052	0.944	Cyfanswm	451		
	Cyfanswm	452	0.035	0.986				
Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli llythrennau / geiriau Cymraeg	Cymraeg yn unig	114	0.122	1.002	Rhwng Grwpiau	2	3.914	0.021
	Dwyieithog	167	-0.053	0.980	O fewn Grwpiau	452		
	Saesneg yn unig	174	-0.201	0.910	Cyfanswm	454		
	Cyfanswm	455	-0.066	0.966				

Adnabod geiriau syml / cyfarwydd yn Gymraeg	Cymraeg yn unig	115	0.072	0.973	Rhwng Grwpiau	2	2.167	0.116
	Dwyieithog	169	-0.049	0.888	O fewn Grwpiau	458		
	Saesneg yn unig	177	-0.148	0.825	Cyfanswm	460		
	Cyfanswm	461	-0.057	0.889				
Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy	Cymraeg yn unig	115	0.006	0.799	Rhwng Grwpiau	2	1.915	0.148
	Dwyieithog	168	-0.049	0.761	O fewn Grwpiau	458		
	Saesneg yn unig	178	-0.158	0.669	Cyfanswm	460		
	Cyfanswm	461	-0.077	0.739				

Nid oedd y gwahaniaeth rhwng y grwpiau yn ystadegol arwyddocaol ar gyfer unrhyw un o'r newidiadau a fu yng nghanlyniadau'r gosodiadau yn Adran Gwranddo a Deall. Roedd y newidiadau a fu yng nghanlyniadau'r tri grŵp yn ystod eu naw mis cyntaf yn debyg i'w gilydd o safbwynt eu sgiliau gwranddo a deall. Roedd gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol rhwng canlyniadau'r tri grŵp yn wyth o'r gosodiadau yn Adran Siarad a Chyfathrebu. Yr unig dri gosodiad lle nad oedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y newid yng nghanlyniadau'r tri grŵp oedd 'Dwyn i gof rigymau a chaneuon cyfarwydd', 'Ateb cwestiynau syml' a 'Defnyddio geiriau cyffredin'. Mae'r gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol rhwng y tri grŵp iaith ar gyfer y gosodiadau sy'n gofyn am ddefnydd estynedig o'r Gymraeg ar lafar. Gellir gweld bod y gwahaniaethau o blaid y plant sy'n clywed y Gymraeg gan eu rhieni.

Dim ond mewn tri gosodiad yr oedd datblygiad y plant yn gwahaniaethu'n ôl iaith y teulu yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Roedd datblygiad y plant yn y grŵp Cymraeg eu hiaith yn ystadegol well na chanlyniadau'r plant yn y ddau grŵp arall ar gyfer y gosodiadau 'Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori', 'Cyfathrebu drwy lun neu farciau a thrafod yr hyn a gyflëir' a 'Mwynhau gwneud marciau sy'n cynrychioli llythrennau / geiriau Cymraeg'.

Felly, roedd datblygiad y plant o gartrefi Cymraeg yn ystadegol well na'r plant o gartrefi di-Gymraeg a dwyieithog mewn nifer o osodiadau, yn arbennig pan asesir eu gallu a'u parodrwydd i ddefnyddio Cymraeg estynedig ar lafar.

7.5.4 Casgliadau Cymharu Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3

Yn y rhan hon o Bennod 7 cyflwynwyd y newidiadau a fu yng nghanlyniadau'r plant rhwng yr ymchwiliad cenedlaethol cyntaf ym mis Hydref 2000 (Ymchwiliad 2) a'r ail ymchwiliad cenedlaethol a wnaed ym mis Gorffennaf 2001 (Ymchwiliad 3). Dengys y dadansoddiadau hyn y datblygiad iaith a wnaeth sampl o 1259 plentyn mewn 131 cylch meithrin dros gyfnod o naw mis.

Dadansoddwyd y newid a fu yn eu canlyniadau drwy ddefnyddio sgoriau gweddilleb sy'n dadansoddi'r newid a fu yn sgoriau'r plant o ystyried beth oedd eu

canlyniad cyntaf, hynny yw, mae sgôr gweddilleb yn cymryd i ystyriaeth faint o le oedd gan y plant i symud o'r man cychwyn sef canlyniad Ymchwiliad 2 ar gyfer pob gosodiad. Cyflwynwyd y canlyniadau ar ffurf amleddau, cymedrau a chydberthyniadau rhwng sgoriau gweddilleb y plant ar gyfer pob gosodiad a ffactorau megis eu hoedran, eu rhyw, iaith y teulu a'r nifer o sesiynau a fynychant yr wythnos.

Dangosodd y dadansoddiad amleddau bod y canrannau yn y categori 'fel arfer' ar gyfer pob gosodiad wedi cynyddu rhwng Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3. Yn yr un modd bu gostyngiad yn y canrannau yn y categori 'dim eto'. Dengys hyn bod symudiad wedi bod tuag at 'fel arfer' ar gyfer pob gosodiad ar y Ffurflen Datblygiad Iaith.

Cymharwyd cymedrau y ddau ymchwiliad. Symudodd cymedr pob gosodiad yn nes at bedwar, hynny yw yn nes at 'fel arfer'. Ar gyfartaledd cynyddodd pob cymedr 0.51, sef cynnydd o ychydig dros hanner categori. Gwelwyd y cynnydd mwyaf yng nghanlyniadau Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar, ond roedd mwy o le i gynyddu yn yr adran honno. Dangosodd prawf t-test bod y newid yng nghymedrau pob gosodiad yn newid ystadegol arwyddocaol.

Roedd cymedr y merched yn gyson well na chymedr y bechgyn yn y ddau ymchwiliad. Cynyddodd cymedr y bechgyn a'r merched rhwng yr ymchwiliad cenedlaethol a'r ail ymchwiliad cenedlaethol. Ychydig iawn o wahaniaeth oedd rhwng cynnydd y ddau ryw. Mewn rhai achosion cynyddodd y bechgyn fwy na'r merched, ac mewn achosion eraill cynyddodd cymedr y merched fwy na'r bechgyn. Roedd datblygiad ieithyddol y bechgyn a'r merched yn gwahaniaethu'n ystadegol arwyddocaol ar gyfer tri gosodiad yn Adran Gwranddo a Deall a phedwar gosodiad yn Adran Siarad a Chyfathrebu, nid oedd eu datblygiad yn gwahaniaethu'n arwyddocaol yng nghanlyniadau unrhyw un o osodiadau Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Dim ond ar gyfer un o'r gosodiadau hyn y datblygodd y bechgyn yn arwyddocaol fwy na'r merched sef ar gyfer y gosodiad 'Dwyn i gof rigymau a chaneuon cyfarwydd'.

Ychydig o effaith a gafodd oedran y plant ar eu datblygiad dim ond ar y newid a fu yn sgoriau'r plant ar gyfer naw gosodiad y cafodd eu hoedran ddylanwad ystadegol arwyddocaol. Roedd pump o'r gosodiadau hyn yn Adran Sgiliau

Llythrennedd Cynnar, felly ar eu sgiliau llythrennedd dechreuol y cafodd oedran y plant fwyaf o ddylanwad. Ac eithrio canlyniadau dau osodiad, po hynaf y plentyn y mwyaf o ddatblygiad.

Ni chafodd cynyddu'r nifer o sesiynau a fynychir yr wythnos effaith mor gryf ac y disgwyliwyd ei weld. Cafodd y nifer o sesiynau a fynychwyd effaith ystadegol arwyddocaol ar sgoriau newid saith gosodiad yn Adran Gwrandu a Deall, pump gosodiad yn Adran Siarad a Chyfathrebu a chwech gosodiad yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Roedd cynyddu nifer y sesiynau yn cael effaith cadarnhaol ar ddatblygiad canlyniadau pob gosodiad. Fodd bynnag, nid oedd y cydberthyniadau rhwng y nifer o sesiynau a datblygiad sgoriau y plant yn gryf iawn.

Gwnaed dadansoddiad cydberthyniad ychwanegol i weld a oedd y nifer o sesiynau a fynychai'r plant yn cael dylanwad wahanol ar blant a siaradai Gymraeg â'u rhieni ac ar blant a siaradai Saesneg gyda'u rhieni. Gwelwyd bod y nifer o sesiynau a fynychai'r plant yn cael mwy o effaith ar ddatblygiad plant o gartrefi Saesneg eu hiaith nac ar blant o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Gwelwyd y duedd hon gryfaf yn Adran Siarad a Chyfathrebu.

Gwnaed dadansoddiad ANOVA i gymharu datblygiad cymedrig y plant o ardaloedd gwahanol o Gymru. Dangosodd y dadansoddiad hwn bod yr ardal y lleolir y cylch ynddo yn effeithio'n ystadegol arwyddocaol ar y datblygiad ieithyddol mewn saith gosodiad yn Adran Gwrandu a Deall a phedwar gosodiad yn Adran Siarad a Chyfathrebu. Yng nghylchoedd y de ddwyrain a'r gogledd ddwyrain y bu'r datblygiad mwyaf yn y gosodiadau hyn ac eithrio un sef 'Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau. Yng nghylchoedd y de orllewin a'r canolbarth y gwelwyd y datblygiad mwyaf ar gyfer y gosodiad hwn. Yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar roedd pedwar gosodiad yn gwahaniaethu'n ystadegol arwyddocaol ar sail ardal. Yn y de ddwyrain y bu'r datblygiad mwyaf ar gyfer y ddau osodiad yn ymwneud â mwynhau edrych ar lyfrau tra mai yn y gogledd orllewin y bu'r datblygiad mwyaf ar gyfartaledd yn y gosodiad 'Cyfathrebu drwy lun neu farciau a thrafod yr hyn a gyflëir'. Cylchoedd y gogledd ddwyrain oedd ar y brig ar gyfer y gosodiad 'Ysgrifennu rhai geiriau Cymraeg syml yn ddealladwy'. Felly, ar y cyfan yn y de ddwyrain a'r gogledd ddwyrain y gwelwyd y datblygiad mwyaf.

Dangosodd dadansoddiad ANOVA bod iaith y teulu wedi dylanwadu'n ystadegol arwyddocaol ar y newid a fu yng nghymedr bron pob gosodiad ar y Ffurflen Datblygiad Iaith. Y plant yn y grŵp siarad Cymraeg gyda'u rhieni a ddangosodd y newid cymedr mwyaf yn eu sgoriau gweddilleb ar gyfer pob gosodiad. Ni effeithiodd iaith y teulu'n ystadegol arwyddocaol ar bedwar gosodiad yn unig, y gosodiadau symlaf ar y ffurflen o bosibl er enghraifft 'Mwynhau gweithgareddau'r cylch; a 'Dwyn i gof rigymau a chaneuon Cymraeg'.

Gwnaed dadansoddiadau ychwanegol ar un garfan o blant, sef y rhai a oedd newydd ddechrau mewn cylch meithrin pan ddechreuodd yr ymchwil. Dangoswyd bod newid sylweddol wedi bod yng nghymedr sgoriau'r plant o gartrefi di-Gymraeg yn ystod y naw mis rhwng Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3. Roedd y newid yn fwy nac ar gyfer plant yn y sampl i gyd ar gyfer bron pob gosodiad a'r gwahaniaethau mwyaf yn Adran Gwrando a Dechrau a gosodiadau cyntaf yn Adran Siarad a Chyfathrebu.

Cymharwyd cymedr gweddillebau'r plant a oedd newydd ddechrau yn y cylch pan wnaed Ymchwiliad 2 ar sail iaith y teulu. Cymharwyd plant o deuluoedd Cymraeg, dwyieithog a Saesneg drwy ddefnyddio dadansoddiad ANOVA. Nid oedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol ar gyfer yr un gosodiad yn Adran Gwrando a Deall, felly roedd datblygiad ieithyddol y tri grŵp yn ddigon tebyg er eu bod yn dechrau ar lefel gwahanol. Fodd bynnag, roedd datblygiad y plant o gartrefi Cymraeg yn ystadegol arwyddocaol well yn y mwyafrif o'r canlyniadau yn Adran Siarad a Chyfathrebu, yn arbennig felly yn y rhai oedd yn gofyn am ddefnydd estynedig o'r Gymraeg ar lafar. Dim ond mewn tri canlyniad yr oedd iaith y rhieni'n dylanwadau'n ystadegol arwyddocaol yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar, ond roedd rhain yn gofyn am fwy o fedr yn y Gymraeg nag a oedd angen ar gyfer rhai o'r gosodiadau eraill. Roedd iaith y rhieni yn effeithio ar ddatblygiad y plant yn arbennig yn y gosodiadau a asesai eu parodrwydd a'u gallu i ddefnyddio Cymraeg estynedig.

7.6 Casgliad Pennod 7

Ym Mhennod 7 cyflwynwyd canlyniadau Ymchwiliad 3, sef yr ail ymchwiliad cenedlaethol i fonitro iaith plant mewn cylchoedd meithrin o dan ofal Mudiad Ysgolion Meithrin. Defnyddiwyd yr un sampl ag yn Ymchwiliad 2 er mwyn monitro eu datblygiad iaith. Defnyddiwyd yr un Ffurflen Datblygiad Iaith (Atodiad 12) i gasglu'r wybodaeth. Roedd 1259 plentyn o 102 cylch meithrin yn sampl Ymchwiliad 3, roedd nifer a oedd yn Ymchwiliad 2 wedi gadael y cylch neu ddim yn yr ail sampl am resymau amrywiol eraill.

Cyflwynwyd canlyniadau Ymchwiliad 3 ar ffurf amledau a chydberthyniadau er mwyn gweld a ffactorau a effeithiodd ar eu sgiliau ieithyddol.

Yn ail ran y bennod hon dadansoddwyd y newid a fu yn sgiliau ieithyddol y plant dros gyfnod o naw mis, sef blwyddyn ysgol. Gwnaed hyn drwy gymharu canlyniadau'r plant yn Ymchwiliad 2 a wnaed yn Hydref 2000 a'u canlyniadau yng Ngorffennaf 2001. Dadansoddwyd y newid a fu yn eu canlyniadau drwy ddefnyddio sgoriau gweddilleb sy'n dadansoddi'r newid a fu yn sgoriau'r plant o ystyried beth oedd eu canlyniad cyntaf ar gyfer pob gosodiad. Defnyddiwyd y sgoriau gweddilleb i ddadansoddi effaith gwahanol ffactorau ar ddatblygiad ieithyddol drwy ddefnyddio profion ystadegol megis t-test, cydberthyniad, ANOVA a dadansoddiad ffactoraidd. Drwy ddefnyddio'r profion hyn dadansoddwyd effaith rhyw'r plant, eu hoedran, y nifer o sesiynau a fynychant yr wythnos, pa mor hir y buont yn mynychu'r cylch, yr ardal lle lleolir y cylch a pha iaith a siaredir yn y teulu ar eu datblygiad ieithyddol. Cyflwynwyd a thrafodwyd y canlyniadau hyn yn ail ran y bennod.

PENNOD 8

YMCHWIL ARWEINYDDION CYLCHOEDD SIROEDD

DWYREINIOL CYMRU

8.1 Bwriad y bennod

Bwriad y bennod hon yw cyflwyno methodoleg a chanlyniadau ymchwiliad 4. Yn gyntaf, cyflwynir cefndir a methodoleg yr ymchwil. Yn ail ran y bennod cyflwynir canlyniadau'r ymchwiliad ar ffurf amledau a chydberthyniadau, gan archwilio pump cwestiwn ymchwil.

8.2 Methodoleg

8.2.1 Cyflwyniad

Yn rhan gyntaf y bennod hon amlinellir methodoleg a chefnidir datblygiad ymchwiliad 4. Ymchwil yw hwn i ddefnydd staff y cylchoedd Meithrin o'r Gymraeg yn y cylch a hefyd i angen y staff am gefnogaeth ieithyddol bellach gan y mudiad. Edrychir ar yr ymchwil ar sail pump cwestiwn ymchwil sef:

- Beth yw cefndir ieithyddol y staff?
- Beth yw'r defnydd presennol o'r Gymraeg yn y cylch?
- A yw'r arweinyddiaeth yn cael effaith ar y defnydd o'r Gymraeg yn y cylch?
- A oes amrywiaeth rhanbarthol o ran y galw a'r angen am hyfforddiant ieithyddol i staff?
- Beth hoffai'r arweinyddion weld o ran datblygiad hyfforddiant staff?

Cyflwynir y cwestiynau ymchwil hyn bob yn un ac edrychir ar y modd y casglwyd tystiolaeth i archwilio'r cwestiwn yn ogystal ag edrych ar y canlyniadau perthnasol a

gododd o'r holiadur. Trafodir y canlyniadau hyn a cheisir dod i gasgliadau yn ymwneud â'r cwestiynau ymchwil.

Dadansoddwyd yr ystadegau drwy ddefnyddio'r rhaglen gyfrifiadurol SPSS (The Statistical Package for the Social Sciences) fersiwn 9.0. Rhoddir manylion ynglŷn â'r dadansoddiad ystadegol yn y bennod hon.

8.2.2 Bwriad yr ymchwil

Bwriad yr holiadur yw edrych ar allu ieithyddol yr arweinyddion a'r rhai sy'n eu cynorthwyo yn y cylchoedd. Y gobaith yw gweld beth yw anghenion ieithyddol yr arweinyddion er mwyn iddynt allu gwneud eu gwaith yn well; pa mor hyderus ydynt wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y cylch a pha ffordd y gellid datblygu sgiliau Cymraeg yr arweinyddion. Dylid pwysleisio mai rhoi cefnogaeth i'r cylchoedd yw prif amcan y rhan hwn o'r ymchwil. Y gobaith yw y bydd Mudiad Ysgolion Meithrin yn gallu defnyddio canlyniadau'r ymchwil hwn i lunio a thargedu hyfforddiant ieithyddol ac adnoddau iaith i staff y cylchoedd Meithrin. Gobaith Mudiad Ysgolion Meithrin yw llunio cwrs fyddai o fudd i'r arweinyddion, yn arbennig i'r rhai sydd fwyaf o angen cymorth. Gall yr hyfforddiant hwn fod ar ffurf cwrs, llyfryn ac efallai tapiau neu CD Rom.

8.2.3 Cyd-destun yr ymchwil

Fel y gwelwyd ym Mhennod 4 ar Mudiad Ysgolion Meithrin, un o'r problemau amlycaf sydd wedi wynebu'r mudiad yn y blynyddoedd diwethaf yw'r anhawster i gael arweinyddion cylchoedd sy'n rhugl yn y Gymraeg. Hefyd, yn ôl profiad Mudiad Ysgolion Meithrin, os yw'r arweinydd angen cymorth ieithyddol yn aml mae hynny hefyd yn wir am y cynorthwywyr yn y cylch, mae'r ddau yn aml yn cyd-fynd. Bu hon yn broblem ers peth amser ac yn enwedig yn yr ardaloedd mwyaf Seisnig eu hiaith. Ar hyn o bryd nid oes gan y mudiad reolau na chanllawiau ieithyddol i gylchoedd wrth iddynt benodi staff ond maent yn awyddus i roi cefnogaeth ieithyddol.

Pwyllgor Rheoli'r cylch meithrin sydd yn gyfrifol am benodi, cyflogi a diswyddo staff y cylch. Bydd y pwyllgor yn sicrhau bod aelodau staff a benodir a threfniadau staffio'r cylch yn cydymffurfio â gofynion cofrestru'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd hefyd yn ceisio sicrhau bod gan yr holl staff a benodir gymwysterau cydnabyddedig mewn gofal ac addysg plant a phrofiad perthnasol.

(www.mym.co.uk/cymraeg/polisiau/410.html Dyddiad:10/7/02)

Er mwyn deall y sefyllfa, a gweld pa ffordd y gellir gwella'r sefyllfa, penderfynwyd llunio holiadur i'w lenwi gan yr arweinyddion ar eu rhan eu hunain a'r cynorthwywyr. Yn dilyn dadansoddi canlyniadau'r holiadur hwn trefnwyd ymweliadau â rhai cylchoedd er mwyn cael barn bellach yr arweinyddion yn bersonol.

Mae'n anodd dweud pa mor rhugl y mae'n rhaid i aelod o staff fod er mwyn gallu datblygu iaith plant. Gellir dadlau os nad yw'r arweinyddion a'r cynorthwywyr yn rhugl yn y Gymraeg gallant ddatblygu Cymraeg y plant drwy gyflwyno patrymau iaith syml a geirfa newydd drwy ddefnyddio llyfrau storïau. Pwysleisia Godwin a Perkins le pwysig adrodd stori o safbwynt datblygu iaith mewn addysg blynyddoedd cynnar.

Storytelling gives children the opportunity to hear the rhythms and patterns of language.

(Godwin a Perkins, 1998, 27)

Fodd bynnag, mae plant yn caffael iaith drwy gyfathrebu ag eraill er enghraifft rhieni, plant eraill a gofawyr. Gan mai yn y cylch yn unig y mae nifer o'r plant yn dod i gysylltiad â'r Gymraeg, gall pa mor rhugl yw'r arweinyddion a'r cynorthwywyr fod yn ffactor allweddol o safbwynt datblygiad plant y cylch wrth gaffael y Gymraeg. Yr oedolion yn y cylch sy'n darparu'r cyfleoedd ar gyfer defnydd iaith ac yn annog y plant i siarad ar gyfer amrywiaeth o resymau, gydag amrywiaeth o bobl a phlant eraill. Rhaid i'r oedolion fod yn ymwybodol o angen y plant i deimlo'n hyderus wrth ddefnyddio eu hiaith newydd (Godwin a Perkins 1998, 13). Gellir dadlau bod angen gwybodaeth ieithyddol er mwyn dysgu plant sy'n caffael iaith mewn modd rhesymegol, bwriadol a strwythurol. Mae angen iddynt ddeall ychydig am fethodoleg dysgu iaith ac am ddatblygiad iaith plant. Mae arbenigedd pedagogaid mewn dysgu iaith, fel iaith gyntaf ac fel ail iaith yn nodwedd werthfawr. Hefyd, efallai y dylent

ddeall ychydig ynglŷn â ieithyddiaeth sylfaenol er enghraifft, ynglŷn â chymdeithaseg iaith, seicoieithyddiaeth a chystawen.

Mae'n amlwg bod yn rhaid i blant ddod i gyswllt â iaith er mwyn ei chaffael.

A child must hear a language in order to learn / acquire it. If a child is not exposed to a language he or she will not learn it.
(Foster – Cohen, 1999, 95)

Noda Rod Ellis yn 'The Study of Second Language Acquisition', (1994, 243) bob pob theori ynglŷn â chaffael ail iaith yn cydnabod yr angen am fewnbwn yn yr iaith honno. Yng nghyswllt yr ymchwil hwn, yr arweinyddion a'r cynorthwyr yn y cylchoedd meithrin sy'n darparu mewnbwn iaith.

Proficiency may be needed by teachers in two languages. This means proficiency enough to execute normal classroom functions through the majority and minority language.
(Baker, 1985, 80)

Yn Iwerddon ymchwiliwyd i mewn i'r cysylltiad rhwng cyrhaeddiad Gwyddeleg plant mewn *naoínraí* (grwpiau meithrin cyfrwng Gwyddeleg) a lefel y *Stiúrthóirí* (arweinyddion). Yn ôl canlyniadau'r ymchwil, a wnaed gan Tina Hickey (1997) o'r Institiúid Teaneolaíochta Éireann, nid oedd plant mewn *naoínraí* gyda *Stiúrthóirí* â lefel Gwyddeleg boddhaol neu wan yn tueddu i berfformio cystal wrth gynhyrchu iaith (Hickey, 1997, 74).

This points to the importance of ensuring that all Stiúrthóirí and their assistants have an adequate level of Irish competence, through the targeting of appropriate Irish language training on this group.
(Hickey, 1997, 74)

Ym marn Hickey (1997, 74) mae lefel iaith yr arweinyddion yn anochel yn dylanwadu ar y math a'r swm o fewnbwn iaith y mae'r plant yn ei dderbyn mewn grŵp meithrin.

It is reasonable to assume that Stiúrthóirí who have weaker levels of competence would be less able to provide the appropriate and accurate input required to optimise L2 acquisition.
(Hickey, 1997, 74)

Cred Tina Hickey bod yn rhaid i'r arweinyddion gael o leiaf '*good fluency*' yn yr iaith darged er mwyn cynyddu'r mewnbwn iaith i'r grŵp meithrin ac i hyrwyddo ac ymateb i ymgais gynnar y plant i gynhyrchu allbwn dealladwy (Hickey, 1997, 74). Yn ei barn hi mae angen y lefel hwn o ruglder iaith er mwyn gallu addasu eu hiaith wrth siarad â'r plant, er enghraifft drwy amrywio patrymau iaith a lefelu iaith (Hickey, 1997, 74). Yn gyffredinol ceir diffyg ymchwil ar fewnbwn iaith i blant ail iaith (Cancino a Hakuta, 1991, 92).

8.2.4 Y Sampl Ymchwil

Ar gyfer prosiectau ymchwil 2 a 3, a drafodwyd ym Mhenodau 5, 6 a 7, dewiswyd canran o gylchoedd meithrin Mudiad Ysgolion Meithrin yn genedlaethol i gymryd rhan yn yr ymchwil. Ar gyfer yr ymchwil hwn penderfynwyd y dylid canolbwyntio ar holl gylchoedd meithrin y mudiad yn nwyrain Cymru yn hytrach na chanran o'r cylchoedd yn genedlaethol.

Ym Mehefin 2001 'roedd 181 o gylchoedd meithrin wedi eu cofrestru yn 17 rhanbarth neu sir dwyreiniol Cymru. Felly roedd 181 o gylchoedd meithrin yn y sampl ymchwil.

Tabl 8.1 Ystadegau Iaith – Sir (1991)

Sir	Canran o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg
Clwyd	18.2
Dyfed	43.7
Gwent	2.4
Gwynedd	61.1
Morgannwg Ganol	8.4
Powys	20.2
De Morgannwg	6.5
Gorllewin Morgannwg	15.0
Cymru	18.6

(Addasiad o dabl 6.1 Aitchison a Carter, 1994, 89)


Yn y tabl isod rhoddir ystadegau sy'n dangos canrannau o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg fesul dosbarth, yn ôl canlyniadau Cyfrifiad 1991. (Noder nad yw ffiniau'r dosbarthiadau yn cyfateb yn union i ffiniau rhanbarthau Mudiad Ysgolion Meithrin).

Tabl 8.2 Ystadegau Iaith – Dosbarth (1991)

Dosbarth	Canran o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg
Alun a Glannau Dyfrdwy	9.62
Colwyn	25.50
Delyn	17.76
Glyndŵr	39.85
Rhuddlan	16.16
Wrecsam Maelor	13.42
Caerfyrddin	57.99
Ceredigion	59.08
Dinefwr	66.52
Llanelli	46.47
Preseli Sir Benfro	24.35
De Penfro	8.20
Blaenau Gwent	2.33
Islwyn	3.44
Mynwy	1.99
Casnewydd	2.26
Torfaen	2.45
Aberconwy	36.03
Arfon	74.61
Dwyfor	75.43
Meirionnydd	65.43
Ynys Môn	61.99
Cwm Cynon	9.51
Merthyr Tydfil	7.48
Ogwr	8.30
Rhondda	8.15
Cwm Rhymni	7.61
Taf Elái	9.72
Brycheiniog	23.03
Sir Drefaldwyn	23.28
Sir Faesyfed	8.32
Caerdydd	6.44
Bro Morgannwg	6.76
Dyffryn Lliw	36.92
Nedd	12.97
Aberafan	8.59
Abertawe	10.00
CYMRU	18.65

(Gwybodaeth o Aitchison a Carter, 1994, 92-93)

Ffigwr 8.1 Canran Siaradwyr Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 1991



8.2.4.1 Disgrifiad o'r sefydliadau a ddefnyddiwyd

Fel y dywedwyd eisoes ceir yr anawsterau mwyaf i ddod o hyd i siaradwyr rhugl eu Cymraeg i weithio yn y cylchoedd yn yr ardaloedd Seisnig o Gymru, felly penderfynwyd llunio holiadur i'w anfon i bob cylch meithrin o dan ofal Mudiad Ysgolion Meithrin yn y rhanbarthau dwyreiniol. Yn y dwyrain mae'r angen mwyaf yn ôl gwybodaeth y mudiad. Siroedd: Abertawe, Blaenau Gwent, Bro Morgannwg, Caerdydd, Caerffili, Casnewydd, Castell Nedd Afan, Cynon Taf, De Powys, Fflint, Gogledd Powys, Merthyr, Mynwy, Ogwr, Rhondda Taf, Torfaen, Wrecsam (Rhanbarthau Mudiad Ysgolion Meithrin). Cynnwys y rhanbarthau hyn 181 o gylchoedd ac roeddynt i gyd yn rhan o'r ymchwil. O fewn y 181 cylch ceir amrywiaeth o ran nifer staff, cefndir ieithyddol ac economaidd. Drwy ddewis ymchwilio i bob cylch yn y siroedd dwyreiniol yn hytrach na chanran o gylchoedd Cymru, caed gobaith o ddarlun cyflawn o'r sefyllfa yn y dwyrain yn hytrach na darlun anghyflawn o'r sefyllfa drwy Gymru gyfan.

Cynhaliwyd cyfarfod gyda Hywel Jones, Cyfarwyddwr Mudiad Ysgolion Meithrin ar Ionawr 12, 2001 er mwyn gweld beth oedd gobeithion y mudiad ar gyfer y darn hwn o ymchwil. Penderfynwyd mai'r bwriad oedd edrych ar allu ieithyddol arweinyddion a'r rhai sy'n cynorthwyo a gweld beth yw eu hanghenion ieithyddol. O'r canlyniadau, y gobaith oedd targedu hyfforddiant ac adnoddau iaith i arweinyddion. Gobaith y mudiad yw llunio cynllun hyfforddiant a fyddai o fudd i'r arweinyddion yn arbennig i'r rhai sydd fwyaf o angen cymorth. Gallai'r cymorth hwn fod ar ffurf cwrs swyddogol, llyfryn, tapiau neu CD-ROM. Cefnogaeth, nid ymchwil, felly yw'r pwyslais.

8.2.4.2 Nodweddion y sampl

Anfonwyd yr holiadur i'r 181 cylch meithrin sydd wedi eu cofrestru gyda Mudiad Ysgolion Meithrin yn nwyrain Cymru. Dychwelodd 149 cylch yr holiadur wedi ei gwblhau. Yn y tabl isod dangosir y nifer o gylchoedd a gymerodd ran yn yr ymchwil yn ôl y rhanbarthau a ddefnyddir gan y mudiad i weinyddu.

Tabl 8.3 Nodweddion y Sampl – Rhanbarthau Mudiad Ysgolion Meithrin

Rhanbarthau	Nifer	Canran dilyys
Abertawe	11	7.38
Blaenau Gwent	2	1.34
Bro Morgannwg	9	6.04
Caerdydd	19	12.75
Caerffili	17	11.41
Casnewydd	3	2.01
Castell Nedd Afan	7	4.70
Cynon Taf	12	8.05
De Powys	7	4.70
Fflint	10	6.71
Gogledd Powys	18	12.08
Merthyr	6	4.03
Mynwy	3	2.01
Ogwr	4	2.68
Rhondda Taf	6	4.03
Torfaen	4	2.68
Wrecsam	11	7.38
CYFANSWM	149	100.00

Yn yr holiaduron a ddychwelwyd, caed gwybodaeth ynglŷn â chefnidir ieithyddol a defnydd o'r Gymraeg ar gyfer 447 o staff sy'n gweithio yn y 149 cylch meithrin yn y sampl. Roedd 148 arweinydd 1, 76 arweinydd 2, 126 cynorthwydd 1, 69, cynorthwydd 2 a 28 cynorthwydd 3 yn rhan o'r ymchwil.

8.2.5 Offerynnau Ymchwil - Holiadur ac ymweliadau

8.2.5.1 Holiadur

Penderfynwyd mai'r ffordd orau i gael y wybodaeth ynglŷn ag anghenion oedd i lunio holiadur byr, tua chwe chwestiwn, er mwyn gweld faint ohonynt sydd angen cefnogaeth ieithyddol. Gweler Atodiadau 29 a 30 am gopïau Cymraeg a Saesneg o'r holiadur.

Awgrymodd swyddogion y mudiad rai cwestiynau y gellir eu defnyddio yn yr holiadur. Roeddent yn awyddus i gael cwestiwn ynglŷn â pha mor rhugl oedd pob aelod o staff a phryd a lle yr oeddynt wedi dysgu Cymraeg. Roeddent hefyd am wybod faint o Gymraeg a ddefnyddiai'r arweinyddion yn y cylch. Roeddent hefyd am gael cwestiwn ynglŷn â sut yr hoffent ddatblygu eu Cymraeg.

Felly, yn dilyn y cyfarfod ac ymgynghori pellach gyda staff y mudiad, lluniwyd amlinelliad byr o'r holiadur.

1. Pa mor rhugl yw pob aelod o staff y cylch?
2. Sut a phryd wnaeth y staff ddysgu Cymraeg?
 - gan eu rhieni
 - yn yr ysgol
 - mewn dosbarth nos
3. Pa iaith a ddefnyddir gan y staff efo'i gilydd yn y cylch?
4. Ydi'r arweinydd yn rhoi gorchmynion yn Gymraeg i'r plant?
5. Ydi'r arweinydd yn sgwrsio'n Gymraeg gyda'r plant?
6. Ydi'r arweinydd yn datblygu Cymraeg y plant?
7. Ydi'r arweinydd yn siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd?
8. Ydi'r arweinydd yn hyderus wrth wneud y canlynol yn Gymraeg?
 - Croesawu
 - Cofrestru
 - Cyflwyno gweithgareddau creadigol
 - Cyflwyno gemau bwrdd
 - Cyflwyno gweithgareddau corfforol
 - Cyflwyno mathemateg
 - Cyflwyno gwaith thema
 - Cynhyrchu deunyddiau gweledol

9. Beth fyddai'n helpu'r arweinydd i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg?

- Adnoddau
- Cwrs byr
- Cwrs estynedig
- Wlpan
- Cefnogaeth swyddog iaith
- Cefnogaeth ieithyddol drwy glystyru cylchoedd
- Arall

10. Os hyfforddiant – ble?

- Yn y cylch
- Cwrs nos
- Cwrs dydd

Ehangwyd a newidiwyd yr holiadur hwn yn raddol. Penderfynwyd cynnwys y staff i gyd yn hytrach na dim ond yr arweinydd yng nghwestiynau 4, 5, 6 a 7 er mwyn cael darlun mwy cyflawn o'r hyn sy'n digwydd yn y cylchoedd. Gwnaeth hyn rai o'r cwestiynau yn fwy cymhleth - yn rhy gymhleth efallai. Enghraifft o hyn efallai yw cwestiwn 5 o'r holiadur terfynol lle gofynnir i ba raddau mae pob aelod o'r staff yn defnyddio'r Gymraeg wrth wneud gwahanol bethau.

8.2.5.1.1 Iaith a Chyfieithu

Lluniwyd yr holiadur yn Gymraeg yn y lle cyntaf ac yna fe'i cyfieithwyd i'r Saesneg, anfonwyd dau gopi o'r holiadur, un Cymraeg ac un Saesneg, i arweinydd pob cylch yn y siroedd dwyreiniol. Gwnaed pob ymdrech i sicrhau cyfieithiad mor gywir â phosibl. Ychydig iawn o drafferth a gaed, er enghraifft wrth gyfieithu 'eithaf rhugl'; penderfynwyd ar y cyfieithiad '*fairly fluent*', yn hytrach na '*quite fluent*' neu derm arall.

8.2.5.2 Ymweliadau / Arsylwadau Anghyfrannol

Ym Medi 2001, fel ail ran o'r ymchwil hwn, ymwelwyd ag wyth cylch meithrin unwaith yr un yng nghwmni Swyddogion Datblygu Mudiad Ysgolion Meithrin. Galluogodd yr ymweliadau hyn i'r ymchwilydd weld ochr real yr ymchwil a gweld y gwaith pwysig sy'n digwydd mewn cylchoedd meithrin ym mhob rhan o Gymru. Trefnwyd i'r ymchwilydd ymweld ag wyth cylch meithrin yn ne ddwyrain Cymru er mwyn rhoi'r ymchwil mewn cyd-destun real. Gwnaed hyn yn rhannol er mwyn gweld a oedd yr hyn a nodwyd yn yr holiadur yn adlewyrchiad cywir o'r hyn sy'n digwydd yn y cylchoedd meithrin.

O ganlyniadau'r holiadur, dewiswyd sampl o'r cylchoedd sy'n cynrychioli amrywiaeth o'r cylchoedd sydd angen cymorth ieithyddol. Trafodwyd gydag arweinyddion y cylchoedd a ddewiswyd ac arsylwyd ar weithgareddau'r cylch i weld faint o gymorth a chefnogaeth ieithyddol sydd angen ar yr arweinydd. Ceisiwyd gweld a fyddai gwella Cymraeg yr arweinydd yn gwella eu gallu i gynorthwyo'r plant i gaffael y Gymraeg. Sylwyd ar faint o Gymraeg a ddefnyddiwyd yn y cylch ar lafar gan yr arweinydd, cynorthwywyr a'r plant. Hefyd nodwyd faint o Gymraeg oedd ar y waliau er mwyn gweld sut maent yn defnyddio'u Cymraeg ac a ydynt yn hyderus wrth siarad ac ysgrifennu yn Gymraeg.

In observation studies, investigators are able to discern ongoing behaviour as it occurs and are able to make appropriate notes about its salient features.

(Cohen, Manion a Morrison, 2000, 188)

Mantais arsylwi dros fathau eraill o ymchwilio megis holiadur neu gyfweld yw bod modd i'r ymchwilydd gasglu data o sefyllfaoedd real. Gall yr ymchwilydd edrych ar yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd yn hytrach na dibynnu ar wybodaeth ail law.

Amrywiai hyd yr ymweliadau o tua thri chwarter awr i ddwy awr gan ddibynnu ar yr amser yn y dydd y cyrhaeddwyd y cylch.

Yn yr ymchwil hwn arsylwyd yn anghyfrannol gan ddefnyddio holiadur yr arweinyddion fel *aide memoire* / cymorth cof. Roedd yr arsylwi yn lled strwythuredig ond roedd yr ymchwilydd yn agored i syniadau newydd. Ceisiwyd cadw'r holiadur

mewn cof trwy gydol yr ymweliadau. Roedd nifer o gwestiynau yn codi o'r holiadur yr oedd modd gweld tystiolaeth o'r atebion drwy arsylwi yn y cylch. Er enghraifft:

- Pa iaith mae'r staff yn siarad â'i gilydd yn y cylch?
- A yw rhai o'r staff yn defnyddio'r Saesneg gan mwyaf gyda'r plant ond gyda rhai geiriau Cymraeg?
- A ydynt yn rhoi cyfarwyddiadau i'r plant yn Gymraeg drwy'r amser?
- A ydynt yn siarad yn anffurfiol yn Gymraeg gyda'r plant a chydag oedolion yn y cylch?
- A ydynt yn datblygu Cymraeg y plant?
- Pa mor hyderus ydynt wrth wneud gwahanol weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg yn y cylch?

A semi-structured observation will have an agenda of issues but will gather data to illuminate these issues in a far less pre-determined or systematic manner.

(Cohen a Manion, 2000, 305)

Penderfynwyd mynd i mewn i'r cylchoedd heb offer ysgrifennu i gymryd nodiadau yn rhannol er mwyn treulio'r amser yn arsylwi ac nid yn ysgrifennu nodiadau, ond, yn bennaf, gwnaed hyn rhag edrych yn rhy swyddogol. Gwnaed nodiadau ar ôl yr arsylwi gan ddisgrifio'r sefyllfa yn y cylch yn gryno ac yn wrthrychol. Ehangwyd ar y nodiadau yn ddiweddarach.

Gwnaed yr ymchwil mewn amgylchedd oedd yn naturiol a chyfarwydd i'r plant, sef yn eu cylch meithrin. Gwnaed pob ymdrech i sicrhau na effeithiodd presenoldeb yr ymchwilydd ar weithgareddau'r plant yn y cylchoedd yr ymwelwyd â hwy.

Mae arsylwi yn galluogi ymchwilydd i gasglu data ar leoliad a threfn cyffredinol y cylch, y pobl yn y cylch, y rhyngweithio ffurfiol ac anffurfiol, wedi ei drefnu a heb ei drefnu sy'n digwydd yn y cylchoedd, yr adnoddau a'r mathau o ddysgu sy'n digwydd (Cohen, Manion a Morrison, 2000, 305).

8.2.5.2.1 Casgliadau'r Ymweliadau

Er mai ymweliadau byr yn unig oedd yr ymweliadau â'r cylchoedd meithrin, cafwyd cyfle i arsylwi ar weithgareddau'r cylchoedd a chael sgwrs gyda'r arweinyddion a rhai o'r cynorthwywyr.

Cafodd yr ymchwilydd groeso ym mhob un o'r cylchoedd meithrin yn y sampl yr ymwelwyd â hwy. Yn ystod yr ymweliadau hyn gwelwyd plant yn caffael iaith drwy chwarae a mwynhau eu hunain. Gwelwyd plant yn canu ac yn symud i ganeuon Cymraeg, gwrandao ar storïau Cymraeg ac yn chwarae gemau iaith.

Gwelwyd nifer o arferion da iawn yn y cylchoedd o ran rhoi cyfle i'r plant gaffael y Gymraeg. Defnyddiwyd trefn ddyddiol er mwyn ailadrodd ymadroddion Cymraeg, er enghraifft trwy gofrestru. Gwelwyd defnydd amlwg o ganeuon Cymraeg yn aml o fewn thema'r tymor er enghraifft 'siapiau a lliwiau'.

Mewn un cylch fe aed â'r plant allan am dro i weld y dail yn newid lliw ar ddechrau'r hydref. Roedd hyn hefyd yn gyfle i fynd â'r iaith allan o'r cylch meithrin.

Roedd nifer o'r arweinyddion a'r cynorthwywyr yn y cylchoedd yr ymwelwyd â hwy wedi dysgu neu wrthi'n dysgu Cymraeg. Roedd nifer ohonynt yn ddysgwyr hyderus ac yn defnyddio'r Gymraeg gyda'r plant ac yn datblygu Cymraeg y plant. Nid oedd rhai ohonynt yn ddigon hyderus i siarad Cymraeg gydag oedolion ac roedd eraill yn siarad Cymraeg gyda'r staff eraill yng ngŵydd y plant ond yn siarad Saesneg ymysg ei gilydd pan nad oedd y plant yn bresennol. Roedd ambell aelod o staff, nad oedd mor rhugl yn y Gymraeg, yn defnyddio'r Saesneg gyda'r plant yn gyffredinol ond yn defnyddio ambell air neu ymadrodd Cymraeg. Roedd un gynorthwywraig newydd ddechrau cwrs Cymraeg i ddechreuwr mewn dosbarth nos gan ei bod am siarad mwy o Gymraeg gyda'r plant yn y cylch. Roedd y gynorthwywraig hon yn amlwg yn gwneud ymdrech i ddefnyddio ei Chymraeg gyda'r plant er enghraifft "amser golchi dwylo" ac enwau'r lliwiau tra roedd hi'n helpu'r plant i baentio.

Dangosodd rhai arweinyddion adnoddau megis tapiau, gemau a llyfrau gan Mudiad Ysgolion Meithrin a ddefnyddir yn y cylch.

Ail iaith oedd y Gymraeg i fwyafrif helaeth y plant yn y cylchoedd meithrin yr ymwelwyd â hwy. Roedd nifer ohonynt yn amlwg yn dechrau dod i siarad y Gymraeg - amrywiai hyn o gylch i gylch. Ym marn yr ymchwilydd nid pa mor rhugl oedd y staff yn y cylchoedd oedd bwysicaf ond yn hytrach faint o Gymraeg a ddefnyddiwyd gyda'r plant. Roedd staff nad oeddynt yn rhugl yn y Gymraeg oedd yn chwarae gemau bwrdd a chanu yn Gymraeg gyda'r plant yn gwneud mwy i ddatblygu Cymraeg y plant na staff rhugl eu Cymraeg oedd yn gadael i'r plant chwarae'n rhydd heb unrhyw ymyrraeth yn y chwarae a defnyddio'r Gymraeg gyda hwy. Rhaid i'r plant glywed yr iaith er mwyn gallu ei hatgynhyrchu. Mae plant yn caffael iaith gyntaf ac ail iaith drwy efelychu iaith y rhai o'u hamgylch. Wrth i blant gaffael iaith mae'n bosib bod efelychu yn arwyddocaol ar gyfnodau gwahanol yn y broses.

Imitation may be significant at different stages in acquisition: it may have some part to play in extending vocabulary in the pre-school and early school years, as well as helping considerably with the control and practising of the sound system, or phonology, of a language.

(Whitehead 1997, 43)

Dylid hefyd sicrhau bod pob aelod o staff yn deall egwyddorion Mudiad Ysgolion Meithrin ac mai dim ond Cymraeg y dylid ei defnyddio gyda'r plant ac nad oes gan gyfieithu le yn y dull trochi

Holwyd yr arweinyddion ynglŷn â chysiau yr oeddynt hwy a'u cynorthwywyr wedi eu mynychu yn y gorffennol neu yr hoffent eu mynychu yn y dyfodol. Dywedodd nifer o'r arweinyddion eu bod wedi mynychu cwrs cyfansawdd Mudiad Ysgolion Meithrin ac roedd rhai ohonynt wedi mynychu cysiau Wlpan i ddysgu Cymraeg. Roedd nifer ohonynt yn awyddus i fynychu cysiau gan Mudiad Ysgolion Meithrin ond roedd rhai eraill yn dweud nad oeddynt yn mynd i gysiau os yn bosibl.

Roedd yr ymweliadau â'r cylchoedd hyn yn werthfawr er mwyn rhoi canlyniadau'r holiaduron yn eu cyd-destun.

8.2.6 Peilot

Dangoswyd y ffurflen i Meirion Prys Jones (Bwrdd yr Iaith Gymraeg) ac i Elen Ogwen (AEM) er mwyn cael eu hymateb hwy i'r holiadur ar gyfer arweinyddion. Ar y cyfan roeddynt yn fodlon gyda'r cynnwys ac yn credu y byddai'n rhoi darlun o'r angen am hyfforddiant ieithyddol ac yn dangos beth fyddai'r arweinyddion yn hoffi ei weld fel hyfforddiant posib. Awgrymodd y ddau yn gywir y dylid newid rhan o gwestiwn 3 lle nodwyd yn flaenorol 'Dysgu Cymraeg gan riant / rieni', gan mai caffael iaith ac nid dysgu iaith y mae plant. Yn yr holiadur terfynol defnyddiwyd 'Siarad Cymraeg gyda rhiant / rhieni'. Ni wnaed unrhyw newidiadau eraill i'r cynnwys yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

8.2.7 Trefn Gweithredu

Cafwyd rhestr o gyfeiriadau'r arweinyddion gan Swyddfa Ganolog y mudiad ac anfonwyd yr holiaduron ynghyd â llythyr gan Hywel Jones, Cyfarwyddwr Mudiad Ysgolion Meithrin, i'r arweinyddion ar 5 Chwefror 2001. Gofynnwyd iddynt eu dychwelyd i'r ymchwilydd ymhen pythefnos. Cafwyd cymorth Swyddogion Datblygu y mudiad i sicrhau dychweliad rhai o'r ffurflenni. Gan mai cefnogaeth i'r cylchoedd ac nid ymchwil er budd ymchwil yn unig oedd y pwrpas gofynnwyd i'r arweinyddion nodi enw'r cylch, eu henw hwy a'r ardal. Roedd hyn yn angenrheidiol er mwyn dilyn yr ymchwil ymhellach.

Dychwelwyd 149 o'r 181 holiadur a anfonwyd i'r cylchoedd sef 82% ohonynt. Efallai nad oedd rhai o'r cylchoedd yn bodoli ar y pryd gan fod rhai weithiau'n rhannu'n ddau neu fwy tua diwedd y flwyddyn wrth i'r nifer gynyddu ond yn ail agor fel un y Medi canlynol wrth i'r niferoedd ostwng eto. Derbyniwyd un daflen gan ddau gylch gan mai'r un staff sydd yn y ddau gylch.

8.2.8 Cyfyngiadau

Gofynnwyd i'r arweinyddion llenwi'r ffurflen a thrwy hynny hunanasesu pa mor rhugl ydynt hwy ac asesu pa mor rhugl yw eu cydweithwyr. Nid yw asesiad pawb o'r gwahaniaeth rhwng 'rhugl iawn' a 'bron yn rhugl' yr un fath. Hefyd mae nifer o resymau cymdeithasol pam y byddai rhai yn dweud eu bod yn fwy rhugl nag ydynt er mwyn codi proffil pobl ohonynt. Ar y llaw arall byddai rhai yn dweud nad ydynt yn siarad cystal Cymraeg â rhywun arall neu'n siarad iaith lafar safonol yn eu barn hwy. Efallai bod rhai'n gweld eu tafodiaith yn israddol o'i chymharu â thafodiaith arall.

Wrth ofyn iddynt asesu pa mor hyderus ydynt, unwaith eto gall yr asesiad amrywio o arweinydd i arweinydd. Mae'n bosib hefyd bod rhai ohonynt am wneud iddynt hwy a'u cylch edrych yn ffafriol.

Nid oedd holiadur yn cynnwys gwybodaeth am aelodau'r staff i gyd, er enghraifft a oedd y cynorthwywyr angen hyfforddiant ieithyddol. Roedd swyddogion Mudiad Ysgolion Meithrin am ganolbwyntio ar anghenion ieithyddol yr arweinyddion yn bennaf gan eu bod yn credu mai dyma'r modd mwyaf effeithiol o gael impact ar y defnydd o'r Gymraeg yn y cylch.

Nifer fechan o arweinyddion, cynorthwywyr a chylchoedd oedd mewn rhai rhanbarthau yn y sampl. Gall hyn effeithio ar ba mor ddibynadwy yw'r canlyniadau, er enghraifft mewn dadansoddiadau megis profion Kruskal-Wallis lle rhoddir y rhanbarthau mewn rhengoedd.

Roedd yr holiadur yn ei gyfanrwydd, ac yn arbennig cwestiynau 4 a 5, yn gofyn am onestrwydd ar ran yr arweinyddion. Mae'n bosibl bod rhai o'r arweinyddion wedi llenwi'r ffurflen yn y cylch yng ngŵydd aelodau eraill y staff a bod hynny wedi dylanwadu ar eu hatebion.

8.2.9 SPSS

Rhoddwyd y data a gasglwyd yn y rhaglen gyfrifiadurol ystadegol SPSS (The Statistical Package for the Social Sciences) fersiwn 9.0.

8.2.10 Casgliad

Hyd yma trafodwyd methodoleg a datblygiad yr ymchwil i ddefnydd staff cylchoedd meithrin Mudiad Ysgolion Meithrin o'r Gymraeg ac i'r angen am gefnogaeth ieithyddol gan y mudiad. Cyflwynwyd cyd-destun yr ymchwil a thrafodwyd y sampl ymchwil sef 447 aelod o staff mewn 149 cylch meithrin yn nwyrain Cymru. Cyflwynwyd yr holiadur a ddefnyddiwyd i gasglu'r wybodaeth. Trafodwyd hefyd yr ymweliadau a wnaed ag wyth cylch er mwyn rhoi canlyniadau'r holiadur yn eu cyd-destun. Soniwyd am y peilot a wnaed ac am drefn ymarferol gweithredu'r holiadur ynghyd â chyfyngiadau'r ymchwil hwn.

8.3 Canlyniadau

8.3.1 Cyflwyniad i'r Canlyniadau

Yn ail ran y bennod hon cyflwynir canlyniadau'r ymchwil a gwblhawyd gan arweinyddion cylchoedd siroedd dwyreiniol Cymru. Edrychir ar y canlyniadau mewn pump rhan. Yn gyntaf, cefndir ieithyddol y staff, yn ail y defnydd presennol o'r Gymraeg yn y cylch, yn drydydd arweinyddiaeth y cylchoedd, yn bedwerydd yr amrywiaeth rhanbarthol ar sail y canlyniadau ac yn olaf y posibilïadau ar gyfer datblygiad hyfforddiant ieithyddol i staff y cylchoedd. O fewn yr adrannau hyn cyflwynir y data ar ffurf canrannau, a chymedrau er mwyn rhoi darlun o'r canlyniadau yn y sampl. Edrychir hefyd ar gydberthyniad y canlyniadau gyda pha sir y lleolir y cylch a pha mor rhugl yw'r prif arweinydd a staff eraill y cylch. Defnyddir dadansoddiad Kruskal-Wallis i roi'r rhanbarthau mewn rhengoedd o ran pa mor hyderus yw'r arweinydd wrth wneud rhai gweithgareddau yn y cylch a pha iaith a defnyddir rhwng staff.

8.3.2 Cwestiwn ymchwil 1 – Beth yw cefndir ieithyddol y staff?

8.3.2.1 Cyflwyno'r pwnc

Er mwyn gweld beth yw anghenion ieithyddol y staff mae angen llunio darlun o'r sefyllfa ieithyddol yn y cylchoedd o ran pa mor rhugl yn y Gymraeg yw'r staff a beth yw cefndir ieithyddol y staff. Rhaid cael darlun o'r fath er mwyn gweld beth yw'r sefyllfa yn bresennol a ble mae angen cymorth ieithyddol er mwyn gwella pa mor rhugl a pharod i ddefnyddio'r Gymraeg yw'r staff. Mae angen gweld beth yw'r sefyllfa'n gyffredinol yn y cylchoedd yn nwyrain Cymru ond hefyd nodi pa ranbarthau sydd angen blaenoriaeth o ran datblygu hyfforddiant ieithyddol.

8.3.2.2 Tystiolaeth

Er mwyn archwilio'r sefyllfa ieithyddol bresennol a chefnidir ieithyddol y staff yn y cylchoedd meithrin yn y sampl gofynnwyd dau gwestiwn yn yr holiadur i'r arweinyddion, sef cwestiynau 2 a 3.

Yng nghwestiwn 2 gofynnwyd i'r arweinyddion nodi gallu pob aelod o staff y cylch yn y Gymraeg ar sail eu defnydd o'r Gymraeg yn y cylch. Mae'n anodd mesur pa mor rhugl yw rhywun mewn iaith. I ddechrau rhoddwyd tri dewis ateb sef 'Rhugl yn y Gymraeg', 'Eithaf rhugl yn y Gymraeg' ac 'Ychydig o Gymraeg'. Yn ddiweddarach ychwanegwyd dau ddewis arall sef 'Bron yn gwbwl rugl yn y Gymraeg' a 'Bron dim Cymraeg' er mwyn cael rhychwant ehangach o ddewisiadau. Wrth gwrs ni fydd dehongliad pawb o'r gwahaniaeth rhwng 'Eithaf rhugl' a 'Bron yn rhugl' yr un fath. Ond, nid oedd yn bosibl ymweld â phob cylch a gwranddo a gwylio staff y cylchoedd yn defnyddio'r Gymraeg felly dyma'r unig ffordd i ddehongli pa mor rhugl ydynt.

Yng nghwestiwn 3 rhoddwyd tabl i'r arweinyddion ei gwblhau gan ofyn iddynt nodi cefndir ieithyddol y staff. Roedd y mudiad yn awyddus i wybod sut roedd y staff wedi dysgu Cymraeg; ai yn y cartref gyda'u rhieni, yn yr ysgol neu mewn dosbarth nos. Roeddent hefyd am wybod os oes ganddynt gymwysterau TGAU, Safon

Uwch neu Radd yn y Gymraeg ac os oeddent yn defnyddio'r Gymraeg yn eu cartrefi ac / neu yn eu bywyd cymdeithasol.

Addaswyd y gofynion hyn i gyd i gwestiwn 3. Newidiwyd 'dysgu Cymraeg gan rieni' i 'siarad Cymraeg gyda rhiant / rhieni pan yn blentyn' ar ôl ymgynghori â Meirion Prys Jones (Bwrdd yr Iaith Gymraeg) ac Elen Ogwen (Arholwr Ei Mawrhydi) gan i'r ddau dynnu sylw at y ffaith mai caffael ac nid dysgu iaith y mae plentyn.

Cynhwyswyd 'wedi dechrau dysgu Cymraeg cyn ysgol ond nid gan riant / rhieni' er mwyn rhoi lle i'r rhai a siaradai Gymraeg yn ifanc gyda chymdogion neu deulu ond nid gyda'u rhieni.

Roedd amheuaeth ynglŷn â chynnwys cwestiwn ynglŷn â chymwysterau'r arweinyddion a'r cynorthwyydd yn y Gymraeg; deilliai'r amheuon o'r pryder y gellid gelyniaethu rhai nad oedd â chymwysterau yn y Gymraeg a hefyd o'r wybodaeth nad oes gan nifer fawr o siaradwyr Cymraeg gymwysterau yn y Gymraeg er eu bod yn rhugl yn yr iaith. Cyfaddawdwyd ynglŷn â holi am gymwysterau drwy ofyn a oes ganddynt gymhwyster TGAU neu Lefel O iaith gyntaf neu ail iaith gan fod hynny'n ddigon o wybodaeth at ddiben yr ymchwil presennol.

Felly, yn ogystal ag ymchwilio i'r hyfforddiant ieithyddol posibl y dylid ei gynnig i'r staff gwnaed arolwg o'r sefyllfa ieithyddol fel ag y mae yn y cylchoedd ar hyn o bryd.

8.3.2.3 Canlyniadau

Gofynnwyd i'r arweinyddion nodi gallu pob aelod o staff y cylch ar sail eu defnydd o'r iaith yn y cylch. Darparwyd tabl er mwyn nodi pa mor rhugl yw'r staff. Argymhellodd swyddogion y mudiad y dylid darparu tabl ar gyfer pump aelod o staff, arweinydd 1, arweinydd 2, cynorthwyydd 1, cynorthwyydd 2 a cynorthwyydd 3. Rhoddwyd bump dewis i'r arweinyddion sef, 'Cwbl rugl yn y Gymraeg', 'Eithaf rhugl yn y Gymraeg', 'Peth / ychydig o Gymraeg' a 'Bron dim Cymraeg'. Wrth gwrs, nid

yw dehongliad pawb o'r dewisiadau hyn ond penderfynwyd mai'r arweinyddion sydd yn y sefyllfa orau i ddehongli gallu ieithyddol staff y cylch.


Gofynnwyd y cwestiwn hwn am nifer o resymau, er enghraifft er mwyn gweld a yw'r arweinyddion yn gyffredinol yn fwy rhugl yn y Gymraeg na'r cynorthwywyr, a oes cyswllt rhwng pa mor rhugl yw'r arweinydd 1 a pha mor rhugl yw'r staff eraill yn y cylch? A yw'r canrannau o staff sy'n rhugl yn amrywio yn ôl rhanbarth, a thrwy hynny a oes rhai rhanbarthau lle mae angen mwy o gefnogaeth ieithyddol gan y mudiad Ysgolion Meithrin. Hefyd, a oes cysylltiad rhwng pa mor rhugl ydynt yn y Gymraeg a pha mor hyderus ydynt wrth wneud gwahanol weithgareddau yn y cylch trwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhoddir canlyniadau'r cwestiwn yn y tabl isod ar ffurf canrannau dilys:

Tabl 8.4 Pa mor Rhugl yw'r Staff yn y Gymraeg

	Arweinydd 1	Arweinydd 2	Cynorthwy- ydd 1	Cynorthwy- ydd 2	Cynorthwy- ydd 3
Cwbl rugl yn y Gymraeg	48.6	39.5	34.1	34.8	28.6
Bron yn gwbl rugl yn y Gymraeg	17.6	9.2	12.7	11.6	7.1
Eithaf rhugl yn y Gymraeg	22.3	30.3	12.7	11.6	7.1
Peth / ychydig o Gymraeg	11.5	21.1	33.3	29.0	39.3
Bron dim Cymraeg	0	0	7.1	13.0	17.9
Nifer	148	76	126	69	28

Ffigwr 8.2 Rhuglder Staff Cylchoedd Meithrin Dwyrain Cymru



Fel y gwelir o'r tabl uchod cafwyd gwybodaeth o lefel iaith 447 o staff sef 148 arweinydd 1, 76 arweinydd 2, 126 cynorthwydd 1, 69 cynorthwydd 2 a 28 cynorthwydd 3. Roedd bron hanner yr arweinyddion cyntaf yn nodi eu bod yn gwbl rugl yn y Gymraeg, a 17.6% pellach bron yn gwbl rugl yn y Gymraeg. Felly roedd bron dau draean o brif arweinyddion y cylchoedd unai'n gwbl rugl neu bron yn gwbl rugl yn y Gymraeg. Roedd 22.3% ohonynt yn nodi eu bod yn eithaf rhugl yn yr iaith tra nad oedd gan 11.5% o brif arweinyddion y cylchoedd ond ychydig o Gymraeg. Nid oedd unrhyw un o'r prif arweinyddion wedi rhoi eu hunain yn y categori 'Bron dim Cymraeg'.

Roedd llai o arweinyddion 2, nag o arweinyddion 1, yn y categori 'Cwbl rugl yn y Gymraeg', sef 39.5%. Roedd 9.2% ohonynt yn y categori 'Bron yn gwbl rugl yn y Gymraeg', felly roedd bron hanner (48.7%) o arweinyddion 2 unai'n gwbl rugl yn y Gymraeg neu bron â bod yn gwbl rugl yn y Gymraeg o'i gymharu â dau draean o arweinyddion 1. Roedd 30.3% o arweinyddion 2 yn eithaf rhugl yn y Gymraeg a 21.1% ohonynt yn siarad dim ond peth neu ychydig o Gymraeg.

Caed gwybodaeth am 126 o gynorthwywyr 1 y cylchoedd, roedd 34.1% ohonynt yn gwbl rugl yn y Gymraeg. Felly roedd 46.8% ohonynt bron neu yn gwbl rugl, tua 20% yn llai nag oedd o arweinyddion 1 yn y ddau gategori hyn. Roedd 12.7% o gynorthwywyr 1 yn eithaf rhugl yn y Gymraeg a chynifer â thraean ohonynt yn siarad peth neu ychydig o Gymraeg. Yn wahanol i arweinyddion 1 a 2 roedd rhai o'r cynorthwywyr 1 yn siarad bron dim Cymraeg. Roedd 7.1% ohonynt yn y categori hwn. Felly roedd 40.4% o'r cynorthwywyr 1 yn siarad peth neu bron dim Cymraeg.

Nodwyd gallu iaith 69 o gynorthwywyr 2, roedd 34.8% ohonynt yn gwbl rugl yn y Gymraeg a 11.6% bron yn gwbl rugl yn y Gymraeg, felly roedd 46.4% yn y ddau gategori cyntaf. Roedd 11.6% yn y categori 'Eithaf rhugl yn y Gymraeg', 29.0% yn y categori 'Peth / ychydig o Gymraeg', 29.% yn y categori 'Peth / ychydig o Gymraeg' a 13.0% yn y categori 'Bron dim Cymraeg'.

Dim ond 28 o gynorthwywyr 3 oedd yn rhan o'r ymchwil hwn. O'r 28 hyn, dim ond 2.6% oedd yn gwbl rugl yn y Gymraeg, a 7.1% pellach bron yn gwbl rugl yn y Gymraeg, cyfanswm o ddim ond 35.7% rhwng y ddau gategori, llai na'r aelodau eraill o staff. Roedd 7.1% o gynorthwywyr 3 yn eithaf rhugl yn y Gymraeg. Roedd dros draean (39.3%) ohonynt yn y categori 'Peth / ychydig o Gymraeg' a 17.9% yn y categori 'Bron dim Cymraeg'. Felly, roedd 57.2% o gynorthwywyr 3 unai'n siarad peth neu bron dim Cymraeg, canran sylweddol uwch nag yn y ddau gategori isaf o ran gallu iaith ar gyfer arweinyddion 1 a 2 a Chynorthwywyr 1 a 2.

I grynhoi, felly, gellir gweld o'r tabl hwn yn gyffredinol bod gallu iaith arweinydd 1 yn well nag arweinydd 2, ac yn gyffredinol mae Cymraeg yr arweinyddion yn well na Chymraeg y cynorthwywyr ac yn sicr roedd mwy a gynorthwywyr nag o arweinyddion yn y categorïau is.

3. Cefndir ieithyddol aelodau staff y cylchoedd meithrin

Gofynnwyd cwestiwn 3 er mwyn cael gwybodaeth ynglŷn â chefnidir ieithyddol, ble a phryd y cychwynnodd y staff ddechrau siarad Cymraeg, a oes ganddynt gymwysterau TGAU neu gymhwyster gyfatebol yn y Gymraeg, iaith gyntaf neu ail iaith. Hefyd

gofynnir am eu defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r cylch, yn eu cartref ac mewn bywyd cymdeithasol.

Rhoddir y canlyniadau yn y tabl isod ar ffurf canrannau dilys o staff, nid cylchoedd.

Tabl 8.5 Nifer ym mhob Categori Cefndir Ieithyddol

	A 1	A2	C1	C2	C3	Staff
Siarad Cymraeg gyda rhiant / rhieni	44	39	28	25	18	33
Wedi dechrau dysgu Cymraeg cyn ysgol ond nid gan riant / rhieni	5	3	6	7	7	5
Dysgu Cymraeg yn yr ysgol gan mwyaf	32	30	33	25	18	30
Pasio TGAU / Lefel O Cymraeg iaith gyntaf (neu gyfwerth)	26	13	22	19	7	20
Pasio TGAU / Lefel O Cymraeg ail iaith (neu gyfwerth)	22	13	10	9	14	15
Dysgu Cymraeg ar gwrs Wlpan / Cymraeg i Oedolion	36	38	25	20	36	31
Defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd gartref	48	36	33	36	25	38
Defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd cymdeithasol	43	29	27	29	25	33

Fel y gwelir o'r tabl uchod ceir yr un patrwm yn y categori cyntaf 'Siarad Cymraeg gyda rhiant / rhieni' ag a welwyd yn y cwestiwn blaenorol o pa mor rhugl yw'r staff sef bod canran uwch o arweinyddion wedi siarad Cymraeg gyda rhiant / rhieni nag a oedd o gynorthwyr, yn yr un modd ag yr oedd canran uwch o arweinyddion nag o gynorthwyr yn rhugl neu bron yn rhugl yn y Gymraeg. Roedd canrannau uchel o'r staff wedi dysgu Cymraeg mewn cwrs Wlpan neu gwrs Cymraeg i Oedolion. Dengys hyn eu parodrwydd i fynychu cyrsiau a derbyn hyfforddiant yn ogystal â'u brwdfrydedd i wella eu Cymraeg.

8.3.2.4 Casgliad

Dangosodd canlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd i archwilio i gefndir ieithyddol y staff a pha mor rhugl ydynt yn y Gymraeg bod yr arweinyddion ar y cyfan yn fwy rhugl na'r cynorthwyr a bod canrannau uwch ohonynt wedi siarad Cymraeg gyda rhiant neu rieni pan yn blentyn. Roedd bron traean o'r staff wedi dysgu Cymraeg ar gwrs Wlpan neu ar gwrs Cymraeg i Oedolion. Gellir dehongli o hyn bod angen targedu'r cynorthwyr o ran datblygu eu sgiliau Cymraeg, a bod nifer helaeth o staff y cylchoedd meithrin eisoes wedi ymdrechu i wella eu Cymraeg.

8.3.3 Cwestiwn ymchwil 2 – Beth yw'r defnydd presennol o'r Gymraeg yn y cylch?

8.3.3.1 Cyflwyno'r pwnc

Yn aml dim ond yn y cylch meithrin mae plant yng nghlyw'r Gymraeg. Er mwyn i'w sgiliau ieithyddol Cymraeg ddatblygu mae'n angenrheidiol eu bod yn clywed y Gymraeg yn y cylch.

Young children learn to speak by hearing and practising speech.
(Lewis a Williams, 1999, 1)

Mae plant mewn cylch meithrin yn dod i gyswllt â'r Gymraeg mewn cylch meithrin mewn sawl ffordd. Y ffordd amlycaf yw wrth i'r staff yn y cylch gyfathrebu â hwy yn y Gymraeg. Mae'r plant hefyd yn clywed y Gymraeg ar y radio, teledu ac ar fideos. Mae'n bosib eu bod yn clywed yr iaith gan blant eraill, rhwng staff a'i gilydd, rhwng staff a rhieni a chan unigolion eraill megis y Swyddog Datblygu sy'n ymweld â'r cylch. Mae'r sefyllfaoedd hyn oll yn rhoi cyfle i'r plant ddod i gyswllt â'r iaith yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.

8.3.3.2 Tystiolaeth

Er mwyn archwilio'r pwnc hwn gofynnwyd dau gwestiwn yn yr holiadur sef cwestiynau 4 a 5.

Yng nghwestiwn 4 gofynnwyd i'r arweinyddion nodi ar y ffurflen pa iaith neu ieithoedd a siaredir rhwng y staff yn y cylch, unwaith eto rydym yn dibynnu ar onestrwydd yr arweinyddion i adlewyrchu'r sefyllfa yn y cylch. Yn wreiddiol bwriadwyd rhoi tri dewis ateb 'Cymraeg yn unig' Cymraeg a Saesneg' a Saesneg yn unig'. Ehangwyd y dewisiadau posibl i bump ateb sef, 'Cymraeg drwy'r amser', 'Saesneg mwy na Chymraeg', 'Cymraeg mwy na Saesneg', 'Cymraeg a Saesneg tua chyfartal', 'Saesneg mwy na Chymraeg', a 'Saesneg drwy'r amser'.

Pwysigrwyd y cwestiwn hwn yw gweld pa iaith a glyw y plant yn y cylch meithrin.

Yng nghwestiwn 5 gofynnwyd i'r arweinyddion nodi i ba raddau mae'r staff yn defnyddio'r Gymraeg yn y cylch. Ar ddechrau'r ymchwil hwn bwriadwyd holi ynglŷn â defnydd yr arweinyddion o'r Gymraeg yn unig. Ond, wrth ddatblygu'r holiadur penderfynwyd ehangu'r cwestiwn hwn i gynnwys y staff i gyd yn hytrach na dim ond yr arweinydd er mwyn cael dealltwriaeth well o'r defnydd o'r Gymraeg yn y cylch. Ceisiwyd gwneud y cwestiwn mor eglur â phosibl drwy roi rhifau i ddynodi'r atebion posibl. Trefnwyd y cwestiwn ar ffurf tabl a rhoddwyd lle i nodi ynglŷn â defnydd iaith arweinydd 1 (A1), arweinydd 2 (A2), cynorthwydd 1 (C1), cynorthwydd 2 (C2) a chynorthwydd 3 (C3). Gofynnwyd iddynt ateb drwy roi rhif yn y bocs ar gyfer pob aelod o staff yn cyfateb i'r gosodiadau. Y dewis oedd 1 = bob amser, 2 = yn aml, 3 = weithiau a 4 = byth.

Gofynnwyd y cwestiwn hwn i bawb er mwyn ceisio cael darlun o'r defnydd o'r iaith gan holl aelodau'r staff. Holwyd a oedd rhai o'r staff yn defnyddio Saesneg gan mwyaf ond gydag ychydig o eiriau Cymraeg, enghraifft o hyn fyddai "What colour do you want? Glas?" Gofynnwyd a oeddynt yn rhoi cyfarwyddiadau i'r plant yn Gymraeg, bob amser, yn aml, weithiau neu byth. Holwyd a oeddynt yn sgwrsio'n anffurfiol yn Gymraeg gyda'r plant, oedolion a rhieni yn y cylch. Gofynnwyd i'r

arweinydd nodi a oedd aelodau'r staff yn datblygu Cymraeg y plant yn y dosbarth. Hefyd gofynnwyd a oeddynt yn siarad Cymraeg mewn cyfarfod, mae'n debyg mai hwn yw'r gosodiad lleiaf pwysig gan nad yw'n effeithio ar ddatblygiad iaith y plant o dan eu gofal, ond ar y llaw arall mae'n adlewyrchu eu gallu a'u hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

Yn y cwestiwn hwn edrychir ar nifer o ffactorau – defnydd y staff o'r Gymraeg gyda'r plant, gydag oedolion ac mewn cyfarfodydd. Gofynnir hefyd i ba raddau mae'r staff yn datblygu Cymraeg y plant yn y cylch. Cynhwyswyd y rhan gyntaf o'r cwestiwn sef 'Defnyddio'r Saesneg gan mwyaf gyda'r plant ond gydag ychydig o eiriau Cymraeg' er mwyn gweld a yw'r rhai nad ydynt yn gallu siarad llawer o Gymraeg yn defnyddio rhai geiriau Cymraeg wrth siarad gyda'r plant, er enghraifft lliwiau a rhifau.

8.3.3.3 Canlyniadau

Beth mae'r staff yn siarad gyda'i gilydd yn eich cylch?

Rhoddir canlyniadau cwestiwn 4 yn yr holiadur sef 'Beth mae'r staff yn siarad gyda'i gilydd yn y cylch?' yn y tabl isod ar ffurf niferoedd, canrannau a chanrannau dilys.

Tabl 8.6 Iaith / Ieithoedd a Ddefnyddir Rhwng Staff y Cylchoedd

	Nifer	Canran	Canran Dilys
Cymraeg drwy'r amser	34	22.8	23.9
Cymraeg mwy na Saesneg	33	22.1	23.2
Cymraeg a Saesneg tua chyfartal	31	20.8	21.8
Saesneg mwy na Chymraeg	35	23.5	24.6
Saesneg drwy'r amser	9	6.04	6.3
Cyfanswm	142	95.3	100.0
Heb ateb	7	4.7	
Cyfanswm	149	100.0	

Yn 23.9% o'r cylchoedd roedd y staff yn siarad Cymraeg gyda'i gilydd drwy'r amser, mewn 23.2% roedd y staff yn siarad mwy o Gymraeg na Saesneg gyda'i

gilydd. Felly y Gymraeg yw prif iaith sgwrs y staff yn 47.1% o'r cylchoedd. Yn 21.8% o'r cylchoedd roedd y staff yn siarad Cymraeg a Saesneg tua chyfartal. Roedd staff tua chwarter (24.6%) y cylchoedd yn siarad mwy o Saesneg na Chymraeg gyda'i gilydd yn y cylch. Mewn 6.3% o'r cylchoedd roedd y staff yn siarad Saesneg drwy'r amser. Felly mewn 30.9% o'r cylchoedd y Saesneg yw'r brif iaith a ddefnyddir rhwng y staff. Mae'n debyg mai drwy gynyddu eu hyder a'u gallu yn y Gymraeg y gellid newid y sefyllfa hon mewn rhai cylchoedd.

Cwestiwn 5 – I ba raddau mae staff y cylch yn defnyddio'r Gymraeg yn y cylch?

Rhoddir y canlyniadau yn y tablau isod. Yn y tabl cyntaf rhoddir y canlyniadau ar ffurf canrannau dilys ac yn yr ail dabl dangosir hwy ar ffurf cymedrau.

Tabl 8.7 Defnydd y Staff o'r Gymraeg yn y Cylch - Canrannau

	A 1	A 2	C1	C 2	C 3
Defnyddio Saesneg gan mwyaf gyda'r plant ond gydag ychydig o eiriau Cymraeg	1) 7.0 2) 10.5 3) 40.7 4) 41.9	1) 7.0 2) 16.3 3) 34.9 4) 41.9	1) 14.3 2) 23.4 3) 26.0 4) 36.4	1) 11.6 2) 20.9 3) 37.2 4) 30.2	1) 9.5 2) 42.9 3) 28.6 4) 19.0
Rhoi cyfarwyddiadau i'r plant yn Gymraeg	1) 77.8 2) 21.3 3) 0.9 4) 0.0	1) 78.6 2) 17.9 3) 3.6 4) 0.0	1) 55.9 2) 24.7 3) 14.0 4) 5.4	1) 50.0 2) 22.9 3) 20.8 4) 6.3	1) 39.1 2) 30.4 3) 30.4 4) 0.0
Sgwrsio'n anffurfiol yn Gymraeg gyda'r plant yn y cylch	1) 51.1 2) 36.1 3) 10.5 4) 2.3	1) 46.3 2) 32.8 3) 19.4 4) 1.5	1) 37.6 2) 24.8 3) 22.0 4) 15.6	1) 32.7 2) 27.3 3) 27.3 4) 12.7	1) 32.0 2) 28.0 3) 12.0 4) 28.0
Sgwrsio'n anffurfiol yn Gymraeg gydag oedolion / rhieni yn y cylch	1) 23.3 2) 24.1 3) 31.9 4) 20.7	1) 15.0 2) 25.0 3) 30.0 4) 30.0	1) 17.3 2) 18.4 3) 18.4 4) 45.9	1) 15.4 2) 25.0 3) 17.3 4) 42.3	1) 16.7 2) 12.5 3) 20.8 4) 50.0
Datblygu Cymraeg plant yn y dosbarth	1) 73.8 2) 20.8 3) 3.8 4) 1.5	1) 68.7 2) 26.9 3) 4.5 4) 0.0	1) 56.6 2) 21.7 3) 4.7 4) 0.0	1) 51.8 2) 23.2 3) 19.6 4) 5.4	1) 52.0 2) 28.0 3) 12.0 4) 8.0
Siarad Cymraeg mewn cyfarfod	1) 22.8 2) 18.9 3) 26.0 4) 32.3	1) 21.3 2) 13.1 3) 21.3 4) 44.3	1) 15.0 2) 13.0 3) 16.0 4) 56.0	1) 11.5 2) 17.3 3) 28.8 4) 42.3	1) 19.2 2) 7.7 3) 19.2 4) 53.8

Tabl 8.8 Defnydd y Staff o'r Gymraeg yn y Cylch – Cymedrau

	A1	A2	C1	C2	C3
Defnyddio Saesneg gan mwyaf gyda'r plant ond gydag ychydig o eiriau Cymraeg	3.18	3.12	2.85	2.86	2.57
Rhoi cyfarwyddiadau i'r plant yn Gymraeg	1.23	1.25	1.69	1.83	1.91
Sgwrsio'n anffurfiol yn Gymraeg gyda'r plant yn y cylch	1.64	1.76	2.16	2.75	2.36
Sgwrsio'n anffurfiol yn Gymraeg gydag oedolion / rhieni yn y cylch	2.50	2.75	2.93	2.87	3.04
Datblygu Cymraeg plant yn y dosbarth	1.33	1.36	1.14	1.37	1.76
Siarad Cymraeg mewn cyfarfod	2.68	2.89	3.13	3.02	3.07

Fel y gwelir o'r tabl cyntaf doedd 41.9% o arweinyddion 1 byth yn 'Defnyddio Saesneg gan mwyaf gyda'r plant gydag ychydig o eiriau Cymraeg' ond roedd 40.7% ohonynt weithiau'n gwneud hyn. Roedd 10.5% o arweinyddion 1 yn gwneud hyn 'yn aml' a 7% pellach yn gwneud hyn 'bob amser'. Roedd canrannau canlyniadau arweinyddion 2 yn debyg iawn ond roedd canran ychydig yn uwch yn defnyddio'r Saesneg gydag ychydig o eiriau Gymraeg 'yn aml'.

Roedd 14.3% o gynorthwywyr 1 'bob amser' a 23.4% 'yn aml' yn defnyddio Saesneg gan mwyaf gydag ychydig o eiriau Cymraeg. Yn yr un modd doedd 11.6% o gynorthwywyr 2 'bob amser' yn defnyddio'r Saesneg gan mwyaf gyda'r plant a 20.9% ohonynt 'yn aml' yn gwneud hynny.

Dim ond 19% o gynorthwywyr 3 oedd 'byth' yn defnyddio Saesneg gan mwyaf gyda'r plant gydag ychydig o eiriau Cymraeg tra roedd 42.9% ohonynt 'yn aml' yn gwneud hynny. Felly, roedd canran uwch o gynorthwywyr 3 yn defnyddio Saesneg gan mwyaf gyda'r plant ond gydag ychydig o eiriau Cymraeg 'yn aml' nag oedd o aelodau eraill o staff.

Gwelir o'r ail dabl sy'n dangos y cymedrau bod cymedr yr arweinyddion yn well, hynny yw yn nes at 4 (byth) na chymedr y cynorthwywyr. Ar gyfartaledd roedd y staff yn y categori 'yn aml' ond yn agos iawn at 'weithiau' (2.92) ar gyfer y

gosodiad 'Defnyddio Saesneg gan mwyaf gyda'r plant ond gydag ychydig o eiriau Cymraeg'.

Roedd 77.8% o arweinyddion 1 y sampl 'bob amser' yn rhoi cyfarwyddiadau i'r plant yn Gymraeg', a 21.3% yn aml yn gwneud hynny. Roedd y canran o arweinyddion 2 a oedd bob amser yn rhoi cyfarwyddiadau yn Gymraeg ychydig yn uwch sef 78.6% ond roedd 3.6% nad oeddynt ond yn gwneud hynny weithiau. Roedd y ganran o gynorthwyr 1 a oedd bob amser yn rhoi cyfarwyddiadau yn Gymraeg yn is sef 55.9% tra roedd 14.0% dim ond yn gwneud hynny weithiau a 5.4% byth yn rhoi cyfarwyddiadau yn Gymraeg. Wrth gwrs mae'n bosib nad ydi'r rhain, neu rai ohonynt beth bynnag, yn rhoi cyfarwyddiadau yn y dosbarth, ac nad yw'n golygu eu bod yn rhoi cyfarwyddiadau yn Saesneg. Yn yr un modd roedd 6.3% o gynorthwyr 2 byth yn rhoi cyfarwyddiadau yn Gymraeg a 20.8% ohonynt dim ond weithiau yn gwneud hynny. Dim ond 39.1% o gynorthwyr 3 oedd 'bob amser' yn rhoi cyfarwyddiadau yn Gymraeg. Dim ond weithiau y gwnâi 30.4% ohonynt hyn, ond y tro hwn doedd neb yn y categori 'byth'. Ar gyfartaledd 1.58 oedd cymedr y staff ar gyfer y cwestiwn hwn, felly yn y categori 'bob amser'.

Gwelwyd yr un patrwm o ganlyniadau gwell i'r arweinyddion na'r cynorthwyr ar gyfer y gosodiad 'Sgwrsio'n anffurfiol yn Gymraeg gyda'r plant yn y cylch' hefyd. Roedd 51.1% o arweinyddion 1 a 46.3% o arweinyddion 2 'bob amser' yn sgwrsio'n anffurfiol yn Gymraeg gyda'r plant, tra mai 37.6%, 32.7% a 32.0% o gynorthwyr 1, 2 a 3 a wnâi hynny. Dim ond 2.3% a 1.5% o arweinyddion 1 a 2 oedd byth yn sgwrsio'n anffurfiol yn Gymraeg gyda'r plant tra roedd 28.0% o gynorthwyr 3 byth yn gwneud hynny.

Roedd canrannau llawer llai o'r staff yn 'Sgwrsio'n anffurfiol yn Gymraeg gydag oedolion / rhieni yn y cylch' 'bob amser' neu 'yn aml'. Gellir esbonio hynny o bosib drwy gofio nad yw canran uchel o rieni plant y cylchoedd Meithrin yn siarad Cymraeg, felly hyd yn oed os yw aelod o staff yn ddigon hyderus wrth siarad Cymraeg ag oedolion mae'n ddigon posib nad ydynt yn cael cyfle i wneud hynny yn y cylch. Dim ond 23.3% o arweinyddion 1 a 15.0% o arweinyddion oedd 'bob amser' yn 'Sgwrsio'n anffurfiol yn Gymraeg gydag oedolion / rhieni yn y cylch'. Roedd tua chwarter arweinyddion 1 a 2 yn sgwrsio'n Gymraeg gydag oedolion yn y cylch yn aml

ond doedd 20.7% o arweinyddion 1 a 30.0% o arweinyddion 2 byth yn sgwrsio'n anffurfiol yn Gymraeg gydag oedolion neu rieni yn y cylch meithrin. Roedd y canran o gynorthwywyr nad oedd byth yn sgwrsio'n anffurfiol yn Gymraeg gydag oedolion yn y cylch yn uchel iawn gan amrywio o 42.3% i 50.0%.

Roedd cymedr canlyniadau'r staff yn is ar gyfer y gosodiad hwn nag ar gyfer y gosodiad blaenorol sef 'Sgwrsio'n anffurfiol yn Gymraeg gyda'r plant yn y cylch'.

Nododd arweinyddion y cylchoedd bod canrannau uchel o'r staff yn 'Datblygu Cymraeg plant yn y dosbarth' 'bob amser'. Roedd 73.8% o arweinyddion 1, 68.7% o arweinyddion 2 a 56.6% o gynorthwywyr 1, 51.8% o gynorthwywyr 2 a 52.0% o gynorthwywyr 3 yn y categori 'bob amser' ar gyfer y gosodiad 'Datblygu Cymraeg plant yn y dosbarth'. Felly unwaith eto roedd canlyniadau'r arweinyddion yn well na chanlyniadau'r cynorthwywyr, fel y byddid yn disgwyl mae'n debyg. Fodd bynnag, roedd 3.8% o arweinyddion 1 a 4.5% o arweinyddion 2 nad oeddynt ond 'weithiau' yn datblygu Cymraeg plant yn y cylch, a 1.5 % pellach o arweinyddion 1 nad oeddynt byth yn gwneud hynny. Roedd dros dri chwarter y gwahanol aelodau o staff yn y ddau gategori uchaf ar gyfer y gosodiad hwn. Ar y llaw arall roedd 5.4% o gynorthwywyr 2 a 8.0% o gynorthwywyr 3 yn y categori 'byth', felly, ym marn yr arweinyddion nid yw'r rhain byth yn datblygu Cymraeg y plant yn y cylch. Roedd cymedr y staff yn amrywio o 1.33 ar gyfer arweinyddion 1 i 1.76 ar gyfer cynorthwywyr 3. Felly roedd cymedr yr aelodau gwahanol o staff i gyd yn y categori 'bob amser' ar gyfer y gosodiad 'Datblygu Cymraeg plant yn y cylch' fel y byddid yn gobeithio.

Canran bychan o'r staff oedd yn y categori 'bob amser' ar gyfer y gosodiad nesaf sef 'Siarad Cymraeg mewn cyfarfod'. Gellir esbonio hyn mewn dwy ffordd, yn gyntaf, nad oes ganddynt y gallu ieithyddol a'r hyder i siarad Cymraeg mewn cyfarfod, neu, yn ail, nad ydynt yn cael cyfle i siarad Cymraeg mewn cyfarfod gan nad yw'r rhai eraill yn y cyfarfod yn deall Cymraeg. Amrywiai'r canran o staff oedd yn y categori 'bob amser' o 11.5% o gynorthwywyr 2 i 22.8% o arweinyddion 1. Nododd yr arweinyddion nad oedd 32.3% o arweinyddion 1, 44.3% o arweinyddion 2, 56.0% o gynorthwywyr 1, 42.3% o gynorthwywyr 2 a 53.8% o gynorthwywyr 3 byth yn siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd. Gwelir cymedrau cymharol isel yn yr ail dabl ar gyfer y

gosodiad 'Siarad Cymraeg mewn cyfarfod', ar gyfartaledd roedd y cymedrau yn y categori 'yn aml' ond yn ymylu at y categori 'weithiau' (2.96).

8.3.3.4 Casgliad

Felly i gynhoi, y Gymraeg oedd prif iaith sgwrs y staff yn 47.1% o'r cylchoedd, defnyddiwyd y ddwy iaith tua chyfartal mewn 21.8% o'r cylchoedd a Saesneg oedd y brif iaith yn 30.9% o'r cylchoedd. Roedd canrannau uchel o staff y cylchoedd yn 'Rhoi cyfarwyddiadau i'r plant yn Gymraeg' ac yn 'Datblygu Cymraeg plant yn y dosbarth', tra roedd canrannau ychydig is yn 'Sgwrsio'n anffurfiol yn Gymraeg gyda'r plant yn y cylch' a byth yn 'Defnyddio Saesneg gan mwyaf gyda'r plant ond gydag ychydig o eiriau Cymraeg'. Roedd canrannau is eto yn 'Sgwrsio'n anffurfiol yn Gymraeg gydag oedolion / rhieni yn y cylch' ac yn 'Siarad Cymraeg mewn cyfarfod', ond gellir dadlau mai diffyg cyfle i wneud hyn sy'n gyfrifol am y canrannau isel. Yn gyffredinol roedd cymedrau'r arweinyddion yn well na chymedrau'r cynorthwywyr.

8.3.4 Cwestiwn ymchwil 3 – A yw'r arweinyddiaeth yn cael effaith ar le'r Gymraeg yn y cylch?

8.3.4.1 Cyflwyno'r pwnc

Roedd swyddogion Mudiad Ysgolion Meithrin yn awyddus i weld a oedd arweinyddion y cylchoedd yn dangos arweiniad o ran defnyddio'r Gymraeg yn y cylch i ddatblygu Cymraeg y plant. Roeddynt am weld a oedd pa mor rhugl oedd prif arweinydd y cylch yn cael effaith ar ddefnydd y staff eraill o'r iaith yn y cylch. Roeddynt hefyd yn awyddus i weld a oedd yr arweinyddion yn rhoi cyfarwyddiadau yn Gymraeg i'r plant ac yn sgwrsio â hwy yn Gymraeg. Roedd y swyddogion hefyd am wybod pa mor hyderus oedd yr arweinydd wrth wneud nifer o weithgareddau cyffredin yn y cylch yn y Gymraeg, er enghraifft darllen stori a chyflwyno mathemateg. Y gobaith yw y gellir gweld ble mae angen cymorth ar yr arweinyddion a thargedu unrhyw hyfforddiant posib i'r angen. Drwy sicrhau bod yr arweinydd yn hyderus yn defnyddio'r iaith yn y cylch y gobaith yw y bydd y cynorthwywyr yn dilyn

esiampyl yr arweinyddion. Fel y nodwyd eisoes dangosodd ymchwil Tina Hickey yn Iwerddon bod angen i arweinydd grŵp meithrin gael o leiaf 'good fluency' yn yr iaith darged er mwyn cynyddu'r mewnbwn ac i hyrwyddo ac ymateb i ymgais y plant i gynhyrchu iaith (Hickey, 1997, 74). Felly, mae pa mor rhugl yw'r arweinydd yn allweddol o ran y mewnbwn iaith yn y cylch.

Er mwyn gweld a yw targedu arweinwyr y cylchoedd o safbwynt datblygu eu sgiliau ieithyddol yn effeithiol o ran cynyddu faint o Gymraeg sy'n cael ei defnyddio yn y cylch, bydd yn ddiddorol gweld effaith pa mor rhugl yw arweinydd 1 ar weddill y staff.

8.3.4.2 Tystiolaeth

Er mwyn edrych at yr arweinyddiaeth o fewn y cylch meithrin gofynnwyd un cwestiwn yn benodol sef cwestiwn 6, 'Pa mor hyderus ydych chi fel arweinydd wrth wneud y canlynol yn Gymraeg yn y cylch?'

Derbyniwyd rhestr o weithgareddau sy'n digwydd yn y cylchoedd gan Mudiad Ysgolion Meithrin i'w cynnwys yn y cwestiwn hwn ac ychwanegwyd rhai eraill. Newidiwyd ffurf y cwestiwn wrth ei roi yn yr holiadur. Mae'r ffurf 'Pa mor hyderus ydych chi wrth wneud y canlynol yn Gymraeg yn y cylch?' yn rhoi mwy o bosibiliadau o ran atebion na'r ffurf wreiddiol – 'Ydych chi'n hyderus wrth wneud y canlynol yn Gymraeg yn y cylch?' Defnyddiwyd yr atebion canlynol 'Hyderus iawn', 'Eithaf hyderus', 'Ddim yn hyderus iawn' ac 'Ddim yn hyderus o gwbl'. Defnyddiwyd yr opsiynau i gyd gan y rhai a atebodd felly mae'n debyg bod angen gymaint o ddewisiadau.

Gellir dadansoddi data o'r cwestiynau eraill i weld pa mor rhugl yn y Gymraeg yw'r arweinyddion, beth yw eu cefndir ieithyddol a faint o Gymraeg a ddefnyddir ganddynt yn y cylch. Gellir hefyd ddadansoddi'r data a gasglwyd i weld a yw pa mor rhugl yw'r prif arweinydd yn y cylch yn cael effaith ar ba iaith a ddefnyddir rhwng y staff a'r plant. Disgwylia swyddogion Mudiad Ysgolion Meithrin bod cyswllt rhwng pa mor rhugl yw'r arweinydd a pha mor rhugl yw gweddill staff y cylch, a beth yw eu

defnydd hwy o'r iaith yn y cylch. Disgwylid y byddai'r staff eraill yn defnyddio mwy o Gymraeg po fwyaf rhugl yw'r arweinydd gan gymryd eu bod yn dilyn trwy esiampl.

8.3.4.3 Canlyniadau

Yn ôl profiad swyddogion Mudiad Ysgolion Meithrin yn aml mae cysylltiad rhwng pa mor rhugl yw arweinydd 1 a pha mor rhugl yw'r aelodau eraill o staff. Yn eu barn hwy os oes angen cymorth ieithyddol ar yr arweinydd mae hynny yn aml hefyd yn wir am weddill aelodau'r staff. Gwnaed dadansoddiad cydberthyniad er mwyn gweld a oes cysylltiad rhwng pa mor rhugl yw arweinydd 1 a pha mor rhugl yw gweddill aelodau'r staff.

Rhoddir y canlyniadau yn y tabl isod.

Tabl 8.9 Cydberthyniad Rhuglder y Staff a Rhuglder Arweinydd 1

	N	r	p
Arweinydd 1 - rhugl?	148.00	1	
Arweinydd 2 - rhugl?	75.00	0.501	0.0001
Cynorthwyydd 1 - rhugl?	125.00	0.368	0.0001
Cynorthwyydd 2 - rhugl?	68.00	0.528	0.0001
Cynorthwyydd 3 - rhugl?	27.00	0.547	0.003

Fel y gwelir o'r tabl uchod roedd cydberthyniad ystadegol arwyddocaol rhwng pa mor rhugl oedd arweinydd 1 a pha mor rhugl oedd aelodau eraill y staff. Felly, fel y disgwyliai staff Mudiad Ysgolion Meithrin, y mwyaf rhugl yw'r prif arweinydd y cylch y mwyaf rhugl yw aelodau eraill y staff. Wrth gwrs, mae cylchoedd rhai ardaloedd yn fwy tebygol o gael staff sy'n rhugl eu Cymraeg. Mewn ardaloedd â chanran uwch yn siarad Cymraeg byddai'r staff yn fwy tebygol o fod yn rhugl.

A yw Arweinydd 1 yn fwy rhugl nag arweinyddion 2?

Nododd 76 cylch bod arweinydd 2 yn ogystal â arweinydd 1 yn gweithio yn y cylch. Gwnaed dadansoddiad croesdabliad i weld a yw arweinydd 1 yn fwy rhugl nag arweinydd 2 fel arfer. Rhoddir y canlyniadau yn y tabl isod.

Tabl 8.10 Croesdabliad Rhuglder Arweinyddion 1 a Rhuglder Arweinyddion 2

		Arweinydd 2 - rhugl?			Peth / Ychydig o Gymraeg	Cyfanswm
Arweinydd 1 - rhugl?	Cwbl rugl	26	4	2	7	39
	Bron yn gwbl rugl	0	2	10	0	12
	Eithaf rhugl	3	0	10	4	17
	Ychydig o Gymraeg	1	0	1	5	7
	Cyfanswm	30	6	23	16	75

Chi-sq = 53.50692 df = 9 p= **0.0001**

Dim ond mewn 5 achos roedd arweinydd 2 yn fwy rhugl nag arweinydd 1. Mewn 4 achos roedd arweinydd 2 yn gwbl rugl yn y Gymraeg tra roedd arweinydd 1 yn eithaf rhugl mewn 3 cylch ac yn siarad ychydig o Gymraeg yn yr achos arall. Roedd arweinydd 1 yn gyffredinol yn well neu'n gyfartal ag arweinydd 2 o ran pa mor rhugl oeddynt yn y Gymraeg.

Cwestiwn 6 – Pa mor hyderus ydych chi fel arweinydd wrth wneud y canlynol yn Gymraeg yn y cylch?

Gofynnwyd i'r arweinyddion nodi pa mor hyderus ydynt wrth wneud nifer o dasgau yn y cylch trwy gyfrwng y Gymraeg. Penderfynwyd ar y gweithgareddau ar y cyd gyda swyddogion Mudiad Ysgolion Meithrin ar sail y gweithgareddau a wneir yn

gyson mewn cylchoedd Meithrin, er enghraifft cofrestru, darllen stori a siarad am y gweithgareddau gyda'r plant. Y gobaith trwy ofyn y cwestiwn hwn yw gweld ym mha weithgareddau y mae'r arweinyddion angen cefnogaeth gan Mudiad Ysgolion Meithrin. Penderfynwyd canolbwyntio ar arweinyddion y cylch ar argymhelliad Mudiad Ysgolion Meithrin gan mai'r rhain sy'n arwain gweithgareddau'r cylch ac yn dangos esiampl i'r cynorthwyr.

Rhodddwyd pedwar dewis i'r arweinyddion sef 'Hyderus iawn', 'Eithaf hyderus', 'Ddim yn hyderus iawn' a 'Ddim yn hyderus o gwbl'. Rhoddir y canlyniadau ar ffurf canrannau dilys yn y tabl isod.

Tabl 8.11 Amleddau Hyder Arweinyddion Wrth Wneud Gweithgareddau yn Gymraeg

	Hyderus iawn	Eithaf hyderus	Ddim yn hyderus iawn	Ddim yn hyderus o gwbl
Croesawu	83.4	15.2	0.7	0.7
Cofrestru	83.0	15.6	0.7	0.7
Cyflwyno gweithgareddau creadigol	64.6	27.2	8.2	0.0
Darllen stori	64.9	28.4	6.8	0.0
Trafod stori	54.3	31.0	12.9	1.7
Cyflwyno gêmiau bwrdd	60.1	30.4	9.5	0.0
Cyflwyno gweithgareddau corfforol	60.5	29.3	10.2	0.0
Cyflwyno mathemateg	57.2	29.7	12.4	0.7
Cyflwyno gwaith thema	58.9	32.2	8.9	0.0
Cynhyrchu deunyddiau gweledol	57.8	35.4	6.1	0.7
Siarad am y gweithgareddau gyda'r plant	57.0	29.8	11.4	1.8

Gwelir o'r tabl uchod bod canran uchel iawn (83.4% ac 83.0%) o'r arweinyddion yn hyderus iawn wrth groesawu'r plant a chofrestru trwy gyfrwng y Gymraeg. Dim ond 1.4% ohonynt nad oeddynt yn teimlo'n hyderus wrth groesawu a chofrestru trwy gyfrwng y Gymraeg.

Roedd canran ychydig llai (64.6%) o'r arweinyddion yn teimlo'n hyderus iawn wrth gyflwyno gweithgareddau creadigol, tra roedd 27.2% yn eithaf hyderus. Nododd 8.2% ohonynt nad oeddynt yn hyderus iawn wrth gyflwyno gweithgareddau creadigol trwy gyfrwng y Gymraeg ond nid oedd unrhyw un yn y categori 'Ddim yn hyderus o gwbl'.

Roedd canran uwch o'r arweinyddion yn hyderus iawn wrth ddarllen stori trwy gyfrwng y Gymraeg (64.9%) nag wrth drafod stori trwy gyfrwng y Gymraeg (54.3%) gyda'r plant. Yn yr un modd roedd mwy yn y categori 'Ddim yn hyderus iawn' wrth drafod stori (12.8%) nag wrth ddarllen stori (6.8%). Nododd 1.7% o'r arweinyddion nad oeddynt yn hyderus o gwbl wrth drafod stori trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r gallu i drafod stori gyda phlant yn y cylch yn gofyn am iaith estynedig tra bod y gallu i ynganu geiriau Cymraeg yn gywir a brwdfrydedd wrth gyflwyno'r stori yn ddigonol wrth ddarllen stori trwy gyfrwng y Gymraeg.

O'r holl weithgareddau, ar gyfer 'Trafod stori' y caed y ganran isaf o arweinyddion yn y categori 'Hyderus iawn' (54.3%) a'r ganran uchaf (14.6%) yn y ddau gategori 'Ddim yn hyderus iawn' a 'Ddim yn hyderus o gwbl'.

Roedd 60.1% o'r arweinyddion yn hyderus iawn wrth gyflwyno gêmiau bwrdd trwy gyfrwng y Gymraeg, a 30.4% pellach yn eithaf hyderus wrth wneud hyn. Nododd 9.5% o'r arweinyddion nad oeddynt yn hyderus iawn wrth gyflwyno gêmiau bwrdd i'r plant trwy gyfrwng y Gymraeg ond nid oedd un ohonynt yn teimlo nad oeddynt yn hyderus o gwbl.

Nododd 60.5% o'r arweinyddion eu bod yn hyderus iawn wrth gyflwyno gweithgareddau addysg gorfforol trwy gyfrwng y Gymraeg a 29.3% yn teimlo'n eithaf hyderus. Nid oedd 10.2% o'r arweinyddion yn teimlo'n hyderus iawn wrth gyflwyno

gweithgareddau corfforol, nid oedd unrhyw un yn y categori 'Ddim yn hyderus o gwbl'.

Roedd 57.2% yn teimlo'n hyderus iawn wrth gyflwyno mathemateg trwy gyfrwng y Gymraeg, a 29.7% yn teimlo'n eithaf hyderus. Ar y llaw arall roedd 13.1% o'r arweinyddion yn y ddau gategori 'Ddim yn hyderus iawn' neu 'Ddim yn hyderus o gwbl'.

Nododd 91.1% o arweinyddion y cylchoedd eu bod unai'n teimlo'n hyderus iawn (58.9%) neu'n eithaf hyderus (32.2%) wrth gyflwyno gwaith thema trwy gyfrwng y Gymraeg. Dim ond 8.9% oedd yn teimlo nad oeddynt yn hyderus iawn wrth wneud hyn a doedd dim un arweinydd yn y categori 'Ddim yn hyderus o gwbl'.

Gofynnai'r gweithgaredd 'Cynhyrchu deunyddiau gweledol' (e.e. posteri a siartiau) am hyder wrth ysgrifennu yn y Gymraeg i'w ddarllen gan y plant, a'u rhieni a'r cyhoedd. Roedd 93.2% o'r arweinyddion yn y categori 'Hyderus iawn' (57.8%) neu yn y categori 'Eithaf hyderus' (35.4%). Felly dim ond 6.8% o'r arweinyddion oedd yn y ddau gategori llai hyderus 'Ddim yn hyderus iawn' (6.1%) neu 'Ddim yn hyderus o gwbl' (0.7%).

Ymddengys mai 57.0% o'r arweinyddion oedd yn hyderus iawn wrth siarad yn Gymraeg am y gweithgareddau gyda'r plant. Roedd 29.8% pellach yn eithaf hyderus, ond, ar y llaw arall roedd 11.4% nad oedd yn hyderus iawn a 1.8% nad oedd yn hyderus iawn o gwbl. Felly teimla 13.2% o'r arweinyddion nad oeddynt yn hyderus wrth drafod y gweithgareddau gyda'r plant trwy gyfrwng y Gymraeg.

I grynhoi, roedd rhwng 54.3% a 64.9% yn y categori 'Hyderus iawn' ar gyfer naw o'r gweithgareddau a 83.0% a 83.4% ar gyfer y ddau weithgaredd arall. Roedd dros 85% o'r arweinyddion yn y ddau gategori cyntaf 'Hyderus iawn' ac 'Eithaf hyderus', ar gyfer pob gweithgaredd sydd yn galonogol iawn i'r Mudiad Ysgolion Meithrin. Fodd bynnag, roedd hyd at 14.6% o'r arweinyddion yn y ddau gategori isaf. Gellid nodi fod dros 10% yn y categorïau hyn ar gyfer pedwar gweithgaredd 'Cyflwyno gweithgareddau corfforol (10.2%), 'Cyflwyno mathemateg (13.1%), 'Siarad am y gweithgareddau gyda'r plant (13.2%), a 'Trafod stori' (14.6%). Gellid

dweud felly mai yma y mae'r gwendidau y dylai unrhyw hyfforddiant pellach eu cymryd i ystyriaeth.

Pwy sy'n cael y mwyaf o ddylanwad ar ba iaith a ddefnyddir rhwng staff?

Gwnaed dadansoddiad cydberthyniad er mwyn gweld a oedd aelod penodol o'r staff yn cael dylanwad ar ba iaith a ddefnyddir rhwng y staff yn y cylch. Credwyd efallai y byddai arweinydd 1 yn dylanwadu ar yr iaith yn y cylch.

Rhoddir canlyniadau'r dadansoddiad cydberthyniad yn y tabl isod:

Tabl 8.12 Cydberthyniad Rhuglder Aelodau'r Staff a'r Iaith Rhwng Staff

	n	r	p
Arweinydd 1	141	0.602	0.0001
Arweinydd 2	72	0.780	0.0001
Cynorthwydd 1	121	0.617	0.0001
Cynorthwydd 2	68	0.479	0.0001
cynorthwydd 3	28	0.620	0.0001

Nid yw'n ymddangos bod unrhyw aelod penodol o'r staff, er enghraifft arweinydd 1, yn cael dylanwad ar iaith y staff eraill fwy na'i gilydd.

Cydberthyniad pa mor rhugl yw Arweinydd 1 a defnydd y staff o'r Gymraeg

Gwnaed dadansoddiad ystadegol i weld a oedd pa mor rhugl oedd arweinydd 1 yn cael dylanwad ar ddefnydd aelodau'r staff o'r Gymraeg yn y cylch. Gwnaed hyn er mwyn gweld pa mor bwysig yw cryfder iaith yr arweinydd o ran y defnydd cyffredinol o'r Gymraeg o fewn y cylch. Rhoddir y canlyniadau yn y tablau isod.

Tabl 8.13 Cydberthyniad Rhuglder Arweinydd 1 a Defnydd Arweinydd 1 o'r Gymraeg

	n	r	p
Defnyddio Saesneg gyda'r plant ond ychydig eiriau Cymraeg	86	-0.438	0.0001
Rhoi cyfarwyddiadau yn Gymraeg	108	0.176	0.069
Sgwrsio'n anffurfiol gyda'r plant yn Gymraeg	132	0.367	0.0001
Sgwrsio'n anffurfiol gydag oedolion yn Gymraeg	116	0.404	0.0001
Datblygu Cymraeg plant	129	0.243	0.005
Siarad Cymraeg mewn cyfarfod	126	0.524	0.0001

Tabl 8.14 Cydberthyniad Rhuglder Arweinydd 1 a Defnydd Arweinydd 2 o'r Gymraeg

	n	r	p
Defnyddio Saesneg gyda'r plant ond ychydig eiriau Cymraeg	43	-0.247	0.110
Rhoi cyfarwyddiadau yn Gymraeg	56	-0.002	0.990
Sgwrsio'n anffurfiol gyda'r plant yn Gymraeg	67	0.193	0.118
Sgwrsio'n anffurfiol gydag oedolion yn Gymraeg	60	0.330	0.010
Datblygu Cymraeg plant	67	0.104	0.404
Siarad Cymraeg mewn cyfarfod	61	0.339	0.008

Tabl 8.15 Cydberthyniad Rhuglder Arweinydd 1 a Defnydd Cynorthwydd 1 o'r Gymraeg

	n	r	p
Defnyddio Saesneg gyda'r plant ond ychydig eiriau Cymraeg	77	-0.296	0.009
Rhoi cyfarwyddiadau yn Gymraeg	93	0.194	0.063
Sgwrsio'n anffurfiol gyda'r plant yn Gymraeg	108	0.125	0.198
Sgwrsio'n anffurfiol gydag oedolion yn Gymraeg	98	0.180	0.076
Datblygu Cymraeg plant	105	0.004	0.965
Siarad Cymraeg mewn cyfarfod	148	0.069	0.407

Tabl 8.16 Cydberthyniad Rhuglder Arweinydd 1 a Defnydd Cynorthwydd 2 o'r Gymraeg

	n	r	p
Defnyddio Saesneg gyda'r plant ond ychydig eiriau Cymraeg	43	-0.377	0.013
Rhoi cyfarwyddiadau yn Gymraeg	48	0.213	0.146
Sgwrsio'n anffurfiol gyda'r plant yn Gymraeg	54	0.280	0.041
Sgwrsio'n anffurfiol gydag oedolion yn Gymraeg	52	0.298	0.032
Datblygu Cymraeg plant	55	0.107	0.438
Siarad Cymraeg mewn cyfarfod	51	0.390	0.005

Tabl 8.17 Cydberthyniad Rhuglder Arweinydd 1 a Defnydd Cynorthwydd 3 o'r Gymraeg

	n	r	p
Defnyddio Saesneg gyda'r plant ond ychydig eiriau Cymraeg	21	-0.678	0.001
Rhoi cyfarwyddiadau yn Gymraeg	23	0.388	0.067
Sgwrsio'n anffurfiol gyda'r plant yn Gymraeg	24	0.425	0.039
Sgwrsio'n anffurfiol gydag oedolion yn Gymraeg	24	0.451	0.027
Datblygu Cymraeg plant	24	0.143	0.505
Siarad Cymraeg mewn cyfarfod	25	0.349	0.087

Gwelir bod cysylltiad rhwng pa mor rhugl yw arweinydd 1 a defnydd aelodau eraill o'r staff mewn ychydig o achosion. Roedd cynorthwydd 1, cynorthwydd 2 a cynorthwydd 3 yn llai tebygol o ddefnyddio Saesneg gyda'r plant gydag ychydig eiriau Cymraeg. Roedd cynorthwydd 2 a cynorthwydd 3 yn ystadegol arwyddocaol fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg i sgwrsio'n anffurfiol gyda phlant ac oedolion yn y cylch po fwyaf rhugl oedd arweinydd 1. Roedd arweinydd 2 yn ystadegol arwyddocaol fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gydag oedolion yn y cylch ac, fel cynorthwydd 2, yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd. Fodd bynnag, rhaid cyfeirio at dabl 8.9 ar dudalen 457 sy'n dangos y cyswllt agos rhwng pa mor rhugl yw arweinydd 1 a pha mor rhugl yw aelodau eraill o staff y cylch. Dangoswyd bod cysylltiad rhwng pa mor rhugl ydynt a'u defnydd o'r iaith yn y cylch.

A oes cysylltiad rhwng pa mor rhugl yw Arweinydd 1 a pha mor hyderus ydynt yn y Gymraeg?

Gwnaed prawf chi-square i archwilio'r cysylltiad rhwng pa mor rhugl yw arweinydd 1 a pha mor hyderus ydynt wrth wneud rhai gweithgareddau yn y cylch trwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhoddir y canlyniadau yn y tabl isod.

Tabl 8.18 Cydberthyniad Rhuglder Arweinydd 1 a'u Hyder

	n	Chi-sq	df	p
Croesawu	144	24.481	9	0.004
Cofrestru	146	29.374	9	0.001
Cyflwyno gweithgareddau creadigol	146	52.337	6	0.0001
Darllen stori	147	64.843	6	0.0001
Trafod stori	116	87.395	9	0.0001
Cyflwyno gêmiau bwrdd	147	78.164	6	0.0001
Cyflwyno gweithgareddau corfforol	146	73.891	6	0.0001
Cyflwyno Mathemateg	144	59.734	9	0.0001
Cyflwyno gwaith thema	145	61.752	6	0.0001
Cynhyrchu deunyddiau gweledol	146	49.259	9	0.0001
Siarad am y gweithgareddau gyda'r plant	114	68.282	9	0.0001

Gwelir o'r tabl uchod bod pa mor rhugl yw arweinydd 1 yn cael effaith ystadegol arwyddocaol ar ba mor hyderus ydynt wrth wneud pob gweithgaredd a nodwyd yn y tabl. Roedd pa mor rhugl yw'r arweinydd 1 yn cael ychydig llai o bwysigrwydd yn y ddau weithgaredd cyntaf yn y tabl sef 'Croesawu' a 'Chofrestru', roedd nifer helaeth ohonynt (83.4 a 83.0) wedi nodi eu bod yn hyderus wrth wneud y gweithgareddau hyn trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, roedd pa mor rhugl oeddynt yn cael effaith ystadegol arwyddocaol ar ba mor hyderus oeddynt wrth wneud yr holl weithgareddau yn y tabl. Gellir nodi o hyn felly bod cysylltiad agos rhwng pa mor rhugl yw'r prif arweinyddion a pha mor hyderus ydynt wrth wneud gweithgareddau arferol yn y cylch trwy gyfrwng y Gymraeg.

8.3.4.4 Casgliad

Yn y rhan hon o'r bennod ceisiwyd ateb y cwestiwn ymchwil 'A yw'r arweinyddiaeth yn cael effaith ar le'r Gymraeg yn y cylch?' Dangosodd canlyniadau'r holiadur bod cydberthyniad ystadegol arwyddocaol rhwng pa mor rhugl yw arweinyddion 1 a pha mor rhugl yw aelodau eraill y staff. Felly, y mwyaf rhugl yw'r prif arweinydd, y mwyaf rhugl yw aelodau eraill y staff. Dyma beth y disgwyliid y byddai'r canlyniadau'n ddangos.

Roedd arweinyddion 1 yn gyffredinol yn fwy rhugl neu'n eithaf cyfartal ag arweinyddion 2. Gofynnwyd i'r arweinyddion nodi pa mor hyderus oeddynt wrth wneud rhai gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg yn y cylch. Roedd dros hanner yr arweinyddion yn y categori 'hyderus iawn' ar gyfer pob un o'r gweithgareddau, a dros 85% yn y ddau gategori uchaf sef 'hyderus iawn' ac 'eithaf hyderus' ar gyfer pob gweithgaredd. Fodd bynnag, roedd angen i hyfforddiant pellach gymryd i ystyriaeth gwendidau mewn pedwar gweithgaredd sef 'Cyflwyno gweithgareddau corfforol', 'Cyflwyno mathemategol', 'Siarad am y gweithgareddau gyda'r plant' a 'Trafod stori'. Yn ôl dadansoddiad a wnaed ynglŷn â pha iaith a ddefnyddir rhwng y staff nid yw pa mor rhugl yw'r arweinydd 1 yn cael mwy o effaith ar ba iaith a ddefnyddir rhwng y staff nag unrhyw aelod arall o'r staff. Gwelwyd bod cysylltiad rhwng pa mor rhugl yw arweinydd 1 a defnydd aelodau eraill o'r staff o'r Gymraeg mewn ychydig o achosion. Roeddynt yn llai tebygol o ddefnyddio Saesneg gan mwyaf gyda'r plant a rhai eraill yn fwy tebygol o sgwrsio'n anffurfiol gyda phlant ac oedolion yn y cylch po fwyaf rhugl arweinydd 1. Fodd bynnag, mae'n anodd gweld ai dylanwad yr arweinydd neu a yw'r staff eraill yn siarad Cymraeg beth bynnag ac felly'n fwy tebygol o ddefnyddio'r iaith yn y cylch.

Roedd pa mor rhugl oedd arweinydd 1 yn cael effaith ystadegol arwyddocaol ar ba mor hyderus ydynt wrth wneud gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg yn y cylch.

Felly roedd cysylltiad rhwng pa mor rhugl yw arweinydd 1 a faint o Gymraeg a ddefnyddir yn y cylch ac a pha mor hyderus oeddynt wrth wneud gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg.

8.3.5 Cwestiwn ymchwil 4 – A oes amrywiaeth rhanbarthol o ran y galw a'r angen am hyfforddiant ieithyddol i staff?

8.3.5.1 Cyflwyno'r pwnc

Roedd swyddogion Mudiad Ysgolion Meithrin yn awyddus i weld a oedd mwy o angen a galw am hyfforddiant ieithyddol i staff mewn rhai ardaloedd o Gymru na'i gilydd. Eisoedd targedwyd dwyrain Cymru fel ardal eang lle gwelwyd y mwyaf o angen cymorth ieithyddol, ond er mwyn sicrhau cynllun hyfforddi effeithiol mae angen targedu a blaenoriaethu rhanbarthau lle mae'r problemau a'r galw mwyaf.

8.3.5.2 Tystiolaeth

Nodwyd ym mha ranbarth y lleolwyd pob cylch yn y basdata er mwyn dadansoddi'r gwahaniaeth rhwng y rhanbarthau. Bwriadwyd edrych beth oedd y gwahaniaeth rhanbarthol o ran pa mor rhugl oedd y staff, beth oedd eu cefndir ieithyddol, pa iaith a ddefnyddiwyd rhwng y staff yn y cylch, pa iaith a ddefnyddiai'r staff gyda phlant y cylch a chyda'u rhieni ac a oedd arweinyddion rhai ardaloedd yn fwy hyderus na'i gilydd. Mae'n allweddol bwysig i Mudiad Ysgolion Meithrin wybod ble mae'r galw am hyfforddiant ieithyddol i staff felly defnyddiwyd y wybodaeth a gaed yng nghwestiwn 7 i weld staff pa ardaloedd a ddangosodd ddiddordeb mewn derbyn hyfforddiant ieithyddol ar ffurf cyrsiau iaith, clystyru cylchoedd neu dderbyn cymorth gan Swyddog Iaith.

8.3.5.3 Canlyniadau

Gofynnwyd i'r arweinyddion nodi gallu pob aelod o staff yn y cylch yn y Gymraeg ar sail eu defnydd o'r iaith yn y cylch yn rhannol er mwyn gweld a oes cyswllt rhwng pa mor rhugl yw'r staff a pha sir maent yn gweithio ynddi. Trwy ddadansoddi'r canlyniadau hyn gellir gweld cylchoedd pa siroedd sydd angen cefnogaeth ieithyddol pellach.

Er mwyn cael braslun o'r sefyllfa o ran pa mor rhugl yw staff y cylchoedd yn y gwahanol ranbarthau rhoddir y niferoedd a'r canrannau o arweinyddion 1, arweinyddion 2, cynorthwyr 1 a'r staff yn gyfan gwbl fesul rhanbarth yn ôl pa mor rhugl yn y tablau isod.

Tabl 8.19 Rhuglder Arweinydd 1 Fesul Rhanbarth

ARDAL	PA MOR RHUGL YW ARWEINYDD 1?					Cyfanswm
	Cwbl rugl	Bron yn gwbl rugl	Eithaf rhugl	Peth / ychydig o Gymraeg	Bron dim Cymraeg	
Abertawe	3 27.3%	6 54.5%		2 18.2%		11 100.0%
Blaenau Gwent		1 50.0%		1 50.0%		2 100.0%
Bro Morgannwg	4 44.4%	2 22.2%	1 11.1%	2 22.2%		9 100.0%
Caerdydd	12 66.7%	5 27.8%	1 5.6%			18 100.0%
Caerffili	2 11.8%		8 47.1%	7 41.2%		17 100.0%
Casnewydd			3 100.0%			3 100.0%
Castell Nedd Afan	4 57.1%	1 14.3%	2 28.6%			7 100.0%
Cynon Taf	3 25.0%	4 33.3%	4 33.3%	1 8.3%		12 100.0%
De Powys	4 57.1%	1 14.3%	2 28.6%			7 100.0%
Fflint	8 80.0%		2 20.0%			10 100.0%
Gogledd Powys	16 88.9%	2 11.1%				18 100.0%
Merthyr	3 50.0%		3 50.0%			6 100.0%
Mynwy	1 33.3%	1 33.3%		1 33.3%		3 100.0%
Ogwr	1 25.0%	2 50.0%	1 25.0%			4 100.0%
Rhondda Taf			5 83.3%	1 16.7%		6 100.0%
Torfaen	1 25.0%	1 25.0%		2 50.0%		4 100.0%
Wrecsam	10 90.9%		1 9.1%			11 100.0%
Cyfanswm	72 48.6%	26 17.6%	33 22.3%	17 11.5%		148 100.0%

Tabl 8.20 Rhuglder Arweinydd 2 Fesul Rhanbarth

PA MOR RHUGL YW ARWEINYDD 2?						
ARDAL	Cwbl rugl	Bron yn gwbl rugl	Eithaf rhugl	Peth / ychydig o Gymraeg	Bron dim Cymraeg	Cyfanswm
Abertawe	1 20.0%		2 40.0%	2 40.0%		5 100.0%
Blaenau Gwent			1 100.0%			1 100.0%
Bro Morgannwg	1 25.0%	1 25.0%	2 50.0%			4 100.0%
Caerdydd	5 50.0%	2 20.0%	3 30.0%			10 100.0%
Caerffili	1 11.1%		1 11.1%	7 77.8%		9 100.0%
Casnewydd				1 100.0%		1 100.0%
Castell Nedd Afan	3 75.0%			1 25.0%		4 100.0%
Cynon Taf	1 16.7%		5 83.3%			6 100.0%
De Powys	1 33.3%	1 33.3%		1 33.3%		3 100.0%
Fflint	7 100.0%					7 100.0%
Gogledd Powys	3 75.0%			1 25.0%		4 100.0%
Merthyr			1 33.3%	2 66.7%		3 100.0%
Mynwy				1 100.0%		1 100.0%
Ogwr	1 25.0%		3 75.0%			4 100.0%
Rhondda Taf	2 50.0%		2 50.0%			4 100.0%
Torfaen			2 100.0%			2 100.0%
Wrecsam	4 100.0%	3 37.5%	1 12.5%			8 100.0%
Cyfanswm	30 39.5%	7 9.2%	23 30.3%	16 21.1%		76 100.0%

Tabl 8.21 Rhuglder Cynorthwy-ydd 1 Fesul Rhanbarth

PA MOR RHUGL YW CYNORTHWY-YDD 1?						
ARDAL	Cwbl rugl	Bron yn gwbl rugl	Eithaf rhugl	Peth / ychydig o Gymraeg	Bron dim Cymraeg	Cyfanswm
Abertawe	1 12.5%	1 12.5%		3 37.5%	3 37.5%	8 100.0%
Blaenau Gwent					2 100.0%	2 100.0%
Bro Morgannwg	2 28.6%	1 14.3%		4 57.1%		7 100.0%
Caerdydd	6 33.3%	4 22.2%	4 22.2%	4 22.2%		18 100.0%
Caerffili	3 21.4%	1 7.1%	1 7.1%	8 57.1%	1 7.1%	14 100.0%
Casnewydd			1 33.3%	2 66.7%		3 100.0%
Castell Nedd Afan	3 42.9%		2 28.6%	2 28.6%		7 100.0%
Cynon Taf	1 9.1%	2 18.2%	2 18.2%	5 45.5%	1 9.1%	11 100.0%
De Powys	7 100.0%					7 100.0%
Fflint	4 57.1%	2 28.6%			1 14.3%	7 100.0%
Gogledd Powys	10 62.5%	1 6.3%	1 6.3%	4 25.0%		16 100.0%
Merthyr				4 100.0%		4 100.0%
Mynwy		1 33.3%	2 66.7%			3 100.0%
Ogwr	2 50.0%			2 50.0%		4 100.0%
Rhondda Taf	2 40.0%		1 20.0%	2 40.0%		5 100.0%
Torfaen		1 25.0%	1 25.0%	2 50.0%		4 100.0%
Wrecsam	2 33.3%	2 33.3%	1 16.7%		1 16.7%	6 100.0%
Cyfanswm	43 34.1%	16 12.7%	16 12.7%	42 33.3%	9 7.1%	126 100.0%

Tabl 8.22 Rhuglder Staff y Cylchoedd Fesul Rhanbarth

PA MOR RHUGL YW STAFF Y CYLCHOEDD?						
ARDAL	Cwbl rugl	Bron yn gwbl rugl	Eithaf rhugl	Peth / ychydig o Gymraeg	Bron dim Cymraeg	Cyfanswm
Abertawe	6 24.0%	7 28.0%	2 8.0%	7 28.0%	3 12.0%	25 100.0%
Blaenau Gwent		2 18.2%	1 9.1%	5 45.5%	3 27.3%	11 100.0%
Bro Morgannwg	7 31.8%	4 18.2%	3 13.6%	8 36.4%		22 100.0%
Caerdydd	29 45.3%	16 25.0%	11 17.2%	7 10.9%	1 1.6%	64 100.0%
Caerffili	8 15.4%	1 1.9%	11 21.2%	27 51.9%	5 9.6%	52 100.0%
Casnewydd			4 50.0%	3 37.5%	1 12.5%	8 100.0%
Castell Nedd Afan	13 50.0%	1 3.8%	6 23.1%	4 15.4%	2 7.7%	26 100.0%
Cynon Taf	6 23.1%	6 23.1%	7 26.9%	6 23.1%	1 3.8%	26 100.0%
De Powys	18 50.0%	2 5.6%	9 25.0%	5 13.9%	2 5.6%	36 100.0%
Fflint	23 79.3%	2 6.9%	2 6.9%	1 3.4%	1 3.4%	29 100.0%
Gogledd Powys	31 64.6%	6 12.5%	1 2.1%	4 8.3%	6 12.5%	48 100.0%
Merthyr	4 36.4%		4 36.4%	3 27.3%		11 100.0%
Mynwy	4 26.7%	2 13.3%	2 13.3%	7 46.7%		15 100.0%
Ogwr	4 28.6%	2 14.3%	4 28.6%	4 28.6%		14 100.0%
Rhondda Taf	5 26.3%		8 42.1%	5 26.3%	1 5.3%	19 100.0%
Torfaen	2 14.3%	2 14.3%	4 28.6%	5 35.7%	1 7.1%	14 100.0%
Wrecsam	18 62.1%	6 20.7%	4 13.8%		1 3.4%	29 100.0%
Cyfanswm	178 39.6%	59 13.1%	83 18.5%	101 22.5%	28 6.2%	449 100.0%

Fel y gwelir o dabl 8.19, roedd amrywiaeth o fewn y rhanbarthau o ran pa mor rhugl oedd yr arweinyddion. Roedd mwyafrif arweinyddion 1 rhai rhanbarthau, er enghraifft, rhanbarthau Fflint, Gogledd Powys, Wrecsam, Abertawe a Chaerdydd yn y categorïau 'Cwbl rugl' neu 'Bron yn gwbl rugl'. Mewn rhanbarthau eraill megis Caerffili, Blaenau Gwent a Thorfaen roedd canran helaeth o'r arweinyddion 1 yn y categori 'Peth / ychydig o Gymraeg'. Nid oedd unrhyw un yn y categori 'Bron dim Cymraeg'.

Roedd sefyllfa'r arweinyddion 2 ychydig yn wahanol. Roedd 40% o arweinyddion 2 rhanbarth Abertawe ac un o bedair arweinydd 2 rhanbarth Gogledd Powys yn y categori 'Peth / ychydig o Gymraeg'. Felly nid yw pa mor rhugl yw arweinydd 1 yn adlewyrchu'r sefyllfa gyffredinol yn y cylchoedd. Unwaith eto, nid oedd unrhyw un o'r arweinyddion 2 yn y categori 'Bron dim Cymraeg'. Fodd bynnag, roedd 77.8% o arweinyddion 2 rhanbarth Caerffili a'r unig arweinydd 2 yn y sampl o ranbarth Casnewydd yn y categori 'Peth / ychydig o Gymraeg'. Roedd mwyafrif arweinyddion 2 rhanbarthau Caerdydd, Castell Nedd Afan, De Powys, Fflint, Gogledd Powys, Rhondda Taf a Wrecsam yn y categorïau uchaf.

Yn wahanol i'r arweinyddion, roedd rhai o'r cynorthwywyr yn y categori isaf o'r pump dewis ateb sef 'Bron dim Cymraeg'. Roedd y ddwy gynorthwydd 1 yn y sampl o ranbarth Blaenau Gwent yn y categori hwn. Roedd 6 sef 75% o gynorthwywyr 1 rhanbarth Abertawe a dwy o dair cynorthwydd 1 Casnewydd yn y ddau categori isaf sef 'Bron din Cymraeg' neu 'Peth / ychydig o Gymraeg'. Roedd hanner neu fwy o gynorthwywyr 1 rhanbarthau Bro Morgannwg, Caerffili, Casnewydd, Cynon Taf, Merthyr, Ogwr a Thorfaen yn un o'r ddau categori isaf. Roedd y sefyllfa'n well yn rhanbarthau Caerdydd, Castell Nedd Afan, De Powys, Fflint, Gogledd Powys, Ogwr a Wrecsam, gyda chanrannau uwch yn y categorïau 'Cwbl rugl' neu 'Bron yn gwbl rugl'.

Ni luniwyd tablau ar gyfer cynorthwywyr 2 a Chynorthwywyr 3 gan nad oedd cynifer ohonynt yn y sampl ac felly ni fyddai modd gweld tueddiadau rhanbarthol.

Fel y gwelir yn nhabl 8.22, o ystyried y sampl yn ei gyfanrwydd, hynny yw yr holl staff yn yr 17 rhanbarth, roedd 39.6% ohonynt yn gwbl rugl yn y Gymraeg, 13.1% bron yn gwbl rugl yn y Gymraeg, 18.5% yn eithaf rhugl, 22.5% â pheth Cymraeg a 6.2% yn siarad bron dim Cymraeg.

Amrywiai'r raddfa o pa mor rhugl oedd y staff yn ôl sir, er enghraifft amrywiai'r canran o staff oedd yn gwbl rugl yn y Gymraeg o 14.3% yn Nhorfaen i 79.3% yn Fflint. Roedd hanner neu fwy o'r staff yn gwbl rugl yn y Gymraeg mewn pump rhanbarth sef Castell Nedd Afan, De Powys, Wrecsam a Gogledd Powys. Ar y

llaw arall nid oedd unrhyw un o'r staff yn siroedd Blaenau Gwent na Chasnewydd yn y categori 'cwbl rugl', 15.4% yn unig yng Nghaerffili a 14.3% yn Nhorfaen.

Nid oedd unrhyw un yn un o'r ddau gategori uchaf, sef 'cwbl rugl' a 'bron yn gwbl rugl' yn ardal Casnewydd. Nodwyd bod hanner y staff yn ardal Casnewydd yn y categori 'eithaf rhugl'.

Amrywiai'r canran oedd yn y categori 'Bron dim Cymraeg', y pumed categori, o ddim mewn pedwar rhanbarth (Bro Morgannwg, Merthyr, Mynwy ac Ogwr) i 27.3% ym Mlaenau Gwent.

Roedd canran sylweddol o'r staff yn y categori 'peth / ychydig o Gymraeg' mewn chwech rhanbarth sef Torfaen (35.7%), Bro Morgannwg (36.4%), Casnewydd (37.5%), Blaenau Gwent (45.5%), Mynwy (46.7%) a Caerffili (51.9%). Roedd dros hanner neu fwy o'r staff yng Nghasnewydd (50.0%), Caerffili (61.5%), a Blaenau Gwent (72.8%) yn y ddau gategori 'Peth / ychydig o Gymraeg' neu 'Bron dim Cymraeg'.

Felly nid oedd dros hanner y staff yn y rhanbarthau hyn yn siarad dim mwy na pheth neu ychydig o Gymraeg.

8.3.5.3.1 Cymariaethau Croesdabliad

The chi-square test for independence is used to determine if two categorical variables are related. It compares the frequency of cases found in the various categories of one variable across the different categories of another variable.
(Pallant, 2001, 256-7)

Defnyddir y prawf chi-square er mwyn archwilio'r berthynas rhwng dau amrywiad / newidyn categorïaidd. Gall fod gan y newidynnau hyn fwy na dau gategori. Yn y bennod hon ystyrir bod cydberthyniad yn ystadegol arwyddocaol pan fo lefel yr hyder yn llai na 0.050, ac yn ymylu ar fod yn arwyddocaol pan fo lefel yr hyder rhwng 0.06 a 0.10.

Defnyddiwyd y prawf chi-square i archwilio'r berthynas bosib rhwng pa mor rhugl yw'r staff a pha sir y mae'r cylch wedi ei leoli. Gwneir hyn er mwyn gweld a oes rhai siroedd lle mae angen mwy o gefnogaeth ieithyddol ar y staff na'i gilydd. Bydd hyn yn galluogi'r Mudiad i dargedu cyrsiau o ran blaenoriaeth yr angen yn y siroedd. Nodwyd bod y canlyniad yn ystadegol arwyddocaol os yw'r gwerth arwyddocaol yn llai na 0.050.

Rhoddir canlyniadau'r prawf chi-square i weld a oes perthynas ystadegol arwyddocaol rhwng pa mor rhugl yw'r staff a pha ranbarth y lleolir y cylch ar sail yr ymatebion i gwestiwn 2 yn y tabl isod:

Tabl 8.23 Cysylltiad Rhwng Rhuglder Staff a Rhanbarth

	n	Chi-sq	df	p
Arweinydd 1 – rhugl?	148	123.676	48	0.0001
Arweinydd 2 – rhugl?	76	87.955	48	0.0001
Cynorthwydd 1 – rhugl?	126	114.243	64	0.0001
Cynorthwydd 2 – rhugl?	69	81.461	64	0.069
Cynorthwydd 3 – rhugl?	28	52.627	44	0.175

Fel y gwelir o'r tabl uchod yn dangos canlyniadau'r prawf chi-square roedd cysylltiad ystadegol arwyddocaol rhwng pa mor rugl yw'r arweinyddion 1, arweinyddion 2 a'r cynorthwydd 1. Roedd y cysylltiad rhwng sir y cylch a pha mor rhugl oedd cynorthwywyr 2 hefyd yn ymylu ar fod yn ystadegol arwyddocaol. Felly roedd cysylltiad agos rhwng pa mor rhugl oedd y staff a pha sir yr oeddynt yn gweithio ynddi.

Defnyddiwyd yr un prawf, sef chi-square, er mwyn gweld a oes cysylltiad rhwng y sir lle mae'r cylch a chefnidir ieithyddol arweinyddion y cylchoedd.

Tabl 8.24 Cysylltiad Rhwng Cefndir Ieithyddol Arweinydd a Rhanbarth

	n	Chi-sq	df	Sig
Siarad Cymraeg gyda rhiant / rhieni	149	78.399	16	0.0001
Wedi dechrau dysgu Cymraeg cyn ysgol ond nid gan riant / rhieni	149	14.898	16	0.532
Dysgu Cymraeg yn yr ysgol gan mwyaf	149	15.209	16	0.509
Pasio TGAU / Lefel O Cymraeg iaith gyntaf (neu gyfwerth)	149	34.081	16	0.005
Pasio TGAU / Lefel O Cymraeg ail iaith (neu gyfwerth)	149	26.633	16	0.046
Dysgu Cymraeg ar gwrs Wlpan / Cymraeg i Oedolion	149	44.177	16	0.0001
Defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd gartref	149	29.990	16	0.018
Defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd cymdeithasol	149	41.013	16	0.001

Gwelir o'r tabl uchod bod cysylltiad agos rhwng y sir lle mae'r cylch wedi ei leoli a chefnidir ieithyddol yr arweinyddion. Roedd cysylltiad ystadegol arwyddocaol rhwng cefndir ieithyddol arweinydd 1 a pha sir maent yn gweithio ynddi mewn chwech achos sef, 'Siarad Cymraeg gyda rhiant / rhieni', 'Pasio TGAU / Lefel O Cymraeg iaith gyntaf neu gyfwerth), 'Dysgu Cymraeg ar gwrs Wlpan / Cymraeg i Oedolion', 'Defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd gartref' a 'Defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd cymdeithasol'. Yr unig ddau nad oeddynt yn dangos cysylltiad ystadegol arwyddocaol oedd 'Wedi dechrau dysgu Cymraeg cyn ysgol ond nid gan riant / rhieni' a 'Dysgu Cymraeg yn yr ysgol gan mwyaf/ Ychydig o'r arweinyddion oedd yn y categori 'Wedi dechrau dysgu Cymraeg cyn ysgol ond nid gan riant / rhieni' beth bynnag.

Gwnaed prawf chi-square er mwyn gweld a oes cysylltiad rhwng pa mor rhugl yw prif arweinyddion y cylchoedd (yn ôl atebion cwestiwn 2) a'u cefndir ieithyddol. Disgwyliwyd y byddai cysylltiad agos rhwng y rhain.

Tabl 8.25 Cysylltiad Rhwng Rhuglder Arweinyddion a'u Cefndir Ieithyddol

	n	Chi-sq	df	sig
Siarad Cymraeg gyda rhiant / rhieni	148	61.812	3	0.001
Wedi dechrau dysgu Cymraeg cyn ysgol ond nid gan riant/rhieni	148	3.772	3	0.287
Dysgu Cymraeg yn yr ysgol gan mwyaf	148	2.174	3	0.537
Pasio TGAU / Lefel O Cymraeg iaith gyntaf (neu gyfwerth)	148	20.592	3	0.0001
Pasio TGAU / Lefel O Cymraeg ail iaith (neu gyfwerth)	148	2.969	3	0.396
Dysgu Cymraeg ar gwrs Wlpan / Cymraeg i Oedolion	148	54.858	3	0.0001
Defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd gartref	148	16.045	3	0.001
Defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd cymdeithasol	148	39.791	3	0.0001

Gwelir o'r tabl uchod bod cysylltiad ystadegol arwyddocaol rhwng pa mor rhugl yw'r arweinyddion a'u cefndir ieithyddol mewn pump achos. Fel y gellid disgwyl mae'n debyg, roedd cysylltiad agos rhwng pa mor rhugl yw'r arweinydd a 'Siarad Cymraeg gyda rhiant / rhieni'. Roedd cysylltiad ystadegol arwyddocaol hefyd rhwng pa mor rhugl yw arweinydd 1 ac a oeddynt wedi 'Pasio TGAU / Lefel O Cymraeg iaith gyntaf (neu gyfwerth)'. Gwelwyd cysylltiad ystadegol arwyddocaol rhwng pa mor rhugl ydynt yn y Gymraeg a'u defnydd o'r iaith yn eu bywyd cymdeithasol a'u defnydd o'r iaith yn y cartref. Roedd cysylltiad ystadegol arwyddocaol hefyd rhwng pa mor rhugl yw'r arweinyddion ac a wnaethant ddysgu Cymraeg ar gwrs Wlpan / Cymraeg i oedolion.

8.3.5.3.2 Ardal

Gwnaed prawf chi-sq hefyd i archwilio'r cysylltiad posib rhwng yr ardal lle mae'r cylch wedi ei leoli a pha mor hyderus yw'r arweinydd wrth gyflawni rhai gweithgareddau yn y cylch trwy gyfrwng y Gymraeg.

Tabl 8.26 Cydberthyniad Ardal a pha mor Hyderus yw'r Arweinyddion

	N	Chi-sq	df	p
Croesawu	145	83.473	48	0.001
Cofrestru	147	46.056	48	0.553
Cyflwyno gweithgareddau creadigol	147	65.202	32	0.0001
Darllen stori	148	77.905	32	0.0001
Trafod stori	116	76.480	48	0.006
Cyflwyno gêmâu bwrdd	148	77.442	32	0.0001
Cyflwyno gweithgareddau corfforol	147	53.256	32	0.011
Cyflwyno Mathemateg	145	64.480	48	0.056
Cyflwyno gwaith thema	146	79.482	32	0.0001
Cynhyrchu deunyddiau gweledol	147	52.062	48	0.319
Siarad am y gweithgareddau gyda'r plant	114	66.615	48	0.039

Fel y gwelir o'r tabl uchod nid oedd pa ardal yr oedd y cylch wedi ei leoli yn cael cymaint o effaith ystadegol arwyddocaol ar ba mor hyderus oeddynt wrth wneud eu gwaith ag oedd pa mor rhugl yw'r arweinydd. Fodd bynnag, roedd pa ardal y mae'r cylch wedi ei leoli yn cael effaith ystadegol arwyddocaol ar ba mor hyderus oedd arweinyddion 1 wrth wneud nifer o weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn saith achos. Yr achosion hynny oedd 'Croesawu', 'Cyflwyno gweithgareddau creadigol', 'Darllen stori', 'Trafod stori', 'Cyflwyno gêmâu bwrdd', 'Cyflwyno gweithgareddau corfforol' a 'Cyflwyno gwaith thema'. Roedd pa ardal yr oedd y cylch ynddo yn cael effaith a oedd yn ymylu at fod yn ystadegol arwyddocaol yn achos pa mor hyderus oeddynt wrth 'Cyflwyno mathemateg'. Nid oedd lleoliad y cylch yn cael effaith ystadegol arwyddocaol ar ba mor hyderus oedd arweinyddion 1 wrth 'Gofrestru' a 'Chynhyrchu deunyddiau gweledol' trwy gyfrwng y Gymraeg.

Felly mae pa ardal y mae'r cylch wedi ei leoli ynddo yn cael effaith ystadegol arwyddocaol ar ba mor hyderus yw'r arweinydd 1 wrth wneud nifer o weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg yn y cylch. Gellir priodoli hyn i nifer o ffactorau gan gynnwys iaith yr ardal. Fel y gwelwyd eisoes mae cysylltiad ystadegol arwyddocaol rhwng pa mor rhugl yw'r arweinydd yn y Gymraeg a pha ardal y mae'n gweithio ynddi. Hefyd mae'n bosib y dylid cymryd i ystyriaeth waith y Swyddogion Datblygu; mae'n bosib bod rhai ohonynt yn rhoi mwy o bwyslais ar 'Cyflwyno gwaith thema' neu 'Cyflwyno gweithgareddau corfforol' na'i gilydd.

8.3.5.3.3 Prawf Kruskal-Wallis

Mewn cyfrifiant prawf Kruskal-Wallis rhoddir rheng yn lle arsylwad niferoedd. Felly mae sgoriau o'r sampl yn cael eu cyfuno ac yn cael eu rhestru mewn cyfres unigol. Ar ôl gwneud hyn cyfrifir swm y rhengoedd yn y sampl ac mae'r prawf Kruskal-Wallis yn cyfrifo a yw'r symiau o'r rhengoedd mor annhebyg fel nad ydynt yn debygol o fod wedi dod o'r un boblogaeth (Siegel a Castellan, 1988, 185).

The Kruskal-Wallis test is more efficient than the extension of the median test because it utilizes more of the information in the observations, converting the scores into ranks rather than simply dichotomizing them as above and below the median.

(Siegel a Castellan, 1988, 185)

Mae canlyniad Kruskal-Wallis yn gadael inni dderbyn bod gwahaniaeth arwyddocaol rhwng ardaloedd. Nid yw'r prawf yn rhoi dadansoddiad manwl o ba barau sy'n arwyddocaol wahanol. Ar y lleiaf mae gwahaniaeth rhwng y rheng (rank) uchaf ac isaf.

8.3.5.3.4 Rhengoedd iaith rhwng staff

Yn y tabl isod rhoddir canlyniadau Kruskal-Wallis ar gyfer cwestiwn 4. Yn gyntaf rhoddir yr ardaloedd yn eu trefn yn ôl cymedr, yna nodir a yw'r gwahaniaeth rhwng yr ardaloedd yn ystadegol arwyddocaol.

Tabl 8.27 Rhengoedd Kurskal-Wallis Iaith Rhwng Staff yn ôl Ardal

Ardal	N	Rheng cymedr
Wrecsam	9	39.39
Fflint	10	39.40
Gogledd Powys	16	40.13
De Powys	6	50.75
Caerdydd	19	54.00
Castell Nedd Afan	7	69.43
Bro Morgannwg	8	70.94
Rhondda Taf	6	72.50
Cynon Taf	12	79.71
Casnewydd	3	83.33
Abertawe	10	90.90
Ogwr	4	91.50
Mynwy	3	94.33
Merthyr	6	99.50
Blaenau Gwent	2	110.50
Caerffili	17	111.59
Torfaen	4	116.00
Cyfanswm	142	
Chi-Sq 59.1612	df 16	p 0.0001

Wrth edrych ar yr iaith rhwng staff roedd siroedd Wrecsam, Fflint, Gogledd Powys, De Powys a Chaerdydd ar frig y rhestr, hynny yw mae mwy o Gymraeg yn cael ei siarad rhwng y staff. Ar waelod y rhestr mae Mynwy, Merthyr Blaenau Gwent, Caerffili a Thorfaen. Felly mae mwy o Saesneg yn cael ei siarad rhwng y staff yng nghylchoedd y siroedd hyn.

Yn y tablau isod rhoddir canlyniadau Kruskal-Wallis ar gyfer cwestiwn 6 sef ‘Pa mor hyderus ydych chi fel arweinydd wrth wneud y canlynol yn Gymraeg yn y Cylch?’ Yn gyntaf rhoddir yr ardaloedd yn eu trefn yn ôl cymedr, yna nodir a yw’r gwahaniaeth rhwng yr ardaloedd yn ystadegol arwyddocaol ar gyfer pob gweithgaredd.

Tabl 8.28 Rhengoedd Kurskal-Wallis Croesawu yn ôl Ardal

Ardal	Nifer	Rheng Cymedr
Blaenau Gwent	1	61.00
Bro Morgannwg	9	61.00
Ogwr	4	61.00
Torfaen	4	61.00
Caerdydd	18	64.97
Cynon Taf	11	67.50
Fflint	10	68.15
Gogledd Powys	18	68.94
Castell Nedd Afan	7	71.21
De Powys	7	71.21
Abertawe	11	74.00
Wrecsam	11	75.05
Rhondda Taf	5	75.30
Caerffili	17	82.03
Merthyr	6	84.83
Casnewydd	3	108.67
Mynwy	3	136.67
Total	145	
Chi-sq 31.311	df 16	p 0.012

Fel y gwelir o'r tabl uchod roedd trefn cymedr yr ardaloedd yn ystadegol arwyddocaol, hynny yw, roedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng o leiaf yr ardal ar frig y rhestr a'r un ar waelod y rhestr. Yn achos 'Croesawu' roedd Blaenau Gwent, Bro Morgannwg, Ogwr a Thorfaen ar ben y rhestr a Mynwy ar y gwaelod.

Nid oedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng yr ardaloedd yn achos 'Cofrestru'. Dyma'r unig weithgaredd lle nad oedd gwahaniaeth arwyddocaol. Roedd Blaenau Gwent ar frig y rhestr ar gyfer 'Croesawu' a 'Chofrestru' er ei fod yn un o'r pedair ardal ar waelod pob tabl arall.

Roedd y canlyniadau ar gyfer 'Cyflwyno gweithgareddau creadigol' yn gwahaniaethu'n ystadegol arwyddocaol, rhwng yr ardaloedd ar y ddau begwn ar y fan lleiaf. Yn yr achos hwn Ogwr oedd ar frig y rhestr a Chasnewydd ar y gwaelod.

Roedd gwahaniaeth ystadegol rhwng o leiaf y ddau begwn yn achos ‘darllen stori’. Y tro hwn Gogledd Powys oedd ar y brig a Blaenau Gwent a Chasnewydd ar y gwaelod.

Unwaith eto roedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng yr ardaloedd yn ôl y canlyniadau ar gyfer ‘trafod stori’. Y tro hwn Wrecsam oedd ar y brig a Blaenau Gwent ar y gwaelod unwaith eto.

Roedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng yr ardaloedd ar gyfer ‘Cyflwyno gemau bwrdd’. Cynon Taf a Gogledd Powys oedd ar y brig y tro hwn a Blaenau Gwent ar y gwaelod gyda Chaerffili a Chasnewydd unwaith eto ymysg y rhai isaf.

Wrth ‘gyflwyno gweithgareddau corfforol’ roedd Caerdydd ar y brig gyda Chastell Nedd Afan a Gogledd Powys yn dilyn. Blaenau Gwent, Casnewydd a Chaerffili sydd ar waelod y tabl unwaith eto. Roedd y gwahaniaethau rhwng yr ardaloedd yn ystadegol arwyddocaol.

Roedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng yr ardaloedd yn achos ‘cyflwyno mathemateg’ hefyd. Caerdydd sydd ar y brig y tro hwn gyda Gogledd Powys, Fflint ac Ogwr yn dilyn. Casnewydd sydd ar waelod y tabl gyda Blaenau Gwent, Merthyr a Chaerffili ymysg y rhai olaf.

Roedd trefn yr ardaloedd yn ystadegol arwyddocaol yn achos ‘Cyflwyno gwaith thema’ hefyd. Yr ardal ar frig y rhestr y tro hwn yw Ogwr, gyda Chastell Nedd Afan a Gogledd Powys yn ail a thrydydd. Blaenau Gwent sydd ar y gwaelod eto a Chasnewydd a Mynwy yn ail a thrydydd o’r gwaelod.

Unwaith eto roedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol o leiaf rhwng yr ardal ar frig y tabl a’r ardal ar y gwaelod yn achos ‘Cynhyrchu pethau gweledol’. Y tro hwn Castell Nedd Afan sydd ar y brig, gyda Wrecsam a Fflint yn ail a thrydydd a Mynwy ar waelod y tabl. Unwaith eto mae Caerffili, Chasnewydd a Blaenau Gwent yn agos i’r gwaelod.

Roedd y canlyniadau ar gyfer 'Siarad am y gweithgareddau gyda'r plant' yn gwahaniaethu'n arwyddocaol o leiaf rhwng yr ardal ar frig y rhestr sef Castell Nedd Afan a'r ardal ar y gwaelod sef Mynwy. Unwaith eto mae Wrecsam a Fflint ymysg y rhai uchaf yn y tabl a Merthyr, Blaenau Gwent a Chasnewydd ymysg y rhai ar y gwaelod.

8.3.5.3.5 Casgliad y dadansoddiad Kruskal-Wallis

Fel y gwelwyd uchod roedd yr ardal yr oedd y cylch ynddo yn dylanwadu ar ba mor hyderus yr oedd yr arweinyddion wrth wneud nifer o weithgareddau yn y cylch trwy gyfrwng y Gymraeg. Yr eithriad i hyn oedd 'Cofrestru'; nid oedd pa ardal y lleolid y cylch ynddo yn cael dylanwad ystadegol arwyddocaol ar ba mor hyderus oedd yr arweinyddion wrth gofrestru'r plant.

Gellir gweld o'r tablau yn atodiad 33 bod rhai ardaloedd yn aml ar ben y rhestr tra bod eraill gan amlaf ar y gwaelod. Wrth wneud dadansoddiad oedd yn rhoi'r rhanbarthau yn eu trefn yn ôl pa mor hyderus oedd yr arweinyddion wrth wneud tasgau trwy gyfrwng y Gymraeg yn y cylch gellir sylwi ar rai tueddiadau. Yn gyffredinol roedd arweinyddion cylchoedd ardaloedd Wrecsam, Fflint, Castell Nedd Afan, Ogwr, Caerdydd, Gogledd Powys a Chynon Taf yn hyderus wrth wneud y mwyafrif o weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg. Gellir dehongli hyn o'r ffaith eu bod yn gyson yn nhraean uchaf y tablau. Ar y llaw arall roedd Mynwy, Torfaen, Casnewydd, Merthyr, Caerffili, Blaenau Gwent a Rhondda Taf yn gyson yn nhraean isaf y tablau. Felly, yn gyffredinol, nid yw arweinyddion yr ardaloedd hyn yn hyderus iawn wrth gyflawni'r gweithgareddau a nodwyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Gall gwybodaeth fel hyn fod o fudd i Mudiad Ysgolion Meithrin yn ganolog wrth dargedu hyfforddiant ac adnoddau.

Tabl 8.29 Nifer Arweinyddion 1 a Ddangosodd Ddiddordeb Mewn Hyfforddiant, Fesul Ranbarth

Rhanbarth	Al yn rhanbarth	Cwrs i ddechreuwyd	Cwrs canolradd	Cwrs uwch	Cwrs byr	Cwrs estynedig	Mynychu cwrs W/pan	Cymorth gan Swyddog iaith	Clystyru cylchoedd	Cwrs gohebiaeth
Abertawe	11	1	1			1		2	1	
Blaenau Gwent	2	1						1		1
Bro Morgannwg	9		2		5		1	1	1	1
Caerdydd	18				3	3		5	2	2
Caerffili	17	4	6		6	2	1	2	4	6
Casnewydd	3				1		1	3		1
Castell Nedd Afan	7		1	1	1	1		1		
Cynon Taf	12	4	2	1	3			1		
De Powys	7		2	1	1		1	1	2	4
Fflint	10			1			1		1	1
Gogledd Powys	18				2			2	2	
Merthyr	6			1	2	2		4		1
Mynwy	3	1			1			1		1
Ogwr	4			2						
Rhondda Taf	6		2	1		2		2	1	3
Torfaen	4		1			1		1		1
Wrecsam	11	1	1					1		
CYFANSWM	48	12	18	8	25	12	5	28	14	22

Tabl 8.30 Nifer Arweinyddion 2 a Ddangosodd Ddiddordeb Mewn Hyfforddiant, Fesul Ranbarth

Rhanbarth	A1 yn rhanbarth	Cwrs i ddechreuwyd	Cwrs canolradd	Cwrs uwch	Cwrs byr	Cwrs estynedig	Mynychu cwrs Wlpan	Cynorth gan Swyddog iaith	Clystyru cylchoedd	Cwrs gohebiaeth
Abertawe	5	1	1		1	1		1		2
Blaenau Gwent	1	1	1	1	1	1	1	1		1
Bro Morgannwg	4	1	1		1	1	1			
Caerdydd	10		1	1	1	2	2	2	3	2
Caerffili	9	3	2		3			1	3	2
Casnewydd	1									
Castell Nedd Afan	4		1					1		
Cynon Taf	6	2	2		1			1		
De Powys	3	1	1	1		1	1			1
Fflint	7									
Gogledd Powys	4		1			1	1			
Merthyr	3		1		2	1		2	1	1
Mynwy	1				1			1	1	1
Ogwr	4		1							1
Rhondda Taf	4		1			1		1	1	
Torfaen	2		2			2	1			
Wrecsam	8							1		
CYFANSWM	76	9	15	4	11	11	7	12	9	11

Gwelwyd y galw mwyaf, o ran canran, ar gyfer cwrs Cymraeg i ddechreuwyd yn rhanbarthau Blaenau Gwent, Caerffili, Cynon Taf a De Powys, dangosodd rhai yn rhanbarthau Abertawe, Bro Morgannwg, Mynwy a Wrecsam ddiddordeb hefyd.

Dangosodd 18 o Arweinwyr 1 a 15 o Arweinwyr 2 ddiddordeb mewn cwrs Cymraeg canolradd. Roedd canran sylweddol o arweinwyr rhanbarthau Caerffili, Blaenau Gwent, De Powys, Torfaen a Rhondda Taf yn awyddus i fynychu cwrs canolradd ac roedd galw hefyd yn rhanbarthau Abertawe, Bro Morgannwg, Caerdydd, Wrecsam, Castell Nedd Afan, Gogledd Powys, Merthyr ac Ogwr.

Wyth arweinydd 1 a phedwar arweinydd 2 yn unig oedd am fynychu cwrs uwch. Roedd dwy o'r pedair arweinydd 1 yn rhanbarth Ogwr am fynychu cwrs o'r fath. Roedd staff o ranbarthau Castell Nedd Afan, Cynon Taf, De Powys, Fflint, Merthyr, Rhondda Taf, Blaenau Gwent a Chaerdydd am fynychu cwrs o'r fath.

Roedd 25 arweinydd 1 a 11 arweinydd 2 yn awyddus i'r cyrsiau fod yn rhai byr tra roedd 12 arweinydd 1 a 11 arweinydd 2 yn credu y byddent yn elwa o fynychu cwrs estynedig.

Nifer cymharol fychan oedd yn awyddus i fynychu cwrs Wlpan, dim ond pump arweinydd 1 a saith arweinydd 2.

Dangosodd nifer sylweddol o gylchoedd ddiddordeb mewn cael cymorth Swyddog Iaith. Dylid nodi rhanbarthau Merthyr, Casnewydd, Caerffili, Mynwy a Blaenau Gwent fel rhai â'r canran uchaf o alw am gymorth Swyddog Iaith.

Roedd y diddordeb mwyaf mewn clystyru cylchoedd yn rhanbarthau Caerdydd, Caerffili a Mynwy.

Roedd y galw mwyaf am gwrs gohebiaeth o ranbarthau Blaenau Gwent, Caerffili, Caerdydd, Merthyr, Casnewydd, De Powys a Rhondda Taf. Ond, oherwydd natur cwrs o'r fath, y galw cyffredinol sy'n bwysig gan y gallai staff cylchoedd ar draws Cymru fanteisio ar gwrs o'r math. Roedd 22 arweinydd 1 a 11 arweinydd 2 yn credu y byddai eu sgiliau ieithyddol yn elwa o ddilyn cwrs gohebiaeth.

8.3.5.4 Casgliad

Dangosodd y dadansoddiadau a wnaed i geisio ateb cwestiwn ymchwil 4 sef ‘A oes amrywiaeth rhanbarthol o ran y galw a’r angen am hyfforddiant ieithyddol i staff?’ bod amrywiaeth rhwng y rhanbarthau.

Mewn rhai rhanbarthau roedd dros hanner y staff yn y ddau gategori isaf sef ‘Bron dim Cymraeg’ a ‘Peth / ychydig o Gymraeg’ tra mewn rhanbarthau eraill roedd hanner neu fwy o’r staff yn y categori ‘cwbl rugl’. Dangosodd canlyniadau prawf chi-square bod cysylltiad agos rhwng pa mor rhugl oedd y staff a pha sir yr oedd y cylch ynddo. Gwelwyd bod cysylltiad ystadegol arwyddocaol rhwng cefndir ieithyddol arweinyddion 1 a pha sir y maent yn gweithio ynddi. Roedd pa ranbarth y lleolir y cylch ynddo yn cael effaith ystadegol arwyddocaol ar ba mor hyderus oedd arweinyddion 1 wrth wneud nifer o weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg yn y cylch. Er hyn, nid oedd y cysylltiad mor agos ag a oedd rhwng pa mor rhugl oedd yr arweinyddion a pha mor hyderus oeddynt.

Yn y rhan hon o’r bennod hefyd gwnaed prawf Kruskal-Wallis i weld a oes gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y rhanbarthau o ran pa iaith a ddefnyddir rhwng y staff. Dangosodd canlyniadau’r prawf hwn bod gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng o leiaf y ddau ranbarth ar frig a gwaelod y rheng. Roedd cysylltiad ystadegol arwyddocaol rhwng pa mor hyderus oedd yr arweinyddion wrth wneud nifer o weithgareddau yn y cylch trwy gyfrwng y Gymraeg ac eithrio yn achos ‘Cofrestru’. Gellir sylwi bod rhai rhanbarthau yn gyson ar frig y rhestrau cymedr ac eraill yn gyson ar y gwaelod.

Gwelwyd hefyd bod amrywiaeth rhanbarthol o safbwynt y galw am hyfforddiant ieithyddol.

Gellir gweld o’r canlyniadau a nodwyd yn y rhan hon o’r bennod bod amrywiaeth rhanbarthol o ran y galw a’r angen am hyfforddiant ieithyddol i staff. Gall hyn fod o gymorth i Mudiad Ysgolion Meithrin wrth dargedu hyfforddiant ieithyddol i’w staff yn effeithiol.

8.3.6 Cwestiwn ymchwil 5 - Beth hoffai'r arweinyddion ei weld o ran datblygiad hyfforddiant staff?

8.3.6.1 Cyflwyno'r pwnc

Prif bwrpas y rhan hon o'r ymchwil oedd gweld pa fath o hyfforddiant ieithyddol y mae staff y cylchoedd meithrin sydd o dan ofal Mudiad Ysgolion Meithrin ei angen. Er mwyn creu cwrs neu hyfforddiant arall addas rhaid gweld beth yw'r angen a ble mae'r galw am hyfforddiant ieithyddol.

8.3.6.2 Tystiolaeth

Roedd yr holiadur yn ymgais i gael darlun cliriach o'r angen a'r galw am hyfforddiant ieithyddol ar gyfer staff y cylchoedd meithrin. Roedd cwestiwn 7 yn gofyn yn uniongyrchol i'r arweinyddion nodi beth y credent fyddai o fudd iddynt i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol. Yng nghwestiwn 8 gofynnwyd iddynt nodi, os ydynt am fynychu cwrs datblygu eu sgiliau Cymraeg, pryd a lle fyddai hyn yn ddelfrydol. Felly mae'r cwestiynau cyntaf, sef cwestiynau 2, 3, 4, 5 a 6, yn rhoi darlun i ni o'r angen am hyfforddiant ieithyddol posibl a chwestiynau 7 ac 8 yn edrych i weld faint o ddiddordeb a galw sydd am hyfforddiant ieithyddol posibl gan arweinyddion y cylchoedd.

Yng nghwestiwn 7 gofynnwyd i'r arweinyddion nodi beth fyddai'n eu helpu fel arweinydd i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Fel y dywedwyd eisoes pwrpas y rhan hon o'r ymchwil yw gweld beth yw anghenion ieithyddol staff y cylchoedd ac yn arbennig yr arweinyddion. Gofynnwyd felly beth fyddai o gymorth iddynt gan roi dewis o gyrsiau o hyd a safon gwahanol, cwrs gohebiaeth, cymorth gan un o Swyddogion iaith y mudiad neu gefnogaeth ieithyddol drwy glystyru cylchoedd. Yn y rhan hon o'r holiadur ymgynghorir â'r arweinyddion i weld beth, yn eu barn hwy, fyddai o gymorth iddynt a pha fath o hyfforddiant fyddai'n apelio atynt.

Yng nghwestiwn 8 gofynnwyd i'r arweinyddion nodi, os oes ganddynt ddiddordeb mewn derbyn hyfforddiant ieithyddol, pryd a lle fyddai fwyaf cyfleus

iddynt. Er mwyn i'r Mudiad drefnu cwrs sy'n ateb gofynion y rhai fyddai angen mynd ar gwrs byddai o ddefnydd iddynt wybod ymhle a pha bryd fyddai'n gyfleus iddynt. Wrth gwrs nid yw'n bosib plesio pawb ond ceir yma ymgais i weld beth fyddai'n plesio'r mwyafrif.


8.3.6.3 Canlyniadau

Yng nghwestiwn 7 gofynnwyd i'r arweinyddion nodi beth fydda'n eu helpu fel arweinydd i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, os yn berthnasol. Rhoddwyd naw dewis iddynt, ynghyd â'r dewis o nodi nad yw'n berthnasol iddynt. Nodwyd amrywiaeth o gyrsiau iaith o gwrs Cymraeg i ddechreuwr i gwrs Cymraeg uwch, hydoedd gwahanol ynghyd â'r dewis o gael cymorth gan Swyddog iaith y mudiad a chefnogaeth ieithyddol drwy glystyru cylchoedd. Gofynnwyd iddynt nodi dewis arweinydd 1 ac arweinydd 2 pan oedd yn addas. Roedd modd iddynt roi mwy nag un tic mewn colofn. Felly nid yw cyfanswm y colofnau yn gant. Gofynnwyd y cwestiwn hwn er mwyn gweld pa fath o gefnogaeth ieithyddol y teimlai'r arweinyddion a fyddai o fudd iddynt ac er mwyn i'r Mudiad trwy hynny dargedu eu hyfforddiant.

Tabl 8.31 Amleddau Arweinyddion Nododd eu Hanghenion Ieithyddol

	Arweinydd 1		Arweinydd 2 (os yn addas)	
	Canran	Nifer	Canran	Nifer
Cwrs Cymraeg i ddechreuwr	8.1	12	11.8	9
Cwrs canolradd Cymraeg	12.2	18	19.7	15
Cwrs Cymraeg uwch	5.4	8	5.3	4
Cwrs Cymraeg byr	16.9	25	14.5	11
Cwrs Cymraeg estynedig	8.1	12	14.5	11
Mynychu cwrs Wlpan	3.4	5	9.2	7
Cymorth gan Swyddog iaith	18.9	28	15.8	12
Cefnogaeth ieithyddol drwy glystyru cylchoedd	9.5	14	11.8	9
Cwrs gohebiaeth (e.e. CDs a chasetiau)	14.9	22	14.5	11
Nid yw'n berthnasol i mi	33.1	49	25	19

Ffigwr 8.3 Canrannau o Arweinyddion a Ddangosodd Ddiddordeb Mewn Hyfforddiant Ieithyddol



Dangosodd yr arweinyddion ddiddordeb ym mhob un o'r dewisiadau a roddwyd iddynt yn yr holiadur. Gwelir o'r tabl uchod fod canran cymharol uchel o arweinyddion 1 (18.9%) yn nodi y byddai cymorth gan Swyddog Iaith yn eu helpu i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Credai 15.8% o arweinyddion 2 y byddai Swyddog Iaith o gymorth iddynt. Mae'n debyg y byddai hyd yn oed rhai o'r arweinyddion mwyaf hyderus yn y Gymraeg yn gwerthfawrogi cymorth Swyddog Iaith, efallai nid er mwyn gwella eu Cymraeg eu hunain ond er mwyn eu cynorthwyo gyda'r gwaith yn y cylch.

Nododd 25 (16.9%) o arweinyddion 1 a 11 (14.5%) y byddent yn elwa o fynychu cwrs Cymraeg byr tra credai 12 (8.1%) arweinydd 1 a 11 (14.3%) arweinydd 2 y byddai cwrs estynedig Cymraeg o gymorth iddynt.

Rhodddwyd dewis o dri lefel o gyrsiau Cymraeg; Cymraeg i ddechreuwr, cwrs canolradd a chwrs Cymraeg uwch. Nododd 12 (8.1%) arweinydd 1 a naw (11.8%) arweinydd 2 y byddai mynychu cwrs Cymraeg i ddechreuwr yn gymorth i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, credai 18 (12.2%) arweinydd 1 a 15 (19.7%) arweinydd 2 y

byddent yn elwa o fynychu cwrs canolradd Cymraeg. Nododd 8 (5.4%) arweinydd 1 a 4 (5.3%) arweinydd 2 y byddai Cwrs Cymraeg uwch yn eu helpu fel arweinydd. Credai 5 (3.4%) arweinydd 1 a 7 (9.2%) arweinydd 2 y byddai mynychu cwrs Wlpan o gymorth iddynt, tra nododd 22 (14.9%) arweinydd 1 a 11 (14.5%) arweinydd 2 y byddai cwrs gohebiaeth o fudd iddynt, er enghraifft drwy ddefnyddio CD neu gasét.

Dangosodd 14 (9.5%) arweinydd 1 a naw (11.8%) arweinydd 2 ddiddordeb mewn cael cefnogaeth ieithyddol drwy glystyru cylchoedd. Roedd derbyn hyfforddiant trwy gwrs gohebiaeth hefyd yn boblogaidd gyda 22 (14.9%) arweinydd 1 ac 11 (14.5%) o arweinyddion 2 yn dangos diddordeb.

Felly yr opsiynau a dderbyniodd fwyaf o dderbyniad oedd cymorth Swyddog Iaith, cwrs Cymraeg byr, cwrs canolradd Cymraeg a chwrs gohebiaeth.

Ar ddiwedd y ffurflen (cwestiwn 8) rhoddwyd lle i'r arweinyddion nodi pryd a lle fyddai'n gyfleus iddynt petai'r Mudiad yn paratoi cwrs ar eu cyfer. Gwnaed hyn er mwyn i'r Mudiad drefnu cwrs fyddai'n apelio nid yn unig o ran ei gynnwys ond hefyd o ran ble a phryd y byddai'n cael ei gynnal. Gofynnwyd i'r arweinyddion nodi a fyddai well ganddynt fynychu cwrs yn y bore, prynhawn neu gyda'r nos, neu yn ystod yr wythnos neu ar y penwythnos. Hefyd gofynnwyd pa mor bell y byddent yn barod i deithio, a fyddent am i'r cwrs fod mor lleol â phosib neu a fyddent yn barod i deithio a hefyd a fyddai cwrs preswyl yn bosib.

Nodir y canlyniadau isod ar ffurf nifer, canrannau a chanrannau dilys.

Tabl 8.32 Amser Delfrydol yn y Dydd i Dderbyn Hyfforddiant

	Nifer	Canran	Canran dilys
Bore	8	5.4	12.5
Prynhawn	21	14.1	32.8
Gyda'r nos	35	23.5	54.7
Cyfanswm	64	43.0	100.0
Heb ateb	85	57.0	
Cyfanswm	149	100.0	

Tabl 8.33 Amser Delfrydol yn yr Wythnos i Dderbyn Hyfforddiant

	Nifer	Canran	Canran dilys
Yn yr wythnos	46	30.9	80.7
Ar y penwythnos	11	7.4	19.3
Cyfanswm	57	38.3	100.0
Heb ateb	92	61.7	
Cyfanswm	149	100.0	

Tabl 8.34 Lleoliad Delfrydol i Dderbyn Hyfforddiant

	Nifer	Canran	Canran dilys
Mor lleol â phosib	72	48.3	92.3
Barod i deithio	3	2.0	3.8
Preswyl	3	2.0	3.8
Cyfanswm	78	52.3	100.0
Heb ateb	71	47.7	
Cyfanswm	149	100.0	

Fel y gwelir uchod dangosodd staff 12.5% o'r 149 cylch ddiddordeb mewn mynychu cwrs yn y bore, 32.8% yn y prynhawn ond roedd mynychu cwrs gyda'r nos yn fwy poblogaidd gyda 54.7% yn dangos diddordeb. Pan ofynnwyd a fyddai'n well ganddynt fynychu yn ystod yr wythnos neu ar y penwythnos, dangosodd 19.3% ddiddordeb mewn cwrs ar y penwythnos ond roedd cwrs yn ystod yr wythnos yn llawer mwy poblogaidd gyda 80.7% yn dangos diddordeb. O ran lleoliad, 3.8% yn unig oedd yn fodlon mynd ar gwrs preswyl, a 3.8% pellach yn nodi eu bod yn barod i deithio ond yn naturiol ddigon roedd 92.3% am i unrhyw gwrs fod mor lleol â phosibl.

I grynhoi, cwrs gyda'r nos yn ystod yr wythnos wedi ei leoli mor lleol â phosib fyddai fwyaf poblogaidd er, wrth gwrs, na fyddai hyn yn gyfleus i bawb.

8.3.6.4 Casgliad

Yn y rhan hon ceisiwyd ateb y cwestiwn ymchwil 'Beth hoffai'r arweinyddion ei weld o ran datblygiad hyfforddiant staff?' Yn ôl y cwestiynau a ofynnwyd i gasglu

tystiolaeth er mwyn ceisio ateb y cwestiwn hwn roedd y galw mwyaf gan yr arweinyddion am gymorth Swyddogion Iaith, cyrsiau iaith byr neu drwy ohebiaeth, ac roedd nifer fawr am gael cwrs canolradd Cymraeg. Nododd nifer o'r arweinyddion y byddai'n well ganddynt fynychu cwrs gyda'r nos yn ystod yr wythnos wedi ei leoli mor lleol â phosib. Dylid nodi hefyd bod pob opsiwn o ran y mathau o gymorth i ddatblygu iaith y staff wedi denu diddordeb yr arweinyddion.

8.3.7 Casgliadau'r ymchwili

8.3.7.1 Amleddau

O safbwynt y data sylfaenol ynglŷn ag arweinyddion cylchoedd Mudiad Ysgolion Meithrin yn siroedd dwyreiniol Cymru mae'r bennod hon wedi amlinellu pa mor rhugl yw'r staff yn eu barn hwy, cefndir ieithyddol y staff, pa iaith a siaradant ymysg ei gilydd yn y cylch, i ba raddau mae'r staff yn defnyddio'r Gymraeg yn y cylch a pha mor hyderus yw'r arweinyddion wrth wneud rhai gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg yn y cylch. Cyflwynwyd y data ynglŷn â pha fath o gwrs iaith yr hoffai'r arweinyddion ei fynychu, ymhle a phryd, er mwyn i'r Mudiad drefnu cwrs a fyddai'n apelio at nifer fawr o arweinyddion y cylchoedd.

Yn ôl y data a gyflwynwyd ymatebodd 149 cylch o'r 181 yn y sampl posib, sef y cylchoedd yn yr 17 rhanbarth dwyreiniol o Gymru. Roedd hyd at 11 o staff yn gweithio gyda'r plant ym mhob cylch, ond dim ond rhwng un a phedwar oedd yn gweithio yn 90% o'r cylchoedd. Nododd 48.6% o arweinyddion 1, 39.5% o arweinyddion 2, 34.1% o gynorthwyr 1, 34.8% o gynorthwyr 2 a 28.6% o gynorthwyr 3 eu bod yn gwbl rugl yn y Gymraeg. Fodd bynnag, roedd 11.5% o arweinyddion 1, 21.1% o arweinyddion 2, 40.4% o gynorthwyr 1, 42.0% o gynorthwyr 2 a 57.2% o gynorthwyr 3 unai yn y categori 'peth Cymraeg' neu 'bron dim Cymraeg'. Roedd 44% o'r arweinyddion 1 wedi siarad Cymraeg gyda rhiant neu rieni, tra mai dim ond 18% o gynorthwyr 2 oedd wedi gwneud hynny, Roedd 36% o arweinyddion 1 a 38% o arweinyddion 2 wedi dysgu Cymraeg ar gwrs Wlpan neu ar gwrs Cymraeg arall i oedolion. Roedd y staff yn siarad Cymraeg drwy'r

amser yn 23.9% o'r cylchoedd yn y sampl ymchwil, 6.3% yn siarad Saesneg drwy'r amser, a 24.65 yn siarad Saesneg mwy na Chymraeg.

Roedd 77.8% o arweinyddion 1 yn y sampl 'bob amser' yn rhoi cyfarwyddiadau i'r plant yn Gymraeg, dim ond 39.1% o gynorthwyydd 3 oedd yn gwneud hynny. Adlewyrcha hyn y duedd gyffredin bod canlyniadau'r arweinyddion yn well na chanlyniadau'r cynorthwyydd.

Yn ôl y data roedd mwyafrif yr arweinyddion yn hyderus iawn wrth wneud y gweithgareddau a nodwyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Roeddynt fwyaf hyderus wrth groesawu a chofrestru'r plant a lleiaf hyderus wrth drafod stori.

Dangoswyd diddordeb ym mhob math o gwrs neu gymorth ieithyddol a nodwyd. Credai 18.8% o arweinyddion 1 y byddai cymorth swyddog iaith o fudd iddynt a chredai 16.8% y byddai cwrs Cymraeg byr yn eu helpu i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

Yn ôl eu hymatebion i'r cwestiwn olaf, cwrs gyda'r nos yn ystod yr wythnos, mor lleol â phosibl fyddai fwyaf poblogaidd petai'r Mudiad yn trefnu cyrsiau iaith.

8.3.7.2 Cydberthyniadau

Cyflwynwyd y gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol rhwng canlyniadau'r cylchoedd a'r staff ar sail pa mor rhugl yn y Gymraeg yw'r staff, cefndir ieithyddol y staff a pha ardal y lleolir hwy ynddi. Gwelwyd bod cysylltiad agos rhwng pa mor rhugl oedd arweinydd 1, arweinydd 2, cynorthwyydd 1 a Chynorthwyydd 2 a pha sir yr oeddynt yn gweithio ynddi. Fel y disgwylid, roedd cysylltiad agos rhwng pa mor rhugl oedd y staff a'u cefndir ieithyddol. Roedd cysylltiad ystadegol arwyddocaol rhwng pa mor rhugl oedd arweinydd y cylch a pha mor hyderus oeddynt wrth wneud tasgau yn y cylch trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd pa mor rhugl oeddynt yn cael mwy o effaith ar eu hyder na pha ranbarth yr oedd y cylch ynddo. Er hyn, roedd pa ranbarth yr oeddynt ynddo yn ystadegol arwyddocaol o ran eu hyder wrth 'Groesawu,' 'Cyflwyno

gweithgareddau creadigol', 'Darllen stori', 'Trafod stori', 'Cyflwyno gêmâu bwrdd', 'Cyflwyno gweithgareddau corfforol' a 'Chyflwyno gwaith thema'.

8.4 Casgliad

Yn y bennod hon cyflwynwyd cefndir, methodoleg a chanlyniadau ymchwiliad 4, sef ymchwil i'r defnydd o'r Gymraeg gan staff cylchoedd meithrin a'u hangen posibl am hyfforddiant ieithyddol. Trafodwyd bwriad yr ymchwil a rhoddwyd yr ymchwil yn ei gyd-destun. Trafodwyd y sampl ymchwil a'i nodweddion a disgrifiwyd y sefydliadau a ddefnyddiwyd yn y sampl. Cyflwynwyd yr offerynnau ymchwil a ddefnyddiwyd yn ymchwiliad 4, sef yr holiadur ar gyfer arweinyddion a'r ymweliadau i'r cylchoedd. Soniwyd am yr ymgynghori a wnaed i ddilysu'r holiadur a'r drefn a ddefnyddiwyd i weithredu'r holiadur. Trafodwyd cyfyngiadau'r ymchwil cyn cyflwyno'r canlyniadau.

Cyflwynwyd y canlyniadau ar ffurf amledau a cymharwyd canlyniadau grwpiau gwahanol gan ddangos pa ffactorau a oedd yn effeithio ar y canlyniadau. Ceisiwyd archwilio pum cwestiwn ymchwil. Cyflwynwyd y cwestiynau fesul un ac edrychwyd ar y modd y casglwyd tystiolaeth ynglŷn â'r cwestiwn ac edrychwyd ar y canlyniadau perthnasol a ddeilliodd o ddadansoddi canlyniadau'r holiadur er mwyn archwilio'r cwestiwn. Trafodwyd y canlyniadau hyn a cheisiwyd dod i gasgliadau yn ymwneud â'r pum cwestiwn ymchwil. Rhoddwyd manylion ynglŷn â'r dadansoddiadau ystadegol a wnaed.

Gwelwyd o'r canlyniadau bod yr arweinyddion ar y cyfan yn fwy rhugl na'r cynorthwywyr a bod canran uwch ohonynt yn siarad Cymraeg er pan yn blentyn. Gwelwyd bod Mudiad Ysgolion Meithrin yn dibynnu'n helaeth ar ddysgwyr Cymraeg i weithio yn eu cylchoedd gan bod bron traean o'u staff wedi dysgu Cymraeg fel oedolyn. Saesneg yw'r brif iaith rhwng y staff mewn 21.8% o'r cylchoedd gyda'r ddwy iaith yn cael eu defnyddio mewn 30.9% o'r cylchoedd. Dangosodd y canlyniadau bod cysylltiad rhwng pa mor rhugl oedd prif arweinydd cylch a faint o Gymraeg a ddefnyddir yn y cylch. Felly er mwyn cynyddu faint o Gymraeg a glyw'r plant yn y cylch mae'n hanfodol bod y Mudiad yn canolbwyntio ar wella hyder a gallu'r arweinyddion yn y Gymraeg. Gwelwyd amrywiaeth rhwng y rhanbarthau

gwahanol o ran gallu a hyder y staff i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'n amlwg bod angen i'r Mudiad ganolbwyntio'u hadnoddau mewn rhai ardaloedd yn fwy na'i gilydd er mwyn gwella eu darpariaeth. Dangosodd nifer o'r staff ddiddordeb mewn derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg a dylai'r Mudiad ganolbwyntio ar ddarparu'r mathau o hyfforddiant y dangoswyd diddordeb ynddynt.

PENNOD 9

CASGLIADAU, ARGYMHELLION A GOBLYGIADAU

9.1 Cyflwyniad

Pwrpas y bennod hon yw, yn gyntaf, i ddod â chasgliadau'r ymchwiliadau a gyflwynwyd ym Mhenodau 6, 7 ac 8 at ei gilydd. Yn y penodau hyn cyflwynwyd canlyniadau'r Ffurflen Datblygiad Iaith mewn Cylchoedd Meithrin yng Nghymru a chanlyniadau'r ymchwil a wnaed ar allu ieithyddol ac anghenion ieithyddol arweinyddion Cylchoedd Meithrin yn nwyrain Cymru. Yn ail, rhoddir y canlyniadau a'r casgliadau hyn mewn cyd-destun ehangach drwy gyfuno'r ymchwil a'r penodau cefndirol. Ystyrir y traethawd ymchwil hwn yn feirniadol, ac edrychir ar bosibiliadau pellach ar gyfer ymchwil yn y maes hwn.

Bydd y bennod yn dechrau trwy ailedrych ar fwriad yr ymchwil ac yn dadansoddi i ba raddau y llwyddwyd i gyflawni'r bwriadau hyn. Yna cyfunir y penodau cefndirol (penodau 1-4) a methodoleg a chanlyniadau'r ymchwil (penodau 5-8).

Adolygir canlyniadau'r ymchwil a nodir a thrafodir canfyddiadau'r ymchwil. Nodir rhai canfyddiadau pwysig yn yr ymchwil nas trafodwyd yn flaenorol. Trafodir cyfyngiadau'r ymchwil a rhoddir awgrymiadau ar gyfer ymchwil pellach yn y bennod hon.

9.2 Bwriad yr Ymchwil

Bwriad cyntaf yr ymchwil hwn oedd datblygu system o fonitro datblygiad iaith plant mewn cylchoedd meithrin. Y gobaith oedd rhoi prawf ar y datblygiad ieithyddol a wneir gan blant sy'n mynychu cylchoedd meithrin Mudiad Ysgolion Meithrin er mwyn dangos effeithlonrwydd ariannol y cylchoedd o safbwynt Bwrdd yr Iaith Gymraeg a dangos eu gwerth o safbwynt atgynhyrchu'r iaith. Edrychwyd a oedd

rhyw, oedran, hyd y cyfnod y buont yn mynychu'r cylch, sawl sesiwn yr wythnos yr oeddynt yn ei fynychu a chefnidir ieithyddol y plant a pha ardal yr oedd y cylch ynddo yn effeithio ar eu datblygiad ieithyddol. Rhoddwyd prawf ar ddatblygiad ieithyddol y plant trwy lunio graddfa datblygiad iaith i'w defnyddio gan arweinyddion y cylchoedd ddwywaith er mwyn asesu datblygiad y plant mewn tri maes ieithyddol: Gwrando a Deall, Siarad a Chyfathrebu a Sgiliau Llythrennedd Cynnar.

Y gobaith o wneud yr ymchwil oedd ceisio ateb nifer o gwestiynau ymchwil megis:

- Faint o Gymraeg mae plant yn ei gaffael wrth fynychu cylch meithrin?
- Pa ffactorau sy'n effeithio ar eu datblygiad o'r Gymraeg? Er enghraifft, nifer y sesiynau maent yn eu mynychu, ers faint o amser maent yn y cylch, pa iaith neu ieithoedd a ddefnyddir ganddynt gartref?
- Pa wahaniaeth a welir rhwng eu datblygiad ieithyddol o safbwynt eu dealltwriaeth o'r Gymraeg, eu cyfathrebu a'u sgiliau llythrennedd cynnar?
- Pa mor hir y mae'n rhaid i blant fod yn y cylch er mwyn gweld datblygiad yn eu Cymraeg?
- Faint o wahaniaeth gaiff nifer y sesiynau a fynychant ar eu datblygiad yn y Gymraeg?
- A yw'r gyfradd datblygiad yn fwy, llai neu'n gyfartal gan ddibynnu ar ba iaith a siaradant gartref?
- Ym mhle y gwelir y datblygiad mwyaf dros gyfnod o naw mis? Ai yn eu sgiliau gwrando a deall, siarad a chyfathrebu ynteu yn eu sgiliau llythrennedd cynnar?

Ail fwriad yr ymchwil oedd edrych ar ddefnydd staff y cylchoedd meithrin o'r Gymraeg yn y cylch ac edrych ar angen y staff am gefnogaeth ieithyddol pellach gan Mudiad Ysgolion Meithrin. Edrychwyd ar gefndir ieithyddol yr arweinyddion a'r cynorthwyr sy'n gweithio yng nghylchoedd meithrin siroedd dwyreiniol Cymru lle mae'r canran isaf o siaradwyr Cymraeg. Edrychwyd ar gefndir ieithyddol yr arweinyddion a'r cynorthwyr gan holi a oeddynt yn siarad Cymraeg fel plant neu a oeddynt wedi dysgu'r iaith yn yr ysgol neu ar gwrs i oedolion. Edrychwyd ar eu gallu a'u hyder wrth ddefnyddio'r iaith yn y cylch. Ond, yn bwysicach, casglwyd gwybodaeth ynglŷn ag anghenion ieithyddol y staff er mwyn galluogi Mudiad Ysgolion Meithrin i gynnig cefnogaeth ieithyddol addas i anghenion staff y cylchoedd. Gwnaed yr ymchwil gan gadw pump cwestiwn ymchwil mewn cof sef:

- Beth yw cefndir ieithyddol y staff?
- Beth yw'r defnydd presennol o'r Gymraeg yn y cylch?
- A yw'r arweinyddiaeth yn cael effaith ar le'r Gymraeg yn y cylch?
- A oes amrywiaeth rhanbarthol o ran y galw a'r angen am hyfforddiant ieithyddol i staff?
- Beth hoffai'r arweinyddion ei weld o ran datblygiad hyfforddiant staff?

Cyflwynwyd gwybodaeth gefndirol sylweddol ar hanes yr iaith Gymraeg o'i dechreuadau cynnar hyd at y presennol, lle'r Gymraeg mewn addysg yng Nghymru a datblygiad Mudiad Ysgolion Meithrin. Trafodwyd lle Mudiad Ysgolion Meithrin yn y broses o geisio cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg a rhoi lle cryfach i'r Gymraeg fel cyfrwng yn ysgolion cynradd Cymru. Edrychwyd hefyd ar y gwaith a wneir gan fudiadau cyffelyb yn rhyngwladol gan ganolbwyntio ar fudiadau sy'n darparu addysg feithrin drochi mewn ieithoedd lleiafrifol.

9.3 Integreiddio y Penodau Cefndirol a'r Ymchwil

9.3.1 Cynllunio Ieithyddol

Cydnabyddir fod strwythur oedran y boblogaeth o Gymry Cymraeg yn dyngedfennol bwysig o ran dyfodol yr iaith. Mae'n amlwg y byddai'r iaith mewn peryg petai pyramid oedran wedi ei ddominyddu gan yr oedrannus yn bodoli (Aitchison a Carter, 1994, 103). Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd yn y canrannau o siaradwyr Cymraeg yn y grŵp oedran 3-15 yn y siroedd lle bu cynnydd sylweddol mewn addysg Gymraeg. Bu cynnydd o 22.8% yn y nifer o siaradwyr ifanc rhwng Cyfrifiadau 1981 ac 1991 (Aitchison a Carter, 1994, 103). Rhagwelir y bydd canlyniadau Cyfrifiad 2001 hefyd yn dangos cynnydd yn y nifer o blant sy'n gallu siarad Cymraeg. Rhwng 1971 ac 1981 bu cynnydd o 3.3% yn y canran o blant yn y grŵp oedran 5-9 oed, rhwng 1981 ac 1991 cafwyd cynnydd pellach o 6.9%. Yn y grŵp oedran 10-14 roedd y cynnydd rhwng 1971 ac 1981 yn ddim ond 1.5%, tra rhwng 1981 ac 1991 roedd y cynnydd yn 8.4%. Mae'n amhosibl dweud faint o ddylanwad a gafodd Mudiad Ysgolion Meithrin ar y cynnydd hwn ond, ynghyd ag ysgolion cynradd ac uwchradd dwyieithog, mae'n sicr fod Mudiad Ysgolion Meithrin wedi chwarae rhan yn y cynnydd yn y niferoedd a'r canrannau o siaradwyr Cymraeg.

Yn ôl ffigyrau diweddar, dim ond 6.3% o blant 3 oed sy'n siarad Cymraeg (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1999b, 4.1.6). Mae'n debyg bod bron pob un o'r rhain yn siarad yr iaith gyda rhiant neu rieni. Mae addysg cyn ysgol ac addysg blynyddoedd cynnar yn chwarae rhan allweddol yn y broses o gynnal a chynyddu'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg. Sefydlwyd Mudiad Ysgolion Meithrin ym 1971 er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn sgil gostyngiad yn ystod yr ugeinfed ganrif. Mae gan Fudiad Ysgolion Meithrin ran bwysig i'w chwarae yn y broses o geisio adfer yr iaith Gymraeg a lle allweddol yn nhwf a datblygiad addysg Gymraeg a dwyieithog yng Nghymru. Cydnabyddir gwaith Mudiad Ysgolion Meithrin o safbwynt cynyddu'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg. Mynychu cylch meithrin, yn aml yw'r cam cyntaf i addysg Gymraeg i nifer o blant.

These schools [cylchoedd Mudiad Ysgolion Meithrin] stimulate an awareness of Welsh at a critical stage, and provide a solid linguistic foundation for those

children who then move on into first- and second-language Welsh classes at primary and secondary levels.

(Aitchison a Carter, 2000b, 4)

Ystyrir Mudiad Ysgolion Meithrin fel rhan allweddol yn y broses gynllunio ieithyddol yng Nghymru. Cynhwysir y Mudiad ymysg y prif gyrff a sefydliadau y mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cydweithio â hwy i gyrraedd nifer o nodau ac amcanion yn ymwneud â chynllunio a dyfodol yr iaith Gymraeg (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1996, 8). Yn Adroddiad Cenhadaeth a Gweledigaeth a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ym 1999 cydnabyddir pwysigrwydd gwaith Mudiad Ysgolion Meithrin o safbwynt cynllunio caffaeliad ieithyddol.

Mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn chwarae rôl allweddol yn nhermau darparu cyfleoedd i blant ifanc i ddysgu'r iaith Gymraeg ac i ddatblygu dwyieithrwydd yn gynnar. Mae angen ariannu'n effeithiol waith Mudiad Ysgolion Meithrin ac asiantaethau eraill sydd yn hyrwyddo caffaeliad iaith, er mwyn datblygu dwyieithrwydd cynnar mewn plant ifanc.

(Bwrdd yr Iaith, 1999, 4.2.3)

Yn adolygiad diweddar Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar bolisi o'r iaith Gymraeg nododd y Pwyllgor Diwylliant dri blaenoriaeth wrth gynllunio ieithyddol sef cynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg, cryfhau'r iaith o fewn cymunedau a chryfhau'r defnydd o'r iaith o fewn teuluoedd (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002b, 8). Mae'r tair elfen hyn yn rhan o waith Mudiad Ysgolion Meithrin.

Gellir enwi Mudiad Ysgolion Meithrin fel enghraifft o gynllunio ieithyddol sydd wedi llwyddo i fynd yn groes i'r duedd gyffredinol o ddirywiad yn yr iaith.

Fel y nodwyd ym Mhennod 4, sefydlwyd Mudiad Ysgolion Meithrin ym 1971 fel adwaith i'r gostyngiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn ôl Cyfrifiadau diweddaraf. Roedd cynllunio ieithyddol wrth graidd sefydlu'r Mudiad.

Mudiad Ysgolion Meithrin is deeply involved in the preservation of a minority language. Not only does it aim to preserve but it aims to promote education through the medium of Welsh.

(Jones, 1988, 84-5)

Wrth i'r nifer o gylchoedd meithrin gynyddu cafodd mwy o blant gyfle i dderbyn addysg feithrin cyfrwng Cymraeg. Wrth i'r plant hyn ddod i oed dechrau mewn ysgolion cynradd cynyddodd y galw am addysg gynradd cyfrwng Cymraeg ac, er mwyn cael dilyniant, daeth galwadau cynyddol am addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg. Effeithiodd sefydlu'r mudiad yn sylweddol ar y system addysg yng Nghymru.

Wrth i'r Mudiad dyfu a datblygu ehangodd ei waith i gynnwys grwpiau Ti a Fi ac felly dod â'r Gymraeg at blant iau fyth, ond hefyd rhoddwyd y cyfle i rieni gael blas ar yr iaith.

Mae gan Mudiad Ysgolion Meithrin hefyd rôl bwysig yn y broses o gefnogi'r Gymraeg pan mae'n iaith y cartref, yn arbennig felly pan mae peuoedd eraill y gymdeithas yn Saesneg eu hiaith. Gall mudiadau megis Mudiad Ysgolion Meithrin, ac addysg ddwyieithog yn gyffredinol, roi statws i iaith leiafrifol gan annog rhieni i drosglwyddo'r iaith i'r plant.

Yn 'Iaith Pawb – Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog' nodir y bydd addysg feithrin cyfrwng Cymraeg yn parhau i chwarae rôl bwysig mewn cynllunio ieithyddol yng Nghymru. Nodir y bydd ymestyn argaeledd grwpiau meithrin cyfrwng Cymraeg ynghyd â meithrin trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu yn flaenoriaethau gan Lywodraeth y Cynulliad. Yn ôl y ddogfen hon nod tymor hir y llywodraeth o ran eu darpariaeth blynnyddoedd cynnar yw cyrraedd sefyllfa ble mae llawer iawn mwy o blant cyn ysgol yn dod i gyswllt â'r Gymraeg ac yn symud ymlaen i naill ai ysgolion Cymraeg neu i ysgolion sy'n gweithredu'n ddwyieithog. Er mwyn gweithio tuag at hyn bwriedir cynyddu grant Mudiad Ysgolion Meithrin er mwyn penodi gweithiwr datblygu i hyrwyddo gwaith Mudiad Ysgolion Meithrin ac i hybu ansawdd darpariaeth blynnyddoedd cynnar. Y gobaith yw y bydd hyn yn annog mwy o grwpiau meithrin cyfrwng Cymraeg, ac y bydd y cyllid ychwanegol hyn yn caniatáu i Fwrdd yr Iaith wella ystod y gwasanaethau cefnogi canolog a'r wybodaeth y gall eu cynnig. Gobaith Llywodraeth y Cynulliad yw sicrhau cynnydd graddol yng nghyfran y plant sydd mewn lleoliadau meithrin cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003b, 39).

Er mwyn gwneud darpariaeth blynyddoedd cynnar yn ddewis mwy realistig mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn derbyn arian gan Gynllun Gweithredu Gofal Plant y Llywodraeth er mwyn datblygu darpariaeth gofal dydd cyfrwng Cymraeg (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003b, 49). Mae hwn yn gam pwysig gan ei fod yn ehangu'r nifer o blant sy'n gallu cael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae ehangu'r ddarpariaeth gofal dydd hefyd yn arwain at gynyddu'r oriau cyswllt gyda'r iaith yn sylweddol. Dangosodd yr ymchwil hwn bod hyn yn arbennig o bwysig i ddatblygu sgiliau siarad a chyfathrebu plant o gartrefi di-Gymraeg.

Drwy gydweithio gyda mentrau megis Twf a'r Mentrau iaith gall Mudiad Ysgolion Meithrin hefyd hwyluso'r ffordd i rieni ifanc, carfan bwysig mewn cynllunio ieithyddol, i ddefnyddio'r Gymraeg neu ei dysgu os nad ydynt yn rhugl ynddi. Mae cylchoedd Ti a Fi eisoes yn darparu cyfle i rieni ddod i gysylltiad â'r Gymraeg.

9.3.2 Caffael Iaith Cyn Ysgol

Cydnabyddir bod plant ifanc yn caffael ail iaith yn gyflym mewn sefyllfa drochi. Mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn rhoi cyfle i blant o gartrefi di-Gymraeg i gaffael y Gymraeg mewn sefyllfa drochi naturiol yn ogystal â chefnogi iaith y cartrefi lle siaredir Cymraeg. Cyn iddynt fod yn dair oed mae'n debyg bod caffael dwy iaith yn broses naturiol ac anffurfiol (Baker, 1996, 77).

*Mae plant ifanc yn dysgu iaith yn rhwydd a naturiol, yn ddigymell a bron yn ddjarwybod. 'Caffael' iaith maen nhw yn hytrach na'i dysgu. Felly, mae darpariaeth y Wladwriaeth a **Mudiad Ysgolion Meithrin** yn hanfodol o safbwynt caffael yr iaith Gymraeg ymysg plant ifanc o gartrefi Cymraeg a Saesneg.*

(Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1999b, 4.1.6)

Yn ôl ymchwil gan Swain (1981, 10) mae rhai sy'n dysgu iaith newydd yn ifanc yn fwy tueddol o ddefnyddio'r iaith trwy gydol eu bywyd ac yn ei defnyddio mewn ffyrdd mwy amrywiol na rhai sy'n dysgu iaith newydd pan maent yn hŷn. Ym marn Swain mae rhai sy'n dysgu iaith newydd yn ifanc yn fwy cyfforddus wrth ddefnyddio'r iaith na rhai sy'n hŷn yn dechrau dysgu (Swain, 1981, 10). Mae'n debyg

bod plant yn cael mwy o gyswllt ag ail iaith nag oedolion, ond mae hefyd yn bosibl bod gan blant fwy o awydd i gaffael yr iaith darged (McLaughlin, 1984, 54). Derbynnir yn gyffredinol bod Mudiad Ysgolion Meithrin yn gweithio gyda phlant mewn grŵp oedran sy'n agored iawn i iaith. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod y plant yn caffael iaith mewn sefyllfa naturiol, yn hytrach nag mewn dosbarth ffurfiol (Singleton, 1989, 122).

Mudiad Ysgolion Meithrin works with children at a linguistically pliant age. Children at the nursery stage subconsciously acquire rather than learn a language. In early childhood, a language is acquired easily and naturally, spontaneously and almost subconsciously. Without anxiety about making mistakes, young children coincidentally pick up a language while playing.
(Baker a Jones, 2000, 123)

Ymddengys fod Mudiad Ysgolion Meithrin yn cael dylanwad pwysig ar drosglwyddo'r Gymraeg i'r genhedlaeth nesaf. Mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn gweithio gyda phlant o gartrefi lle siaredir Cymraeg ac o gartrefi lle na siaredir Cymraeg. O ran y plant o gefndir teuluol Cymraeg mae'r gwaith a wneir yn y cylchoedd yn cefnogi a chadarnhau gwaith y cartref ac yn hybu sgiliau llythrennedd cynnar yn y Gymraeg. Mae'r gwaith yn cefnogi iaith leiafrifol sy'n cael ei defnyddio yn y cartref gan nad yw'r iaith yn cael ei defnyddio mewn peuoedd eang yn y gymdeithas. Mae'r plant o gefndir di-Gymraeg sy'n mynychu cylchoedd meithrin yn gwneud cam mawr ymlaen i'w paratoi yn ddelfrydol ar gyfer addysg Gymraeg neu ddwyieithog. Caffael ac nid dysgu iaith y mae plant oedran cyn ysgol. Mae canlyniadau'r ymchwil hwn yn awgrymu bod datblygiad iaith sylweddol yn digwydd pan mae plant yn mynychu cylch meithrin am gyfnod o flwyddyn ysgol. Gwelwyd y datblygiad hwn, beth bynnag oedd cefndir ieithyddol y plant cyn iddynt ddechrau yn y cylch meithrin. Mae hyn yn cyd-fynd â thybiadau cyffredinol yn y maes.

It is commonly held that young children pick up new languages "naturally" and with remarkable ease, while older learners generally have a long, hard struggle to achieve even moderate fluency.
(Harley, 1986, xi)

Mae gan Mudiad Ysgolion Meithrin swyddogaeth ddeublyg, darparu addysg drochi i'r plant y mae eu rhieni yn dymuno iddynt gaffael y Gymraeg a chefnogi'r

Gymraeg pan fo'n iaith y cartref. Cyfrifir y ddau ddull hyn o drochi plant sy'n rhugl mewn iaith fwyafrifol mewn iaith leiafrifol a chefnogi a datblygu iaith plant sy'n rhugl mewn iaith leiafrifol fel ffurfiau cryf o addysg ddwyieithog. Canlyniad y ddau ddull, fel y gwelir yn y tabl isod, yw dwyieithrwydd ac aml lythrennedd ynghyd â chyfoethogi'r plant a chynnal iaith leiafrifol plant pan mae'r iaith fwyafrifol yn gryf mewn peuoedd y tu allan i'r cartref.

Tabl 9.1 Mathau o Addysg Dwyieithog

Math o raglen Dysgu	Iaith Plentyn Nodweddiadol	Iaith y dosbarth	Bwriad Cymdeithasol ac addysgiadol	Bwriad o ran canlyniad ieithyddol
ADDYSG DROCHI	Iaith fwyafrifol	Dwyieithog gyda'r pwyslais ar yr ail iaith	Lluosogaeth a Chyfoethogi	Dwyieithrwydd ac Aml lythrennedd
ADDYSG GYNHALIAETH/ETIFEDDIAETH	Iaith leiafrifol	Dwyieithog gyda phwyslais ar yr iaith gyntaf	Cynhaliaeth, lluosogrwydd a chyfoethogi.	Dwyieithrwydd ac Aml lythrennedd

(Addasiad o ran o dabl Baker, 1996, 175)

Mae'r dulliau trochi a chynnal yn ffurfiau cryf o addysg ddwyieithog gan nad ydynt yn cefnogi un iaith ar draul un arall. Nid yw trochi mewn iaith leiafrifol yn effeithio ar allu'r plant mewn iaith fwyafrifol sydd â lle amlwg yn y gymdeithas.

Mae iaith yn sylfaen i addysg o bob math. Wrth i nifer o'r plant sy'n mynychu cylchoedd meithrin Mudiad Ysgolion Meithrin ddysgu ail iaith a dod yn ddwyieithog o oedran ieuanc iawn cânt eu paratoi ar gyfer eu haddysg ffurfiol.

Mae defnydd cymwys o iaith yn un o'r medrau dynol mwyaf sylfaenol. Mae'n ffactor allweddol ym meistrolaeth meysydd addysgol eraill. Proses gymhleth yw caffael iaith plant. Os bydd gan y plentyn stôr eang o brofiadau iaith bydd y feistrolaeth honno'n cael ei sefydlu'n gadarn a bydd dysgu deallusol, emosiynol a chymdeithasol y plentyn yn elwa.

(Awdurdod Cwricwlwm ac Asesu Cymru, 1996, 5)

Mewn cylch meithrin, neu mewn unrhyw ddarpariaeth blynnyddoedd cynnar mae plant yn dysgu cymdeithasu ag ystod eang o bobl a phlant. Wrth i blentyn di-Gymraeg ddechrau mewn cylch meithrin mae hefyd angen caffael iaith newydd. Wrth gaffael yr

iaith newydd mewn sefyllfa drochi fe ddaw'r plant i ddysgu trwy'r iaith honno yn hytrach na dysgu'r iaith yn unig.

Language learning is thus not a discrete activity, independent of social context: learning language is a social activity. While the child is learning a language, other significant learning is taking place simultaneously, through the medium of language.

(Thompson, 2000, 104)

Felly, mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn rhoi'r cyfle i blant gaffael iaith newydd cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol. Mae ymchwil rhyngwladol yn dangos pa mor effeithiol yw hyn. Ymddengys bod canlyniadau'r ymchwil hwn hefyd yn awgrymu bod cyfnod mewn sefyllfa addysg drochi cyn oed ysgol yn arwain at ddatblygiad iaith.

9.3.3 Addysg Cyn-ysgol yng Nghymru

Mae addysg statudol yng Nghymru yn dechrau yn bump oed. Fodd bynnag, ers blynyddoedd bellach bu traddodiad o ddechrau addysg cyn cyrraedd pump oed. Mae'r ddarpariaeth hwn yn cynnwys y sector a gynhelir a'r ddarpariaeth nas cynhelir. Ceir disgrifiad o'r ddarpariaeth yn y papur ymgynghorol 'Y Wlad sy'n Dysgu: Y Cyfnod Sylfaen – 3-7 oed'.

Yn y sector a gynhelir, gall plant fynychu ysgolion meithrin a dosbarthiadau meithrin a derbyn mewn ysgolion babanod neu ysgolion iau. Mae'r sector nas cynhelir, lle y ceir cylchoedd chwarae a meithrinfeydd gwirfoddol, preifat ac annibynnol, yn darparu addysg a gofal ar gyfer plant o dan bump oed. Yn y mwyafrif o awdurdodau lleol, mae bron yr holl ddarpariaeth blynyddoedd cynnar mewn lleoliadau yn yr ysgol. Ymron pob awdurdod lleol, ceir darpariaeth yn y sector nas cynhelir hefyd, a ariennir drwy Bartneriaethau Datblygiad a Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar.

(Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003a, 2)

Yn ôl tystiolaeth y Cynulliad Cenedlaethol mae gan bron pob plentyn pedair oed le llawn amser mewn ysgol ac mae 75% pellach o blant tair oed yn mynychu ysgol yn rhan amser (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003a, 2).

Yn 1996 cyflwynwyd dogfen gan ACCAC (Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru, 2000, 1) yn amlinellu y Canlyniadau Dymunol y dylai addysg cyn-ysgol ymgynghedd tuag atynt. Mae egwyddorion y Canlyniadau Dymunol yn nodi y dylai addysg o ansawdd da i blant dan bump gyfrannu at dwf a datblygiad y plentyn cyflawn; sbarduno'r plentyn i ddysgu trwy chwarae byrfyfyr a chwarae strwythuredig. Dylid sicrhau ymwneud gweithredol a phrofiadau perthnasol uniongyrchol mewn amgylchedd cyfoethog o ran ei bosibiliadau dysgu dylai darpariaeth addysg o ansawdd da werthfawrogi cyfraniad rhieni neu ofalwyr i addysg eu plant ac yn annog partneriaeth weithredol, dylent hefyd sicrhau cyfleoedd cyfartal i ferched a bechgyn, i blant ag anghenion arbennig ac i'r rhai o wahanol ddiwylliannau. Dylai'r addysg gynnig cyfleoedd a phrofiadau sy'n arwain plant ifanc at ymwybyddiaeth o hynodrwydd Cymru, ei hiaith a'i diwylliant (Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru, 2000, 3). Fel ymarferwyr eraill yng Nghymru mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn defnyddio'r chwe maes dysgu canlynol i gynllunio'u gweithgareddau:

*Iaith, llythrennedd a chyfathrebu,
Datblygiad personol a chymdeithasol,
Datblygiad mathemategol,
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd,
Datblygiad corfforol.*

(Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru, 2000, 2)

Cyhoeddwyd cynigion y Cynulliad Cenedlaethol i integreiddio'r Canlyniadau Dymunol presennol â Chyfnod Allweddol un i greu un Cam Sylfaen newydd ar gyfer plant tair i saith oed. Y gobaith yw y byddai creu Cam Sylfaen statudol sy'n cymhwyso egwyddorion ac arfer da addysg blynyddoedd cynnar a chyfnod allweddol un yn sicrhau cysondeb ac yn arwain at ddarpariaeth well i'r dyfodol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003a, 7).

Mae'r ddogfen ymgynghorol yn cadarnhau pwysigrwydd addysg blynyddoedd cynnar yn rhannol gan bod tystiolaeth gryf bod sgiliau caffael iaith plant yn fwy amlwg yn y cyfnod hwn (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003a, 8).

Mae saith maes dysgu arfaethedig yn y Cam Sylfaen (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003a, 9)

Datblygiad Personol a Chymdeithasol a Lles;
Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu;
Datblygiad Mathemategol;
Dealltwriaeth Ddwieithog ac Amlddiwylliannol;
Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd;
Datblygiad Corfforol; a
Datblygiad Creadigol.

(Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003a, 9-10)

Ceir cynigion newydd ar gyfer y Cam Sylfaen yn ymwneud â dwyieithrwydd gan ddweud bod angen mwy o gyfleoedd ar blant i brofi a mwynhau defnyddio'r Gymraeg yn eu gweithgareddau (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003a, 12). Mae'n anodd gwybod beth fyddai rôl Mudiad Ysgolion Meithrin yn y datblygiadau newydd hyn.

Yn ogystal â'r Cam Sylfaen arfaethedig, mae newidiadau eraill ar y gweill o fewn addysg blynyddoedd cynnar. Bwriedir symud tuag sefydlu mwy o ganolfannau integredig sef rhwydwaith o wasanaethau wedi eu sefydlu mewn canolfannau i gefnogi plant a'u teuluoedd mewn ardal. Yn ôl Y Gronfa Gyfleoedd Newydd bydd pedair elfen graidd i'r canolfannau sef addysg y blynyddoedd cynnar, gofal plant i blant cyn-ysgol, chwarae mynediad agored a hyfforddi a datblygiad cymunedol. Mae'n bosib y bydd rhai canolfannau yn cynnwys gwasanaethau eraill i deuluoedd megis grwpiau i rieni a phlant bach, cylchoedd chwarae, gwarchodwyr plant a chefnogaeth i deuluoedd (Y Gronfa Gyfleoedd Newydd, 1999, 3). Bydd angen i Mudiad Ysgolion Meithrin sicrhau eu bod yn rhan o'r datblygiadau newydd hyn ac yn cymryd y cyfle i sicrhau y bydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg a

Yn ôl adroddiad blynyddol Prif Arolygydd ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar Leoliadau ar gyfer plant dan bump oed mae safonau'n parhau i wella mewn lleoliadau y tu allan i'r sector a gynhelir. Fodd bynnag, nodwyd bod y diffygion i'w gweld ym maes medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Argymhellwyd y dylai meithrinfeydd a grwpiau chwarae wneud mwy i strwythuro'u gweithgareddau er mwyn adeiladu ar fedrau cyfathrebu'r plant cyn iddynt gychwyn yn yr ysgol (Estyn, 2003, 1). Mae canlyniadau'r ymchwiliad hwn yn awgrymu bod

cylchoedd Mudiad Ysgolion Meithrin yn gyffredinol yn eithriad i'r duedd hon. Cydnabyddir yn yr adroddiad bod plant rhwng tair a phump oed yn cael sylfaen dda yn y Gymraeg yn aml mewn ysgolion, meithrinfeydd a grwpiau chwarae lle mae llawer o'r addysgu yn Gymraeg (Estyn, 2003, 5). Cadarnhawyd y canfyddiadau hyn gan ganlyniadau ymchwiliadau 1, 2 a 3 yn y traethawd hwn.

Yn ôl Adroddiad Polisi Estyn o'r iaith Gymraeg mewn addysg (2002) mae bron holl blant tair i bump oed yng Nghymru yn derbyn rhyw fath o addysg blynyddoedd cynnar, unai yn y sector a gynhelir neu yn y sector nas cynhelir am o leiaf ran o'r diwrnod. Yn ôl tystiolaeth Estyn mae tua 20% o blant ifanc yn mynychu grwpiau chwarae cyfrwng Cymraeg yn y sector nas cynhelir. Nodant bod Mudiad Ysgolion Meithrin yn effeithiol i helpu plant i sefydlu sylfeini cadarn yn yr iaith Gymraeg drwy addysg drochi a chefnogi iaith y cartref (Estyn, 2002, 1).

Mudiad Ysgolion Meithrin has proved its ability to provide a firm grounding in Welsh for young children who do not speak Welsh at home.
(Estyn, 2002, 1).

Un o brif bryderon Estyn ynglŷn â'r Gymraeg mewn addysg blynyddoedd cynnar yw nad oes arweiniad digonol ar gael i arweinyddion meithrinfeydd a grwpiau chwarae ynglŷn a strwythuro cwricwlwm mewn sefyllfa ddwyieithog neu wrth ddatblygu gallu plant mewn ail iaith (Estyn, 2002, 2).

Un o brif argymhellion Estyn i godi safonau mewn addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ac mewn addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ac mewn hyfforddiant yw i sefydlu sylfaen ystadegol gryf i adolygu y ddarpariaeth i addysgu a dysgu Cymraeg yn y sector nas cynhelir o fewn y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar (Estyn, 2002, 17). Mae'r ymchwil hwn yn cyfrannu tuag at gyflawni'r angen hwn.

9.4 Canfyddiadau'r Ymchwiliad

9.4.1 Datblygiad Iaith Mewn Cylchoedd Meithrin

9.4.1.1 Cyffredinol

O ystyried canlyniadau'r ddau ymchwiliad cenedlaethol gwelwyd yn gyffredinol bod y canlyniadau gorau, hynny yw canran uchel o'r blant yn y categori 'Fel arfer' a chanran isel yn y categori 'Dim eto' yn yr adran gyntaf sef Adran Gwranddo a Deall. O ddefnyddio'r un maen prawf, roedd canlyniadau Adran Siarad a Chyfathrebu yn well na chanlyniadau Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar yn y ddau ymchwiliad. Rhwng yr ymchwiliad cyntaf ym mis Hydref 2000 a'r ail ymchwiliad yng Ngorffennaf 2001 cynyddodd y canrannau yn y categori 'Fel arfer' ar gyfer pob eitem yn y tair adran. Yn yr un modd, bu gostyngiad yng nghanrannau'r categori 'Dim eto' ym mhob eitem. Rhwng y ddau ymchwiliad gwelwyd cynnydd yn y cymedr ar gyfer pob eitem yn y tair adran. Ar gyfartaledd cynyddodd y cymedr 0.51, sef ychydig dros hanner categori.

Ar gyfartaledd newidiodd y cymedr yn y tair adran fel a ganlyn:

Adran Gwranddo a Deall	+0.43
Adran Siarad a Chyfathrebu	+0.54
Adran Sgiliau Llythrennedd	+0.58

Gwelwyd y cynnydd mwyaf yng nghymedrau Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar, ond roedd mwy o le i wella yn yr Adran honno.

Yn Adran Gwranddo a Deall y gwelwyd y cynnydd lleiaf mewn cymedr ar gyfer un eitem, sef cynnydd o 0.16 ar gyfer yr eitem 'Mwynhau gweithgareddau'r cylch', ond dyma'r eitem gyda'r cymedr uchaf yn y raddfa yng nghanlyniadau Hydref felly nid oedd llawer o le i wella.

Y cynnydd mwyaf yn Adran Gwranddo a Deall oedd 0.56, sef newid o fwy na hanner categori, ar gyfer yr eitem 'Dangos eu bod yn deall rhywfaint o gynnwys caneuon a rhigymau Cymraeg'. Mae'n debyg bod hyn yn adlewyrchu'r defnydd o

ganeuon a rhigyau Cymraeg yn y cylchoedd meithrin. Yn Adran Siarad a Chyfathrebu amrywiai'r cynnydd o 0.48 ar gyfer yr eitem 'Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell' i 0.67 ar gyfer yr eitem 'Defnyddio ychydig o iaith fathemategol mewn cyd-destunau perthnasol – siâp, safle, maint a swm'. Adlewyrcha hyn y modd y mae plant mewn sefyllfa drochi yn caffael iaith drwy wneud pethau eraill, er enghraifft drwy drafod cysyniadau megis maint a safle. Roedd y cynnydd cymedr lleiaf yn yr adran hon ar gyfer yr eitem 'Defnyddio'r Gymraeg gyda phlant eraill yn ddigymell'. Mae'n debyg bod siarad Cymraeg yn ddigymell yn gam mawr i blant sydd wedi arfer defnyddio'r Saesneg gyda'u cyfoedion. Roedd y cynnydd hwn bron yn hanner categori beth bynnag. Yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar y gwelir y newid unigol mwyaf mewn cymedr sef 0.71 o gynnydd yng nghymedr yr atebion i'r gosodiad 'Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori'. Yma gwelir bod cynnydd mawr wedi bod yng ngallu'r plant i ddeall y Gymraeg a'i defnyddio i ymateb i stori gan yr arweinydd. Y cynnydd lleiaf yn yr Adran hon oedd 0.21 ar gyfer eitem 'Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn'. Cynyddodd y cymedr o 3.52 i 3.73 felly roedd cymedr yr ymatebion i'r ymchwiliad gwreiddiol yn uchel iawn.

Dangosodd prawf t-test bod y newid yng nghymedrau pob gosodiad rhwng Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3 yn ystadegol arwyddocaol. Dangosodd dadansoddiad o sgoriau'r plant bod sgoriau 88.7% ohonynt wedi codi neu aros yr un fath yn Adran Gwrando a Deall, 76% wedi codi neu aros yr un fath yn Adran Siarad a Chyfathrebu a 80.2% wedi codi neu aros yr un fath yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar.

9.4.1.2 Rhyw'r Plant

Disgwyliwyd efallai y byddai canlyniadau'r merched yn well na chanlyniadau'r bechgyn mewn rhai achosion, ond ni ddisgwyliwyd y byddai'r gwahaniaeth mor amlwg ag a ddangosodd y canlyniadau. Roedd cymedr y merched yn well na chymedr y bechgyn yng nghanlyniadau pob achos ym mis Hydref a Gorffennaf drwy'r raddfa. Fodd bynnag, ychydig iawn o wahaniaeth oedd rhwng cynnydd y ddau ryw. Mewn rhai achosion cynyddodd y bechgyn fwy na'r merched, ac mewn rhai achosion cynyddodd y merched fwy na'r bechgyn. Felly nid yw'r profiad o fynychu cylch meithrin Mudiad Ysgolion Meithrin wedi ei dargedu yn fwy at un rhyw na'i gilydd.

Yn Adran Gwrando a Deall ar gyfartaledd roedd newid cymedr y bechgyn a'r merched yr un peth sef cynnydd o 0.42. Yn Adran Siarad a Chyfathrebu roedd y cynnydd yng nghymedr y merched (0.59) ar gyfartaledd ychydig yn uwch nag un y bechgyn (0.53). Yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnwr roedd y cynnydd yng nghymedr y bechgyn (0.50) ychydig yn uwch nag un y merched (0.49). O ystyried y raddfa yn ei chyfarwydd ar gyfartaledd cynyddodd cymedr y bechgyn 0.48 a'r merched 0.50.

Gwnaed prawf t-test i weld a oedd datblygiad ieithyddol y bechgyn a'r merched yn gwahaniaethu'n ystadegol arwyddocaol. Dangosodd hyn bod y merched wedi datblygu'n ystadegol arwyddocaol fwy na'r bechgyn mewn tri gosodiad yn Adran Gwrando a Deall a thri gosodiad yn Adran Siarad a Chyfathrebu. Datblygodd y bechgyn yn ystadegol arwyddocaol fwy na'r merched mewn un gosodiad, sef 'Dwyn i gof rigymau a chaneuon cyfarwydd'. Nid oedd eu datblygiad yn gwahaniaethu'n ystadegol arwyddocaol yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnwr. Felly, er bod y merched ar y blaen yn Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3, ychydig iawn o wahaniaethau rhwng eu datblygiad a welwyd.

9.4.1.3 Dyddiad Geni

Ar y cyfan ychydig o ddylanwad a gafodd oedran y plant ar eu datblygiad ieithyddol yn ystod cyfnod yr ymchwiliad. Yn Adran Gwrando a Deall dim ond ar ganlyniadau un eitem y cafodd oedran y plant effaith ystadegol arwyddocaol, sef, 'Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg'. Ychydig o gysylltiad sydd rhwng eu hoedran a'u datblygiad yn yr adran hon. Yn ôl canlyniadau tair eitem yn yr Adran sef, 'Mwynhau gweithgareddau'r Cylch', 'Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg' a 'Dangos eu bod yn deall rhywfaint o gynnwys caneuon a rhigymau Cymraeg' po hynaf y plentyn y lleiaf tebygol yw o ddatblygu. Cafodd oedran y plant effaith ystadegol arwyddocaol ar dri gosodiad yn Adran Siarad a Chyfathrebu sef 'Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml', 'Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrando arni' a 'Defnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegau'. Mewn dau achos yn Adran Siarad a Chyfathrebu, sef, 'Dwyn i gof rhigymau a chaneuon cyfarwydd' ac 'Ateb cwestiynau syml', po hynaf yw'r plant y lleiaf o ddatblygiad a fu. Mae'n debyg bod y plant hynaf

wedi gwneud y datblygiad hwn cyn yr ymchwiliad cyntaf ac mai sgiliau fel y rhain sy'n datblygu gyntaf wrth iddynt ddechrau mynychu cylch meithrin. Yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar y gwelwyd dylanwad mwyaf oedran ar ddatblygiad iaith y plant. Effeithiodd eu hoedran yn ystadegol arwyddocaol ar y datblygiad yng nghymedr pump gosodiad yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Er hynny nid oedd yn ddylanwad sylweddol iawn. Mewn dau osodiad sef 'Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn' a 'Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg ar ei ben ei hun', po hynaf y plentyn y lleiaf y datblygiad. Yn yr eitemau eraill roedd oedran y plant yn cael effaith i'r gwrthwyneb.

9.4.1.4 Dyddiad dechrau

Mae'r newid a fu yn iaith y plant rhwng Ymchwiliad 2 ac Ymchwiliad 3 yn awgrymu bod cyfnod o naw mis, blwyddyn ysgol, mewn cylch meithrin yn datblygu iaith plant.

Nid oedd llawer o amrywiaeth yn nyddiad dechrau y plant yn sampl Ymchwiliad 3 gan fod pob un ohonynt wedi bod yn mynychu'r cylch ers deg mis. Roedd tua hanner y sampl wedi dechrau yn y cylch ym Medi 2000. Fodd bynnag, roedd mwy o amrywiaeth yn sampl Ymchwiliad 2 sef yr ymchwil cenedlaethol cyntaf. Yn ôl dadansoddiad cydberthyniad a wnaed ar ganlyniadau Ymchwiliad 2, roedd pa mor hir yr oedd y plant wedi bod yn mynychu'r cylch yn effeithio'n ystadegol arwyddocaol ar ganlyniadau nifer fawr o'r gosodiadau. Nid oedd y cydberthyniadau yn gryf iawn, ond effeithiodd hyd y cyfnod y bu'r plant yn y cylch yn ystadegol arwyddocaol ar ganlyniad pob gosodiad yn Adran Gwrandio a Deall ac yn Adran Siarad a Chyfathrebu. Roedd y cysylltiad rhwng y canlyniadau a'u dyddiad dechrau yn ystadegol arwyddocaol ym mhob gosodiad ac eithrio tri yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Ymddengys o ganlyniadau'r ymchwil hwn bod pa mor hir y mae plentyn yn mynychu cylch meithrin yn effeithio fwyaf ar eu sgiliau gwrandio a deall.

9.4.1.5 Nifer Sesiynau

Amrywia'r nifer o sesiynau a fynychai'r plant yn ymchwiliad mis Hydref bob wythnos o un i ddeg gydag un sesiwn yn cyfateb i hanner diwrnod. Roedd 95.4% o'r plant yn mynychu rhwng un a phump sesiwn yr wythnos. Dim ond dwy sesiwn yr wythnos a fynychai 21.7% o'r plant tra mynychai 23.9% bump sesiwn yr wythnos. Mynychai 3.7% un sesiwn yr wythnos yn unig. Dim ond 1% o'r plant a fynychai dros bump sesiwn yr wythnos.

Yn yr ail ymchwiliad cenedlaethol yng Ngorffennaf 2001 amrywai'r nifer o sesiynau bob wythnos o un i ddeg fel a welwyd yn ymchwiliad mis Hydref. Roedd 95.7% yn mynychu rhwng dwy a phump sesiwn yr wythnos. Gostyngodd y nifer a fynychai dim ond dwy sesiwn yr wythnos i 13.6% ac erbyn hyn mynychai 27.7% bump sesiwn. Dim ond un sesiwn yr wythnos a fynychai 2.3% ohonynt. Mynychai 2.2% ohonynt dros bump sesiwn yr wythnos.

Yn Adran Gwrandio a Deall cafodd y nifer o sesiynau a fynychir effaith ar ddatblygiad iaith y plant mewn saith gosodiad. Fel y gwelwyd gyda rhyw'r plant, ychydig o gyswllt oedd rhwng canlyniadau'r plant a'r nifer o sesiynau a fynychant. Cafodd y nifer o sesiynau a fynychir effaith bychan ar y newid a fu yng nghanlyniadau pump o eitemau yn Adran Siarad a Chyfathrebu ond er bod yr effaith yn gadarnhaol, bychan oedd y cysylltiad rhwng nifer y sesiynau a'r cynnydd. Yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar cafodd y nifer o sesiynau a fynychir effaith ystadegol arwyddocaol ar gynnydd canlyniadau chwech gosodiad. Er hyn, ychydig o gyswllt sydd rhwng y nifer o sesiynau a fynychir a'r cynnydd yn yr Adran hon hefyd. Disgwyliwyd y byddai'r nifer o sesiynau a fynychai'r plant yn cael mwy o effaith nag y dangosodd y canlyniadau. Mae'n ddiddorol nodi bod y nifer o sesiynau a fynychai'r plant bob wythnos wedi cael mwy o ddylanwad ar ddatblygiad plant o gartrefi lle siaredir mwy o Saesneg na Chymraeg. Gwelwyd y duedd hon gryfaf yn Adran Siarad a Chyfathrebu. Felly, gellir dadansoddi o hyn bod angen i blant o deuluoedd di-Gymraeg fynychu mwy o sesiynau er mwyn gweld cynnydd yn eu canlyniadau na'r plant sy'n siarad Cymraeg yn y cartref.

9.4.1.6 Iaith y teulu

Roedd 23.5% o'r plant a gymerodd ran yn ymchwiliad mis Hydref yn siarad Cymraeg gyda'r ddau riant a 39.1% yn siarad Saesneg gyda'r ddau riant. Felly roedd 37.4% yn defnyddio'r ddwy iaith gyda'u rhieni.

Roedd 27.7% o'r plant a gymerodd ran yn ymchwiliad mis Gorffennaf yn siarad Cymraeg gyda'r ddau riant a chanran ychydig yn uwch, sef 35.6% yn siarad Saesneg gyda'r ddau riant. Ceir dros draean (36.7%) o'r plant yn y canol lle defnyddir y ddwy iaith gyda'u rhieni.

Cafodd iaith y teulu effaith ystadegol arwyddocaol ar bob eitem yn y tair adran. Yn gyffredinol gwelwyd mwy o gynnydd gan y plant o gartrefi lle defnyddid llai o Gymraeg, roedd y duedd hon gryfaf yn y ddwy adran gyntaf sef Adrannau Gwrando a Deall a Siarad a Chyfathrebu. Dyma'r unig ffactor a gafodd effaith ystadegol arwyddocaol ar y newid a fu yng nghanlyniadau pob eitem yn y ffurflen rhwng y ddau ymchwiliad cenedlaethol.

Dangosodd dadansoddiad ANOVA o gymedrau gweddillebau plant o gartrefi Cymraeg, dwyieithog a di-Gymraeg mai'r plant o gartrefi Cymraeg oedd wedi datblygu fwyaf. Roedd y dadansoddiad hwn yn cymryd i ystyriaeth faint o le i wella oedd gan y plant ac yn nodi a oedd y plant wedi perfformio'n well na'r hyn a ragfynegwyd o ystyried eu sgôr cychwynnol. Dangosodd y dadansoddiad hwn mai'r plant o gartrefi Cymraeg a ddatblygodd fwyaf o ystyried eu sgôr gweddilleb. Yn ôl y dadansoddiad hwn roedd iaith y teulu'n dylanwadu'n ystadegol arwyddocaol ar y newid yng nghymedr bron pob gosodiad ar y Ffurflen Datblygiad Iaith. Ni effeithiodd iaith y teulu ar y newid yng nghymedr gweddillebau pedwar gosodiad, roedd y pedwar gosodiad hyn ymysg y symlaf i ateb eu gofynion yn ôl amleddau gwreiddiol Ymchwiliad 2.

9.4.1.7 Ardaloedd

Rhannwyd Cymru yn bump ardal yn y dadansoddi sef gogledd orllewin, gogledd ddwyrain, canolbarth, de orllewin a de ddwyrain. Gwelwyd bod yr ardal yr oedd y cylch wedi ei leoli ynddo'n effeithio'n ystadegol arwyddocaol ar y newid cymedrig yng ngweddillebau saith gosodiad yn Adran Gwrandu a Deall, pedwar gosodiad yn Adran Siarad a Chyfathrebu a phedwar gosodiad yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Fodd bynnag, nid oedd y dylanwad yn gryf iawn.

Yng nghylchoedd y de ddwyrain a'r gogledd ddwyrain y bu'r datblygiadau ieithyddol mwyaf yn Adrannau Gwrandu a Deall a Siarad a Chyfathrebu ar gyfartaledd. Fodd bynnag, bu'r datblygiadau mwyaf ar gyfer un gosodiad yn Adran Siarad a Chyfathrebu yng nghylchoedd y canolbarth a'r de orllewin. Yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar roedd y datblygiad mwyaf ar gyfer y ddau osodiad yn ymwneud â mwynhau edrych ar lyfrau yn y de ddwyrain. Cylchoedd y gogledd ddwyrain oedd ar y brig ar gyfer un gosodiad yn Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar a chylchoedd y gogledd ddwyrain ar gyfer un arall.

Ar y cyfan bu'r datblygiad mwyaf yng nghylchoedd y de ddwyrain a'r gogledd ddwyrain.

9.4.1.8 Trefn pwysigrwydd yr amrywiadau

Yn ôl dadansoddiad ffactoraidd o ganlyniadau Ymchwiliad 2 roedd pedwar dimensiwn yn cael eu mesur gan y ffurflen:

1. Adran Gwrandu a Deall – Gwrandu a deall Cymraeg
2. Adran Siarad a Chyfathrebu – Defnyddio'r Gymraeg ar lafar
3. Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar- Ysgrifennu peth Cymraeg
4. Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar – Deall ychydig o Gymraeg ysgrifenedig

Roedd trefn pwysigrwydd yr amrywiadau oedd yn effeithio ar ddatblygiad iaith y plant yn y gwahanol ddimensiynau yn amrywio. Y newidynnau a effeithiai ar y dimensiynau ‘Gwranddo a deall Cymraeg’, ‘Defnyddio’r Gymraeg ar lafar’ ac ‘Ysgrifennu peth Cymraeg’ oedd iaith y teulu, nifer sesiynau, dyddiad dechrau a’u rhyw. Nid oedd y nifer o sesiynau a fynychai’r plant yn effeithio ar y dimensiwn ‘Deall ychydig o Gymraeg ysgrifenedig. Y newidynnau a effeithiodd fwyaf ar ganlyniadau’r plant ar gyfer y dimensiwn hwn, yn eu trefn oedd iaith y teulu, eu dyddiad dechrau a’u rhyw.

Dangosodd dadansoddiad ffactoraidd o ganlyniadau Ymchwiliad 3, sef y canlyniadau terfynol, bod pedwar dimensiwn yn cael eu mesur gan y ffurflen.

1. Adran Gwranddo a Deall – Ffactor cyffredinol
2. Adran Siarad a Chyfathrebu – Ffactor cyffredinol
3. Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar - Gallu mewn llythrennedd cynnar
4. Adran Sgiliau Llythrennedd Cynnar - Mwynhau llythrennedd cynnar

Yr amrywiadau oedd yn effeithio fwyaf ar ganlyniadau’r plant ar y pedwar dimensiwn oedd iaith y teulu, y nifer o sesiynau a fynychant yr wythnos a’u rhyw. Nid oedd y nifer o sesiynau a fynychai’r plant yn newidyn pwysig yn y ffactor mwynhau llythrennedd cynnar. Nid oed oedran na hyd y cyfnod y bu’r plant yn mynychu’r cylchoedd yn amrywiadau pwysig yn ôl y dadansoddiad ffactoraidd. Iaith y teulu oedd yr amrywiad pwysicaf a effeithiai ar y dimensiynau yn y tri ymchwiliad, yr ymchwiliad yn y gogledd orllewin a’r ddau ymchwiliad cenedlaethol.

9.4.1.9 Dilysrwydd y Ffurflen Datblygiad Iaith

Mesurwyd dibynadwyedd y Ffurflen Datblygiad Iaith (Atodiad 12) drwy ddefnyddio mesur Alpha Cronbach sy’n mesur dibynadwyedd mewnol. Gwelir o’r tabl isod bod sgôr alpha uchel ar gyfer y tair adran ac felly’n dangos bod yr adrannau yn gyson yn mesur yr un nodwedd. Gwelir hefyd bod mesur alpha uchel ar gyfer y raddfa yn ei chyfanrwydd gan ddangos bod y ffurflen datblygiad iaith yn gyson. Defnyddiwyd y

sampl cenedlaethol i wirio'r dilysrwydd. Derbynnir yn gyffredinol bod sgôr alpha o dros 0.70 yn uchel.

Tabl 9.2 Dilysrwydd Alpha

Adran	Alpha Y1	Alpha Y2
Gwrandu a Deall	0.9531	0.9461
Siarad a Chyfathrebu	0.9772	0.9643
Sgiliau Llythrennedd Cynnar	0.8957	0.9233
Y raddfa gyfan	0.9743	0.9739

Math arall o ddilysrwydd yw dilysrwydd ffactoraidd. Er mwyn gweld a yw'r tair graddfa yn un raddfa gyflawn yntau a oes tair is raddfa annibynnol gwnaed dadansoddiad ffactoraidd.

Rhannodd y gosodiadau yn dri dimensiwn y gellir fwy neu lai eu henwi yn:

Ffactor 1 – Gwrandu, deall a mwynhau

Ffactor 2 – Siarad a chyfathrebu yn Gymraeg

Ffactor 3 – Sgiliau llythrennedd cynnar

Mae'r rhaniadau hyn yn agos iawn i'r modd y rhannwyd hwy yn y Ffurflen Datblygiad Iaith. Gwelir felly, er bod y raddfa yn un raddfa gyfan yn mesur datblygiad iaith cyffredinol yn ôl y sgôr Alpha uchel a gafodd y raddfa gyfan y mae yma hefyd dair isadran.

9.4.2 Arweinyddion Cylchoedd Dwyrain Cymru

Rhoddodd canlyniadau'r pedwerydd ymchwiliad, a drafodwyd ym Mhennod 8, ddarlun o ba mor rhugl yw staff cylchoedd meithrin siroedd dwyreiniol Cymru yn y Gymraeg. Disgrifiwyd eu cefndir ieithyddol a pha mor hyderus yw'r arweinyddion wrth weithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Caed hefyd wybodaeth ynglŷn â'r math o

hyfforddiant neu gefnogaeth ieithyddol y credai'r arweinyddion a fyddai'n datblygu eu sgiliau Cymraeg.

9.4.2.1 Sampl

Roedd y sampl hwn yn cynnwys staff cylchoedd meithrin rhanbarthau Mudiad Ysgolion Meithrin yn nwyrain Cymru. Penderfynwyd ar y sampl hwn, sef pob cylch yn nwyrain Cymru, oherwydd profiad swyddogion Mudiad Ysgolion Meithrin mai yma mae'r angen mwyaf am hyfforddiant a chefnogaeth ieithyddol. Roedd 181 o gylchoedd yn y sampl cyfan, ymatebodd 149 cylch i'r holiadur. Roedd y cylchoedd wedi eu gwasgaru ar draws dwyrain Cymru fel y gwelir yn nhabl 8.3.

Wrth edrych ar ba mor rhugl oedd y staff gwelwyd bod yr arweinyddion ar y cyfan yn fwy rhugl na'r cynorthwywyr. Disgrifiodd bron hanner (48.6%) arweinyddion 1 a 39.5% o arweinyddion 2 eu hunain fel 'Cwbl rugl yn y Gymraeg'. Roedd y canrannau o gynorthwywyr yn yr un categori ychydig yn is; 34.1% o gynorthwywyr 1, 34.8% o gynorthwywyr 2 a 28.6% o gynorthwywyr 3. Ond roedd y gwahaniaeth mwyaf i'w weld yn y categori isaf, sef siarad dim ond 'peth neu ychydig o Gymraeg'. Roedd canran sylweddol uwch o gynorthwywyr nag arweinyddion yn y categori hwn. Dim ond cynorthwywyr oedd yn y categori 'Bron dim Cymraeg'. Felly mae angen hyfforddiant ieithyddol ar y cynorthwywyr yn ogystal â'r arweinyddion.

Roedd canrannau cymharol uchel o'r arweinyddion a'r cynorthwywyr wedi mynychu cyrsiau Wlpan neu gwrs Cymraeg i Oedolion. Roedd 31% o'r staff yn nodi eu bod wedi 'Dysgu Cymraeg ar gwrs Wlpan / Cymraeg i Oedolion'. Dengys hyn eu parodrwydd i fynychu cyrsiau a derbyn hyfforddiant i wella eu Cymraeg. Mae hyn yn galonogol i Mudiad Ysgolion Meithrin o safbwynt yr ymateb i hyfforddiant posibl.

9.5 Canfyddiadau Cyffredinol

Dangosodd ymweliadau gyda chylchoedd meithrin bod pa mor rhugl yw'r staff yn amrywio'n fawr o aelodau o staff sy'n rhugl i ddysgwyr sydd newydd ddechrau mewn

cyrsgiau Cymraeg i Oedolion. Fodd bynnag, mae dysgwyr sy'n siarad Cymraeg gyda'r plant drwy'r amser yn gwneud mwy i ddatblygu iaith y plant nag aelodau rhugl o staff sy'n siarad Saesneg am nad ydi'r plant yn dod o gartrefi Cymraeg. Mae plant yn caffael iaith drwy efelychu y rhai o'u hamgylch. Dylai Mudiad Ysgolion Meithrin sicrhau bod staff y cylchoedd meithrin yn deall egwyddorion y dull trochi ac y dylent siarad Cymraeg gyda'r plant drwy'r amser.

Fel y disgwyliad roedd cysylltiad agos rhwng pa mor rhugl yw'r arweinydd a pha mor rhugl yw gweddill aelodau'r staff. Mae'n debyg y byddai o fudd i Mudiad Ysgolion Meithrin ganolbwyntio cefnogaeth ieithyddol ar gylchoedd ble mae canran uchel o'r staff angen hyfforddiant ieithyddol.

Roedd cysylltiad rhwng pa mor rhugl oedd arweinyddion 1 a defnydd aelodau eraill o'r staff o'r Gymraeg mewn ychydig achosion. Er enghraifft, po fwyaf rhugl oedd arweinydd 1 y lleiaf tebygol oedd y staff eraill o ddefnyddio'r Saesneg gan mwyaf gyda dim ond ychydig eiriau yn Gymraeg. Fodd bynnag, mae angen cofio bod cysylltiad agos rhwng pa mor rhugl oedd y staff a pha mor rhugl yw'r arweinydd.

Dangosodd canlyniadau'r ymchwiliad hwn pa mor hyderus oedd yr arweinyddion wrth gyflawni tasgau amrywiol o fewn y cylch trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd cysylltiad ystadegol arwyddocaol rhwng pa mor rhugl oedd yr arweinyddion a pha mor hyderus yr oeddynt wrth wneud gwahanol dasgau yn y cylch. Roedd mwyafrif yr arweinyddion yn hyderus iawn wrth wneud y gweithgareddau a nodwyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, nid oeddynt yn hyderus iawn wrth drafod storïau gyda'r plant, cyflwyno gweithgareddau corfforol, cyflwyno mathemateg a siarad am y gweithgareddau gyda'r plant. Dylid cadw hyn mewn cof wrth lunio unrhyw gwrs hyfforddiant arfaethedig.

Dangoswyd diddordeb ym mhob math o hyfforddiant ieithyddol. Roedd y diddordeb mwyaf mewn derbyn cymorth gan Swyddog Iaith ac mewn mynychu cwrs Cymraeg byr i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol. Cwrs gyda'r nos yn yr wythnos yn lleol i'r arweinyddion fyddai fwyaf poblogaidd petai'r mudiad yn trefnu cyrsiau iaith.

Roedd cysylltiad agos rhwng pa mor rhugl oedd y staff a pha sir yr oeddynt yn gweithio ynddi.

Dangosodd yr ymchwil bod yr arweinyddion ar y cyfan yn fwy rhugl na'r cynorthwywyr. Roedd canran uwch o arweinyddion wedi siarad Cymraeg gyda'u rhieni pan oeddynt yn blant. Felly mae angen cymorth ieithyddol i'r cynorthwywyr yn ogystal â'r arweinyddion. Roedd bron i draean o'r staff wedi dysgu Cymraeg ar gwrs Wlpan neu Gymraeg i Oedolion. Felly mae nifer helaeth o staff y cylchoedd meithrin eisoes wedi ymdrechu i wella eu Cymraeg. Mae hyn yn galonogol i Mudiad Ysgolion Meithrin o safbwynt diddordeb mewn hyfforddiant ieithyddol pellach.

Fel y nodwyd eisoes, mae angen i blant glywed iaith er mwyn ei chaffael. Fodd bynnag, y Saesneg yw'r brif iaith a ddefnyddir rhwng y staff mewn 30.9% o'r cylchoedd. Y Gymraeg yw prif iaith sgwrs y staff yn 47.1% o'r cylchoedd a defnyddiwyd y ddwy iaith tua chyfartal mewn 21.8% o'r cylchoedd. Ar y llaw arall, roedd canrannau uchel o'r staff yn rhoi cyfarwyddiadau i'r plant yn Gymraeg ac, ym marn yr arweinyddion, yn datblygu iaith y plant. Roedd canrannau is yn sgwrsio'n anffurfiol yn Gymraeg gyda'r plant yn y cylch. O ran defnyddio'r Gymraeg yn y cylch gyda'r plant, roedd canlyniadau'r arweinyddion yn well na chanlyniadau'r cynorthwywyr. Roedd mwy o gynorthwywyr yn defnyddio Saesneg gan mwyaf gyda'r plant, gan ddefnyddio ychydig o eiriau Cymraeg.

Dangosodd y canlyniadau bod cysylltiad agos rhwng pa mor rhugl yw arweinyddion 1 a pha mor rhugl yw aelodau eraill y staff.

Y Gymraeg yw prif iaith sgwrs y staff yn 47.1% o'r cylchoedd yn y sampl. Yn 21.8% o'r cylchoedd roedd y staff yn siarad y ddwy iaith, Cymraeg a Saesneg. Roedd staff 24.6% o'r cylchoedd yn siarad mwy o Saesneg na Chymraeg gyda'i gilydd yn y cylch. Saesneg oedd iaith y sgwrs drwy'r amser rhwng y staff yn 6.3% o'r cylchoedd. Felly mewn 30.9% o'r cylchoedd y Saesneg yw'r brif iaith a ddefnyddir rhwng y staff. Mae plant ifanc yn dysgu siarad drwy glywed eraill yn siarad (Lewis a Williams, 1999, 1). Drwy siarad Saesneg â'i gilydd mae'r staff yn lleihau'r cyfanswm o Gymraeg mae'r plant yn ei chlywed yn y cylch ac yn lleihau'r cyswllt gyda'r iaith.

Mae'n bosibl bod hyn hefyd yn rhoi'r ddelwedd anghywir o'r iaith i blant gan ei phortreadu fel iaith i siarad gyda phlant yn unig.

Rhoddodd canlyniadau'r ymchwiliad ddarlun o ddefnydd y staff o'r Gymraeg yn y cylch. Ar y cyfan, ymddengys fel pe bai'r arweinyddion yn gwneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y cylch na'r cynorthwyr. Roedd yr arweinyddion yn llai tebygol o ddefnyddio'r Saesneg gan mwyaf gyda'r plant gydag ychydig o eiriau Cymraeg. Fodd bynnag, roedd 40.7% o arweinyddion 1 (34.8% o arweinyddion 2) weithiau'n gwneud hynny, 10.5% (16.3% o arweinyddion 2) yn aml a 7% (7% o arweinyddion 2) bob amser yn defnyddio'r Saesneg gan mwyaf, ond gydag ychydig o eiriau Cymraeg. Trwy wneud hyn maent yn tanseilio'r dull trochi ac yn lleihau cyswllt y plant â'r iaith Gymraeg. Roedd 14.3% o gynorthwyr 1 'bob amser' a 23.4% 'yn aml' yn defnyddio Saesneg gan mwyaf gyda ychydig o eiriau Cymraeg. Roedd 42.9% o gynorthwyr 3 'yn aml' yn defnyddio'r Saesneg gan mwyaf gyda'r plant, ond gydag ychydig o eiriau Cymraeg.

Roedd cysylltiad rhwng pa mor hyderus oedd yr arweinyddion wrth wneud nifer o weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg a pha sir yr oedd y cylch ynddi. Roedd cylchoedd rhai ardaloedd yn gyson ar y brig o ran hyder yr arweinydd wrth wneud gweithgareddau cyffredin yn y cylch. Yn gyffredinol roedd arweinyddion cylchoedd Wrecsam, Fflint, Castell Nedd Afan, Ogwr, Caerdydd, Gogledd Powys a Chynon Taf yn hyderus wrth wneud y mwyafrif o weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn gyffredinol, nid oedd arweinyddion Mynwy, Torfaen, Casnewydd, Merthyr, Caerffili, Blaenau Gwent a Rhondda Taf yn hyderus iawn wrth gyflawni'r gweithgareddau a nodwyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Gall y wybodaeth hon fod o fudd i Mudiad Ysgolion Meithrin wrth dargedu hyfforddiant ac adnoddau.

O ddadansoddi canlyniadau eraill yr holiadur i arweinyddion gwelwyd bod cysylltiad ystadegol arwyddocaol rhwng pa mor rhugl yw'r staff a pha sir y mae'r cylch ynddi. Roedd gwahaniaethau rhanbarthol o ran pa iaith yr oedd y staff yn ei siarad gyda'i gilydd. Roedd hefyd amrywiaeth rhanbarthol o safbwynt y galw am hyfforddiant ieithyddol.

Gall Mudiad Ysgolion Meithrin ddefnyddio'r canlyniadau hyn i dargedu hyfforddiant fesul rhanbarth gan flaenoriaethu'r rhai lle'r oedd yr arweinyddion yn ddihyder wrth weithio trwy gyfrwng y Gymraeg, rhai nad oedd y staff yn rhugl yn y Gymraeg yn ogystal â'r rhanbarthau yr oedd y galw mwyaf am hyfforddiant ieithyddol.

O ran hyfforddiant neu gymorth ieithyddol yr hoffai yr arweinyddion ei dderbyn, roedd y galw mwyaf am gymorth Swyddogion Iaith, cyrsiau iaith byr neu gyrsiau iaith drwy ohebiaeth; roedd nifer fawr hefyd am gael cwrs canolradd Cymraeg.

Roedd mwyafrif yr arweinyddion yn hyderus iawn wrth wneud y gweithgareddau a nodwyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Roeddynt fwyaf hyderus wrth groesawu a chofrestru'r plant

9.6 Cyfyngiadau'r ymchwil

Mae'n debyg ei bod yn amhosibl creu prosiect ymchwil perffaith wrth geisio mesur datblygiad a defnydd iaith. Isod trafodir rhai o'r cyfyngiadau yn ymwneud â'r ymchwil.

9.6.1 Datblygiad Iaith mewn Cylchoedd Meithrin

9.6.1.1 Sampl

O ystyried y sampl a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymchwil i ddatblygiad iaith mewn cylchoedd meithrin rhaid gofyn a oeddynt yn cynrychioli cylchoedd Cymru i gyd. Dewiswyd y cylchoedd meithrin i gymryd rhan yn yr ymchwil gan swyddogion Mudiad Ysgolion Meithrin. Mae'n anodd gwybod beth oedd y criteria dros ddewis y cylchoedd hyn, ai'r cylchoedd gorau a ddewiswyd, neu'r rhai mwyaf dibynadwy? Beth bynnag oedd y criteria, rhaid cadw mewn cof nad ar hap y dewiswyd y cylchoedd yn y sampl.

Rhwng Ymchwiliad 2 yn Hydref 2000 ac Ymchwiliad 3 yng Ngorffennaf 2001 collwyd 667 (34.6%) o blant o'r sampl ymchwil. Yn Ymchwiliad 2 roedd 132 cylch yn y sampl, erbyn Ymchwiliad 3 gostyngodd y nifer i 102 cylch, gwahaniaeth o 30 cylch. Mae'n anodd gwybod faint o wahaniaeth, os o gwbl, fyddai i'r canlyniadau petai'r plant a'r cylchoedd hyn wedi eu cynnwys yn Ymchwiliad 3. Roedd nifer o resymau dilys pam na ddychwelwyd ffurflenni. Disgwyliwyd y byddai canran o'r plant yn gadael y cylchoedd yn ystod cyfnod yr ymchwil er mwyn dechrau mewn dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion cynradd. Symudodd eraill o'r ardal a phedidio â mynychu'r cylch. Ni ddychwelodd rhai cylchoedd y ffurflenni ar gyfer Ymchwiliad 3, mae'n anodd gwybod beth oedd y criteria ar gyfer y rhai a gollwyd o'r sampl. A oedd rhai o'r cylchoedd na ddychwelodd y ffurflenni yn ofni nad oedd y plant wedi datblygu, neu a oeddynt yn gylchoedd da a gredai nad ydynt angen canlyniadau ymchwil i brofi hynny. Wrth gwrs, mae'n debyg mai wedi anghofio dychwelyd y ffurflenni, neu wedi eu colli, yr oedd rhai.

Felly, nid oedd y sampl yn berffaith nac yn ddiuedd ac mae'n anodd gwybod beth oedd effaith hyn ar y canlyniadau.

9.6.1.2 Y Raddfa Datblygiad Iaith

Dehonglwyd gallu a lefel iaith y plant gan arweinyddion y cylchoedd. Penderfynwyd peidio defnyddio graddfa mwy 'ieithyddol' megis graddfa iaith Keele (Tyler, 1978) er y byddai hyn yn dibynnu llai ar fymrwyr'r arweinyddion unigol. Rhoddir enghraifft o gwestiwn o raddfa iaith Keele isod (Tyler, 1978).

L2 Speech

- ☐ 1. *Uses words other than nouns or verbs.*
 - ☐ 2. *Uses pronouns, plurals and past tense.*
 - ☐ 3. *Uses complex sentence structures.*
 - ☐ 4. *Uses passive structures and auxiliary verbs.*
 - ☐ 5. *Frequently uses complex sentences with correct order of words.*
- (Tyler, 1978, 33)

Mae'n debyg y byddai graddfa mwy ieithyddol yn fwy pendant, ond fe fyddai'n anos i'w llenwi. Mae'n debyg y byddai'n rhaid i'r arweinyddion eistedd gyda phob plentyn yn unigol i wneud prawf mwy 'ieithyddol'. Byddai hyn yn cymryd llawer o amser ac mae'n amheus a fyddai'r gyfradd ymateb wedi bod mor uchel. Ceisiwyd osgoi termau technegol cymhleth wrth lunio'r Ffurflen Datblygiad Iaith ar gyfer yr ymchwil hwn er mwyn sicrhau y gall y ffurflen gael ei defnyddio'n rhwydd gan yr arweinyddion, ac i sicrhau cyfradd ymateb uchel.

Mae'r eitemau ar y ffurflen yn gymysgedd o weithgareddau'r cylch ac elfennau eraill sy'n cael eu datblygu y tu allan i'r cylch. Mae'n debyg bod dylanwadau y tu allan i'r cylch yn effeithio ar ddatblygiad y plant mewn rhai eitemau er enghraifft 'Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn'. Ar y llaw arall mae'n debyg bod eu datblygiad ar eitemau eraill megis 'Dwyn i gof rigymau a chaneuon cyfarwydd' yn Gymraeg yn dibynnu bron yn llwyr ar weithgareddau'r cylch. Mae'n amhosibl asesu gwahaniaeth dylanwad cyfrannol y cartref a'r cylch, trafodir y pwynt hwn ymhellach yn 9.4.1.3.

Gan mai arweinyddion y cylchoedd unigol oedd yn dehongli a defnyddio'r raddfa datblygiad iaith yn y cylchoedd mae'n anorod na fydd pob un ohonynt yn dehongli'r raddfa yn yr un modd. Mae'n debyg bod rhai ohonynt wedi treulio mwy o amser yn llenwi'r ffurflenni nag eraill. Fodd bynnag, lluniwyd y raddfa gyda'r bwriad iddi gael ei llenwi gan rywun a oedd yn adnabod y plentyn yn dda felly roedd yn anorod y byddai'n rhaid dibynnu ar yr arweinyddion i ddehongli'r ffurflen gan gydnabod y byddai peth amrywiaeth yn y dehongli.

Pe byddai modd dechrau'r ymchwil eto mae'n debyg y byddai'n werthfawr i gynnwys cyfarwyddiadau i'r arweinyddion ynglŷn â sut i ddefnyddio'r ffurflen datblygiad iaith, yn yr un modd ag y gwnaed yn Ymchwiliad 1. Ceisiwyd llunio'r ffurflen fel y byddai mor hunan esboniadwy â phosibl ond byddai cyfarwyddiadau pellach yn dileu unrhyw amheuaeth ynglŷn â sut i'w defnyddio.

Mae tystiolaeth achlysurol bod canlyniadau rhai o'r plant wedi gwaethgu yn hytrach na gwella. Dangosodd canran bychan dystiolaeth o hyn: 121 (9.6%) yn Adran Gwrando a Deall, 111 (8.8%) yn Adran Siarad a Chyfathrebu a 148 (11.8%) yn Adran

Sgiliau Llythrennedd Cynnar. Cyfrifwyd y canlyniadau hyn o'r sgoriau gwreiddiol ac nid o'r gweddillebau, felly nid yw'r rhain yn cymryd i ystyriaeth faint o le i wella oedd gan y plentyn. Gallai plentyn fod yn y categori uchaf ar gyfer pob gosodiad yn yr adran yn Ymchwiliad 2 ac yn y categori agosaf i'r uchaf ar gyfer un gosodiad yn yr adran tra'n aros yn gyson ym mhob gosodiad arall. Byddai hynny'n ddigon i ddangos gostyngiad yn eu sgôr. Gellir dehongli'r tueddiad hwn mewn sawl ffordd, i ddechrau mae'n bosibl bod yr arweinyddion, yn anymwybodol efallai, yn disgwyl mwy gan y plant ar ôl iddynt fod yn mynychu'r cylch ers dros naw mis, ac felly yn eu hasesu wrth faen prawf llymach nag yn Ymchwiliad 2. Mae'n bosibl hefyd fod yr arweinydd newydd wedi dechrau yn y cylch yn ystod y cyfnod rhwng y ddau ymchwiliad. Hefyd nid oes modd gwybod a oedd y plentyn yn mynychu'r cylch yn gyson, rhywbeth y dylid ei gadw mewn cof petai'r ffurflen yn cael ei defnyddio eto. Mae'n debyg bod rhesymau unigol, meddygol neu bersonol yn achos rhai plant. Gall hyn awgrymu nad yw'r prawf yn hollol ddibynadwy gan ei fod yn dibynnu ar fympwy arweinyddion.

Mae'n anodd dweud a oedd yr arweinyddion i gyd yn deall yr holl ymadroddion a thermau a ddefnyddiwyd ar y ffurflen, er enghraifft 'patrymau brawddegau'. Ceisiwyd cadw'r ffurflen mor syml â phosibl ac osgoi termau technegol.

Ni wnaed ail brawf er mwyn profi dibynadwyedd y raddfa datblygiad iaith. Er mwyn profi'r dibynadwyedd dylid bod wedi rhoi'r prawf unwaith ac yna ail asesu'r un plant ar ôl cyfnod o wythnos i chwech wythnos. Byddai hyn yn dangos a oedd y prawf yn gyson dros gyfnod byr o amser. Ni wnaed hyn gan y byddai'n gofyn am ormod o waith ac amser arweinyddion y cylchoedd meithrin yn y sampl. Mewn ymchwil pellach dylid gwneud ail brawf i brofi dibynadwyedd.

Er mwyn sicrhau bod arweinyddion y cylchoedd meithrin yn gyson wrth weinyddu'r raddfa datblygiad iaith dylid bod wedi cynnal sesiynau hyfforddiant iddynt.

Mae'n bosibl iawn bod arweinyddion oedd â phob plentyn yn y cylch o gartrefi di-Gymraeg wedi llenwi'r ffurflenni yn wahanol i arweinyddion gyda nifer o

blant o gartrefi Cymraeg gan fod tuedd naturiol i asesu plant mewn cymhariaeth â'i gilydd.

Rhaid hefyd ystyried ffactorau allanol. Dosbarthwyd y ffurflenni i'r cylchoedd meithrin gan Swyddogion Datblygu Mudiad Ysgolion Meithrin. Mae'n bosib bod ffactorau megis agwedd y Swyddog Datblygu tuag at yr ymchwil a'r modd y cyflwynwyd y ffurflenni a'r ymchwil i'r arweinyddion wedi effeithio ar eu hymatebion.

9.6.1.3 Sut gwyddom mai Dylanwad y Cylch sy'n Cael ei Fesur yma?

Mae'n anodd gwybod beth yw cyfraniad annibynnol Mudiad Ysgolion Meithrin i ddatblygiad iaith y plant yn y sampl. Mae'n debyg nad oedd datblygiad y plant yn y Gymraeg yn ganlyniad i fynychu'r cylch yn unig. Mae plant yn aeddfedu yn eu meddwl heb ystyried iaith y mewnbwn. Mae plant o gartrefi lle siaredir Cymraeg yn elwa o'u profiad o'r Gymraeg yn y cartref. Mae'n bosibl bod nifer o'r plant, er nid y cwbl, wedi dod i gysylltiad â'r Gymraeg y tu allan i'r cylch, er enghraifft mewn siopau, gan deulu estynedig a chymdogion.

Fodd bynnag, dewiswyd yr eitemau yn y raddfa yn bwrpasol er mwyn adlewyrchu gweithgareddau'r cylch er enghraifft, 'Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg', 'Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrandao arni' a 'Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg gydag oedolyn'.

Gallwn hefyd gymharu y datblygiad a wnaeth plant o gartrefi Cymraeg, Saesneg a dwyieithog ar y raddfa datblygiad iaith. Mae'n debyg bod datblygiad y plant o gartrefi Saesneg, gan mwyaf, er nad yn gyfan gwbl, yn deillio o fynychu'r cylch ac o dderbyn addysg drochi. Fel y gwelwyd o'r canlyniadau roedd datblygiad y plant o gefndir Saesneg yn sylweddol. Ar y cyfan roedd eu datblygiad yn tueddu i fod yn fwy na'r rhai o gefndir teuluol Cymraeg a dwyieithog. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod y plant o gefndir Saesneg yn dechrau o fan is o ran gwybodaeth ieithyddol a bod ganddynt felly fwy o le i ddatblygu. Ond, mae'r dystiolaeth yn

awgrymu bod profiad trochi yn y cylchoedd yn cael effaith bwysig ar ddatblygiad iaith plant o gartrefi lle na siaredir Cymraeg.

Mae'n anodd gweld beth yw cyfraniad Mudiad Ysgolion Meithrin a chyfraniad y cartref i ddatblygiad iaith plant o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Mae'n debyg bod y ddau yn rhyngweithio ac yn gyfochrog yn effeithio ar ei gilydd. Nid yw'r ddau beth yn bethau ar wahân ac mae'n amhosibl gwahanu'r effeithiau.

Petai'r ymchwil yn ymchwil arbrofol gellid bod wedi paru'r plant yn y sampl gyda phlant o'r un ardal, a'r un sefyllfa ieithyddol deuluol, nad oeddynt yn mynychu cylch meithrin.

Mewn gwaith ymchwil pur i weld dylanwad mynychu cylch meithrin ar ddatblygiad iaith byddai angen sampl o blant o ardal lle nad oeddynt yn clywed dim Cymraeg y tu allan i'r Cylch. Byddai'n anodd cael sampl o'r fath a sicrhau nad oeddynt yn dod i gysylltiad â'r Gymraeg trwy gyfrwng S4C er enghraifft.

9.6.1.4 Problemau ymarferol

Mae problemau ymarferol yn anochel mewn unrhyw brosiect ymchwil. Mae'n bosib bod arweinyddion rhai o'r cylchoedd meithrin wedi newid dros gyfnod yr ymchwil, mae'n amhosibl dweud beth fyddai effaith hyn ar y canlyniadau.

Rhaid cymryd i ystyriaeth effaith yr ymchwilydd a'r Swyddog Datblygu oedd yn casglu'r ffurflenni ar ymatebion yr arweinyddion. Mae'n anodd meddwl hefyd beth fyddai effaith nodi mai Prifysgol oedd yn gwneud yr ymchwil.

Mae'n amhosibl beth a gredai'r arweinyddion a chynorthwyywyr y cylchoedd meithrin oedd bwriad a phwrpas yr ymchwil, efallai bod rhai ohonynt yn ei weld fel bygythiad neu feirniadaeth o'u gwaith hwy.

Rhaid cofio effaith bod mewn arbrawf. Efallai bod hyn wedi effeithio ar ymatebion yr arweinyddion a'u bod hefyd wedi cadw'r gweithgareddau a'r sgiliau a

nodwyd ar y ffurflen mewn cof yn ystod y flwyddyn ac wedi targedu'r sgiliau hyn er mwyn gwella'u canlyniadau. Mae'n bosib bod rhai wedi gwneud hyn yn hollol anymwybodol.

9.6.2 Ymchwil i Iaith Arweinyddion Cylchoedd y Dwyrain

Fel wrth lunio unrhyw brosiect ymchwil roedd nifer o gyfyngiadau yn codi wrth lunio'r holiadur, gweithredu'r holiadur a dadansoddi'r canlyniadau.

9.6.2.1 Sampl

Dosbarthwyd yr holiadur i arweinyddion 181 cylch meithrin, ymatebodd 149 ohonynt. Mae'n debyg bod y rhesymau dros beidio dychwelyd yr holiadur yn amrywio. Mae'n bosibl bod rhai cylchoedd wedi colli'r holiadur neu wedi ei lenwi ac anghofio'i ddychwelyd. Anfonwyd yr holiaduron i gyfeiriadau cartref yr arweinyddion, mae'n bosib bod arweinydd cylch wedi newid ac nad oedd bas data'r mudiad yn ganolog wedi ei newid, neu mae'n bosibl bod cyfeiriad yr arweinydd wedi newid. Felly mae nifer fawr o resymau ymarferol posibl dros beidio â dychwelyd yr holiadur yn ôl i'r ymchwilydd.

Anfonwyd yr holiadur i bob cylch yn siroedd dwyreiniol Cymru. Nid yw'r canlyniadau felly yn rhoi darlun o'r sefyllfa yn genedlaethol. Gwnaed hyn am mai yn y cylchoedd hyn y mae angen cefnogaeth ieithyddol yn ôl tystiolaeth swyddogion Mudiad Ysgolion Meithrin.

Nifer fechan o gylchoedd, arweinyddion a chynorthwywyr oedd mewn rhai rhanbarthau yn y sampl. Gall hyn effeithio ar ba mor ddibynadwy yw'r canlyniadau, er enghraifft mewn dadansoddiad megis prawf Kruskal-Wallis lle rhoddir y rhanbarthau mewn rhengoedd ar sail pa mor hyderus yw'r arweinyddion a pha iaith a ddefnyddir rhwng y staff yn y cylch.

Mae'n bosibl iawn bod rhai arweinyddion nad oeddynt am lenwi holiadur gan nodi nad oeddynt yn rhugl yn y Gymraeg oherwydd pryder y byddai'n ofynnol iddynt fynd ar gyrsiau Cymraeg. Mae'n bosibl hefyd bod arweinyddion a oedd yn rhugl eu Cymraeg wedi peidio â llenwi'r holiadur am nad oedd yn berthnasol iddynt. Wedi'r cwbl nid oedd unrhyw fudd iddynt lenwi'r holiadur os nad oedd unrhyw aelod o'r staff am dderbyn hyfforddiant ieithyddol. Mae hyn yn effeithio ar ddibynadwyedd yr holiadur gan nad oedd y sampl yn hollol ddiduedd.

Gofynnwyd i'r Swyddogion Datblygu atgoffa'r arweinyddion i ddychwelyd y ffurflenni. Mae'n amhosibl gwybod pa effaith a gafodd agwedd y Swyddogion Datblygu tuag at yr ymchwil ar y nifer a ymatebodd ac ar eu hymatebion i'r holiadur.

9.6.2.2 Holiadur

Casglwyd y data drwy ddefnyddio Holiadur i arweinyddion cylchoedd meithrin dwyrain Cymru. Roedd nifer o broblemau yn codi wrth lunio'r holiadur. Roedd yr holiadur yn gofyn am onestrwydd gan yr arweinyddion wrth eu hasesu eu hunain ac asesu eu cydweithwyr. Gall nifer o ffactorau effeithio ar eu penderfyniadau wrth lenwi'r holiadur. Mae'n bosibl bod rhai o'r arweinyddion wedi llenwi'r holiadur yng ngŵydd aelodau eraill y staff, ac yn ofni gelyniaethu trwy roi eu lefel Cymraeg yn is na'r hyn yr oedd yr aelod o staff ei hun yn ei farnu.

Roedd nifer o broblemau yn codi wrth lunio cwestiwn dau sy'n holi pa mor rhugl yw'r staff. Mae'n anorfod y bydd dehongliadau'r arweinyddion o ba mor rhugl yw aelodau'r staff yn amrywio. Nid yw termau megis 'Cwbl rugl yn y Gymraeg' a 'Bron yn gwbl rugl yn y Gymraeg' yn cael eu dehongli yr un fath gan bawb. Mae hyn yn anorfod mewn unrhyw holiadur, ond roedd yr holiadur hwn yn holi ynglŷn â rhywbeth a allai achosi i unigolion deimlo'n israddol am nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl. Mae nifer o resymau cymdeithasol pam y byddai rhai yn dweud eu bod yn fwy rhugl nag ydynt mewn gwirionedd er mwyn codi proffil pobl ohonynt. Mae'n bosibl hefyd bod rhai yn dweud nad ydynt yn siarad cystal Cymraeg â rhywun arall neu nad ydynt yn siarad iaith safonol yn eu barn hwy. Efallai bod rhai

arweinyddion yn gweld eu tafodiaith yn israddol o'i chymharu â thafodieithoedd eraill.

Gofynnwyd i'r arweinyddion nodi canlyniadau ar gyfer pob aelod o staff oedd yn gweithio gyda'r plant yn y cylch. Nid yw'n bosibl dehongli o'r canlyniadau pa mor aml mae'r aelodau gwahanol o staff yn gweithio yn y cylch. Mae'n bosib bod rhai sy'n siarad Cymraeg drwy'r amser gyda'r plant nad ydynt yn gweithio yn y cylch am fwy nag un sesiwn yr wythnos.

Rhaid derbyn ei bod yn bosibl bod rhai arweinyddion am wneud iddynt hwy a'r cylch o dan eu gofal edrych yn ffafriol. Efallai bod hyn wedi gwneud i rai arweinyddion roi ymatebion sy'n well na'r sefyllfa mewn gwirionedd ar gyfer cwestiwn megis cwestiwn 4 'Beth mae'r staff yn siarad gyda'i gilydd yn y cylch?'

Er mwyn casglu cymaint o wybodaeth â phosibl ynglŷn â defnydd iaith y cynorthwywyr yn ogystal â'r arweinyddion bu'n rhaid gwneud cwestiwn 5 yn un ag atebion amlddewis ar gyfer pob aelod o staff. Ceisiwyd gwneud y broses mor glir â phosibl drwy ddefnyddio ysgrifen goch ar gyfer y dewisiadau.

Nid oedd yr holiadur yn holi am wybodaeth ynglŷn ag aelodau'r staff i gyd ar gyfer pob cwestiwn. Yng nghwestiwn 6, er enghraifft, canolbwyntiwyd ar y prif arweinydd yn unig, gan mai'r prif arweinydd sydd fel arfer yn cyflwyno ac arwain gweithgareddau yn y cylch. Ni roddwyd lle ar yr holiadur ychwaith i nodi a oedd y cynorthwywyr angen hyfforddiant ieithyddol. Roedd swyddogion Mudiad Ysgolion Meithrin am ganolbwyntio ar anghenion ieithyddol yr arweinyddion yn bennaf gan eu bod o'r farn mai dyma'r modd mwyaf effeithiol i gael effaith ar y defnydd o'r Gymraeg yn y cylch.

Wrth lunio'r holiadur ceisiwyd ei gwneud mor rhwydd â phosibl i'w llenwi er mwyn sicrhau cyfradd ymateb uchel. Ceisiwyd hefyd lunio cwestiynau nad oeddynt yn amwys. Fodd bynnag, cododd problemau wrth lunio rhan gyntaf cwestiwn 5 sef 'Defnyddio Saesneg gan mwyaf gyda'r plant ond gydag ychydig o eiriau Cymraeg'. Gofynnwyd i'r arweinyddion ateb trwy nodi rhif ar gyfer yr atebion 'bob amser', 'yn aml', 'weithiau' a 'byth'. Mae dwy ran i'r cwestiwn hwn, sef a yw'r aelod o staff yn

siarad Saesneg gyda'r plant ac a ydynt yn defnyddio geiriau Cymraeg gyda'r plant. Mae'n bosibl bod rhai aelodau o staff yn siarad Saesneg yn unig heb ddefnyddio geiriau Cymraeg wedi ateb y cwestiwn hwn yn gadarnhaol gan dybio nad yw ateb negyddol yn addas ychwaith. Mae'n debyg y dylid bod wedi rhannu'r cwestiwn yn ddau gwestiwn, y cyntaf yn holi a yw'r aelodau o staff yn siarad Saesneg gyda'r plant a'r ail gwestiwn yn gofyn a ydynt yn defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg gyda'r plant gan roi'r un dewis atebion ar gyfer y cwestiynau hyn. Byddai hyn yn osgoi unrhyw gamddehongli posibl.

Yn dilyn ymgynghori gyda swyddogion Mudiad Ysgolion Meithrin penderfynwyd gofyn i'r arweinyddion cwestiynau 2, 3 a 5 ar gyfer pump aelod o staff, sef arweinydd 1, arweinydd 2, cynorthwy-ydd 1, cynorthwy-ydd 2 a chynorthwy-ydd 3. Mae'n bosibl nad oedd y drefn hon yn addas ar gyfer pob cylch, efallai bod un arweinydd a phedwar cynorthwy-ydd yn gweithio mewn ambell gylch.

Efallai na ddylid bod wedi rhoi cwestiwn 2 a oedd yn holi ynglŷn â pha mor rhugl oedd yr aelodau o staff ar ddechrau'r holiadur. Mae'n bosibl bod hyn wedi gelyniaethu rhai arweinyddion a oedd efallai am ddangos eu bod yn gallu gwneud eu gwaith er nad oeddynt yn gwbl rugl yn y Gymraeg. Yn yr un modd mae'n bosibl na ddylid bod wedi holi a oeddynt wedi pasio cymhwyster yn y Gymraeg, gan nad yw hynny'n effeithio llawer ar eu defnydd o'r Gymraeg gyda'r plant yn y cylch. Mae'n bosibl eto bod rhai arweinyddion yn gweld y cwestiwn hwn fel beirniadaeth ohonynt os nad oes ganddynt gymhwyster yn y Gymraeg.

Fel gydag unrhyw ymchwil o'r math hwn mae'n rhaid cymryd i ystyriaeth effaith bod mewn arbrawf. Mae hyn yn arbennig o wir pan ofynnir cwestiynau sy'n eithaf personol ynglŷn â'u gallu i siarad Cymraeg ac i ddefnyddio'r iaith ac am eu cymwysterau ynddi. Mae'n bosibl bod rhai am greu'r ddelwedd eu bod yn dygymod gyda dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg gan ofni y gallai eu hawdurdod gael ei danseilio pe baent yn cydnabod eu gwendidau.

9.6.2.2.1 Cyfieithu

Ysgrifennwyd y Ffurflen Datblygiad Iaith a'r Holiadur i arweinyddion yn wreiddiol yn Gymraeg ac yna fe'u cyfieithwyd i'r Saesneg (Atodiad 29 a 30). Mae'n debyg ei bod yn amhosibl cael cyfatebiaeth perffaith rhwng y fersiynau, ond wrth gyfieithu, gwnaed ymgais i greu holiaduron oedd yn cyfateb i'w gilydd mor agos â phosibl.

9.6.2.2.2 Problemau wrth ddadansoddi'r data

Ni chafwyd llawer o broblemau wrth ddadansoddi'r data. Fodd bynnag, gwelwyd problemau pan roedd y niferoedd yn fychain yn y pedwerydd ymchwiliad. Defnyddiwyd dadansoddiad Kruskal-Wallis i roi'r ardaloedd mewn rhengoedd yn ôl pa mor hyderus yr oedd yr arweinyddion wrth wneud gwahanol weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg yn y cylch a pha iaith a ddefnyddiwyd rhwng y staff yn y cylch. Niferoedd bychain o gylchoedd oedd yn rhai ardaloedd felly nid yw'r dadansoddiad hwn mor ddibynadwy ac y gobeithiwyd.

Wrth ddadansoddi'r gwahaniaeth rhwng datblygiad plant yn ail ran pennod 7 defnyddiwyd eu sgoriau gweddilleb. Nid yw'r sgoriau hyn mor rhwydd i'w dehongli a'r sgoriau gwreiddiol.

9.7 Oblygiadau'r Canlyniadau

1. Mae'n glir nad yw'r datblygiad ieithyddol yr un fath ar hyd y cylchoedd ac y dylid cael strategaeth hyfforddiant a monitro gan Mudiad Ysgolion Meithrin yn genedlaethol ac yn rhanbarthol.
2. Dylai'r Raddfa Datblygiad Iaith gael ei defnyddio bob blwyddyn i bob plentyn fel bod asesu cynnydd yn y Gymraeg yn dod yn rhan o amcanion y cylchoedd.
3. Dylid monitro penodiadau arweinyddion; eu hyfforddiant a monitro perfformiad staff.

4. Dylid ehangu'r raddfa i gynnwys elfennau y tu allan i ddatblygiad iaith, gan gymryd i ystyriaeth chwe phwynt polisi Mudiad Ysgolion Meithrin. Byddai gwneud hyn yn cydnabod gwaith Mudiad Ysgolion Meithrin wrth ddatblygu'r plant yn emosiynol a chymdeithasol.

5. Mae angen monitro perfformiad Mudiad Ysgolion Meithrin yn genedlaethol, rhanbarthol ac yn y cylchoedd unigol. O wneud hyn gellir gweld pa gylchoedd sydd ag arferion da a gellir dysgu oddi wrth y rhain wrth wella'r cylchoedd gwannaf.

6. Mae angen mwy o hyfforddiant i arweinyddion ar gaffael iaith mewn sefyllfa cyn ysgol, ar ddatblygiad ieithyddol a llythrennedd.

7. Mae angen darparu mwy o hyfforddiant i arweinyddion er mwyn magu eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y cylch.

8. Mae angen trefniadaeth o fewn Mudiad Ysgolion Meithrin i sicrhau bod hyfforddiant ieithyddol yn cael ei dargedu o safbwynt anghenion yr arweinyddion ac o safbwynt yr ardaloedd y mae angen eu blaenoriaethu.

9.8 Beth sy'n wreiddiol am yr ymchwil?

Mae'r ymchwil hwn yn arloesol ar sawl lefel. Yn gyntaf, nid oes unrhyw ymchwil i effaith gwaith Mudiad Ysgolion Meithrin. Derbynnir a honnir yn gyffredinol bod mynychu cylchoedd meithrin yn cael effaith sylweddol ar ddatblygiad plant o gartrefi Cymraeg a di-Gymraeg. Fodd bynnag, dyma'r darn cyntaf o ymchwil sy'n rhoi prawf ar y datblygiad ieithyddol hwn. Mae'r ymchwil hwn yn bwysig oherwydd ei fod, am y tro cyntaf, yn ymchwilio i effaith mynychu cylch meithrin ar ddatblygiad Cymraeg plant.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae Mudiad Ysgolion Meithrin wedi derbyn symiau sylweddol o arian llywodraethol ar ffurf grantiau gan y Swyddfa Gymreig ac yn ddiweddarach gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Grant presennol (2003-2004) Bwrdd yr Iaith Gymraeg i Fudiad Ysgolion Meithrin yw miliwn o bunnoedd.

Dyma'r tro cyntaf i'r Bwrdd roi grant unigol o filiwn o bunnoedd. Yn 2002-2003 y grant oedd £700,000 ac yn 2001-2002 cafodd y Mudiad £668,000.

Nid oes tystiolaeth i ddangos bod y gwariant hwn yn cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg. Nid oes tystiolaeth i ddangos cost-effeithiolrwydd Mudiad Ysgolion Meithrin o ran datblygiad Cymraeg. O ystyried pwyslais presennol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar *impact* a phenderfynu ar sail tystiolaeth mae'r ymchwil hwn yn bwysig gan ei fod yn dangos bod yr arian yn cyfateb i ddatblygiad yng Nghymraeg y plant a thrwy hynny yn cynyddu'r nifer sy'n siarad Cymraeg.

Dangosodd yr ymchwil fod plant sy'n mynychu cylchoedd meithrin cyfrwng Cymraeg yn gwneud datblygiad arwyddocaol dros ystod eang o sgiliau iaith Gymraeg.

Mae'r ymchwil hefyd yn wreiddiol gan ei fod yn edrych ar blant ifanc o gefndiroedd ieithyddol gwahanol yn yr un system addysg. Gwnaeth plant o gartrefi di-Gymraeg gynnydd trawiadol wrth gaffael y Gymraeg. Mae tuedd i gredu bod addysg drochi yn fanteisiol i blant o gartrefi lle na siaredir yr iaith darged heb ystyried yr effaith a gaiff addysg trwy gyfrwng eu hiaith gartref ar siaradwyr iaith leiafrifol (Hickey, 2001, 146). Er ei bod yn amhosibl gwahanu cyfraniadau cymharol y cartref a'r cylch, mae tystiolaeth ddigonol yn yr ymchwil hwn i gasglu bod y cylchoedd yn gwneud cyfraniad pendant i ddatblygiad Cymraeg plant o gartrefi Cymraeg.

Defnyddiwyd yr un raddfa iaith ar gyfer plant o bob cefndir ieithyddol gan ddefnyddio continwwm iaith.

Mae'r ymchwil hefyd yn dangos fod y cylchoedd meithrin yn cefnogi iaith leiafrifol fel iaith gyntaf yn ogystal â sicrhau siaradwyr newydd.

Roedd y sampl a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymchwil ar ddatblygiad iaith yn sampl cenedlaethol ac felly'n cryfhau dilysrwydd yr ymchwil.

Roedd yr ymchwil a wnaed i allu a defnydd staff y cylchoedd o'r iaith Gymraeg hefyd yn faes ymchwil gwreiddiol. Nid oes unrhyw ymchwil wedi ei wneud yn y maes yn flaenorol ac ychydig o wybodaeth oedd gan Mudiad Ysgolion Meithrin

am nodweddion y staff sy'n gweithio yn y cylchoedd meithrin. Fodd bynnag, roedd eu tystiolaeth yn pwyntio at yr angen mwyaf am ymchwil ieithyddol yn nwyrain Cymru. Mae'r ymchwil hwn yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn galluogi Mudiad Ysgolion Meithrin i ddarparu'r hyfforddiant y mae staff y cylchoedd ei angen ac yn mynegi diddordeb ynddo.

Mae'r ymchwil hwn hefyd yn wreiddiol gan ei fod yn rhoi darlun o bwy sy'n gweithio yng nghylchoedd meithrin Mudiad Ysgolion Meithrin yn nwyrain Cymru. Yn flaenorol ychydig o wybodaeth oedd ynglŷn â'r nifer o ddysgwyr oedd yn gweithio i'r mudiad, er bod swyddogion y mudiad yn gwybod bod canran sylweddol o arweinyddion a chynorthwyr wedi, ac yn y broses o, ddysgu Cymraeg. Dengys yr ymchwil hwn faint cyfraniad y siaradwyr newydd hyn i addysg feithrin cyfrwng Cymraeg.

Roedd yr ymchwil hefyd yn wreiddiol gan ei fod yn edrych ar y cysylltiad rhwng gallu ieithyddol staff y cylchoedd meithrin, eu hyder a'u defnydd o'r iaith. Roedd hefyd yn edrych ar y berthynas tybiedig rhwng pa iaith mae'r arweinydd yn ei siarad a pha iaith y mae'r cynorthwyr yn ei siarad. Roedd tystiolaeth Mudiad Ysgolion Meithrin yn awgrymu bod cynorthwyr yn debygol o fod yn ddi-Gymraeg os yw'r arweinydd yn ddi-Gymraeg. Dangosodd yr ymchwil hwn bod cysylltiad rhwng pa iaith a siaradai'r arweinyddion a'r cynorthwyr.

Pwyllgorau unigol y cylchoedd meithrin sy'n gyfrifol am benodi arweinyddion a chynorthwyr ar gyfer eu cylchoedd. Nid oes gan y mudiad yn ganolog reolaeth dros y penodiadau. Fodd bynnag, er mwyn darparu addysg drochi Gymraeg mae angen hyfforddi'r arweinyddion hyn nid yn unig yn egwyddorion cyffredinol addysg feithrin ond mewn egwyddorion addysg drochi ac yn aml eu cynorthwyo i ddysgu'r iaith darged eu hunain. Y gobaith yw y bydd canlyniadau'r ymchwil hwn yn rhoi arweiniad ynglŷn â'r hyfforddiant y mae'r arweinyddion a'r cynorthwyr ei angen er mwyn darparu addysg drochi lwyddiannus.

9.9 Yr Angen am fwy o Ymchwil

1. Mae angen gweithredu'r raddfa datblygiad iaith ym mhob cylch yng Nghymru, ac nid mewn dim ond sampl fel y gwnaed yn yr ymchwil hwn. Dylid hefyd dod â ffactorau megis dosbarth cymdeithasol ardal a phlant i mewn i'r ymchwil a datblygiad emosiynol a chymdeithasol. Dylid trefnu hyfforddiant i arweinyddion ynglŷn â sut i weinyddu'r raddfa a chynnal ail brawf yn fuan ar ôl y cyntaf i weld a yw'r prawf yn un cyson.
2. Dylid darparu holiadur cyffredinol i bob cylch yn holi am eu gweithredoedd. Trwy wneud hyn gellid cael darlun o ba mor effeithiol yw Mudiad Ysgolion Meithrin yn ôl yr holiadur. Gweler enghraifft o holiadur posibl yn Atodiad 34.
3. Mae cylchoedd meithrin Mudiad Ysgolion Meithrin yn ymwneud ag elfennau ar wahân i datblygiad ieithyddol. Mae angen ymchwil i edrych ar ddatblygiad y plant o fewn y chwe maes dysgu a amlinellwyd yn y ddogfen 'Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant o dan Oedran Addysg Orfodol' (Awdurdod Cwricwlwm ac Asesu Cymru, 1996). Byddai hyn yn dangos effaith gwaith Mudiad Ysgolion Meithrin ar ddatblygiad y plant yn gyffredinol ac yn dangos pa gylchoedd yw'r rhai gorau a pha rai yw'r rhai gwannaf. Drwy wneud hyn gellid targedu cefnogaeth tuag at y rhai gwannaf a chodi safonau.
4. Mae angen ymchwil pellach i edrych ar strwythur Mudiad Ysgolion Meithrin o safbwynt y modd y mae'r mudiad yn cael ei weithredu a'u grant yn cael ei wario. Dylid ymchwilio i effeithiolrwydd strwythur y mudiad o waith y swyddfa ganolog i waith y Swyddogion Datblygu yn ogystal ag edrych ar ethos y mudiad. Dylid edrych ar a yw'r mudiad yn datblygu ei effeithiolrwydd drwy hyfforddi ei staff.
5. Mae angen ymchwil hefyd i effaith mudiadau cyn ysgol eraill ar ddatblygiad ieithyddol plant. Byddai ymchwil pellach yn dangos pa effaith mae mynychu dosbarth meithrin mewn ysgol gynradd neu grŵp PPA (Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru) yn ei gael ar ddatblygiad ieithyddol plentyn. Byddai o fudd gweld a fyddai'r plant wedi datblygu cymaint neu fwy mewn sefyllfa cyn ysgol arall.

9.10 Gair i Gloi

Mae'r Mudiad Ysgolion Meithrin wedi chwarae rhan ganolog a hanesyddol bwysig yn y gwaith (a) o atgyfnerthu galluoedd ieithyddol plant sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd, a (b) cyflwyno plant o gartrefi di-Gymraeg i'r iaith Gymraeg a'u galluogi i gael eu haddysg gynradd drwy gyfrwng y Gymraeg.

(Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1999c, 7)

Cadarnhaodd canlyniadau'r ymchwili hwn yr hyn a dybiwyd ers tri degawd bellach, sef bod Mudiad Ysgolion Meithrin yn gwneud gwaith allweddol ym maes addysg dwyieithog ac adfer y Gymraeg. Dangosodd canlyniadau'r ymchwili hwn bod mynychu cylch meithrin yn datblygu iaith plant gan drochi'r plant o deuluoedd di-Gymraeg mewn iaith newydd a chefnogi a datblygu Cymraeg plant o deuluoedd Cymraeg eu hiaith. Mae'n amlwg o gyhoeddiadau diweddau gan y Cynulliad Cenedlaethol (2002a, 2002b, 2003b) y bydd Mudiad Ysgolion Meithrin yn cael y cyfle i ehangu a thyfu yn y dyfodol. Hyderwn y bydd Mudiad Ysgolion Meithrin yn parhau i weithio i gynyddu'r nifer o blant sy'n cael y cyfle i ddod yn ddwyieithog yn y cyfnod gorau ar gyfer caffael iaith.

ATODIAD 1

Canrannau i Ddisgyblion Pump Oed neu Hŷn, yn ôl eu Gallu i Siarad Cymraeg

Blwyddyn Ysgol	Yn siarad Cymraeg gartref	Dim yn siarad Cymraeg gartref ond yn siarad yn rhugl	Yn siarad Cymraeg ond ddim yn rhugl	Ddim yn siarad Cymraeg o gwbl	Is Gyfanswm: rhugl
1987/88	7.1	6	11.5	75.4	13.2
1988/89	7.1	6.4	12.6	74	13.4
1989/90	7	6.6	13.2	73.1	13.7
1990/91	6.9	7	14.1	72	13.9
1991/92	6.9	7.3	16	69.8	14.2
1992/93	6.8	7.7	19.3	66.2	14.5
1993/94	6.5	8.4	29.1	56	14.9
1994/95	6.5	8.8	27.2	57.5	15.3
1995/96	6.3	8.1	27.9	57.7	14.4
1996/97	6.4	9.3	29.6	54.6	15.7
1997/98	6.3	9.6	30	54.1	16
1998/99	6.3	9.7	32.2	51.8	16
1999/00	6.3	10	32.4	51.3	16.3
2000/01	6.3	9.8	32.8	51.1	16.1
2001/02	6.2	10.5	31.2	52	16.8

(Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003c, 6)

ATODIAD 2

Canrannau o Ddisgyblion Blynnyddoedd 7-11 yn ôl Math o Gwrs Gymraeg

Blwyddyn Ysgol	Yn Dysgu'r Gymraeg Fel Iaith Gyntaf	Yn Dysgu'r Gymraeg Fel Ail Iaith	Ddim Yn Dysgu'r Gymraeg O Gwbl
1978/79	9.8	40.4	49.8
1979/80	9.7	40.2	50.1
1980/81	10.1	40.5	49.4
1981/82	10.1	41.1	48.7
1982/83	10.2	41.8	48
1983/84	10.4	41.7	47.9
1984/85	11.1	41.3	47.6
1985/86	10.7	41.6	47.7
1986/87	11.1	41	47.9
1987/88	11.1	42	46.9
1988/89	11.3	43.8	44.9
1989/90	11.5	46.2	42.3
1990/91	11.7	49.5	38.8
1991/92	11.7	52.6	35.7
1992/93	12.1	55.9	32
1993/94	12.1	66.3	21.6
1994/95	12.2	65.8	22
1995/96	12.4	63.2	24.4
1996/97	12.6	65	22.4
1997/98	12.8	66.1	21
1998/99	13.3	67.8	18.9
1999/00	13.7	78	8.3
2000/01	14	84.5	1.4
2001/02	14.4	84.5	1

(Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003c, 12)

ATODIAD 3

DEUNYDDIAU I LUNIO'R FFURFLEN DATBLYGIAD IAITH

Arolygu'r ddarpariaeth addysgol i blant cyn oedran addysg orfodol – nodlyfr yr arolygydd – Estyn, 2000.

Asesiad Baslinell Torfaen, 1999

Asesiad Datblygol CDFW ar fynediad – Teithio Gyda'n Gilydd - Siroedd Conwy, Dinbych, Fflint a Wrecsam, 1999

Asesiad Sylfaen 1999 – Awdurdodau Addysg Gwynedd ac Ynys Môn, 1999.

Asesu Sylfaen CDFW - Siroedd Conwy, Dinbych, Fflint a Wrecsam, 1999

Blynyddoedd Cynnar – pecyn monitro proffil disgybl

Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant cyn Oedran addysg orfodol – ACAC – 1996

Cwricwlwm Cymru 2000 – Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru – Cymraeg yn y Cwricwlwm Cenedlaethol Mai 1999.

Cylch Keele – Mudiad Ysgolion Meithrin

Cynllun Asesiad Sylfaen – Dinas a Sir Abertawe, 1998.

Cynllunio Datblygiad Iaith – Meithrin. - Ysgol Dewi Sant, Y Rhyl.

Cynllunio Datblygiad Iaith Ysgol Gyfan – Gwasanaethau Addysg Clwyd, Athrawon Bro Clwyd, 1994

Guidelines for implementing the Blaenau Gwent ACCAC accredited scheme.

Keele Pre-School Assessment Guide

Llyfr Enfys, Mudiad Ysgolion Meithrin,

Ocean Recognition Baseline Services (ORBS).

Pecyn Monitro Proffil Disgybl Blynyddoedd Cynnar – Bro Morgannwg, 1998.

Powys Early Years Profile, 1999

Pre-School Education – Performance Indicators and self-evaluation for pre-school
Centers - The Scottish Office, 1998

Taflenni Asesu Ysgol Twm o'r Nant, Dinbych.

Taflenni Mudiad Ysgolion Meithrin

Y Cylch Rhagorol, Cynllun Achredu Ansawdd a Rhagoriaeth Mewn Cylchoedd
Meithrin – Mudiad Ysgolion Meithrin, 1999.

ATODIAD 4

RHESTRAU GWREIDDIOL I FFURFIO'R FFURFLEN DATBLYGIAD IAITH

Gwrando a deall

Dangos y gall glywed.

Ymateb gyda llygaid pan siaredir ag ef / hi.

Ymateb pan gelwir ei h/enw.

Ymateb i rigymau a chaneuon e.e. drwy glapio.

Weithiau'n gwrando ar gyfarwyddiadau gan ddangos dealltwriaeth.

Eistedd yn llonydd i wrando ar stori / gwylio'r teledu.

Mwynhau gwrando ar storïau.

Dilyn cyfarwyddiadau syml ee eistedd lawr.

Dilyn cyfarwyddiadau yn cynnwys dau dasg dilynol ee tyrd yma ac eistedd lawr.

Yn gallu eistedd a chanolbwytio mewn grŵp bychan am hyd at 5 munud.

Deall cwestiynau ac yn ateb yn Saesneg.

Gwrando'n ofalus – un i un

mewn grŵp bychan

mewn grŵp mawr

Ailadrodd caneuon a rhigymau gyda chymorth yr arweinydd

Dysgu caneuon, penillion neu rhigymau.

Gwrando ar stori gyda diddordeb.

Ateb cwestiynau syml yn dangos diddordeb o gynnwys stori.

Ailadrodd stori gyfarwydd mewn ffordd syml.

Siarad a chyfathrebu.

Gwneud synau fel ffordd o gyfathrebu.

Awyddus i gyfathrebu / siarad.

Gwybod ei h/enw llawn.

Ymuno mewn rhigymau a chaneuon.

Llefaru 2-5 o eiriau y gellir eu hadnabod.

Enwi gwrthrychau syml – rhannau corff, anifeiliaid, tegau a.y.y.b.
 Siarad gan ddefnyddio atebion / sylwadau un gair.
 Gallu cyfrif.
 Ailadrodd caneuon a rhigymau gyda chymorth oedolyn.
 Ateb cwestiynau yn syml gan yngan ychydig o eiriau y gellir eu hadnabod.
 Mynegi anghenion a gwybodaeth mewn ymadroddion syml.
 Gwybod rhai caneuon a rhigymau cyfarwydd.
 Siarad mewn ymadroddion.
 Ceisio defnyddio brawddegau syml.
 Siarad yn glir.
 Cymryd rhan mewn sgwrs ddwyieithog.
 Defnyddio iaith heb anogaeth.
 Siarad gydag oedolion.
 Gallu ffurfio cwestiynau.
 Siarad mewn brawddegau.
 Gallu trosglwyddo / cario neges syml.
 Cyfrannu mewn grŵp bychan.
 Cymryd rhan mewn chwarae – rôl. / Siarad â phlant eraill mewn chwarae dychmygol.
 Cynllunio agwedd ar chwarae.
 Disgrifio digwyddiadau o'r gorffennol agos.
 Ailadrodd storïau cyfarwydd mewn ffordd syml o'r cof.
 Gwneud dewisiadau a mynegi barn.
 Ymateb gyda iaith addas fel arfer.
 Siarad gyda phlant eraill heb anogaeth.
 Cyfathrebu mewn iaith estynedig mewn sefyllfaoedd amrywiol.
 Gallu gwrandio ac ymateb mewn grwpiau bach a mawr.
 Amrywio patrymau brawddegau.
 Gallu siarad am stori ar ôl gwrandio arno.
 Siarad am brofiadau yn rhugl a chyda geirfa gynyddol.
 Siarad yn glir gan gymryd rhan mewn sgwrs ryngweithiol. (Cymryd ei dro / thro mewn sgwrs.)
 Siarad am brofiadau a rhoi gwybodaeth gyda hyder a pheth manylion.

Sgiliau cyn – lythrennedd

Cyn-ddarllen

Mwynhau edrych ar luniau mewn lluniau.
Cymryd diddordeb yng nghynnwys llyfrau.
Hoffi dewis llyfr i edrych arno / wrando arno.
Mwynhau gwrandio ar storïau.
Mae ganddo hoff lyfr.
Mwynhau edrych ar lyfr gyda oedolyn.
Mwynhau edrych ar lyfr ar ei ph/ben ei hun.
Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain.
Deall y gwahaniaeth rhwng geiriau a lluniau.
Deall fod lluniau yn cyfleu y stori.
Ymateb i gynnwys llyfr – siarad am gymeriadau llyfr.
Dangos diddordeb mewn geiriau o'i ch/gwmpas.
Trin llyfr fel darlennydd. (dal llyfr y ffordd iawn, dechrau yn y dechrau yn hytrach na'r diwedd, deall fod ysgrifenedig yn cael ei ddilyn o frig y dudalen)
Defnyddio ei fys i ddilyn yr ysgrifenedig.
Adnabod ei h/enw neu llythrennau gyntaf ei h/enw.
Adnabod rhai llythrennau a geiriau syml / cyfarwydd.
Darllen geiriau ac ymadroddion cyfarwydd.
Ddarllen brawddeg i'w lun ei hun.
Dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori.
Gall ailadrodd ychydig o gynnwys stori.

Cyn – ysgrifennu

Sgribl annealladwy.
Sgribl dealladwy.
Mwynhau gwneud marciau â phensel / chreon.
Gallu dal pensel / creon / brws paent yn gywir.
Cysylltu dotiau mewn llinell.
Gallu copïo siâp syml.
Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain.

Gwneud marciau sy'n cynrychioli ysgrifen.
Cymryd arno i ysgrifennu.
Ysgrifennu dros ysgrifen oedolyn.
Copïo ysgrifen oedolyn.
Dechrau ysgrifennu yn y lle cywir (chwith i'r dde)
Ffurio llythrennau yn ddealladwy.
Gallu ysgrifennu ei h/enw.
Ysgrifennu rhai geiriau darllenadwy.

ATODIAD 5

DRAFFT CYNTAF GRADDEFA DATBLYGIAD IAITH MYM

Ticiwch y bocs priodol os yw'r plentyn fel arfer yn gwneud y canlynol. Lle nad yw'n addas gadewch y bocs yn wag.

Efallai peidio a chael graddfa, dim ond tic ger y rhai addas i'r plentyn.

Neu un o'r canlynol:-

(a) Ydi ☐ Dim eto ☐

(b) Ydi ☐ Dechrau ☐ Dim eto ☐

(c) Fel arfer ☐ Weithiau ☐ Anaml ☐ Dim eto ☐

(A) GWRANDO A DEALL

1. Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg ond heb ddeall yr ystyr.
2. Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg ac yn deall eu hystyr.
3. Gwrando'n ofalus – un i un gyda'r arweinydd.
 - mewn grwp bychan.
 - mewn grwp mawr.
4. Gwrando gyda diddordeb i stori Gymraeg.
5. Deall cyfarwyddiadau syml yn Gymraeg.
6. Deall cwestiynau yn Gymraeg.
7. Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori.
8. Deall y rhan fwyaf o sgwrs yn Gymraeg.
9. Mwynhau gwrando ar storïau Cymraeg.
10. Mwynhau gwyllo teledu Cymraeg.

(B) SIARAD A CHYFATHREBU: Gallu a defnydd

1. Ail adrodd rhigymau a chaneuon heb gymorth.
2. Defnyddio enwau gwrthrychau syml – enwau rhannau o'r corff, anifeiliaid, tegau ayyb.
3. Defnyddio rhifau un i ddeg.
4. Ateb cwestiynau syml.
5. Mynegi anghenion mewn ymadroddion syml.
6. Siarad am stori gyfarwydd mewn ffordd syml ar ôl gwrandio arno.
7. Amrywio patrymau brawddegau.
8. Disgrifio digwyddiadau yn y gorffennol.
9. Dechrau sgwrs yn Gymraeg gyda oedolyn.
10. Defnyddio'r Gymraeg heb anogaeth gyda phlant eraill.

(C) SGILIAU CYN-LYTHRENNEDD

Sgiliau cyn-ddarllen

1. Mwynhau edrych / gwrandio ar lyfrau Cymraeg gyda oedolyn.
2. Mwynhau edrych ar lyfrau Cymraeg ar ei ben ei hun.
3. Deall y gwahaniaeth rhwng geiriau a lluniau.
4. Deall fod gan symbolau ysgrifenedig ystyr a sain.
5. Ymateb i gynnwys llyfr, ee siarad am cymeriad llyfr.
6. Gallu dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf mewn stori.
7. Adnabod y mwyafrif o lythrennau.
8. Adnabod geiriau syml / cyfarwydd yn Gymraeg.

Sgiliau cyn-ysgrifennu

1. Dechrau ysgrifennu yn y lle cywir (chwith i'r dde)
2. Gallu gopïo llythrennau .
3. Ffurio rhai llythrennau yn glir / ddarllenadwy heb gopïo.
4. Gall ysgrifennu ei h/enw heb gopïo.
5. Ysgrifennu geiriau cyfarwydd drwy gopïo.

ATODIAD 6

Cyfarwyddiadau

- Diolch y fawr i chi am gytuno i gymryd rhan yn y peilot ar gyfer y raddfa datblygiad iaith i'w ddefnyddio yn y Cylchoedd.
- Mae'r ffurflenni amgaeedig i'w defnyddio ar gyfer pob plentyn unigol yn eich cylch.
- Nid oes rhaid i ymateb y plentyn yn Adran A (Gwranddo a Deall) fod yn Gymraeg nac yn llafar chwaith o anghenraid, dealltwriaeth ac nid yr ymateb sy'n bwysig yma.
- Nid oes angen rhoi enw'r plentyn, i'ch helpu chi yn unig mae'r rhan yma. Bydd pob gwybodaeth yn hollol gyfrinachol ac ni fydd yn cael ei ddatgelu i unrhyw aelod o Mudiad Ysgolion Meithrin na Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- Os gwelwch yn dda a wnewch chi lenwi'r ffurflen werthuso, rydym yn awyddus iawn i gael eich barn bersonol ynglŷn â'r ffurflen.
- Fe fydd Elen Lloyd Roberts yn casglu'r ffurflenni gennych ymhen pythefnos, fe fydd hi hefyd yn falch iawn o gasglu eich barn ynglŷn â'r peilot.
- Unwaith eto, rydym yn ddiolchgar iawn ac yn gwerthfawrogi eich amser, ymdrech a'ch parodrwydd i gymryd rhan yn y fenter bwysig hon.

ATODIAD 7

22 Mai 2000

Annwyl Swyddog Datblygu,

Mae Hywel Jones, Cyfarwyddwr Mudiad Ysgolion Meithrin, ar hyn o bryd yn gweithio gyda Meirion Prys Jones, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, i ddatblygu graddfa datblygiad iaith i'w defnyddio mewn cylchoedd. Mae hwn yn ddatblygiad pwysig ar gyfer Bwrdd yr Iaith a Mudiad Ysgolion Meithrin.

Rwyf fi, fel yr ymchwilydd sy'n gweithio ar y prosiect, yn gweithio dan arweiniad Hywel Jones, Meirion Prys Jones a'r Athro Colin Baker, Prifysgol Cymru Bangor.

Mae Hywel Jones wedi enwebu'r pedwar cylch canlynol yn eich ardal chi i fod yn rhan o'r cyfnod cyntaf o'r datblygiad; Cylch, Cylch, Cylch a Chylch

Mae'r rhan cyntaf yn gofyn i arweinydd y cylch lenwi y raddfa iaith amgaeedig ar gyfer cynifer o'r plant yn y cylch â sy'n bosibl. Gellir llenwi'r ffurflen yn ddienw. Wedyn gofynnir i'r arweinydd lenwi'r ffurflen werthuso fer (amgaeedig) er mwyn mynegi ei barn ynglŷn â'r raddfa a'r ffurflen yn gyffredinol.

Bwriad y rhan gyntaf o'r broses hon felly yw canolbwyntio ar addasrwydd a defnyddioldeb y raddfa ac nid ar allu ieithyddol y plant.

Os gwelwch yn dda a wnewch chi gysylltu â mi i drefnu amser cyfleus i drefnu ymweliadau â'r cylchoedd dan sylw. Rhif ffôn –

Mae croeso i chi gysylltu â Hywel Jones os hoffech gael mwy o wybodaeth ynglŷn â'r prosiect hwn.

Yn gywir,

Elen Lloyd Roberts

ATODIAD 8

FFURFLEN DATBLYGIAD IAITH MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

Pentref / Tref lle mae'r cylch. _____

Enw'r plentyn neu llythrennau cyntaf yr enw (dewisol) _____

Bachgen ☐ Merch ☐ Dyddiad Geni (mis / blwyddyn) _____ / _____

O'ch gwybodaeth chi, pa iaith mae'r rhiant / rhieni yn ei siarad gyda'r plentyn uchod.

	Cymraeg bron drwy'r amser	Cymraeg mwy na Saesneg	Cymraeg a Saesneg tua chyfartal	Saesneg mwy na Cymraeg	Saesneg bron drwy'r amser	Ddim yn berthnasol / Ddim yn gwybod
Mam						
Tad						
Brawd / Chwaer						

Dyddiad y dechreuodd y plentyn yn y cylch (mis / blwyddyn) _____ / _____

Faint o sesiynau (1 sesiwn = ½ diwrnod) mae'r plentyn yn eu mynychu bob wythnos? _____

Ticiwch y bocs sy'n addas i ddisgrifio'r plentyn:

- (1) Fel arfer** ☐ **(2) Weithiau** ☐
(3) Dechrau ☐ **(4) Dim eto** ☐

(A) GWRANDO A DEALL

- | | (1) | (2) | (3) | (4) |
|---|--------------------------|--------------------------|--------------------------|--------------------------|
| 1. Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg ond heb ddeall yr ystyr. | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| 2. Ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg gan ddangos eu bod yn deall rhywfaint o'r cynnwys. | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| 3. Gwrando'n ofalus ac ymateb yn briodol – un i un gyda'r arweinydd. | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| – mewn grŵp bychan. | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| – mewn grŵp mawr. | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| 4. Gwrando gyda diddordeb ar stori Gymraeg. | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| 5. Deall ac ymateb i gyfarwyddiadau syml yn Gymraeg. | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| 6. Dangos dealltwriaeth o gynnwys stori. | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| 7. Deall ac ymateb i sgwrs Gymraeg. | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| 8. . Mwynhau gwrando ar storïau Cymraeg. | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| 9. Mwynhau gweithgareddau'r cylch. | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| 10 Mwynhau gwyllo teledu / fideos / gwrando ar dapiau sain Cymraeg. | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |

(B) SIARAD A CHYFATHREBU YN GYMRAEG:**(1) (2) (3) (4)**

- | | | | | |
|---|--------------------------|--------------------------|--------------------------|--------------------------|
| 1. Dwyn i gof rhigymau a chaneuon cyfarwydd. | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| 2. Defnyddio enwau gwrthrychau syml – enwau rhannau o'r corff, anifeiliaid, tegau a.y.y.b. | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
| 3. Defnyddio ychydig o iaith fathemategol mewn cyd – destunau perthnasol –siâp, safle, maint a swm. | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> | <input type="checkbox"/> |
